Senedd Cymru
**Adolygiad o Senedd sy'n Ystyriol o Deuluoedd a Chynhwysol**

# **Senedd i bawb:** Adroddiad ar yr Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd

Mawrth 2026



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# **Senedd i bawb:**
# Adroddiad ar yr Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd

Mawrth 2026


Dydd Gŵyl
Dewi Hapus!
Happy
St David's Day!
CHWARAE
PLAY AREA
Eryri

# Am y adolygiad

## Lansiwyd yr Adolygiad sy’n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd ym mis Gorffennaf 2025 i adolygu diwylliant, ffyrdd o weithio a chyfleusterau’r Senedd.

Mae’r gwaith yn cael ei oruchwylio gan fwrdd trawsbleidiol, gyda’r Aelodau a ganlyn:



**Cadeirydd:**
**Joyce Watson AS**
Llafur Cymru



**Jane Dodds AS**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Peter Fox AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Siân Gwenllian AS**
Plaid Cymru



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru

# Senedd i Bawb

## Pam cynnal adolygiad?

Mae'r Senedd yn arweinydd byd-eang o ran cynrychiolaeth i fenywod, ac rydym am barhau i fod ar flaen y gad o ran cynhwysiant i bawb, ac arferion gweithio sy'n ystyriol o deuluoedd.

## Sut wnaethom gyflawni hyn?

Sefydlwyd Bwrdd Aelodau trawsbleidiol gan Gomisiwn y Senedd i oruchwylio'r adolygiad. Comisiynodd y Bwrdd ymchwil gan academyddion o Brifysgol Caerdydd sy'n arbenigo yn y maes hwn i gasglu tystiolaeth gan gyn-Aelodau ac Aelodau presennol am eu profiadau, adrodd ar eu canfyddiadau ac awgrymu meysydd ar gyfer argymhellion i gryfhau ein Senedd.

## Beth nesaf?

Rydym wedi argymell sefydlu bwrdd gweithredu yn y Seithfed Senedd i oruchwylio'r ymatebion i'n hargymhellion a goruchwylio eu gweithrediad.



## EIN GWELEDIGAETH




**Cynrychioli a Chyfranogi:** Senedd sy'n adlewyrchu amrywiaeth pobl Cymru ac sy'n cael gwared ar rwystrau i gymryd rhan yn ei gwaith. Senedd sy'n ystyried bod amrywiaeth yn gryfder democrataidd ac sy'n ymgorffori cydraddoldeb a chynhwysiant yn ei harweinyddiaeth, ei strwythurau ac wrth wneud penderfyniadau.

## EIN PRIF HARGYMHELLION:

- Sefydlu Bwrdd Gweithredu, a rhoi adnoddau iddo i gynnal momentwm.
- Ei gwneud yn ofynnol cael strwythurau ffurfiol i gynnal amrywiaeth gynrychioliadol.
- Casglu data ynghylch demograffeg a chyfranogiad i lywio penderfyniadau.
- Ystyried newidiadau i wella cynhwysiant yng nghyfansoddiad y pwyllgorau.
- Cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb o ran newidiadau i'r drefn etholaethol a ffyrdd o weithio'r Seithfed Senedd.



## EIN GWELEDIGAETH



**Diwylliant ac Arferion Gwaith:** Senedd sy'n galluogi'r Aelodau i gyfranogi'n llawn at fywyd seneddol heb eithrio personol. Mae'n gwerthfawrogi llesiant, hygyrchedd, ac urddas a pharch ochr yn ochr â gwaithcraffu a thrafod.

## EIN PRIF HARGYMHELLION:

- Ailddatgan bod y Senedd yn hygyrch, yn gynhwysol ac yn ystyriol o deuluoedd.
- Ymrwymo i gael darpariaeth gofal plant ar y safle (crèche) sy'n hanfodol i Senedd sy'n ystyriol o deuluoedd.
- Parhau i weithio'n hybrid a'i drin yn gyfartal â chyfranogi wyneb yn wyneb.
- Pennu amseroedd gorffen rhagweladwy ar gyfer y Cyfarfod Llawn.
- Cadarnhau polisïau ar gyfer absenoldeb rhieni, absenoldeb gofalu ac absenoldeb mewn argyfwng.
- Gwerthuso'r broses gynefino gryfach a'r gefnogaeth lywio "Hwb" i Aelodau.
- Dwyn argymhellion y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ynghylch Urddas a Pharch yn eu blaen.
- Ystyried potensial Aelod Locwm os nad yw Aelod ar gael i weithio, er enghraifft yn ystod absenoldeb mamolaeth.
- Cefnogi'r egwyddor o rannu swyddi fel ffordd o hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb, a mynd ati i'w hystyried yn gyflym.

## EIN GWELEDIGAETH



**Cam-drin Aelodau:** Gall Aelodau a phobl sy'n sefyll mewn etholiad gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol yn ddiogel, yn hyderus a heb ofni cael eu cam-drin, eu bygwth na'u haflonyddu.

## EIN PRIF HARGYMHELLION:

- Ystyried cam-drin fel risg ddemocrataidd, nid norm.
- Parhau i fonitro'r cyfryngau cymdeithasol a/neu gynnal asesiadau bregusrwydd ar-lein, gan gynnwys nodi camdriniaeth sy'n is na'r trothwy 'bygythiol' a mynd i'r afael â hynny, ac adrodd yn ôl i'r Senedd yn rheolaidd.
- Cryfhau'r dull ataliol a dealltwriaeth yr Aelodau o'r broses gofnodi a'r cymorth sydd ar gael.
- Sefydlu tasglu Cyfranogiad Diogel mewn Gwleidyddiaeth i fynd i'r afael â'r maes hwn sy'n bygwth ein democratiaeth.

## EIN GWELEDIGAETH



**Prif ffrydio cydraddoldeb:** Senedd sy'n arweinydd byd-eang wrth wreiddio cydraddoldeb yn ei gwaith craffu a deddfu ac yn ei strwythurau sefydliadol.

## EIN PRIF HARGYMHELLION:

- Ymgorffori cydraddoldeb yn y Rheolau Sefydlog.
- Cynnal adolygiad o'r Rhaglen Lywodraethu o ran prif ffrydio cydraddoldeb .
- Pob un o bwyllgorau'r Senedd i ystyried cydraddoldeb yn rheolaidd wrth gynnal gwaith craffu ar bolisïau a chynigion Llywodraeth Cymru, a phob pwyllgor i ymgymryd ag un ymgysylltiad fesul tymor o'r model prif ffrydio cydraddoldeb.
- Dylai'r Rheolau Sefydlog ei gwneud yn ofynnol bod yna Bwyllgor Cydraddoldeb pwrpasol, a chawcws seneddol i fenywod.
- Neilltuo arweinyddiaeth glir ar gyfer prif ffrydio cydraddoldeb ar lefel y Comisiwn a lefel swyddogion.
- Sicrhau bod hyfforddiant ac adnoddau priodol ar gael i gyflawni ein hargymhellion.

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd ... 12**

**Argymhellion ... 15**

**1. Cynrychiolaeth a chyfranogiad ... 24**

Ein gweledigaeth ... 24

Cryfderau ... 24

Dangosodd y dystiolaeth y canlynol: ... 24

Beth mae hyn yn ei olygu ... 26

Ein barn a'n hargymhellion ar gyfer gweithredu ... 26

**2. Diwylliant ac arferion gwaith ... 31**

Ein gweledigaeth ... 31

Cryfderau ... 31

Dangosodd y dystiolaeth y canlynol: ... 32

Beth mae hyn yn ei olygu ... 33

Ein barn a'n hargymhellion ar gyfer gweithredu ... 34

**3. Cam-drin Aelodau ... 40**

Ein gweledigaeth ... 40

Cryfderau ... 40

Dangosodd y dystiolaeth y canlynol: ... 40

Beth mae hyn yn ei olygu ... 41

Ein barn a'n hargymhellion ar gyfer gweithredu ... 42

**4. Prif ffrydio cydraddoldeb ........ 45**

Ein gweledigaeth ........ 45

Cryfderau ........ 45

Dangosodd y dystiolaeth y canlynol: ........ 45

Beth mae hyn yn ei olygu ........ 46

Ein barn a’n hargymhellion ar gyfer gweithredu ........ 47

**Atodiad 1 : Adroddiad ar yr Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd ........ 51**

## Rhagair y Cadeirydd

Bu'r Senedd yn arloeswr o ran gweithio mewn modd sy'n gynhwysol ac yn ystyriol o deuluoedd, ac mae'n parhau i fod felly. Mae'r sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer cydraddoldeb wedi bodoli ers cychwyn datganoli yng Nghymru, drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Rydym wedi gwybod erioed fod senedd gynrychioliadol yn un sy'n gryfach, oherwydd ei bod yn tynnu ar ystod ehangach o safbwyntiau, lleisiau a gweledigaethau.

Mae'r Senedd yn cael ei dathlu fel arweinydd byd-eang o ran cynrychiolaeth menywod – nid yw'r gynrychiolaeth erioed wedi bod yn is na 40% a'n ddeddfwrfa ni oedd yr un gyntaf yn y byd i gael cydbwysedd llwyr rhwng dynion a menywod, yn 2003.

Mae'r Senedd wedi dangos ei hymrwymiad i arferion gwaith cynhwysol, o bleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer absenoldeb rhiant a lwfansau gofalu i Aelodau, i weithio hybrid.

Efallai na fydd y ffactorau a arweiniodd at y sefyllfa hon yn bresennol bob amser. Rydym am wneud yn siŵr bod gan ein senedd ni ffyrdd sefydliadol o weithio sy'n hyrwyddo ac yn datblygu cydraddoldeb, yn hytrach na'i bod yn dibynnu ar arferion disgresiynol a hyrwyddwyr unigol i arwain newid.

Dyna pam mae amseriad yr adolygiad hwn yn hollbwysig. Bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud dros yr ychydig fisoedd nesaf ynghylch strwythurau busnes ac arferion gwaith, a fydd yn pennu pa fath o Senedd fydd hi yn y dyfodol. Mae hon yn foment hollbwysig, sy'n peri risgiau a chyfleoedd fel ei gilydd o ran llunio'r diwylliant seneddol.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu ar dystiolaeth a dadansoddiad o adolygiad o ddiwylliant, rheolau ffurfiol ac anffurfiol y Senedd, a systemau ar gyfer sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei hyrwyddo wrth iddi ddeddfu. Cynhaliwyd hynny yn ystod

tymor yr hydref yn 2025. Cynhaliwyd yr adolygiad mewn ymateb i argymhelliad gan y Pwyllgor Biliau Diwygio, yn ei waith craffu ar *Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)*. Cytunodd Comisiwn y Senedd i gychwyn yr adolygiad, o dan fy nghadeiryddiaeth innau fel Comisiynydd y Senedd sydd â chyfrifoldeb dros Gydraddoldeb.

Mae'r adolygiad, sydd wedi'i atodi i'r adroddiad hwn, nid yn unig yn asesu'r sefydliad o safbwynt yr Aelodau etholedig, ond hefyd yn ein cymharu â safonau rhyngwladol o ran arfer gorau. Mae'n dangos bod y Senedd yn cymharu'n dda o ran cynrychiolaeth a chyfranogiad, ond y gellid gwneud mwy i ymgorffori cydraddoldeb ym meysydd arwain a gwaith craffu.

Rydym am sicrhau bod rôl Aelod o'r Senedd yn un sy'n hygyrch ac yn apelio at bawb. Ni ddylai fod yn rhaid i Aelodau ddewis rhwng eu cyfrifoldebau i'w teuluoedd a'u hetholwyr.

Mae pobl sy'n gweithio ym maes gwleidyddiaeth yn wynebu camdriniaeth ar-lein ac all-lein i raddau gwaeth nag erioed, ac mae hynny'n gwbl annerbyniol. Mae'r adroddiad hwn ar yr Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd yn gwneud argymhellion mewn sawl maes, ond nid oes yr un yn bwysicach na sicrhau y gall pobl o gefndiroedd amrywiol sy'n gwasanaethu fel cynrychiolwyr etholedig, o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol, ymgysylltu â'u hetholwyr a gwneud eu gwaith yn ddiogel a heb ofn.

Mae'r Aelodau'n cynrychioli amrywiaeth dinasyddion yn eu rolau craffu a deddfu. Mae gwneud y gwaith hwn drwy lens cydraddoldeb yn golygu sicrhau bod polisïau, deddfau a chyllidebau yn ystyried profiadau ac anghenion gwahanol bobl. Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod gan y Senedd sylfaen gref ar gyfer prif ffrydio cydraddoldeb, ac yn nodi gweledigaeth uchelgeisiol iddi ddod yn arweinydd byd-eang yn y maes hwn, drwy arweinyddiaeth strategol, hyfforddiant, dadansoddi arbenigol, ac ymgysylltu â phobl sydd â phrofiadau bywyd.


Diolch i'm cyd-Aelodau ar y Bwrdd – Peter Fox AS, Siân Gwenllian AS, Jane Dodds AS, a Mike Hedges AS. Mae eu dull cydweithredol yn enghraifft berffaith o'r ffordd y gallwn ni ddod at ein gilydd i drafod a chytuno ar argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer democratiaeth Gymreig gryfach.

Rydym wedi cael budd mawr o arbenigedd y tîm academaidd a gynhaliodd yr adolygiad. Hoffwn ddiolch i Dr Alison Parken, Dr Rachel Minto a Dr Leah Hibbs am eu hymdrechion a'u hymroddiad i gynhyrchu eu hadroddiad sylweddol o fewn amserlenni heriol. Gwnaethant lwyddo i gasglu, dadansoddi a chyflwyno llawer

iawn o dystiolaeth sylfaenol gan ein Haelodau presennol a'n cyn-Aelodau, ac mae eu hadroddiad wedi'i atodi isod. Elwodd yr adolygiad hwn yn fawr o'r cyfoeth o brofiad uniongyrchol a rannodd yr Aelodau yn garedig â'r ymchwilwyr.

Her inni ar unwaith yw gwneud yn siŵr bod y safbwyntiau a gafwyd yn cael eu rhoi ar waith. Mae'r adolygiad hwn yn fan cychwyn, a'r argymhelliad pwysicaf ynddo yw sefydlu bwrdd gweithredu i lywio a monitro'r broses o gyflawni'r diwygiadau hyn, sydd eu hangen yn fawr.

Mae gennym gymaint i fod yn falch ohono, ac wrth inni ehangu a newid y ffyrdd rydym yn gweithio, ni allwn fentro colli'r cynnydd a wnaed gennym. Rhaid inni adeiladu ar y weledigaeth wreiddiol ar gyfer deddfwrfa ddatganoledig sy'n gynrychioliadol ac yn gynhwysol. Hwn yw ein cyfle i ymgorffori'r arferion hyn er mwyn denu ystod amrywiol o bobl i gymryd rhan yng ngwleidyddiaeth Cymru.



**Joyce Watson AS**

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Sefydlu Bwrdd Gweithredu Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd, gyda chynrychiolaeth drawsbleidiol, i oruchwylio'r broses o weithredu argymhellion yr Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd ar unwaith, ac wrth i'r Seithfed Senedd fynd rhagddi. ............ Tudalen 28

**Argymhelliad 2.** Cynnal Adolygiad pellach yn ystod y Seithfed Senedd o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd, o fewn amserlen sy'n darparu ar gyfer ei gwmpas i gynnwys pleidiau gwleidyddol, staff yr Aelodau, staff gwasanaethau Comisiwn y Senedd, ac ymgysylltu â'r cyhoedd. ............ Tudalen 28

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Senedd a'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod unrhyw adolygiad statudol o effaith y system etholiadol newydd o ganlyniad i adran 19 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 yn cynnwys asesiad o'i effaith ar amrywiaeth a chynhwysiant. Dylai hefyd ystyried unrhyw achosion o anghydbwysedd sydd wedi codi a gwneud argymhellion ar sut y gellir mynd i'r afael â'r rheini. ............ Tudalen 28

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru geisio Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, o dan adran 109 o **Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**, yn galw am ddatganoli cymhwysedd mewn perthynas â deddfwriaeth ar fesurau i gefnogi amrywiaeth ymgeiswyr etholiadol, a gosod y Gorchymyn arfaethedig o dan Reol Sefydlog 25. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried unrhyw lwybrau cyfreithiol eraill y gellir eu dilyn, er mwyn cael cefnogaeth mwyafrif y Senedd o blaid mecanweithiau statudol i sicrhau cydbwysedd o ran rhywedd ymhlith ymgeiswyr etholiadol. ............ Tudalen 28

**Argymhelliad 5.** Dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd gasglu data demograffig ar draws holl nodweddion gwarchodedig Aelodau o'r Senedd pan fyddan nhw'n dod i'r Senedd yn y lle cyntaf, er mwyn hwyluso dadansoddiad cydraddoldeb o gynrychiolaeth. Dylai hyn gynnwys dangosyddion o statws economaidd-gymdeithasol (megis galwedigaethau rhieni, statws o ran tai, ysgolion yr aed iddynt) a dadansoddiad croestoriadol. ............ Tudalen 28

**Argymhelliad 6.** Dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd gasglu data ar gynhwysiant mewn dadleuon yn y Cyfarfod Llawn yn ôl nodweddion gwarchodedig. Dylai hynny gynnwys cyfraniadau, torri ar draws, ymyriadau ac a dderbynnir ceisiadau am ymyriadau, ac a wneir cyfraniadau yn y cnawd neu ar-

lein, ac yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried adolygiad blynyddol o ddata cyfranogiad. ........ Tudalen 29

**Argymhelliad 7.** Dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd roi dull effeithiol ar waith o rybuddio'r Llywydd ar unwaith pan fydd Aelod sy'n cymryd rhan ar-lein yn gofyn am ymyrraeth, er enghraifft 'botwm y Llywydd' – tebyg i'r un a ddefnyddir yn Senedd yr Alban. ........ Tudalen 29

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried pa newidiadau y gellir eu gwneud i'r Rheolau Sefydlog i wella cynhwysiant ar bwyllgorau. Byddai hynny'n seiliedig ar y canlynol: dim pwyllgorau un rhywedd, a/neu sicrhau cydbwysedd o ran rhywedd ym mhob pwyllgor cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, gan adlewyrchu cydbwysedd o ran rhywedd cyffredinol yr Aelodau, neu'r cydbwysedd o ran rhywedd ar ôl i rolau'r Cabinet gael eu tynnu o'r cyfrifiad. ........ Tudalen 29

**Argymhelliad 9.** Dylai Bwrdd Gweithredu'r Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd fonitro unrhyw ehangiad o ran nifer a maint y pwyllgorau yn y Seithfed Senedd, ac felly nifer y pwyllgorau y disgwylir i Aelodau wasanaethu arnynt. ........ Tudalen 29

**Argymhelliad 10.** Dylai pob pwyllgor ystyried ei ddata amrywiaeth o ran tystiolaeth yn flynyddol. Dylid cyflwyno adroddiadau i Fforwm y Cadeiryddion, a ddylai barhau i fonitro'r data amrywiaeth o ran tystiolaeth yn flynyddol. ........ Tudalen 29

**Argymhelliad 11.** Dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd barhau i ddarparu hyfforddiant parhaus (yn raddol ac wedi'i ailadrodd) ar y canlynol:

- y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd a'r polisi Urddas a Pharch;
- y confensiynau a'r rheolau o ran cynnal busnes y Senedd, gan gynnwys cymryd rhan yn y Cyfarfod Llawn a phwyllgorau, o ran torri ar draws, ymyriadau ac ymddygiad derbyniol (gan gynnwys y ffordd y gofynnir cwestiynau);
- ymdrin â chwynion staff, gan gynnwys mewn perthynas ag aflonyddu rhywiol a bwlio;
- meithrin gwydnwch; a hefyd

- hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant wrth ryngweithio ac wrth ddeddfu. ........ Tudalen 30

**Argymhelliad 12.** Dylai Comisiwn y Senedd adrodd ar y niferoedd sy'n manteisio ar yr hyfforddiant, a'i effeithiolrwydd, i'r Pwyllgor Busnes a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. ........ Tudalen 30

**Argymhelliad 13.** Dylai'r Senedd ymrwymo i'r egwyddor o Senedd fel sefydliad sy'n hygyrch, yn gynhwysol ac yn ystyriol o deuluoedd. ........ Tudalen 36

**Argymhelliad 14.** Dylai'r Pwyllgor Busnes ddiogelu'r dewis i gymryd rhan yn rithwir ym Musnes y Senedd yn y Senedd nesaf, gan gadarnhau bod gan hynny yr un gwerth â bod yno yn y cnawd. Dylid monitro a yw'r defnydd o weithio hybrid yn effeithio ar allu menywod i gael dyrchafiad. ........ Tudalen 36

**Argymhelliad 15.** Dylai'r Pwyllgor Busnes a'r Llywydd gynnwys, yn weithredol, Bwrdd Gweithredu'r Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd mewn trafodaethau ar gynigion diwygio'r Seithfed Senedd, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hasesu o ran effaith ar gydraddoldeb, cyn eu cyflwyno i'r Senedd i benderfynu arnynt. Byddai hyn yn cynnwys cynigion ar gynllunio'r wythnos fusnes, treialon rhannu swyddi a newidiadau eraill i'r ffordd y mae'r Aelodau yn cynnal busnes. Dylai unrhyw newidiadau sylweddol fod yn destun 'profion senario' o safbwynt hyrwyddo arferion gweithio sy'n gynhwysol ac yn ystyriol o deuluoedd. ........ Tudalen 36

**Argymhelliad 16.** Dylai'r Pwyllgor Busnes bennu amser gorffen rhagweladwy, sy'n ystyriol o deuluoedd, ar gyfer y Cyfarfod Llawn. Dylai gwyriadau oddi wrth yr amser gorffen hwn fod yn eithriadol, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i Aelodau os yw sesiynau'n debygol o redeg y tu hwnt i'r amser hwn. Dylai fod darpariaeth ar gyfer cynnal busnes nas cyflawnwyd erbyn diwedd un Cyfarfod Llawn yn yr un nesaf. Dylai'r Pwyllgor Busnes adolygu data ar amseroedd gorffen y Cyfarfod Llawn, yn enwedig eisteddiadau hwyr, yn rheolaidd. Dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried hynny ochr yn ochr â'r data monitro cyfranogiad yn y Cyfarfodydd Llawn er mwyn galluogi ystyriaeth o effaith amseriad y cyfarfodydd llawn ar gyfranogiad. ........ Tudalen 37

**Argymhelliad 17.** Dylai'r Pwyllgor Busnes sefydlu gweithdrefn i Aelodau sy'n gadael y Cyfarfod Llawn mewn argyfwng (gyda diffiniad penodol o'r hyn sy'n cyfrif fel argyfwng). Os bydd yn rhaid i Aelod adael mewn argyfwng, ni ddylai canlyniad

pleidlais ddibynnu ar allu'r Aelod hwnnw i baru ag Aelod arall ar fyr rybudd. ........................................ Tudalen 37

**Argymhelliad 18.** Gwahoddir y Llywydd a'r Pwyllgor Busnes i ystyried cyflwyno eitem 'Cyhoeddiadau' rheolaidd ar yr agenda ar ddechrau pob Cyfarfod Llawn a fyddai'n rhoi mwy o weledEdd i'r hyn a allai fod yn digwydd ym mywydau personol yr Aelodau. Mae hyn yn arfer cyffredin mewn llywodraeth leol ac yn rhoi cyfle i gydymdeimlo, llongyfarch, a chydnabod materion personol eraill. ........................................ Tudalen 37

**Argymhelliad 19.** Dylai'r Pwyllgor Busnes, mewn cydweithrediad â grwpiau gwleidyddol, ddatblygu diffiniad o rôl Prif Chwip (yn wahanol i Reolwr Busnes). Gall hyn gynnwys materion megis cynllunio deddfwriaethol, disgyblaeth seneddol a chefnogi llesiant Aelodau eu grŵp. ........................................ Tudalen 37

**Argymhelliad 20.** Dylai Comisiwn y Senedd:

- ystyried crynodeb o'r dystiolaeth a gasglwyd yn yr adolygiad hwn sy'n ymwneud â phrofiadau Aelodau o geisio ad-daliad o gostau o dan y Penderfyniad, eu dealltwriaeth o'r rheolau, ac ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r materion a godwyd ar y cyd â'r Bwrdd Taliadau Annibynnol;
- ymgymryd â theithiau profiad Aelodau yn rheolaidd, megis y rheini a gynhaliwyd yn gynnar yn y Chweched Senedd, er mwyn deall profiadau bywyd yr Aelodau, a nodi meysydd sy'n peri anhawster i Aelodau a'r hyn a allai fod yn achosi'r rheini; a hefyd
- parhau i sicrhau bod hawliadau sy'n ymwneud â chyfrifoldebau gofalu yn cael eu cyhoeddi ar sail gyfanredol a dienw, er mwyn osgoi adnabod unigolion ac i ystyried materion cydraddoldeb wrth benderfynu ar y polisi sy'n ymwneud â chyhoeddi costau. ........................................ Tudalen 38

**Argymhelliad 21.** Dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd barhau i fabwysiadu dull rhagweithiol o ddarparu canllawiau a chymorth ar:

- sefydlu swyddfeydd a chyflogi staff;
- darparu addasiadau rhesymol yn adeiladau'r Senedd, mewn digwyddiadau ac yn swyddfeydd yr Aelodau. ........................................ Tudalen 38

**Argymhelliad 22.** Dylai Comisiwn y Senedd ymrwymo i egwyddor darpariaeth gofal plant yn y Senedd i Aelodau, staff a thystion a hefyd – erbyn o leiaf blwyddyn gyntaf y Seithfed Senedd – dylai fod wedi archwilio a datblygu pob opsiwn. Dylai fod ystafell bwrpasol ar gyfer bwydo ar y fron. ......................... Tudalen 38

**Argymhelliad 23.** Yn seiliedig ar gynnig gan y Llywydd, dylai'r Senedd gadarnhau polisi absenoldeb rhiant, sy'n cwmpasu absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu a chamesgoriad. Byddai hynny'n seiliedig ar y canlynol:

- trafodaeth rhwng grwpiau gwleidyddol, ac
- wedi'u llywio gan:
  - ystyriaeth y Pwyllgor Busnes,
  - trafodaeth gyda'r Bwrdd Taliadau Annibynnol; a hefyd
  - arfer gorau sydd wedi'i nodi gan wasanaethau Comisiwn y Senedd o ran absenoldebau, gan gynnwys yr arfer mewn Seneddau eraill.

Byddai'r polisi hwn yn:

- cwmpasu'r modd y mae'r trefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer Aelodau beichiog yn cael eu cynnwys mewn perthynas â gweithio yn y Senedd a thu allan iddi, gan gynnwys unrhyw eiddo, staff neu wasanaethau sy'n ofynnol;
- rhoi canllawiau i Aelodau wrth benderfynu ar hyd priodol absenoldebau a threfniadau eraill; a hefyd
- cwmpasu materion gweithdrefnol perthnasol presennol megis pleidleisio drwy ddirprwy – gan gynnwys yr amser hwyaf sydd ar gael i bleidleisio drwy ddirprwy. ......................................................................................... Tudalen 39

**Argymhelliad 24.** Yn dilyn cytundeb ar y polisi hwn, dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd sicrhau bod gwybodaeth a chanllawiau arno ar gael i Aelodau, a chymryd camau i'w gyhoeddi. Dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd hefyd ddarparu ar gyfer person/personau y gall Aelodau gysylltu â hwy i gael arweiniad ar faterion sensitif sy'n ymwneud â'r polisi hwn. Dylai Aelodau hefyd allu ceisio arweiniad ar agweddau perthnasol ar Benderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol (megis y lwfans ar gyfer staff ychwanegol i gwmpasu

gwaith).
........ Tudalen 39

**Argymhelliad 25.** Os sefydlir pwyllgor o dan adran 7 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), i archwilio'r posibilrwydd o rannu swyddi yn y dyfodol, dylai archwilio'r potensial i Aelod Locwm allu ymgymryd â holl ystod gwaith Aelod, gan gynnwys busnes y Senedd, tra nad yw Aelod ar gael. ........ Tudalen 39

**Argymhelliad 26.** Dylai Comisiwn y Senedd gynnal cyfweliadau neu arolwg gyda phob Aelod sydd wedi ymddiswyddo neu nad ydynt wedi dychwelyd i'r Seithfed Senedd yn ystod haf 2026. Dylai hyn gynnwys cwestiynau ynghylch eu profiadau o drais, cam-drin ac aflonyddu, ac archwilio'r ffactorau a ddylanwadodd ar eu penderfyniadau i beidio ag ailsefyll, gan gynnwys unrhyw gyfrifoldebau gofalu.
........ Tudalen 39

**Argymhelliad 27.** Bod cynnig yn cael ei gyflwyno yn y Senedd nesaf, gan y Llywydd (neu aelod arweiniol arall), i roi cyfarwyddiadau i'r perwyl bod yn rhaid i Gomisiwn y Senedd fynd i'r afael â cham-drin Aelodau ar-lein, ac adrodd i'r Senedd ar effeithiolrwydd ei ddull yn flynyddol. Rhaid i hyn gynnwys monitro cyfryngau cymdeithasol a/neu asesiadau o fregusrwydd ar-lein, a dylai gadw i fyny ag arloesiadau technolegol. Dylai gwmpasu nodi camdriniaeth sy'n is na'r trothwy 'bygythiol' – ond sy'n dal i fod yn gamdriniol ac yn fygythiad i ddemocratiaeth – a mynd i'r afael â hynny. ........ Tudalen 42

**Argymhelliad 28.** Dylai Comisiwn y Senedd ystyried sut i adeiladu ar ei ddull ataliol o ymdrin â diogelwch. Byddai hynny'n cynnwys adolygu ei ddarpariaethau a'i brotocolau diogelwch yn unol â chynnig y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar gyfer rôl Gwarcheidwad. Byddai'n cynnwys sicrhau bod canllawiau clir a chyson ar gael yn rhwydd i Aelodau i gynorthwyo eu dealltwriaeth o brosesau ar gyfer adrodd, atal ac ymateb i gam-drin all-lein ac ar-lein, a thrais gan y cyhoedd. Mae hefyd yn hanfodol bod cyfathrebiadau ynghylch diogelwch yn mynd at bob Aelod. ........ Tudalen 43

**Argymhelliad 29.** Dylai Bwrdd Gweithredu'r Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd ymgysylltu â'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a'i olynydd yn y Senedd nesaf, yn enwedig mewn perthynas â'r canlynol:

- y cynnig ar gyfer un pwynt cyswllt ar gyfer canllawiau, cyngor a chymorth ymarferol sy'n ymwneud â phob math o aflonyddu a cham-drin, (gan y cyhoedd a'r rheini yn y Senedd) ar gyfer Aelodau, Staff Cymorth a staff y Comisiwn;

- y cynigion ar gyfer "Rôl Gwarcheidwad", cynghorydd lled-annibynnol (tebyg i fodel y GIG) ar gyfer urddas a pharch; a hefyd
- y gwerthusiad o "Hwb yr Aelodau" a fydd yn cael ei gynnal gan Comisiwn y Senedd. ........ Tudalen 43

**Argymhelliad 30.** Dylai Comisiwn y Senedd sefydlu Tasglu 'Cyfranogiad Diogel mewn Gwleidyddiaeth' i oruchwylio a chomisiynu gwaith parhaus ynghylch cam-drin ac aflonyddu Aelodau. Dylai'r Tasglu:

- gomisiynu adolygiad ac adroddiad annibynnol ar gam-drin ac aflonyddu Aelodau o'r Senedd a'u staff gwleidyddol, a monitro ac adrodd yn barhaus ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â cham-drin Aelodau ar-lein, gan gynnwys data a gasglwyd wrth fonitro cyfryngau cymdeithasol fel rhan o'r prosiect peilot; a hefyd
- gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol i asesu'r difrod a berir gan drais, cam-drin ac aflonyddu gwleidyddion, i ymgysylltu â'r cyhoedd ac, yn ei dro, i ddemocratiaeth.
- gweithio gyda Bwrdd Gweithredu'r Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd, y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a Chomisiwn y Senedd i gynghori ar 'Bolisi Ymddygiad Annerbyniol Dinasyddion' a 'Pholisi Cyfryngau Cymdeithasol' sydd ar gael i'r cyhoedd. Dylai ystyried sut y byddai'r rhain yn cael eu gorfodi, fel bod dinasyddion sy'n cam-drin Aelodau yn wynebu canlyniadau am eu gweithredoedd. ........ Tudalen 44

**Argymhelliad 31.** Dylai pob Pwyllgor gynnal gwaith craffu rheolaidd ar dystiolaeth cydraddoldeb yn ei ymchwiliadau. Dylai Fforwm y Cadeiryddion a gwasanaethau Comisiwn y Senedd gefnogi hyn, drwy ddarparu pecyn cymorth sy'n cynnwys, er enghraifft: rhestr wirio cydraddoldeb at ddibenion cylch gwaith, canllawiau prif ffrydio cydraddoldeb, data wedi'u dadgrynhoi, arbenigedd ym maes cydraddoldeb mewnol ac allanol, a chanllawiau/data amrywiaeth tystion. Dylai Fforwm y Cadeiryddion adolygu effeithiolrwydd y dull yn rheolaidd. ........ Tudalen 48

**Argymhelliad 32.** Dylai'r Pwyllgor Busnes ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i fandadu Pwyllgor Cydraddoldeb pwrpasol neu Bwyllgor Cydraddoldeb gyda chylch gorchwyl neu swyddogaethau penodol mewn perthynas â goruchwylio cydraddoldebau. Nid yw hyn yn disodli'r ddyletswydd ar bwyllgorau eraill i

gymryd cyfrifoldeb dros brif ffrydio gwaith craffu ar gydraddoldeb yn eu gwaith, fel y nodwyd uchod. ........ Tudalen 48

**Argymhelliad 33.** Dylai fod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru hysbysu'r pwyllgor perthnasol pan fydd asesiad o effaith ar gydraddoldeb Bil wedi'i gyhoeddi. ........ Tudalen 49

**Argymhelliad 34.** Dylai pwyllgorau'r Senedd ofyn i Wasanaeth Ymchwil Comisiwn y Senedd ddarparu adolygiad prif ffrydio cydraddoldeb o bob Bil y maent yn craffu arno. ........ Tudalen 49

**Argymhelliad 35.** Dylai'r pwyllgor sy'n gyfrifol am gydraddoldeb ddefnyddio Gwasanaeth Ymchwil Comisiwn y Senedd i gynnal, neu gomisiynu drwy'r Cynllun Cymrodoriaeth Academaidd, adolygiad prif ffrydio cydraddoldeb o'r Rhaglen Lywodraethu. Byddai'r adolygiad desg hwn yn asesu'r potensial i'r Rhaglen leddfu'r anghydraddoldebau presennol. Byddai'r adolygiad, wedyn, yn cael ei ystyried gan y pwyllgor sydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldebau, a fyddai'n lledaenu cyngor i'r pwyllgorau eraill. ........ Tudalen 49

**Argymhelliad 36.** Dylai pob pwyllgor gynnal un cyfarfod bord gron ar fodel prif ffrydio cydraddoldeb yn ystod tymor pedair blynedd. Dylai Comisiwn y Senedd sicrhau bod gan ei wasanaethau gapasiti priodol i gefnogi ymgysylltiad y pwyllgor â phanel prif ffrydio cydraddoldeb (gan gynnwys sefydliadau cydraddoldeb, undebau llafur, melinau trafod, cyrff sector yn ôl y perthnasedd i'r maes polisi gan weithio gyda'r pwyllgor ar y prosesau casglu tystiolaeth a chanolbwyntio ar atebion). ........ Tudalen 49

**Argymhelliad 37.** Dylai Comisiwn y Senedd ddarparu hyfforddiant rheolaidd i Aelodau ynghylch gwaith craffu ar brif ffrydio cydraddoldebau. ........ Tudalen 49

**Argymhelliad 38.** Comisiwn y Senedd i sicrhau bod ganddo adnoddau a chyllideb briodol ar gyfer ymchwil ychwanegol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb yn ôl yr angen. ........ Tudalen 49

**Argymhelliad 39.** Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried creu dyletswydd prif ffrydio cydraddoldeb, fel rhan o'i chyfres o Ddyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru. Byddai'r ddyletswydd prif ffrydio yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru adrodd bob tair blynedd ar sut y mae prif ffrydio cydraddoldeb o fewn eu sefydliadau wedi gwella arweinyddiaeth, swyddogaethau gweithredol, llunio polisïau ar gyfer cydraddoldeb, darparu gwasanaethau cyhoeddus yn deg, a chyflawni eu rhwymedigaethau o dan

Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru........................................................................................................................Tudalen 49

**Argymhelliad 40.** Dylai'r pwyllgor sydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldebau geisio asesiad o gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â chydraddoldeb a hawliau dynol, yn enwedig y potensial i ddatganoli cyfrifoldeb dros weithredu a monitro Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i Lywodraeth Cymru. Dylai'r adolygiad hefyd ystyried, pe bai Deddf Cydraddoldeb yn cael ei diddymu, a fyddai gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu er mwyn gosod dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus (mewn modd tebyg i bwerau presennol Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010). .......Tudalen 50

**Argymhelliad 41.** Dylai'r Pwyllgor Busnes ddiwygio Rheolau Sefydlog i orfodi cawcws seneddol menywod sy'n cynnwys menywod (a dynion, pe dymunir) yn gweithio ar agenda y cytunwyd yn gyffredin arni. ..................................................Tudalen 50

**Argymhelliad 42.** Dylai Comisiwn y Senedd barhau i benderfynu bod gan un Comisiynydd gyfrifoldeb dros gyfle cyfartal yn y dyfodol..................................Tudalen 50

**Argymhelliad 43.** Comisiwn y Senedd i ddynodi un o Uwch-swyddogion y Comisiwn i arwain gwaith gwasanaethau Comisiwn y Senedd ar brif ffrydio cydraddoldeb [gan gynnwys y gofynion o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 2, adran 8(1), bod rhaid i Gomisiwn y Senedd wneud trefniadau priodol â'r bwriad o sicrhau bod ei swyddogaethau'n cael eu harfer gan roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb]. ..........................................................Tudalen 50

# 1. Cynrychiolaeth a chyfranogiad

## Ein gweledigaeth

Rydym yn gweld Senedd sy'n adlewyrchu amrywiaeth pobl Cymru ac yn dileu rhwystrau i gymryd rhan yng ngwaith y Senedd.

Rydym yn gweld sefydliad sy'n gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo amrywiaeth fel cryfder democrataidd, yn ymgorffori cydraddoldeb mewn arweinyddiaeth, strwythurau a phrosesau gwneud penderfyniadau ac yn cael ei ystyried yn arweinydd mewn gwleidyddiaeth gynhwysol a llunio polisïau ar y cyd.

## Cryfderau

> *"Mae gan y Senedd enw da yn rhyngwladol o ran cynrychiolaeth i fenywod. Mae wedi cynnal lefelau uchel o gynrychiolaeth menywod o'i gymharu â normau byd-eang, a'r DU. Hon oedd y ddeddfwrfa gyntaf yn y byd lle cafwyd aelodaeth gyfartal o fenywod a dynion yn 2003. Nid yw aelodaeth benywaidd erioed wedi gostwng o dan 40%.*
>
> *Mae ganddi hanes cryf o fenywod mewn rolau arwain, megis y Llywydd, cadeiryddion pwyllgorau, aelodau'r Cabinet a'r Prif Weinidog.*
>
> *Mae'r Senedd hefyd yn casglu tystiolaeth ar amrywiaeth y bobl a'r sefydliadau sy'n cyfrannu at bwyllgorau mewn ymdrech i gynyddu amrywiaeth y lleisiau a glywir ym meysydd craffu a deddfu."*

## Dangosodd y dystiolaeth y canlynol:

- Mae cyfran yr Aelodau benywaidd yn y Senedd ac mewn rolau arwain yn stori lwyddiant.
- Ers y trydydd Cynulliad, mae o leiaf un fenyw wedi bod yn Llywydd neu'n Ddirprwy Lywydd ar unrhyw adeg.
- Yn Llywodraeth Cymru, mae menywod wedi llenwi chwech o'r naw rôl Cabinet yn y rhan fwyaf o'r llywodraethau datganoledig, ac mae'r Cabinet presennol yn cael ei arwain gan fwyafrif sy'n fenywod, a Phrif Weinidog benywaidd. Yn 2024, daeth yr arweinydd du cyntaf mewn

unrhyw wlad Ewropeaidd yn Brif Weinidog, ac wedyn y fenyw gyntaf i fod yn Brif Weinidog Cymru.

- Mae cadeiryddion pwyllgorau (a ddyrennir yn gymesur â chynrychiolaeth grwpiau gwleidyddol yn y Senedd) yn rolau arwain pwysig o fewn y Senedd. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod bylchau cyfranogiad a phatrymau rhywedd yn parhau, gydag ambell bwyllgor yn dod i gael ei ddominyddu gan ddynion neu fenywod. Mae ambell enghraifft o bwyllgor un rhywedd. At ei gilydd, dynion yw'r rhan fwyaf o gadeiryddion. Mae pwyllgorau strategol a thrawsbynciol fel y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Deddfwriaeth a Chyfiawnder (neu Bwyllgor y Cyfansoddiad) yn parhau i gael eu dominyddu gan ddynion.
- Mynegodd rhai Aelodau bryderon nad oedd ymdrechion i gynnal cynrychiolaeth amrywiol, megis cyflwyno cwotâu rhywedd ar gyfer etholiadau'r Senedd, wedi profi cynnydd.[1]
- Er bod cyfyngiadau ar y data sydd ar gael ar ddadleuon y Cyfarfod Llawn, dangosodd dadansoddiad fod Aelodau benywaidd yn gwneud nifer anghymesur o uwch o gyfraniadau, ac roedd lefel yr ymyriadau a gafodd menywod a dynion yn cyd-fynd â'u cynrychiolaeth yn y Siambr. Canmolwyd y ffordd y rheolodd y Llywydd ddadleuon yn y Cyfarfod Llawn, wrth sicrhau cyfranogiad cyfartal, a gweithredu'n ddiduedd.
- Er bod diwylliant dadl wleidyddol yn llai gwrthwynebol na diwylliant Tŷ'r Cyffredin, roedd yr Aelodau'n pryderu bod yna symud mewn diwylliant o gael dadl ystyriol, gydweithredol tuag at arddull fwy perfformiadol, o sgorio pwyntiau. Mae arddulliau tawelach neu fwy ystyriol, sy'n aml yn gysylltiedig â menywod, yn cael eu hystyried yn llai gwerthfawr.
- Teimlwyd ei bod yn anoddach cael eich adnabod wrth gymryd rhan ar-lein, ac awgrymwyd atebion ymarferol ar gyfer hynny.
- Yn wahanol i ddeddfwrfeydd eraill, mae Comisiwn y Senedd yn casglu data ar y rheini sy'n rhoi tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i bwyllgorau.
- Mae ymgeiswyr etholiadol yn ariannu eu hymgyrchoedd eu hunain ac efallai y bydd angen iddynt leihau oriau gwaith wrth ymgyrchu hefyd. O

[1] Cafodd Bil Senedd Cymru (Ymgeiswyr Etholiadol) ei dynnu'n ôl yn 2024.

ganlyniad, gall sefyll mewn etholiad fod y tu hwnt i bobl ar incwm isel, neu nad oes ganddynt ffynonellau cyllid ychwanegol.

## Beth mae hyn yn ei olygu

- Mae llawer i'w ddathlu yng Nghymru o ran cynrychiolaeth menywod yn y ddeddfwrfa. Fodd bynnag, canfu'r ymchwil fod diffyg data o ran cynrychiolaeth Aelodau â nodweddion gwarchodedig eraill, sy'n golygu ei bod hi'n anodd darparu dadansoddiad tebyg ar y materion hyn.
- Mae tipyn wedi dibynnu ar hyrwyddwyr unigol, penderfyniadau a gymerwyd o fewn pleidiau gwleidyddol a chanlyniadau etholiadol, yn hytrach na gofynion sefydliadol mewn deddfwriaeth neu reolau sefydlog. Gan ddibynnu ar ganlyniadau etholiadol, efallai na fydd y Senedd yn gweld cyfran mor uchel o Aelodau benywaidd yn y dyfodol. O ganlyniad, mae perygl y bydd y cynnydd a welir yn newid yn sgil gwleidyddiaeth a phersonél.
- Mae cyfeiriad cyfyngedig at ystyriaethau cydraddoldeb a chynhwysiant yn Rheolau Sefydlog y Senedd. Yn benodol, nid oes unrhyw ofynion sy'n ymwneud â sicrhau bod y materion hyn yn cael eu hystyried yn aelodaeth a chadeiryddiaeth pwyllgorau.
- Mae risg y bydd y duedd ddiwylliannol tuag at wleidyddiaeth berfformiadol, wrthwynebol yn tanseilio cynhwysiant.

  Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddata ar gyfranogiad Aelodau sy'n cymryd rhan ar-lein yn y Cyfarfod Llawn. Gan y gallai'r rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu fod yn fwy tebygol o gymryd rhan yn rhithwir, byddai'n fuddiol casglu tystiolaeth am natur y cyfranogiad hwn.

## Ein barn a'n hargymhellion ar gyfer gweithredu

**1.** Rydym wedi argymell amrywiaeth o fesurau i helpu i ymgorffori arferion sy'n sicrhau bod y Senedd yn cynrychioli'r bobl y mae'n eu gwasanaethu, ac i adeiladu ar y dadansoddiad, y drafodaeth a'r dystiolaeth a gasglwyd yn yr adolygiad hwn. Mae hyn yn cynnwys sefydlu bwrdd gweithredu i oruchwylio ein hargymhellion yn y Senedd nesaf a pharhau â momentwm y gwaith sydd wedi dechrau gyda'r adroddiad hwn.

**2.** Mae risg, heb fecanweithiau ffurfiol i sicrhau bod yr Aelodaeth yn cynrychioli'r etholwyr, y gallai'r Senedd fod yn gorff gwneud penderfyniadau sy'n llai cynrychioliadol yn y dyfodol. Dyma ein rheswm dros alw ar Lywodraeth Cymru i ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru i egluro'r setliad deddfwriaethol ar y mater hwn ac, fel sy'n briodol, i geisio datganoli pwerau er mwyn caniatáu mesurau i gefnogi amrywiaeth o ran ymgeiswyr etholiadol.[2]

**3.** Rydym yn galw hefyd am asesiad o effaith y system etholiadol newydd ar amrywiaeth a chynhwysiant.

**4.** Yn bwysig, rydym yn galw am gasglu data ar nodweddion gwarchodedig Aelodau, er mwyn sicrhau bod ymyriadau i gefnogi amrywiaeth a chynhwysiant yn fwy gwybodus. Fe wnaethom nodi mai cyfyngedig, os o gwbl, oedd y data a gasglwyd ar nodweddion gwarchodedig Staff Cymorth yr Aelodau. Byddai angen hynny hefyd i ategu unrhyw adolygiad o ran bod yn gynhwysol ac yn ystyriol o deuluoedd, sy'n ymwneud â Staff Cymorth.

**5.** Hoffai'r Bwrdd archwilio ffyrdd o sicrhau nad oes pwyllgorau un rhywedd, a bod y cydbwysedd o ran rhywedd ar bwyllgorau'n adlewyrchu'r Aelodaeth cyn belled ag y bo modd. Mae'r Bwrdd wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i dynnu ei sylw at hyn yn ystod y cyfnod yr oedd yn cwblhau ei adolygiad gweithdrefnol cyn y Seithfed Senedd. Dylai bwrdd gweithredu'r Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd fonitro cyfansoddiad pwyllgorau yn y Seithfed Senedd, gyda'r nod o gael ystod ehangach o leisiau yn cyfrannu at waith pwyllgorau ar draws pob portffolio polisi.

**6.** Mae natur y ddadl yn Siambr y Senedd yn adlewyrchu pwy ydym ni fel Senedd, pwy y gwrandewir arnynt a pha ymddygiad sy'n dderbyniol. Rydym yn anelu at sefydliad lle mae cyfranogiad yn y Cyfarfodydd Llawn, ar bwyllgorau ac mewn gwaith craffu yn deg, yn gynhwysol ac yn barchus, a lle mae gwahanol ffyrdd o gyfrannu yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd yr hyfforddiant y mae gwasanaethau Comisiwn y Senedd yn ei drefnu i Aelodau at y diben hwn ac yn argymell bod hyn yn cael ei werthuso maes o law.

**7.** Mae hefyd yn werth nodi, wrth inni ystyried y dystiolaeth a gasglwyd yn yr adroddiad hwn, ein bod wedi trafod y posibilrwydd o alw am seibiannau rheolaidd mewn trafodion. Fodd bynnag, rydym o'r farn mai'r Llywydd a

---

[2] Cytunodd mwyafrif y Bwrdd â'r argymhelliad hwn. Nid oedd un aelod o'r Bwrdd, Peter Fox AS, yn cytuno â'r argymhelliad hwn.

chadeiryddion pwyllgorau sydd yn y sefyllfa orau i ddeall pryd mae angen seibiannau mewn trafodion. Fe wnaethom hefyd nodi enghreifftiau penodol pan ddefnyddiwyd seibiannau yn y gorffennol, er enghraifft pan ddefnyddir dehongli iaith arwyddion neu mewn trafodion deddfwriaethol cyfnod 3 hirfaith.

**Argymhelliad 1.** Sefydlu Bwrdd Gweithredu Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd, gyda chynrychiolaeth drawsbleidiol, i oruchwylio'r broses o weithredu argymhellion yr Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd ar unwaith, ac wrth i'r Seithfed Senedd fynd rhagddi.[3]

**Argymhelliad 2.** Cynnal Adolygiad pellach yn ystod y Seithfed Senedd o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd, o fewn amserlen sy'n darparu ar gyfer ei gwmpas i gynnwys pleidiau gwleidyddol, staff yr Aelodau, staff gwasanaethau Comisiwn y Senedd, ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Senedd a'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod unrhyw adolygiad statudol o effaith y system etholiadol newydd o ganlyniad i adran 19 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 yn cynnwys asesiad o'i effaith ar amrywiaeth a chynhwysiant. Dylai hefyd ystyried unrhyw achosion o anghydbwysedd sydd wedi codi a gwneud argymhellion ar sut y gellir mynd i'r afael â'r rheini.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru geisio Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn galw am ddatganoli cymhwysedd mewn perthynas â deddfwriaeth ar fesurau i gefnogi amrywiaeth ymgeiswyr etholiadol, a gosod y Gorchymyn arfaethedig o dan Reol Sefydlog 25. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried unrhyw lwybrau cyfreithiol eraill y gellir eu dilyn, er mwyn cael cefnogaeth mwyafrif y Senedd o blaid mecanweithiau statudol i sicrhau cydbwysedd o ran rhywedd ymhlith ymgeiswyr etholiadol.[4]

**Argymhelliad 5.** Dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd gasglu data demograffig ar draws holl nodweddion gwarchodedig Aelodau o'r Senedd pan fyddan nhw'n dod i'r Senedd yn y lle cyntaf, er mwyn hwyluso dadansoddiad cydraddoldeb o gynrychiolaeth. Dylai hyn gynnwys dangosyddion o statws economaidd-gymdeithasol (megis galwedigaethau rhieni, statws o ran tai, ysgolion yr aed iddynt) a dadansoddiad croestoriadol.

[3] Cytunodd mwyafrif y Bwrdd â'r argymhelliad hwn. Nid oedd un aelod o'r Bwrdd, Peter Fox AS, yn cytuno â'r argymhelliad hwn.
[4] Cytunodd mwyafrif y Bwrdd â'r argymhelliad hwn. Nid oedd un aelod o'r Bwrdd, Peter Fox AS, yn cytuno â'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 6.** Dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd gasglu data ar gynhwysiant mewn dadleuon yn y Cyfarfod Llawn yn ôl nodweddion gwarchodedig. Dylai hynny gynnwys cyfraniadau, torri ar draws, ymyriadau ac a dderbynnir ceisiadau am ymyriadau, ac a wneir cyfraniadau yn y cnawd neu ar-lein, ac yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried adolygiad blynyddol o ddata cyfranogiad.[5]

**Argymhelliad 7.** Dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd roi dull effeithiol ar waith o rybuddio'r Llywydd ar unwaith pan fydd Aelod sy'n cymryd rhan ar-lein yn gofyn am ymyrraeth, er enghraifft 'botwm y Llywydd' – tebyg i'r un a ddefnyddir yn Senedd yr Alban.

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried pa newidiadau y gellir eu gwneud i'r Rheolau Sefydlog i wella cynhwysiant ar bwyllgorau. Byddai hynny'n seiliedig ar y canlynol: dim pwyllgorau un rhywedd, a/neu sicrhau cydbwysedd o ran rhywedd ym mhob pwyllgor cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, gan adlewyrchu cydbwysedd o ran rhywedd cyffredinol yr Aelodau, neu'r cydbwysedd o ran rhywedd ar ôl i rolau'r Cabinet gael eu tynnu o'r cyfrifiad.

**Argymhelliad 9.** Dylai Bwrdd Gweithredu'r Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd fonitro unrhyw ehangiad o ran nifer a maint y pwyllgorau yn y Seithfed Senedd, ac felly nifer y pwyllgorau y disgwylir i Aelodau wasanaethu arnynt.

**Argymhelliad 10.** Dylai pob pwyllgor ystyried ei ddata amrywiaeth o ran tystiolaeth yn flynyddol. Dylid cyflwyno adroddiadau i Fforwm y Cadeiryddion, a ddylai barhau i fonitro'r data amrywiaeth o ran tystiolaeth yn flynyddol.

**Argymhelliad 11.** Dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd barhau i ddarparu hyfforddiant parhaus (yn raddol ac wedi'i ailadrodd) ar y canlynol:

- y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd a'r polisi Urddas a Pharch;
- y confensiynau a'r rheolau o ran cynnal busnes y Senedd, gan gynnwys cymryd rhan yn y Cyfarfod Llawn a phwyllgorau, o ran torri ar draws,

[5] Nodwn fod ymarfer wedi'i gynnal cyn hyn yn Senedd yr Alban dros gyfnod o chwe wythnos rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2022 i gasglu data amser real ar nifer yr ymyriadau a geisiwyd, nifer yr ymyriadau a dderbyniwyd a'r rhai nas derbyniwyd, a rhaniad y data o ran rhywedd. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol y gallai technoleg neu ddeallusrwydd artiffisial ddarparu atebion yn hytrach na neilltuo adnoddau staff gwasanaethau Comisiwn y Senedd i gofnodi'r data, o reidrwydd.

ymyriadau ac ymddygiad derbyniol (gan gynnwys y ffordd y gofynnir cwestiynau);

- ymdrin â chwynion staff, gan gynnwys mewn perthynas ag aflonyddu rhywiol a bwlio;
- meithrin gwydnwch; a hefyd
- hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant wrth ryngweithio ac wrth ddeddfu.

**Argymhelliad 12.** Dylai Comisiwn y Senedd adrodd ar y niferoedd sy'n manteisio ar yr hyfforddiant, a'i effeithiolrwydd, i'r Pwyllgor Busnes a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

# 2. Diwylliant ac arferion gwaith

## Ein gweledigaeth

Rydym yn gweld Senedd â diwylliant ac arferion gwaith sy'n galluogi Aelodau i gymryd rhan lawn ym mywyd seneddol, heb eithrio personol na straen gormodol.

Rydym yn gweld Senedd â ffyrdd o weithio sy'n rhagweladwy, yn gynhwysol ac yn gyfeillgar i deuluoedd, gan werthfawrogi llesiant, hygyrchedd ac urddas a pharch, ochr yn ochr â gwaith craffu a dadlau. Mae'n ymgorffori cydraddoldeb yn y ffordd y mae busnes y Senedd yn cael ei gynllunio a'i gyflawni, ac mae'n groesawgar ac yn agored i bobl ag amgylchiadau amrywiol a chyfrifoldebau gofalu.

## Cryfderau

*"Mae'r Senedd yn haeddiannol falch o'i hanes o gychwyn a normaleiddio egwyddor arferion gwaith sy'n gyfeillgar i deuluoedd, a adlewyrchir yn ei Rheolau Sefydlog.*

*Mae'r gallu i weithio o bell a'r cyfle i ofyn am bleidlais drwy ddirprwy ar gyfer cyfnodau absenoldeb wedi'u cynllunio o hyd at saith mis, yn golygu bod gan Aelodau hyblygrwydd wrth geisio cyflawni eu cyfrifoldebau i'w pleidiau, eu hetholwyr a'u teuluoedd.*

*Mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol, sy'n pennu cyflog a lwfansau'r Aelodau, yn arwain y ffordd o ran darparu costau gofal plant 'y tu allan i oriau arferol', drwy sicrhau y gellir eu hawlio yn y dyfodol yn ystod Toriadau ac ar benwythnosau, yn ogystal â chyda'r nos. Mae'r Bwrdd hefyd wedi gwella'r ddarpariaeth i ddibynyddion yr Aelodau deithio, yn ogystal â galluogi Aelodau cymwys i ddarparu llety i ddibynyddion ychwanegol yn eu llety yng Nghaerdydd.*

*Gall Aelodau sy'n cymryd absenoldeb rhiant[6] hawlio cost cyflogi aelod ychwanegol o staff er mwyn sicrhau parhad wrth gyflawni*

[6] Mae hyn yn cynnwys absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb tadolaeth cyn genedigaeth plentyn; absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb tadolaeth i ofalu am blentyn o dan 12 mis oed; ac absenoldeb mabwysiadu i ofalu am blentyn yn ystod y 12 mis cyntaf ar ôl mabwysiadu.

> *dyletswyddau'r Aelod (ac eithrio'r rheini sy'n ymwneud â busnes ffurfiol y Senedd) am gyfnod o hyd at 12 mis."*

## Dangosodd y dystiolaeth y canlynol:

- Mae amser yr Aelodau o dan bwysau yn sgil busnes y Senedd, gwaith yr etholaeth a gwaith y blaid.
- Yn ystod y cyfnod y cynhaliwyd yr adolygiad hwn, yn ôl y Rheolau Sefydlog (sef y rheolau sy'n nodi sut y cynhelir busnes), dylai busnes y Senedd ystyried cyfrifoldebau teuluol ac etholaethol yr Aelodau, sy'n golygu peidio â dechrau cyn 09:00 na gorffen ar ôl 18:00. Fodd bynnag, bu cynnydd cyson mewn eisteddiadau hwyr.
- Mae'r Aelodau'n ddeiliaid swyddi cyhoeddus etholedig ymreolaethol. Nid ydynt yn weithwyr i'r Comisiwn. Yn nodedig, adroddodd rhai Aelodau eu bod yn teimlo bod diffyg cyngor clir a chyson ar absenoldeb mamolaeth/ tadolaeth/ mabwysiadu/ camesgoriad, ac fe wnaethant ofyn am ragor o wybodaeth am gynseiliau ar gyfer cymryd absenoldeb. Mae gan bleidiau gwleidyddol rôl allweddol i'w chwarae hefyd wrth roi arweiniad a chefnogaeth i Aelodau ar y mater hwn.
- Nid oedd ambell Aelod yn ymwybodol bod hawliadau am gostau gofalu yn cael eu cyhoeddi ar sail gyfanredol a dienw. Mae eu pryder y byddai'r hawliadau hyn yn y parth cyhoeddus, mewn rhai achosion, wedi'u hatal rhag manteisio ar y cyfleuster hwn.
- Yn ôl yr Aelodau oedd yn brif ofalwyr, fe wnaethant aros hyd nes bod eu plant yn oedolion ifanc, o leiaf, cyn ceisio cael eu hethol i'r Senedd.
- Dywedodd rhai Aelodau eu bod wedi eu synnu a'u siomi nad oes cyfleuster gofal plant ar y safle, ac y byddai cael cyfleuster o'r fath yn neges gref am ymrwymiad y Senedd i ddemocratiaeth gynhwysol. Ni nododd eraill yr angen am gael *crèche* ar y safle, dim ond sôn y dylai fod darpariaeth i ddiwallu anghenion yr Aelodau. Mae Comisiwn y Senedd yn parhau i archwilio'r opsiynau ar gyfer diwallu'r anghenion hyn.
- Roedd nifer o Aelodau'n gwerthfawrogi'r gallu i gymryd rhan ym musnes y Senedd o bell gan ddweud, mewn rhai achosion, mai dyma'r unig ffordd y gallent wneud eu gwaith a chyflawni eu cyfrifoldebau gofalu.

- Cyfeiriodd rhai Aelodau at achosion lle roedd hygyrchedd yr ystad yn annigonol. Roeddent hefyd eisiau mwy o gyngor ynghylch pa fathau o addasiadau rhesymol y gallent eu gwneud ar gyfer eu staff, a sut i sicrhau bod addasiadau rhesymol ar gael mewn cyfarfodydd a digwyddiadau allanol.

- Mae Aelodau'n teimlo o dan bwysau y tro cyntaf iddyn nhw gael eu hethol. Yn ystod yr ychydig wythnosau cyntaf, yn enwedig, mae angen cyflogi staff ar frys, dod o hyd i swyddfa, mynd trwy gyfnod cynefino dwys, a deall gofynion eu rôl newydd.

- Teimlai'r Aelodau fod y rheolau a'u profiad o geisio hawlio treuliau busnes weithiau'n ychwanegu at y pwysau yr oeddent yn ei deimlo.

- Yn ystod cyfnod cynnal yr adolygiad, roedd gwaith ymgynghori'n mynd rhagddo ar gynigion ar gyfer newidiadau i'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau ('y Penderfyniad') gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol. Mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol wedi ymrwymo i werthuso Seithfed Penderfyniad y Senedd, pan fydd wedi'i roi ar waith.

## Beth mae hyn yn ei olygu

- Mae anrhagweladwyedd eisteddiadau hwyr yn ei gwneud hi'n anodd i Aelodau gydbwyso eu cyfrifoldebau gofalu â'u gwaith.

- Mae Aelodau'n ansicr ynghylch beth fyddai'n hyd priodol o amser i'w dreulio ar absenoldeb mamolaeth/ tadolaeth/ mabwysiadu. Mae eu statws fel deiliad swydd gyhoeddus etholedig (yn hytrach na gweithiwr) yn golygu nad oes polisi cynhwysfawr ar waith i Aelodau gyfeirio ato, a gall hyn achosi pryder ychwanegol ar adeg sensitif.

- Mae gallu Aelodau i gymryd rhan ym musnes y Senedd ar-lein wedi profi'n hynod fuddiol wrth eu helpu i fodloni gofynion bywyd gwaith a theuluol, ond teimlai rhai Aelodau fod craffu effeithiol, yn enwedig ar waith Weinidogion y Llywodraeth, yn well yn y cnawd.

- Mynegodd rhai Aelodau bryder y gallai'r rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu sylfaenol, sydd fwyaf tebygol o ddefnyddio cyfleusterau hybrid, golli cyfleoedd rhwydweithio wyneb yn wyneb â chydweithwyr. Gallai hyn ddod yn rhwystr i ddyrchafiad yn y dyfodol.

- Roedd rhai Aelodau'n amharod i hawlio'r costau gofalu y mae ganddynt hawl iddynt, ac oherwydd hynny, efallai y byddant yn cael eu cosbi'n ariannol oherwydd costau ychwanegol o ganlyniad i oriau gwaith hir eu swydd.

## Ein barn a'n hargymhellion ar gyfer gweithredu

**8.** Hoffai'r Bwrdd weld ailddatganiad o ymrwymiad sefydliadol y Senedd i fod yn un sy'n gynhwysol ac yn ystyriol o deuluoedd.

**9.** Nododd y Bwrdd fod yr Aelodau wedi gofyn am fwy o arweiniad ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr â chyfnod addas o absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu. Trafododd y Bwrdd, hefyd, yr angen i Aelodau allu cymryd absenoldeb yn sgil camesgoriad. Ar hyn o bryd, nid oes un 'polisi absenoldeb rhiant' ar gyfer Aelodau, fel mewn sefydliadau sector cyhoeddus eraill, gan nad ydynt yn 'weithwyr cyflogedig'. Er enghraifft, mae Aelodau wedi gofyn am gael amcan o hyd yr amser y mae eraill wedi'i gymryd fel seibiant, fel dangosydd o'r hyn sy'n dderbyniol.

**10.** Mae lle yma i grwpiau gwleidyddol, sydd hefyd yn cyflawni rôl llesiant i'w Haelodau, ddod ynghyd â gwneuthurwyr penderfyniadau eraill, megis y Bwrdd Taliadau Annibynnol (sy'n pennu cyflog a lwfansau'r Aelodau) y Pwyllgor Busnes (sy'n penderfynu ar y rheolau, megis y rheini ar Bleidleisio drwy Ddirprwy), a gwasanaethau Comisiwn y Senedd (sy'n rhoi cyngor iechyd a diogelwch i ystyried a chytuno ar ganllawiau). At hynny, gall Prif Chwipiaid (yn wahanol i Reolwyr Busnes) pleidiau gwleidyddol chwarae rhan bwysig wrth gefnogi llesiant yr Aelodau, ond byddai'r rôl yn elwa o gael ei diffinio'n gliriach i hwyluso'r broses o rannu arfer da a'i deall.

**11.** Nododd y Bwrdd y ffyrdd y mae arferion gwaith y Senedd yn galluogi Aelodau i gydbwyso eu hymrwymiadau niferus ac ymdopi â'r oriau gwaith hir. Yn ddiamheuol, mae defnyddio gweithio hybrid wedi bod o fudd i rieni a gofalwyr, yn enwedig gyda'r cynnydd mewn eisteddiadau hwyr yn ystod y Chweched Senedd.

**12.** Hyd yn oed gyda'r gallu i weithio o bell, hawlio costau gofal a theithio a llety i ddibynyddion, a gofyn am bleidlais drwy ddirprwy, mae diwylliant o oriau gwaith hwy a hwyrach yn herio gallu Aelodau i gyflawni eu cyfrifoldebau personol a phroffesiynol yn gyfartal.

**13.** Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod rhai gweithdrefnau ac arferion da eisoes yn bodoli mewn perthynas â phleidleisio mewn parau a thrwy ddirprwy, ac o'r farn ei

bod yn angenrheidiol mynd i'r afael â'r amgylchiad ehangach lle mae angen i Aelodau adael y Cyfarfod Llawn ar fyr rybudd yn sgil argyfwng personol. Ni ddylai canlyniad pleidlais ddibynnu ar a allai'r Aelod hwnnw baru ag Aelod arall ar fyr rybudd.

**14.** Mae gwasanaethau Comisiwn y Senedd yn darparu canllawiau i Aelodau ynghylch eu rôl a'u llawer o gyfrifoldebau, gan gynnwys fel cyflogwyr. Maent yn ymgysylltu'n helaeth ag Aelodau fel rhan o'r broses sefydlu i'w cefnogi i ddeall eu rolau a chynnig cefnogaeth a hyfforddiant parhaus. Mae Prif Weithredwr a Chlerc y Comisiwn wedi croesawu'r dystiolaeth a gasglwyd yn yr adolygiad hwn fel cyfle i helpu gwasanaethau Comisiwn y Senedd yn eu tasg ddyddiol o ddarparu canllawiau a chymorth o'r fath i Aelodau.

**15.** Nodwn fod gwasanaethau Comisiwn y Senedd wedi gwrando ar adborth yr Aelodau ar yr anhawster o wybod gyda phwy i siarad ar rai materion, a'u bod yn sefydlu Hwb yr Aelodau i ddarparu cefnogaeth bersonol ar gyfer cyfeirio ymholiadau Aelodau i'r lle cywir, fel y gallant gael mynediad at y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt yn haws.

**16.** Cyfrifoldeb gwasanaethau Comisiwn y Senedd yw cyhoeddi hawliadau'r Aelodau am eu costau busnes. Er mwyn sicrhau nad yw Aelodau mewn sefyllfa waeth yn ariannol o ganlyniad i gostau gofalu ychwanegol ar gyfer eisteddiadau hwyr, rydym yn argymell bod gwasanaethau Comisiwn y Senedd yn parhau i sicrhau bod hawliadau gofalu yn ddienw ac yn gyfanredol er mwyn osgoi adnabod unigolion.

**17.** Byddai darparu gofal plant ar y safle, gan gynnwys darpariaeth ad hoc ar gyfer ymwelwyr â'r adeilad a thystion pwyllgorau, ac ystafell bwrpasol ar gyfer bwydo ar y fron, yn arwydd o'r math o sefydliad yr ydym am fod – man cynhwysol sy'n croesawu plant. Nodwn fod yr Undeb Rhyngseneddol wedi argymell y dylai adeiladau seneddol gynnwys ystafelloedd arbennig ar gyfer mamau sy'n bwydo ar y fron, canolfan gofal plant neu ystafell deulu.[7] Rydym yn croesawu'r gwaith parhaus y mae Comisiwn y Senedd yn ei gynnal i ystyried opsiynau ar gyfer gofal plant.

**18.** Yn yr un modd, mae hygyrchedd yr ystad i Aelodau, staff ac ymwelwyr o'r pwys mwyaf. Rydym o'r farn bod yn rhaid mynd i'r afael yn rhagweithiol â phryderon ynghylch diffyg eglurder o ran addasiadau rhesymol ar gyfer

[7] Gwerthuso sensitifrwydd seneddau o ran rhywedd: Pecyn cymorth hunanasesu | Yr Undeb Rhyngseneddol

digwyddiadau etholaethol, gan sicrhau bod swyddfeydd a'r ystad yn gwbl hygyrch.

**19.** Mae adborth ar y Penderfyniad a gofynion y swydd yn yr wythnosau cynnar ill dau yn feysydd lle mae gwasanaethau Comisiwn y Senedd a'r Bwrdd Taliadau Annibynnol wedi gwrando ar Aelodau, ac wedi rhoi newidiadau ar waith o ganlyniad, cyn y Seithfed Senedd. Mae'r Bwrdd yn nodi ymrwymiad Comisiwn y Senedd i werthuso effeithiolrwydd Hwb yr Aelodau.

**20.** Mae'r Bwrdd hefyd yn nodi nad oedd ambell Aelod a gymerodd ran yn yr ymchwil yn ymwybodol, o bosibl, o rai newidiadau polisi allweddol i'r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd y bydd y Bwrdd Taliadau Annibynnol yn eu cwblhau yng Ngwanwyn 2026.

**21.** O ganlyniad, mae'r Bwrdd yn croesawu ymrwymiad y Bwrdd Taliadau Annibynnol i werthuso Penderfyniad y Seithfed Senedd, ar ôl ei roi ar waith, ac yn ei annog i ystyried cydraddoldebau fel rhan allweddol o'i adolygiad. Mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol yn statudol annibynnol ar y Senedd ac nid yw'n ddarostyngedig i'w chyfarwyddyd, na chyfarwyddyd Comisiwn y Senedd. Fodd bynnag, rydym yn annog bwrdd gweithredu'r Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd i ymgysylltu â'r Bwrdd Taliadau, wrth iddo werthuso effaith ei newidiadau i'r Penderfyniad. Byddwn yn rhannu crynodeb o dystiolaeth profiadau'r Aelodau a gasglwyd gan yr academyddion yn ystod yr Adolygiad hwn gyda'r Bwrdd Taliadau Annibynnol i lywio ei werthusiad.

**Argymhelliad 13.** Dylai'r Senedd ymrwymo i'r egwyddor o Senedd fel sefydliad sy'n hygyrch, yn gynhwysol ac yn ystyriol o deuluoedd.

**Argymhelliad 14.** Dylai'r Pwyllgor Busnes ddiogelu'r dewis i gymryd rhan yn rithwir ym Musnes y Senedd yn y Senedd nesaf, gan gadarnhau bod gan hynny yr un gwerth â bod yno yn y cnawd. Dylid monitro a yw'r defnydd o weithio hybrid yn effeithio ar allu menywod i gael dyrchafiad.[8]

**Argymhelliad 15.** Dylai'r Pwyllgor Busnes a'r Llywydd gynnwys, yn weithredol, Bwrdd Gweithredu'r Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd mewn trafodaethau ar gynigion diwygio'r Seithfed Senedd, er mwyn

[8] Cytunodd un Aelod, Peter Fox AS, â'r argymhelliad ond teimlai mai cynnal busnes y Senedd yn y cnawd ddylai fod y sefyllfa ddiofyn. Yn ei farn ef, byddai hyn yn bodloni disgwyliadau'r cyhoedd yn well ac yn cydnabod gwerth rhyngweithio personol yn amgylchedd y Senedd. Ei farn ef yw y dylai Aelodau allu cymryd rhan yn rhithiol pan fydd angen a phan fydd hynny'n syrthio o fewn set dderbyniol o resymau. Pan fydd hyn yn wir, dylid trin cyfranogiad yn y cnawd ac ar-lein yn gyfartal.

sicrhau eu bod yn cael eu hasesu o ran effaith ar gydraddoldeb, cyn eu cyflwyno i'r Senedd i benderfynu arnynt. Byddai hyn yn cynnwys cynigion ar gynllunio'r wythnos fusnes, treialon rhannu swyddi a newidiadau eraill i'r ffordd y mae'r Aelodau yn cynnal busnes. Dylai unrhyw newidiadau sylweddol fod yn destun 'profion senario' o safbwynt hyrwyddo arferion gweithio sy'n gynhwysol ac yn ystyriol o deuluoedd.

**Argymhelliad 16.** Dylai'r Pwyllgor Busnes bennu amser gorffen rhagweladwy, sy'n ystyriol o deuluoedd, ar gyfer y Cyfarfod Llawn. Dylai gwyriadau oddi wrth yr amser gorffen hwn fod yn eithriadol, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i Aelodau os yw sesiynau'n debygol o redeg y tu hwnt i'r amser hwn. Dylai fod darpariaeth ar gyfer cynnal busnes nas cyflawnwyd erbyn diwedd un Cyfarfod Llawn yn yr un nesaf. Dylai'r Pwyllgor Busnes adolygu data ar amseroedd gorffen y Cyfarfod Llawn, yn enwedig eisteddiadau hwyr, yn rheolaidd. Dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried hynny ochr yn ochr â'r data monitro cyfranogiad yn y Cyfarfodydd Llawn er mwyn galluogi ystyriaeth o effaith amseriad y cyfarfodydd llawn ar gyfranogiad.

**Argymhelliad 17.** Dylai'r Pwyllgor Busnes sefydlu gweithdrefn i Aelodau sy'n gadael y Cyfarfod Llawn mewn argyfwng (gyda diffiniad penodol o'r hyn sy'n cyfrif fel argyfwng). Os bydd yn rhaid i Aelod adael mewn argyfwng, ni ddylai canlyniad pleidlais ddibynnu ar allu'r Aelod hwnnw i baru ag Aelod arall ar fyr rybudd.

**Argymhelliad 18.** Gwahoddir y Llywydd a'r Pwyllgor Busnes i ystyried cyflwyno eitem 'Cyhoeddiadau' rheolaidd ar yr agenda ar ddechrau pob Cyfarfod Llawn a fyddai'n rhoi mwy o welededd i'r hyn a allai fod yn digwydd ym mywydau personol yr Aelodau. Mae hyn yn arfer cyffredin mewn llywodraeth leol ac yn rhoi cyfle i gydymdeimlo, llongyfarch, a chydnabod materion personol eraill.

**Argymhelliad 19.** Dylai'r Pwyllgor Busnes, mewn cydweithrediad â grwpiau gwleidyddol, ddatblygu diffiniad o rôl Prif Chwip (yn wahanol i Reolwr Busnes). Gall hyn gynnwys materion megis cynllunio deddfwriaethol, disgyblaeth seneddol a chefnogi llesiant Aelodau eu grŵp.

**Argymhelliad 20.** Dylai Comisiwn y Senedd:

- ystyried crynodeb o'r dystiolaeth a gasglwyd yn yr adolygiad hwn sy'n ymwneud â phrofiadau Aelodau o geisio ad-daliad o gostau o dan y Penderfyniad, eu dealltwriaeth o'r rheolau, ac ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r materion a godwyd ar y cyd â'r Bwrdd Taliadau Annibynnol;

- ymgymryd â theithiau profiad Aelodau yn rheolaidd, megis y rheini a gynhaliwyd yn gynnar yn y Chweched Senedd, er mwyn deall profiadau bywyd yr Aelodau, a nodi meysydd sy'n peri anhawster i Aelodau a'r hyn a allai fod yn achosi'r rheini; a hefyd
- parhau i sicrhau bod hawliadau sy'n ymwneud â chyfrifoldebau gofalu yn cael eu cyhoeddi ar sail gyfanredol a dienw, er mwyn osgoi adnabod unigolion ac i ystyried materion cydraddoldeb wrth benderfynu ar y polisi sy'n ymwneud â chyhoeddi costau.

**Argymhelliad 21.** Dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd barhau i fabwysiadu dull rhagweithiol o ddarparu canllawiau a chymorth ar:

- sefydlu swyddfeydd a chyflogi staff;
- darparu addasiadau rhesymol yn adeiladau'r Senedd, mewn digwyddiadau ac yn swyddfeydd yr Aelodau.

**Argymhelliad 22.** Dylai Comisiwn y Senedd ymrwymo i egwyddor darpariaeth gofal plant yn y Senedd i Aelodau, staff a thystion a hefyd – erbyn o leiaf blwyddyn gyntaf y Seithfed Senedd – dylai fod wedi archwilio a datblygu pob opsiwn. Dylai fod ystafell bwrpasol ar gyfer bwydo ar y fron.

**Argymhelliad 23.** Yn seiliedig ar gynnig gan y Llywydd, dylai'r Senedd gadarnhau polisi absenoldeb rhiant, sy'n cwmpasu absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu a chamesgoriad. Byddai hynny'n seiliedig ar y canlynol:

- trafodaeth rhwng grwpiau gwleidyddol, ac
- wedi'u llywio gan:
    - ystyriaeth y Pwyllgor Busnes,
    - trafodaeth gyda'r Bwrdd Taliadau Annibynnol; a hefyd
    - arfer gorau sydd wedi'i nodi gan wasanaethau Comisiwn y Senedd o ran absenoldebau, gan gynnwys yr arfer mewn Seneddau eraill.

Byddai'r polisi hwn yn:

- cwmpasu'r modd y mae'r trefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer Aelodau beichiog yn cael eu cynnwys mewn perthynas â gweithio yn y

Senedd a thu allan iddi, gan gynnwys unrhyw eiddo, staff neu wasanaethau sy'n ofynnol;

- rhoi canllawiau i Aelodau wrth benderfynu ar hyd priodol absenoldebau a threfniadau eraill; a hefyd
- cwmpasu materion gweithdrefnol perthnasol presennol megis pleidleisio drwy ddirprwy – gan gynnwys yr amser hwyaf sydd ar gael i bleidleisio drwy ddirprwy.

**Argymhelliad 24.** Yn dilyn cytundeb ar y polisi hwn, dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd sicrhau bod gwybodaeth a chanllawiau arno ar gael i Aelodau, a chymryd camau i'w gyhoeddi. Dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd hefyd ddarparu ar gyfer person/personau y gall Aelodau gysylltu â hwy i gael arweiniad ar faterion sensitif sy'n ymwneud â'r polisi hwn. Dylai Aelodau hefyd allu ceisio arweiniad ar agweddau perthnasol ar Benderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol (megis y lwfans ar gyfer staff ychwanegol i gwmpasu gwaith).

**Argymhelliad 25.** Os sefydlir pwyllgor o dan adran 7 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), i archwilio'r posibilrwydd o rannu swyddi yn y dyfodol, dylai archwilio'r potensial i Aelod Locwm allu ymgymryd â holl ystod gwaith Aelod, gan gynnwys busnes y Senedd, tra nad yw Aelod ar gael.

**Argymhelliad 26.** Dylai Comisiwn y Senedd gynnal cyfweliadau neu arolwg gyda phob Aelod sydd wedi ymddiswyddo neu nad ydynt wedi dychwelyd i'r Seithfed Senedd yn ystod haf 2026. Dylai hyn gynnwys cwestiynau ynghylch eu profiadau o drais, cam-drin ac aflonyddu, ac archwilio'r ffactorau a ddylanwadodd ar eu penderfyniadau i beidio ag ailsefyll, gan gynnwys unrhyw gyfrifoldebau gofalu.

# 3. Cam-drin Aelodau

## Ein gweledigaeth

Rydym yn gweld Senedd lle gall Aelodau a phobl sy'n sefyll mewn etholiad gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol yn ddiogel, yn hyderus a heb ofni cael eu cam-drin, eu bygwth na'u haflonyddu.

## Cryfderau

> *"Roedd yr Aelodau'n gwerthfawrogi'r cyngor a'r mesurau diogelwch a ddarparwyd gan Gomisiwn y Senedd a'r heddlu. Darperir offer diogelwch personol i Aelodau, megis larymau, camerâu, gwydr ffenestr swyddfa unffordd a drysau diogel. Gallant gael asesiadau o'u cartrefi a'u swyddfeydd a gallant gael eu hebrwng gan bersonél diogelwch mewn digwyddiadau cyhoeddus.*
>
> *Mae Comisiwn y Senedd yn cynnal prosiect peilot i fonitro cam-drin ar-lein. Nid oes rhaid i gyfranogwyr a'u staff roi gwybod am gam-drin ar-lein, mae eu cyfryngau cymdeithasol yn cael eu monitro, mae'r feddalwedd a ddefnyddir yn olrhain camdrinwyr parhaus ac mae'r heddlu'n delio â bygythiadau sy'n bodloni'r diffiniad o weithgarwch troseddol.*
>
> *Mae'n ofynnol i bob Aelod ddilyn Cod Ymddygiad yn ystod oriau gwaith, a'r tu allan iddynt."*

## Dangosodd y dystiolaeth y canlynol:

- Adroddodd Aelodau eu bod wedi cael eu gam-drin wyneb yn wyneb ac ar-lein gan y cyhoedd. Soniodd bron pob Aelod presennol a gyfwelwyd eu bod wedi profi rhyw fath o gam-drin neu aflonyddu ar-lein, neu eu bod yn adnabod rhywun a oedd wedi profi hyn.

- Roedd y cam-drin wyneb yn wyneb yn cynnwys difrod i eiddo, aflonyddu a tharfu ar ddigwyddiadau.

- I Aelodau benywaidd, mae'r cam-drin yn aml yn seiliedig ar rywedd, yn fwy cyffredin a pharhaus (mae hyn yn cynnwys bygythiadau o dreisio neu gam-drin yn seiliedig ar eu hymddangosiad neu eu dillad).
- Adroddodd Aelodau fod menywod, pobl ifanc, a phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig wedi dweud wrthynt eu bod yn arbennig o bryderus y byddent yn cael eu cam-drin pe byddent yn dod yn wleidyddion a bod hynny'n eu hatal rhag sefyll.
- Mae Aelodau'n teimlo bod yn rhaid iddynt fod yn wydn yn wyneb camdriniaeth o'r fath, er mwyn ei israddio fel 'y gost o wleidydda'.
- Effeithir hefyd ar deuluoedd Aelodau. Mae Aelodau'n poeni y bydd eu plant yn dioddef aflonyddu neu fwlio yn yr ysgol, neu'n gweld eu rhiant yn profi camdriniaeth ar-lein.
- Mae gan staff yr Aelodau sedd flaen wrth ddod i gysylltiad â'r cam-drin hwn: Maent yn darllen, yn monitro ac yn sgrinio'r hyn sy'n cael ei roi ar y cyfryngau cymdeithasol, ac yn agor negeseuon e-bost camdriniol. Gallai hyn effeithio'n sylweddol ar eu hiechyd meddwl.
- Adroddodd rhai Aelodau hefyd am gam-drin ac aflonyddu gan Aelodau eraill a staff cymorth, gan gynnwys digwyddiadau pan ystyriwyd bod Aelodau eraill wedi 'mynd yn rhy bell' o ran eu hiaith a'u hymddygiad. Cydnabuwyd bod cydbwysedd rhwng y gofyniad am ryddid barn a sicrhau bod rheolau urddas a pharch yn cael eu cynnal (trafodir a chyfeirir at hyn hefyd ym Mhennod 2 ac Argymhelliad 11).

## Beth mae hyn yn ei olygu

- Mae nifer yr achosion o gam-drin wedi gorfodi rhai Aelodau i newid eu ffyrdd o weithio, a'u penderfyniadau yn eu bywydau cymdeithasol personol. Siaradodd nifer o'r rheini a gyfwelwyd am beidio â hysbysebu, mwyach, ble byddent ar gyfer digwyddiadau neu ymrwymiadau cyhoeddus, a dywedodd llawer nad ydynt, erbyn hyn, yn cynnal cymorthfeydd galw heibio wyneb yn wyneb yn eu hetholaethau.
- Adroddodd Aelodau hefyd y teimlent eu bod yn fwy tebygol o gael eu cam-drin, yn enwedig ar-lein, pan fyddent yn siarad yn gyhoeddus ar faterion a meysydd sy'n ymwneud â pholisi cydraddoldeb, neu'n eu hyrwyddo.

- Yn aml, nid yw staff yr Aelodau wedi paratoi ar gyfer natur y cynnwys, gan arwain at straen a phryder na ellir ei gyfiawnhau yn eu rôl.
- Nid yw cam-drin ar-lein yn parchu oriau gwaith arferol, ac mae'r angen i wirio cyfryngau cymdeithasol ar yr aelwyd yn golygu ei fod yn effeithio ar lesiant yr aelwyd gyfan.
- Mewn rhai achosion, roedd y profiad wedi dylanwadu ar benderfyniad yr Aelodau o ran sefyll eto mewn etholiad. Yn achos o leiaf un Aelod, roedd hyd a lled y camdriniaeth wedi bod yn ganolog i'w phenderfyniad i beidio â sefyll eto mewn etholiad. Dangosodd y data fod hynny wedi bod yn rhan o'r penderfyniadau i roi'r gorau i'r sedd, sy'n golygu ein bod mewn perygl o golli gwleidyddion profiadol.
- Mae hyn yn cael effaith negyddol ar amrywiaeth y rheini sy'n dewis ymwneud â gwleidyddiaeth.

## Ein barn a'n hargymhellion ar gyfer gweithredu

**22.** Mae'r Bwrdd yn bryderus iawn bod yr holl Aelodau a gymerodd ran yn yr adolygiad wedi profi cam-drin ar-lein, a bod llawer hefyd wedi profi cam-drin wyneb yn wyneb. Cymaint yw hyd a lled y cam-drin nes bod yr Aelodau wedi eu dadsensiteiddio iddo, wedi'i normaleiddio, ac yn ei ystyried yn rhan anochel o'u rolau.

**23.** Dyma oedd y maes a oedd yn peri'r pryder mwyaf i'r Bwrdd. Ni ddylid disgwyl i unrhyw un oddef bygythiadau a phryder fel rhan o'i swydd. Rydym yn cydnabod perygl y gallai hynny arwain at ddirywiad yn ansawdd a chwmpas dadl wleidyddol, a bod hyn yn bygwth ein democratiaeth.

**24.** Mae'r Bwrdd yn croesawu ymrwymiad Comisiwn y Senedd i gefnogi Aelodau i fynd i'r afael â cham-drin ar-lein, drwy ei werthusiad o'r cynllun peilot, a thrwy ddysgu o brosesau seneddol effeithiol mewn mannau eraill. Mae'r Bwrdd yn gwneud argymhelliad i sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn y Senedd nesaf o dan arweinyddiaeth Comisiwn newydd. Mae'r Bwrdd wedi'i galonogi bod Gwasanaethau Comisiwn y Senedd wedi ymestyn y cynllun peilot ac, o ganlyniad, na fydd bwlch yn y gwaith o fonitro cyfryngau cymdeithasol rhwng diwedd y Chweched Senedd a dechrau'r Seithfed Senedd.

**Argymhelliad 27.** Bod cynnig yn cael ei gyflwyno yn y Senedd nesaf, gan y Llywydd (neu aelod arweiniol arall), i roi cyfarwyddiadau i'r perwyl bod yn rhaid i

Gomisiwn y Senedd fynd i'r afael â cham-drin Aelodau ar-lein, ac adrodd i'r Senedd ar effeithiolrwydd ei ddull yn flynyddol. Rhaid i hyn gynnwys monitro cyfryngau cymdeithasol a/neu asesiadau o fregusrwydd ar-lein, a dylai gadw i fyny ag arloesiadau technolegol. Dylai gwmpasu nodi camdriniaeth sy'n is na'r trothwy 'bygythiol' – ond sy'n dal i fod yn gamdriniol ac yn fygythiad i ddemocratiaeth – a mynd i'r afael â hynny.

**Argymhelliad 28.** Dylai Comisiwn y Senedd ystyried sut i adeiladu ar ei ddull ataliol o ymdrin â diogelwch. Byddai hynny'n cynnwys adolygu ei ddarpariaethau a'i brotocolau diogelwch yn unol â chynnig y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar gyfer rôl Gwarcheidwad. Byddai'n cynnwys sicrhau bod canllawiau clir a chyson ar gael yn rhwydd i Aelodau i gynorthwyo eu dealltwriaeth o brosesau ar gyfer adrodd, atal ac ymateb i gam-drin all-lein ac ar-lein, a thrais gan y cyhoedd. Mae hefyd yn hanfodol bod cyfathrebiadau ynghylch diogelwch yn mynd at bob Aelod.

**Argymhelliad 29.** Dylai Bwrdd Gweithredu'r Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd ymgysylltu â'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a'i olynydd yn y Senedd nesaf, yn enwedig mewn perthynas â'r canlynol:

- y cynnig ar gyfer un pwynt cyswllt ar gyfer canllawiau, cyngor a chymorth ymarferol sy'n ymwneud â phob math o aflonyddu a cham-drin, (gan y cyhoedd a'r rheini yn y Senedd) ar gyfer Aelodau, Staff Cymorth a staff y Comisiwn;
- y cynigion ar gyfer "Rôl Gwarcheidwad", cynghorydd lled-annibynnol (tebyg i fodel y GIG) ar gyfer urddas a pharch; a hefyd
- y gwerthusiad o "Hwb yr Aelodau" a fydd yn cael ei gynnal gan Gomisiwn y Senedd.

**Argymhelliad 30.** Dylai Comisiwn y Senedd sefydlu Tasglu 'Cyfranogiad Diogel mewn Gwleidyddiaeth'[9] i oruchwylio a chomisiynu gwaith parhaus ynghylch cam-drin ac aflonyddu Aelodau. Dylai'r Tasglu:

- gomisiynu adolygiad ac adroddiad annibynnol ar gam-drin ac aflonyddu Aelodau o'r Senedd a'u staff gwleidyddol, a monitro ac adrodd yn barhaus ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â cham-drin Aelodau ar-

[9] Rydym yn rhagweld y byddai'n cynnwys Aelodau o'r Senedd, Staff Comisiwn y Senedd (gan gynnwys Diogelwch y Senedd), Staff Gwleidyddol, arbenigwyr allanol, heddluoedd Cymru, a chyfranwyr allweddol eraill.

lein, gan gynnwys data a gasglwyd wrth fonitro cyfryngau cymdeithasol fel rhan o'r prosiect peilot; a hefyd

- gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol i asesu'r difrod a berir gan drais, cam-drin ac aflonyddu gwleidyddion, i ymgysylltu â'r cyhoedd ac, yn ei dro, i ddemocratiaeth.

- gweithio gyda Bwrdd Gweithredu'r Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd, y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a Chomisiwn y Senedd i gynghori ar 'Bolisi Ymddygiad Annerbyniol Dinasyddion' a 'Pholisi Cyfryngau Cymdeithasol' sydd ar gael i'r cyhoedd.[10] Dylai ystyried sut y byddai'r rhain yn cael eu gorfodi, fel bod dinasyddion sy'n cam-drin Aelodau yn wynebu canlyniadau am eu gweithredoedd.

[10] Mae Comisiwn y Senedd yn cyhoeddi rheolau cyfryngau cymdeithasol ar wefan y Senedd sy'n berthnasol wrth osod unrhyw beth ar unrhyw un o'r sianeli cyfryngau cymdeithasol y mae Comisiwn y Senedd yn gyfrifol amdanynt.
https://senedd.cymru/cymorth/canllawiau-cymunedol-cyfryngau-cymdeithasol/

# 4. Prif ffrydio cydraddoldeb

## Ein gweledigaeth

Rydym yn gweld Senedd sy'n arweinydd byd-eang o ran prif ffrydio cydraddoldeb. Gyda strwythurau, tystiolaeth ac arweinyddiaeth gref, mae'n gosod cydraddoldeb yn systematig wrth wraidd gwaith craffu, a deddfu. Mae'r Senedd yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau mwy cyfartal i bobl Cymru drwy ystyried yr anghenion, y profiadau a'r canlyniadau gwahanol ar gyfer gwahanol bobl wrth wneud deddfau a chynnal gwaith craffu ar gamau gweithredu a gwariant y llywodraeth.

## Cryfderau

> *"Mae gan y Senedd ffordd unigryw Gymreig o hyrwyddo cydraddoldeb drwy brif ffrydio. Roedd y ddeddfwriaeth a oedd yn sail i ddatganoli yn ymgorffori'r egwyddor o hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb. Mae'r dull o brif ffrydio cydraddoldeb yng Nghymru yn un rhagweithiol – mae'n ceisio hyrwyddo cydraddoldeb yn ystod y broses gwneud penderfyniadau gyfan, yn hytrach nag effeithiau negyddol wedi hynny.*
>
> *Mae Ymchwil y Senedd yn darparu hyfforddiant, canllawiau a dadansoddiadau ad hoc ar ystyriaethau cydraddoldeb i bwyllgorau craffu ac Aelodau."*

## Dangosodd y dystiolaeth y canlynol:

- Ar hyn o bryd, nid yw Aelodau'n ystyried cydraddoldeb mewn modd systematig ar draws yr holl waith craffu a dadleuon.
- Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi bod yn hanfodol i hyrwyddo agenda cydraddoldeb. Nid yw sefydlu pwyllgor annibynnol gyda'r cyfrifoldeb hwn yn ofynnol, ar hyn o bryd, yn Rheolau Sefydlog y Senedd, yn wahanol i seneddau'r Alban a seneddau eraill, er bod yn rhaid i'r portffolio hwn fod o fewn cylch gwaith pwyllgor y Senedd.

- Nid yw strwythurau eraill sy'n bodoli i gefnogi prif ffrydio cydraddoldeb mewn goruchwylio a deddfu (megis y Cawcws Menywod, a Grwpiau Trawsbleidiol) yn orfodol ac mae eu bodolaeth yn dibynnu ar benderfyniadau gan Aelodau o'r Senedd a swyddogion. O ganlyniad, mae gwaith craffu ar faterion cydraddoldeb yn dibynnu'n fawr ar unigolion ymroddedig a chynghreiriau anffurfiol.
- Mae Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb yn cyd-fynd â phob un o Filiau'r Senedd. Fodd bynnag, yn aml nid yw'r rhain ar gael pan osodir Bil ac yna pan gânt eu hystyried gan Aelodau, gallant fod yn brin o ran dyfnder, a hyd a lled.
- Roedd yr Aelodau'n gwerthfawrogi'r briffiau sydd ar gael gan Gomisiwn y Senedd i gefnogi eu gwaith craffu.
- Mae angen data cydraddoldeb wedi'u dadgyfuno sy'n berthnasol i bolisi ar gyfer Cymru.

## Beth mae hyn yn ei olygu

- Ar hyn o bryd nid oes gofyniad sefydliadol, na chefnogaeth sefydliadol digonol, i Aelodau ystyried cydraddoldeb yn eu gwaith craffu neu yn eu dadleuon.
- Nid yw'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb sy'n cyd-fynd â Biliau fel arfer yn cael yr un lefel o sylw gan y pwyllgor perthnasol ag y mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ei gael gan y Pwyllgor Cyllid.
- Nododd Aelodau y gall Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull ticio blychau i gwblhau ymarferion cydymffurfio yn hytrach na dull egwyddorol wrth wneud penderfyniadau ynghylch cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus.[11]
- Mae Aelodau o'r farn y byddent yn buddio o gael mynediad at hyfforddiant rheolaidd a chyson ar brif ffrydio cydraddoldeb, gan gynnwys sut i ddefnyddio offer cyllidebu rhywedd fel asesiadau buddiolwyr rhywedd, yn ogystal â'r model cymdeithasol o anabledd a dulliau gwrth-hiliol.

[11] Ni chydymffurfiodd Llywodraeth Cymru â chyfraith cydraddoldebau, yn ôl rheoleiddiwr | Y Comisiwn Cydraddoldebau a Hawliau Dynol

## Ein barn a'n hargymhellion ar gyfer gweithredu

**25.** Barn y Bwrdd yw y dylai cydraddoldeb fod yn egwyddor sefydliadol graidd a adlewyrchir mewn strwythurau, rheolau sefydlog, gwaith pwyllgorau a mynediad at dystiolaeth. Drwy gryfhau arweinyddiaeth, data, arbenigedd ac atebolrwydd, mae'r Senedd yn sicrhau bod deddfau, polisïau a gwariant cyhoeddus yn cael eu craffu drwy lens cydraddoldeb croestoriadol, gan gyfrannu at ganlyniadau mwy cyfartal i bobl Cymru.

**26.** Canfu'r adolygiad, er bod gan yr Aelodau fynediad at rywfaint o arbenigedd mewnol o ansawdd uchel, y gellir gwella gwaith craffu trwy well mynediad at ddata wedi'i ddadgyfuno. Byddai darparu hyfforddiant rheolaidd i Aelodau, gan gynnwys ar offer megis cyllidebu rhywedd gan gynnwys asesiadau buddiolwyr, yn ogystal â'r model cymdeithasol o anabledd a dulliau gwrth-hiliol, yn galluogi Aelodau i sicrhau'n llawn bod eu gwaith craffu'n cyfrannu at ganlyniadau mwy cyfartal.

**27.** Eto i gyd, er ei bod yn hanfodol bod gan un pwyllgor ffocws penodol ar gydraddoldebau, mae hefyd yn hanfodol bod pob pwyllgor yn ymwneud â'r mater trawsbynciol hwn. O ganlyniad, rydym hefyd o'r farn y dylid prif ffrydio craffu ar faterion cydraddoldeb ar draws pwyllgorau, nid ei ystyried yn gyfrifoldeb pwyllgor cydraddoldeb yn unig. Byddai hyn yn sicrhau bod effaith polisïau, gwariant a chyfreithiau'r llywodraeth ar wahanol grwpiau o bobl yn cael ei hystyried ym mhob maes pwnc, yn enwedig y rheini lle nad yw materion cydraddoldeb yn amlwg ar unwaith – megis amaethyddiaeth, trethiant neu ddatblygiad economaidd. Rydym yn cydnabod y bydd pwyllgorau unigol yn dymuno pennu eu blaenoriaethau eu hunain, gan ystyried meysydd o ddiddordeb sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, rydym o'r farn y dylai pob pwyllgor fabwysiadu model prif ffrydio cydraddoldeb a fydd yn eu cynorthwyo i hyrwyddo cydraddoldeb ar sail croestoriad, a gwella ymgysylltiad drwy gydweithio â sefydliadau cydraddoldeb, y melinau trafod perthnasol ar gyfer y maes polisi dan sylw, a busnesau, undebau llafur ac academyddion, yn ôl yr angen, i weithio ar ymholiadau sy'n canolbwyntio ar atebion.

**28.** Er enghraifft, rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried gosod dyletswydd benodol i brif ffrydio cydraddoldeb ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn debyg i'r ddyletswydd yn yr Alban sy'n nodi dull egwyddorol o ran arweinyddiaeth, diwylliant a gweithrediadau sefydliadol a all wella'r ddarpariaeth yn erbyn Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus mewn modd cadarnhaol.

Mae'r dull hwn yn ceisio mesur canlyniadau, yn hytrach na phrosesau sy'n sbarduno gwelliannau trwy gamau gweithredu.

**29.** Pan ddaw'n fater o wreiddio prif ffrydio sefydliadol, rydym o'r farn y dylai bodolaeth pwyllgor cydraddoldeb annibynnol fod yn ofynnol yn y Rheolau Sefydlog (yn unol â'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 19 ar gyfer pwyllgor sy'n gyfrifol am Gyllid). Ni ddylai cydraddoldebau gael ei gyfuno â meysydd polisi mawr eraill, gan fod hynny mewn perygl o wasgu gwaith craffu ar faterion cydraddoldeb trawsbynciol.

**30.** Yn yr un modd, er mwyn gwella'r strwythurau sefydliadol sy'n sail i brif ffrydio, rydym yn argymell ffurfioli'r Cawcws Menywod.

**31.** Bydd cyflawni'r argymhellion hyn, sy'n ymwneud ag Aelodau o'r Senedd, yn haws gyda pharhad yr arweinyddiaeth wrth hyrwyddo materion cydraddoldeb y mae Comisiynwyr y Senedd wedi'i ddangos mewn Seneddau diweddar. Bydd gweithredu a hyrwyddo'r canlyniadau yr oedd y Bwrdd yn dymuno eu gweld yn buddio o gael hyrwyddwr. Am y rheswm hwnnw rydym yn argymell y dylai Comisiwn y Senedd barhau i benderfynu bod gan un Comisiynydd gyfrifoldeb dros gyfle cyfartal yn y dyfodol.

**32.** Yn yr un modd, er mwyn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn sail i holl fusnes y Senedd, dylai'r rheini sy'n cefnogi Aelodau i ymgysylltu â'r busnes hwnnw hefyd fuddio o arweinyddiaeth weladwy. Mae'r Bwrdd yn argymell bod un o Uwch Swyddogion y Comisiwn yn cael ei ddynodi i arwain gwaith gwasanaethau Comisiwn y Senedd ar brif ffrydio cydraddoldeb.

**Argymhelliad 31.** Dylai pob Pwyllgor gynnal gwaith craffu rheolaidd ar dystiolaeth cydraddoldeb yn ei ymchwiliadau. Dylai Fforwm y Cadeiryddion a gwasanaethau Comisiwn y Senedd gefnogi hyn, drwy ddarparu pecyn cymorth sy'n cynnwys, er enghraifft: rhestr wirio cydraddoldeb at ddibenion cylch gwaith, canllawiau prif ffrydio cydraddoldeb, data wedi'u dadgrynhoi, arbenigedd ym maes cydraddoldeb mewnol ac allanol, a chanllawiau/data amrywiaeth tystion. Dylai Fforwm y Cadeiryddion adolygu effeithiolrwydd y dull yn rheolaidd.

**Argymhelliad 32.** Dylai'r Pwyllgor Busnes ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i fandadu Pwyllgor Cydraddoldeb pwrpasol neu Bwyllgor Cydraddoldeb gyda chylch gorchwyl neu swyddogaethau penodol mewn perthynas â goruchwylio cydraddoldebau. Nid yw hyn yn disodli'r ddyletswydd ar bwyllgorau eraill i gymryd cyfrifoldeb dros brif ffrydio gwaith craffu ar gydraddoldeb yn eu gwaith, fel y nodwyd uchod.

**Argymhelliad 33.** Dylai fod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru hysbysu'r pwyllgor perthnasol pan fydd asesiad o effaith ar gydraddoldeb Bil wedi'i gyhoeddi.

**Argymhelliad 34.** Dylai pwyllgorau'r Senedd ofyn i Wasanaeth Ymchwil Comisiwn y Senedd ddarparu adolygiad prif ffrydio cydraddoldeb o bob Bil y maent yn craffu arno.

**Argymhelliad 35.** Dylai'r pwyllgor sy'n gyfrifol am gydraddoldeb ddefnyddio Gwasanaeth Ymchwil Comisiwn y Senedd i gynnal, neu gomisiynu drwy'r Cynllun Cymrodoriaeth Academaidd, adolygiad prif ffrydio cydraddoldeb o'r Rhaglen Lywodraethu. Byddai'r adolygiad desg hwn yn asesu'r potensial i'r Rhaglen leddfu'r anghydraddoldebau presennol. Byddai'r adolygiad, wedyn, yn cael ei ystyried gan y pwyllgor sydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldebau, a fyddai'n lledaenu cyngor i'r pwyllgorau eraill.

**Argymhelliad 36.** Dylai pob pwyllgor gynnal un cyfarfod bord gron ar fodel prif ffrydio cydraddoldeb[12] yn ystod tymor pedair blynedd. Dylai Comisiwn y Senedd sicrhau bod gan ei wasanaethau gapasiti priodol i gefnogi ymgysylltiad y pwyllgor â phanel prif ffrydio cydraddoldeb (gan gynnwys sefydliadau cydraddoldeb, undebau llafur, melinau trafod, cyrff sector yn ôl y perthnasedd i'r maes polisi gan weithio gyda'r pwyllgor ar y prosesau casglu tystiolaeth a chanolbwyntio ar atebion).

**Argymhelliad 37.** Dylai Comisiwn y Senedd ddarparu hyfforddiant rheolaidd i Aelodau ynghylch gwaith craffu ar brif ffrydio cydraddoldebau.

**Argymhelliad 38.** Comisiwn y Senedd i sicrhau bod ganddo adnoddau a chyllideb briodol ar gyfer ymchwil ychwanegol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb yn ôl yr angen.

**Argymhelliad 39.** Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried creu dyletswydd prif ffrydio cydraddoldeb, fel rhan o'i chyfres o Ddyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru. Byddai'r ddyletswydd prif ffrydio yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru adrodd bob tair blynedd ar sut y mae prif ffrydio cydraddoldeb o fewn eu sefydliadau wedi gwella arweinyddiaeth, swyddogaethau gweithredol, llunio polisïau ar gyfer cydraddoldeb, darparu gwasanaethau

[12] Cafodd model prif ffrydio rhywedd arfaethedig ei brofi yn 2010, o ran ei allu i ddatgelu anghydraddoldeb croestoriadol. Mae'r model aml-linyn, cydweithredol a ddeilliodd o hynny yn rhoi strwythur i ymholiadau croestoriadol, yn rhoi'r gallu i integreiddio dulliau cydraddoldebau a hawliau dynol ac yn cefnogi modd o flaenoriaethu heb i anghydraddoldeb gael ei gyfyngu i 'linynnau' penodol.

cyhoeddus yn deg, a chyflawni eu rhwymedigaethau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru.

**Argymhelliad 40.** Dylai'r pwyllgor sydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldebau geisio asesiad o gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â chydraddoldeb a hawliau dynol, yn enwedig y potensial i ddatganoli cyfrifoldeb dros weithredu a monitro Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i Lywodraeth Cymru. Dylai'r adolygiad hefyd ystyried, pe bai Deddf Cydraddoldeb yn cael ei diddymu, a fyddai gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu er mwyn gosod dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus (mewn modd tebyg i bwerau presennol Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

**Argymhelliad 41.** Dylai'r Pwyllgor Busnes ddiwygio Rheolau Sefydlog i orfodi cawcws seneddol menywod sy'n cynnwys menywod (a dynion, pe dymunir) yn gweithio ar agenda y cytunwyd yn gyffredin arni.

**Argymhelliad 42.** Dylai Comisiwn y Senedd barhau i benderfynu bod gan un Comisiynydd gyfrifoldeb dros gyfle cyfartal yn y dyfodol.

**Argymhelliad 43.** Comisiwn y Senedd i ddynodi un o Uwch-swyddogion y Comisiwn i arwain gwaith gwasanaethau Comisiwn y Senedd ar brif ffrydio cydraddoldeb [gan gynnwys y gofynion o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 2, adran 8(1), bod rhaid i Gomisiwn y Senedd wneud trefniadau priodol â'r bwriad o sicrhau bod ei swyddogaethau'n cael eu harfer gan roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb].

# Atodiad1: Adroddiad ar yr Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd



## 24 Chwefror 2026


## Dr Alison Parken, Dr Rachel Minto a Dr Leah Hibbs

Prifysgol Caerdydd Cardiff University
Canolfan Llywodraethiant Cymru
Wales Governance Centre

Cardiff University Prifysgol Caerdydd
Cardiff Business School
Ysgol Busnes Caerdydd

Cardiff University Prifysgol Caerdydd
School of Social Sciences
Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol

**Diolchiadau**

Hoffem gydnabod cyfraniadau a chefnogaeth aelodau Bwrdd Adolygu'r Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd (FFIPR):

Cadeirydd: Joyce Watson AS, Jane Dodds AS, Peter Fox AS, Sian Gwenllian AS, Mike Hedges AS

Mae ein diolch yn ddyledus hefyd i Aelodau presennol a chyn-Aelodau'r Senedd a roddodd o'u hamser i gymryd rhan mewn arolygon, cyfweliadau a grwpiau ffocws.

Rydym hefyd yn dymuno cydnabod cymorth amhrisiadwy aelodau Comisiwn y Senedd sydd wedi rhannu eu gwybodaeth â ni am weithrediad y Senedd, sydd wedi cynorthwyo gwaith casglu data a threfnu cyfweliadau, ac sydd wedi rhoi cyngor: Aled ap Neill**,** Anna Daniel, Martha Da Gama Howells, Bethan Garwood, Tom Jackson, Bethan Jones, Helen Jones, Samuel Jones, Rhys Morgan a Claire Thomas.

Hoffem fynegi diolch o waelod calon i Martha Da Gama Howells sydd wedi llywio'r prosiect hwn ar gyfer Comisiwn y Senedd gydag ymrwymiad diflino, wedi casglu data gweinyddol, ac wedi ein helpu i lywio'r systemau a'r broses sefydliadol, yn ogystal â chynnig cyngor a chymorth ymarferol.

Hoffem hefyd gydnabod cyfraniad Hannah Johnson, cynghorydd allanol arbennig i'r prosiect, sydd wedi bod yn llawn anogaeth yn ddi-ffael, ac rydym wedi elwa ar ei gwybodaeth helaeth am gynnal Archwiliadau Sensitif i Rywedd yn rhyngwladol, gan gynnwys cyfrannu'r wybodaeth honno at ysgrifennu'r adroddiad.

Fe wnaethom elwa ar fewnwelediadau ac arbenigedd lefel uchel gan Banel Cyfeirio FFIPR o uwch academyddion: Yr Athro Rachel Ashworth (Prifysgol Caerdydd), yr Athro Sarah Childs (Prifysgol Caeredin), Dr Meryl Kenny (Prifysgol Caeredin), yr Athro Laura MacAllister (Prifysgol Caerdydd) a'r Athro Diana Stirbu (Prifysgol Metropolitan Llundain).

Diolch hefyd i Dr Rob Jones, Dr Jac Larner a Hedydd Phylip o Ganolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd am rannu eu harbenigedd ar wahanol adegau yn ystod y prosiect.

## Y tîm ymchwil

**Dr Alison Parken OBE:** Mae Alison yn Gymrawd Ymchwil Hŷn er Anrhydedd yn Ysgol Busnes Caerdydd. Mae ei gwaith ymchwil a dadansoddi polisi ar hyrwyddo cydraddoldeb yng Nghymru yn cynnwys arwain y gwaith o ddatblygu Dyletswydd Cydraddoldeb Penodol i Gymru unigryw ar 'wahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau' a chreu model prif ffrydio cydraddoldeb i ymgorffori cydraddoldeb mewn datblygu polisi cyhoeddus. E-bost: parkena@cardiff.ac.uk

**Dr Rachel Minto:** Mae Rachel yn Uwch Ddarlithydd mewn Gwleidyddiaeth yn Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd, lle mae hi hefyd yn Gyfarwyddwr Dros Dro Canolfan Llywodraethiant Cymru. Mae ganddi gefndir mewn gwleidyddiaeth a llywodraethiant yr Undeb Ewropeaidd, gyda diddordeb arbennig mewn cydraddoldeb rhwng y rhywiau, ac yn fwy diweddar mae wedi cymhwyso'r wybodaeth honno yng nghyd-destun datganoli. E-bost: mintor@cardiff.ac.uk

**Dr Leah Hibbs:** Mae Leah yn Ddarlithydd mewn Gwyddorau Cymdeithasol (Polisi Cymdeithasol) yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae ganddi gefndir mewn ymchwilio i sut mae cynrychiolaeth wleidyddol yn cael ei rhoi mewn categorïau ar sail rhywedd gan ddefnyddio lens sefydliadol ffeministaidd, gyda ffocws ar wleidyddiaeth Cymru, ac mae'n ysgrifennu'n benodol ar ffactorau gan gynnwys trais yn erbyn menywod mewn gwleidyddiaeth a llwybrau menywod i arweinyddiaeth wleidyddol. E-bost: hibbsl@cardiff.ac.uk

## Tabl Cynnwys

**Cyflwyniad ........ 1**

Archwiliadau Senedd sy'n Sensitif i Rywedd ........ 5

Dull ymchwil ........ 7

**Cydraddoldeb Cynrychiolaeth a Chyfranogiad ........ 11**

Cynrychiolaeth Menywod ........ 11

Cynrychiolaeth Amrywiol a'r bwlch data mawr ........ 17

Argymhellion y Bwrdd: Cynrychiolaeth Gyfartal ........ 17

Cyfranogiad Cyfartal ........ 18

Arddulliau Gwleidyddol ........ 22

Gwaith Pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn ........ 25

Monitro amrywiaeth tystiolaeth ........ 28

Argymhellion y Bwrdd: Cyfranogiad Cyfartal ........ 29

**Diwylliant sefydliadol ........ 30**

Cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ........ 30

Rheoli cyfrifoldebau gofal plant ........ 32

Meithrinfa ........ 34

Polisïau Absenoldeb Teuluol ........ 37

Gofalu am Rieni neu aelodau eraill o'r teulu ........ 38

Gweithio o Bell a Gweithio Hybrid ........ 40

Addasiadau Rhesymol ........ 43

Eisteddiadau hwyr ........ 43

Darparu ar gyfer absenoldeb: Pleidleisio dirprwyol a pharu ........ 46

Argymhellion y Bwrdd: Cydbwysedd bywyd a gwaith ........ 48

Newidiadau arfaethedig i drefniadaeth busnes y Seithfed Senedd ........ 50

Argymhellion y Bwrdd: Cynigion Diwygio'r Senedd ........ 52

**Cam-drin Aelodau: Y tu hwnt i 'Gost Gwleidydda' ........ 52**

Safonau Ymddygiad a Digwyddiadau yn y Senedd ........ 53

Ymddygiad y tu hwnt i wleidyddiaeth 'gadarn' ........ 54

Ymatebion i Ddigwyddiadau yn y Senedd ........ 56

Argymhellion y Bwrdd: Cam-drin ac aflonyddu o fewn y Senedd/ Pwyllgor Safonau Ymddygiad ........ 57

Ffurfiau ac Effeithiau Trais gan y Cyhoedd ..... 58
Cam-drin All-lein ..... 58
Effaith Camdriniaeth All-lein ar Aelodau, Staff a Democratiaeth ..... 60
Cam-drin ar-lein ..... 61
Effaith Cam-drin a Thrais Ar-lein ar Aelodau, democratiaeth a staff ..... 62
Atal ac Ymateb i Drais yn erbyn Aelodau gan y Cyhoedd ..... 67
Argymhellion y Bwrdd: Cam-drin Aelodau ..... 72
**Prif Ffrydio Cydraddoldeb: Potensial heb ei gyflawni y 'ffordd Gymreig' unigryw ..... 74**
Argymhellion y Bwrdd: Prif Ffrydio Cydraddoldeb ..... 81
**Gwasanaethau Cymorth ..... 84**
Argymhelliad y Bwrdd: ..... 85
**Casgliadau ac argymhellion ..... 86**
Argymhellion Bwrdd FFIPR ..... 87
**Geirfa ..... 96**
**Atodiad 1: Polisïau, arferion a gweithdrefnau'r Senedd a Chomisiwn y Senedd, a'r Penderfyniad ..... 99**
Monitro amrywiaeth tystiolaeth pwyllgorau ..... 99
Sesiynau cynefino a hyfforddiant i Aelodau ..... 100
Urddas a Pharch ..... 101
Pleidleisio drwy ddirprwy ..... 102
Astudiaeth dichonoldeb *crèche* Comisiwn y Senedd ..... 103
Cyflog Aelodau a chymorth staffio a busnes – trosolwg ..... 104
**Atodiad 2: Safonau Rhyngwladol ..... 106**
Safonau rhyngwladol GSP: prif ffrydio rhywedd ..... 106

**Rhestr o Ffigurau a Nodiadau Methodoleg**

Ffigur 1: Dynion a Menywod a etholwyd yn etholiadau'r Senedd

Ffigur 2: Canran y Menywod a etholwyd yn etholiadau'r Senedd

Ffigur 3: Canran y Menywod fesul Plaid a etholwyd i'r Senedd

Ffigur 4: Nifer y blynyddoedd mae portffolios y Cabinet wedi eu dal gan ddynion a menywod

Ffigur 5: Canran yr amser mae portffolios y Cabinet wedi eu dal gan ddynion a menywod

Ffigur 6: Nifer y blynyddoedd mae dynion a menywod wedi bod yn Gadeiryddion Pwyllgorau

Ffigur 7: Canran yr amser mae dynion a menywod wedi bod yn Gadeiryddion Pwyllgorau

Ffigur 8: Cyfran y cyfraniadau a hyd y cyfraniadau a wnaed gan fenywod a dynion yn y Cyfarfod Llawn

Ffigur 9: Cyfran yr achosion o darfu ac ymyriadau a 'roddwyd' ac a 'dderbyniwyd' gan fenywod a dynion

Ffigur 10: Amseroedd gorffen y Cyfarfodydd Llawn yn y pumed a'r chweched Senedd

# Cyflwyniad

Wrth ragweld setliad datganoli Cymru, nododd Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol, a sefydlwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, ganllawiau ar gyfer Rheolau Sefydlog cychwynnol i gyfrannu at sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol. Y cyntaf ymhlith ei nodau oedd sefydlu deddfwrfa a oedd yn 'ddemocrataidd, effeithiol, effeithlon a chynhwysol' (Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol, 1998).

Y bwriad oedd sicrhau bod y Cynulliad yn cynrychioli holl wahanol rannau a phobl Cymru drwy weithrediad y Cynulliad [fel yr oedd ar y pryd] a'i allbynnau deddfwriaethol. Mae'r ddeddfwriaeth sefydlu yn cynnwys y gofyniad i *wneud trefniadau priodol gyda'r bwriad o sicrhau bod ei swyddogaethau'n cael eu harfer gan roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb* (cyfieithiad o adran 120, Deddf Llywodraeth Cymru, 1998).

Ar y pryd, roedd hon yn ddyletswydd unigryw, yn fwy eang na chwmpas deddfwriaeth triniaeth gyfartal y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, a heb unrhyw ddirymiad (Chaney a Fevre, 2002). Wrth ddewis ehangu cwmpas y categorïau o anghydraddoldeb a chynnwys gofyniad i asesu'n flynyddol pa mor effeithiol oedd y trefniadau hynny wrth hyrwyddo cyfle cyfartal (adran 120, 2b, Deddf Llywodraeth Cymru, 1998), roedd y setliad datganoli yn ymgorffori dyletswydd i *hyrwyddo* cydraddoldeb yn ei holl ddyletswyddau a swyddogaethau, gan gyhoeddi dull rhagweithiol o brif ffrydio cydraddoldeb.

Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru ddiffiniad newydd, rhagweithiol a phenderfynol o brif ffrydio i arwain ei allbynnau deddfwriaethol a pholisi:

> *'Mainstreaming' equality is about the integration of respect for diversity and equality of opportunity principles, strategies and practices into the every day work of the Assembly and other public bodies. It means that equality issues should be included from the outset as an integral part of the policy-making and service delivery process and the achievement of equality should inform all aspects of the work of every individual within an organisation. The success of mainstreaming should be measured by evaluating whether inequalities have been reduced (Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet 12 Ionawr 2005, 1 EOC(2)03-05(p2-annex a)e)*[1]

Roedd bwriad yr arweinyddiaeth yn glir: nid yw cydraddoldeb yn rhywbeth 'braf i'w gael' ond yn hytrach yn rhywbeth sy'n ganolog i ddatganoli Cymru, sydd wedi ei drwytho mewn egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol. Argymhellodd y Cabinet hefyd y dylid

[1] Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal EOC(2) 09-05(p5)e

sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i amlinellu strategaeth prif ffrydio cydraddoldeb ar gyfer Llywodraeth Cymru a oedd yn cynnwys cynlluniau gweithredu ar anabledd a hil. Cwblhawyd y gwaith hwn yn 2007. Fodd bynnag, cafodd ymdrechion i brif ffrydio cydraddoldeb yng ngwaith y Senedd eu disodli i ryw raddau gan wahanu pwerau gweithredol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, lle daeth cyfle cyfartal yn gylch gwaith Gweinidogion (adran 77). Ymhellach, er bod deddfau cydraddoldeb dilynol yn dynodi cynnydd o ran ymdrin â llinynnau cydraddoldeb a chyflwyno dyletswyddau i hyrwyddo cydraddoldeb, nid ydynt wedi arwain at weithredu prif ffrydio yng ngwaith y Senedd fel y rhagwelwyd (Parken, 2022, Parken 2018)[2]. Er enghraifft, mae Atodlen 18 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn eithrio Seneddau'r Deyrnas Unedig, yr Alban a Chymru o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Mae dyletswyddau cydraddoldeb yn gorffwys ar Gomisiwn y Senedd o ran gweithredu, gyda sylw dyledus i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb mewn trafodion a swyddogaethau, ond mae bwlch yng ngofynion Pwyllgorau'r Senedd, er enghraifft, i roi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb wrth graffu. [3] [4] Fodd bynnag, gellir gweld y syniad o brif ffrydio – hynny yw, ei fod yn gyfrifoldeb pawb a'i fod yn ceisio tanseilio'r ffactorau sy'n achosi anghydraddoldeb, yng nghynlluniau cydraddoldeb diweddar Llywodraeth Cymru – Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol, Cynllun Hawliau Pobl Anabl 2025 i 2035, a'r Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau yng Nghymru.

Mae gan y Senedd hanes balch o gynrychiolaeth menywod a deddfwriaeth a gynlluniwyd i hyrwyddo cydraddoldeb. Y Cynulliad oedd y cyntaf yn y byd i gyrraedd cydraddoldeb llwyr rhwng dynion a menywod, pan oedd yn cynnwys 30 o fenywod a 30 o ddynion yn 2003, ac o 2000 i 2005 roedd menywod yn cyfri am fwy na hanner holl Weinidogion y Cabinet (McAllister, 2016).[5] Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod cynrychiolaeth gyfartal wedi effeithio ar ddeddfwriaeth sylweddol, gan fod menywod wedi hyrwyddo diwygio polisi a deddfwriaeth ar gydraddoldeb, hawliau plant, gofal plant, yr amgylchedd ac iechyd (Chaney 2009), cydlyniant cymdeithasol, addysg, mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched a deddfwriaeth flaenllaw yn y byd ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol sy'n arloesi ag agenda ataliol uchelgeisiol. Yn ddiweddar, gyda chonsensws trawsbleidiol, mae Llywodraeth Cymru wedi *cefnogi Bil Aelod* i sicrhau bod gan Iaith Arwyddion Prydain statws llawn fel iaith.

Mae'r diddordeb a'r ymrwymiad i gydraddoldeb hefyd yn amlwg yn nifer y Grwpiau Trawsbleidiol, sy'n galluogi gwleidyddion i weithio'n golegol ar faterion polisi

[2] Parken, A. (2022) Equality and Devolution in Wales: A distinct approach?
Parken A (2018) Putting Gender Equality at the Heart of Decision-Making
[3] Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 35(2)
[4] Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 2: Comisiwn y Senedd, 8(1)
[5] Menywod yn y Cynulliad Cenedlaethol

cydraddoldeb gyda sefydliadau cydraddoldeb, sefydliadau anllywodraethol, a busnesau. Mae Grwpiau Trawsbleidiol presennol yn ymdrin â materion fel Awtistiaeth, Pobl Hŷn a Heneiddio, Hil a Chydraddoldeb, Anabledd, Materion Byddardod, Menywod, Iechyd Meddwl, Ffydd a Thlodi ymhlith eraill.

Dyluniwyd adeilad y Senedd a'r Siambr i greu mannau agored a golau ar gyfer democratiaeth ystyriol a gosod safon ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol. Mae'r dull gweithredu yn y Chweched Senedd yn cynnwys mesurau sy'n ystyriol o deuluoedd, fel y bwriad i'r Cyfarfod Llawn orffen erbyn 18.00, a darparu gofal plant a lwfansau gofal teuluol ar gyfer achosion o eisteddiadau hwyr.

Yn 2022, pleidleisiodd Aelodau'r Senedd i gadw argaeledd gweithio hybrid a gyflwynwyd yn ystod y pandemig, ac yn 2023 i ymestyn pleidleisio drwy ddirprwy am absenoldeb rhiant i gwmpasu salwch neu anaf hirdymor, gofal a phrofedigaeth yn ogystal.

Mae'r setliad datganoli a'r Senedd fel sefydliad wedi newid yn sylweddol yn ystod y 26 mlynedd diwethaf. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn asesiad o ba mor gynhwysol ac ystyriol o deuluoedd ydyw fel sefydliad, a pha mor dda y gall leihau anghydraddoldebau drwy ddeddfu yn unol â *safonau seneddol rhyngwladol*.

Mae'r gwaith ymchwil yn cyflawni argymhelliad y Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Biliau Diwygio ar *Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol),* i gynnal asesiad o'r Senedd ar sail safonau rhyngwladol ar gyfer seneddau sy'n sensitif i rywedd. Yn unol ag ymdrechion i brif ffrydio cydraddoldeb yng Nghymru, gan gynnwys datblygu'r model cyntaf i hyrwyddo cydraddoldeb wrth ddatblygu polisïau ar sail groestoriadol Model Prif ffrydio Cydraddoldeb (Parken, 2010) mae'r gwaith ymchwil hwn wedi ystyried cydraddoldeb mewn modd cynhwysol. Gan hynny, penderfynodd y Bwrdd newid enw'r Adolygiad o Archwiliad Sensitif i Rywedd i Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd (FFIPR).
Comisiynodd Bwrdd FFIPR, dan gadeiryddiaeth Joyce Watson AS, waith ymchwil i ystyried i ba raddau mae'r Senedd:

- yn gwerthfawrogi ac yn blaenoriaethu cydraddoldeb rhwng y rhywiau fel amcan cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol;
- yn mynd ati i gefnogi cynrychiolaeth a chyfranogiad cynhwysol, gan gydnabod sut mae rhywedd yn croestorri â nodweddion eraill i lywio mynediad, cyfranogiad a phŵer, ac
- yn ailgyfeirio ac yn trawsnewid ei diwylliant, ei phrosesau, ei harferion a'i hallbynnau sefydliadol tuag at yr amcanion hyn; ac
- yn nodi lle mae angen cynnydd pellach i wella sensitifrwydd a chynhwysiant rhwng y rhywiau ar draws pob agwedd ar waith seneddol, yn enwedig wrth

wneud penderfyniadau seneddol, gan ddarparu argymhellion amserol a gweithredadwy i Gomisiwn a Phwyllgor Busnes y Seithfed Senedd.

Fodd bynnag, mae'r uchelgais i adrodd yn feintiol ar gynrychiolaeth Aelodau'r Senedd ar draws pob sail anghydraddoldeb wedi bod yn gyfyngedig, ac mae dadansoddiad croestoriadol wedi ei ddal yn ôl rywfaint, gan nad yw data demograffig ar Aelodau yn cael ei gasglu.

Ceisiodd Adran 106 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 unioni'r diffyg data hwn drwy ei gwneud yn ofynnol i bleidiau gwleidyddol gasglu gwybodaeth ddemograffig am ymgeiswyr, ond nid yw wedi cychwyn eto.[6] Serch hynny, nodwyd tangynrychiolaeth aelodau etholedig, yn gymesur â'u presenoldeb yn y boblogaeth o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl iau, gan gyfranogwyr ein gwaith ymchwil mewn cyfweliadau ansoddol.

Nod gwaith ymchwil FFIPR oedd asesu natur gynhwysol ac ystyriol o deuluoedd y Senedd 26 mlynedd yn ddiweddarach, gan gynnwys trefniadaeth busnes, dan nawdd y Llywydd, y Pwyllgor Busnes, a Chomisiwn y Senedd. Cynhaliwyd y gwaith ymchwil ar adeg o newid sylweddol, gyda system etholiadol newydd ar waith ar gyfer etholiadau ym mis Mai 2026, ac ymestyn nifer yr aelodau o 60 i 96. Yn y cyd-destun hwn rydym wedi ystyried cynrychiolaeth gyfartal, cyfranogiad cyfartal a diwylliant y Senedd yn y Chweched Senedd, ynghyd â chasglu mewnbwn gan Aelodau blaenorol o'r Senedd i asesu ei addasrwydd o ran ansawdd bywyd (*liveability*) – er enghraifft, rheoli gwaith a bywyd, a pha mor dda y clywir lleisiau menywod ac y trosglwyddir eu pryderon i hyrwyddo cydraddoldeb wrth ddeddfu a chraffu.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi beth a olygir wrth sôn am 'seneddau sy'n sensitif o ran rhywedd', ein dull o gynnal yr ymchwil, canfyddiadau, ac argymhellion a awgrymir ar gyfer y Bwrdd Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd (FFIPR). Darperir y cyd-destun polisi cyfredol ar gyfer Cyflogau a Lwfansau Aelodau gan Wasanaethau'r Comisiwn yn Atodiad 1. Nodwyd argymhellion awgrymedig gennym, a oedd yn gydnaws â'r weledigaeth a'r uchelgais i ddatganoli yng Nghymru fod yn gwbl gynrychioliadol a chyfranogol, gyda diwylliant sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac felly'n creu democratiaeth gynhwysol effeithiol. Mae'r rhain wedi cael eu trafod gan FFIPR ers hynny i gyrraedd yr

[6] Deddfwriaeth y Deyrnas Unedig yw Deddf Cydraddoldeb 2010, ac o ganlyniad nid oes gan Lywodraeth Cymru y pŵer i gychwyn Adran 106. Mae'r Llywydd, ar ran y Senedd, wedi ysgrifennu o'r blaen at Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd i alw am gychwyn yr Adran hon. Mae Llywodraeth bresennol y Deyrnas Unedig wedi datgan ei bod yn archwilio pryd i gychwyn darpariaethau adran 106. Gweinidog Gwladol (Gweinidog dros Fenywod a Chydraddoldeb), Gweinidog Gwladol (Datblygu), 28 Ionawr 2025, https://www.theyworkforyou.com/wrans/?id=2025-01-23.26206.h&s=section+106+speaker%3A25618#g26206.r0

argymhellion a gymeradwywyd gan y Bwrdd sydd wedi eu cynnwys ym mhob adran ac wedi eu coladu ar ddiwedd yr adroddiad.

## Archwiliadau Senedd sy'n Sensitif i Rywedd

Mae'r cysyniad o 'seneddau sy'n sensitif i rywedd' wedi dod yn safon ddemocrataidd ryngwladol, wedi ei datblygu dros y 25 mlynedd diwethaf. Disgrifir senedd sy'n sensitif i rywedd fel un sy'n *gwerthfawrogi ac yn blaenoriaethu cydraddoldeb rhwng y rhywiau fel amcan cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol ac sy'n ailgyfeirio ac yn trawsnewid diwylliant, prosesau ac arferion sefydliadol senedd ac allbynnau tuag at yr amcanion hyn*.[7]

Yn 2017 dywedodd yr Undeb Rhyng-Seneddol (IPU)[8] fod seneddau sy'n sensitif i rywedd yn:

1. Hyrwyddo a chyflawni cydraddoldeb o ran nifer y menywod a'r dynion ar draws pob corff a strwythur mewnol.
2. Datblygu fframwaith polisi cydraddoldeb rhwng y rhywiau sy'n addas i'w gyd-destun seneddol cenedlaethol ei hun.
3. Prif ffrydio cydraddoldeb rhwng y rhywiau ym mhob gwaith.
4. Meithrin diwylliant mewnol sy'n parchu hawliau menywod, yn hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau ac yn ymateb i anghenion a realiti ASau – yn ddynion a menywod – er mwyn cydbwyso cyfrifoldebau gwaith a theulu.
5. Cydnabod ac adeiladu ar y cyfraniad a wneir gan aelodau gwryw sy'n mynd ar drywydd ac yn eiriol dros gydraddoldeb rhwng y rhywiau.
6. Annog pleidiau gwleidyddol i gymryd rhan ragweithiol yn y gwaith o hyrwyddo a chyflawni cydraddoldeb rhwng y rhywiau.
7. Rhoi'r gallu a'r adnoddau i staff seneddol hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau, mynd ati i annog recriwtio a chadw menywod mewn swyddi uwch, a sicrhau bod cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn cael ei brif ffrydio drwy gydol gwaith gweinyddu'r senedd.

Mae archwiliad neu hunanasesiad senedd sy'n sensitif i rywedd yn wiriad ffurfiol o gynnydd senedd tuag at ddod yn senedd sy'n sensitif i rywedd, drwy archwilio ei rheolau, ei harferion, ei diwylliant a'i hallbynnau. Nid oes un dull penodol o gynnal archwiliad - gellir teilwra'r cwmpas a'r dull gweithredu i bob senedd.

---

[7] Childs, S. a Palmieri, S. (2023) Gender Sensitive Parliaments: Feminizing Formal Political Institutions. Yn M. Sawer, L.A. Banaszak, J. True a J. Kantola (gol.) Handbook of Feminist Governance. Cheltenham: Edward Elgar.
[8] IPU (2017) Plan of action for gender-sensitive parliaments

Yn 2020, fe wnaeth Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA) argymell[9] bod pob senedd yn cynnal archwiliad cyn gynted â phosibl i bennu meincnod ar gyfer gwerthuso datblygiadau yn y dyfodol. Yn yr un modd, roedd Datganiad IPU Kigali yn 2022 yn annog seneddau i gynnal dau archwiliad rhywedd i fesur cynnydd dros y deng mlynedd nesaf.[10]

Mae sawl offeryn wedi ei ddatblygu i fesur 'sensitifrwydd rhywedd' senedd ar sail safonau rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys pecyn cymorth hunanasesu'r IPU,[11] canllawiau[12] a safonau[13] Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA), canllaw'r Sefydliad Diogelwch a Chydweithrediad dros Ewrop (OSCE),[14] ac offeryn y Sefydliad Ewropeaidd ar gyfer Cydraddoldeb Rhywiol (EIGE).[15]

Mae'r sefydliadau rhyngwladol hyn hefyd wedi cynhyrchu llawer iawn o ymchwil am arferion seneddol sy'n sensitif i rywedd ledled y byd.[16]

Gallwn hefyd ddysgu o ganfyddiadau, argymhellion a chanlyniadau ymarferion tebyg eraill yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys: Adroddiad The Good Parliament (2016)[17] - y glasbrint ar gyfer Tŷ'r Cyffredin mwy cynrychioliadol a chynhwysol, adroddiad archwilio Senedd Sensitif i Rywedd Senedd y Deyrnas Unedig (2018),[18] adroddiad Tai'r Oireachtas yn Iwerddon ar Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd (2021),[19] ac adroddiad archwilio seneddol sensitif i rywedd Senedd yr Alban (2023)[20] a chanllaw ymarferol (2025).[21]

Mae sawl deddfwrfa wedi cynnal hunanasesiadau ac archwiliadau, gan gynnwys yng Ngwlad Belg, Moldofa, Jersey, Tiriogaeth Prifddinas Awstralia, Catalwnia, Gogledd Macedonia, a Kyrgyzstan, ymhlith eraill sydd ar y gweill ar hyn o bryd neu nad ydynt wedi cyhoeddi adroddiadau.

Mae'r safonau rhyngwladol hyn, ynghyd â'r offer, yr arferion a'r hyn a ddysgwyd, yn darparu sylfaen gyfoethog o dargedau ac arferion ar gyfer adolygiad y Senedd. Ond fel y

---

[9] CPA (2020) Gender Sensitising Parliaments Guidelines: Standards And A Checklist For Parliamentary Change
[10] IPU (2022) Kigali Declaration - Gender equality and gender-sensitive parliaments as drivers of change for a more resilient and peaceful world
[11] IPU (2016) Evaluating the gender sensitivity of parliaments: A self-assessment toolkit
[12] CPA (2022) Gender Sensitising Parliaments: A Seven-Step Field Guide
[13] CPA (2020) Gender Sensitising Parliaments Guidelines: Standards And A Checklist For Parliamentary Change
[14] OSCE (2022) Participatory Gender Audits Of Parliaments: A Step-By-Step Guidance Document
[15] EIGE, Gender-sensitive Parliaments self-assessment toolkit
[16] IPU (2011) Gender-sensitive parliaments: a global review of good practice, OSCE (2021) Realizing Gender Equality in Parliament: A Guide for Parliaments in the OSCE Region, INTER PARES (2024) Beyond numbers: stories of gender equality in and through parliament, INTER PARES (2022) Gender-sensitive scrutiny: a guide to more effective law-making and oversight
[17] Childs, S. (2016) The Good Parliament
[18] Senedd y Deyrnas Unedig (2018) UK Gender-Sensitive Parliament Audit
[19] Tai'r Oireachtas (2021) Forum on a Family Friendly and Inclusive Parliament report
[20] Senedd yr Alban (2023) A Parliament for All: Report of the Parliament's Gender Sensitive Audit
[21] Senedd yr Alban (2025) Gender Sensitising Parliaments: A Practical Guide

nodwyd gan yr ysgolhaig mawr ei bri ar seneddau sy'n sensitif i rywedd, Sonia Palmieri, yr her yw trosi'r normau rhyngwladol hyn yn arfer lleol drwy broses o 'gyd-destunoli a herio'. Mae hyn yn cynnwys cydnabod realiti gwleidyddol a phwysigrwydd chwaraewyr allweddol sy'n sbarduno newid gwirioneddol y tu mewn i'r senedd (ASau a staff seneddol) a thu allan i'r senedd (academyddion a chymdeithas).[22]

## Dull ymchwil

Mae'r canllawiau ar gyfer archwiliadau sy'n sensitif i rywedd yn defnyddio dull o brif ffrydio rhywedd sy'n ceisio deall diwylliant sefydliadol, y 'ffyrdd o weld a gwneud' mewn sefydliadau (Rees, 1998). [23] Drwy ymchwilio i bolisïau sefydliad, mae'r systemau a'r prosesau a gymerir yn ganiataol, y ffordd mae pobl yn gwisgo, yr oriau gwaith, sut mae'r adeilad yn gosod naws neu ddisgwyliad ar gyfer y ffyrdd mae busnes yn cael ei gynnal, hierarchaeth y sefydliad a'i dryloywder, a'r ffyrdd mae pobl yn rhyngweithio, i gyd yn creu diwylliant neu ddiwylliannau. Pan fydd pobl yn y gwaith, nid dim ond *cynhyrchu nwyddau a gwasanaethau, pecyn cyflog a gyrfa maent yn ei wneud - maent hefyd yn adeiladu diwylliant*' (Cockburn, 1988:37).[24] Gyda'i gilydd, y symbolau, y rhyngweithiadau a'r polisïau hyn sy'n pennu tegwch neu anghydraddoldeb busnes o ddydd i ddydd. Mae'r cydbwysedd rhwng pa un sydd fwyaf amlwg wrth osod y diwylliant bob amser yn newid. Mae adolygiad prif ffrydio yn ceisio dod â unrhyw beth 'sy'n cael ei gymryd yn ganiataol' i'r amlwg a chwestiynu a yw'n creu anghydraddoldeb.

Mae ein dull ymchwil hefyd yn ymgorffori Sefydliadaeth Ffeministaidd. Wrth wraidd Sefydliadaeth Ffeministaidd mae'r gydnabyddiaeth nad yw trefniadaeth bywyd gwleidyddol yn niwtral ond yn hytrach yn rhoi mantais i grwpiau penodol dros eraill (gweler e.e. Mackay, Kenny a Chappell 2010).[25] Yn wir, hyd yn oed pan fydd polisi'n ymddangos yn 'niwtral', gall gael effeithiau gwahanol ar fenywod a dynion, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, neu bobl anabl *ymhlith eraill*. Yn hollbwysig, wrth ymchwilio i drefniadaeth - yn yr achos hwn, y Senedd - rhaid i ni archwilio sefydliadau ffurfiol ac anffurfiol (Waylen 2014).[26] Y rhai ffurfiol yw'r hawsaf i'w hadnabod, h.y. y deddfau, y polisïau a'r rheolau ysgrifenedig sydd wedi eu creu i strwythuro a threfnu gweithrediad y Senedd. Y tu hwnt i'r rhain, mae sefydliadau anffurfiol, h.y. y normau, yr arferion a'r diwylliant sy'n llunio ymddygiad a 'ffyrdd o wneud' yn ymarferol, ac ar adegau yn groes i'r rheolau ffurfiol sydd ar waith.

[22] Palmieri, S. (2025) Seneddau Sensitif i Rywedd yn Ffiji Rhwng Normau Rhyngwladol a Newid Lleol
[23] Rees, T. (1998) Mainstreaming Equality in the European Union, Llundain: Routledge
[24] Cockburn, C (1988) Machinery of Dominance, Pluto Press, Llundain
[25] Mackay, F., M. Kenny, ac L. Chappell. (2010) "New Institutionalism Through a Gender Lens: Towards a Feminist Institutionalism?" International Political Science Review 31 (5): 573–588. doi:10.1177/0192512110388788.
[26] Waylen, G. (2014) "Informal Institutions, Institutional Change, and Gender Equality." Political Research Quarterly 67 (1): 212–223. doi:10.1177/1065912913510360.

Mae'r berthynas rhwng y rheolau ffurfiol a'r diwylliant anffurfiol yn unigryw i bob sefydliad (Lowndes 2014: 687),[27] sy'n gofyn am ymchwiliad empirig i brofiadau'r rhai sy'n gweithio yn y sefydliad hwnnw. Pan fydd y profiadau hyn wedi dod i'r amlwg, mae'n bosibl nodi beth sy'n gweithio'n dda a beth allai fod angen sylw arno er mwyn sicrhau, yn yr achos hwn, bod y Senedd yn gynhwysol ac yn cefnogi cyfranogiad llawn pob Aelod. I'r perwyl hwn, gall dadansoddiad sefydliadol dynnu sylw at yr angen i ailosod, newid neu ddiwygio rheolau ffurfiol, neu i wthio am newid diwylliannol mewn rhai meysydd.

Yn nodedig, wrth ymrwymo i'r Adolygiad hwn o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd, mae'r Senedd wedi cymryd cam hollbwysig tuag at gryfhau ei chymwysterau cynhwysol a democrataidd ymhellach, gyda'r cymorth angenrheidiol ar waith i wireddu hyn. Wrth wneud hynny, mae'n ymuno â seneddau eraill ledled y byd i fynnu bod deddfwrfa wrth wraidd democratiaeth fel cynrychiolydd gwirioneddol o'r bobl.

Rhoddwyd y tendr ar gyfer y gwaith ymchwil ym mis Gorffennaf 2025, ac fe'i comisiynwyd ym mis Awst 2025 yn dilyn adolygiad o gynigion i gynllun Cymrodoriaeth Academaidd y Senedd. Cafodd y tîm ymchwil gymeradwyaeth foesegol drwy broses ymgeisio moeseg Prifysgol Caerdydd ym mis Medi. Y dyddiad cau ar gyfer adrodd oedd diwedd Rhagfyr 2025.

Mae canllawiau rhyngwladol ar gyfer Archwiliadau sy'n sensitif i rywedd yn cynnig asesiad o gydraddoldeb cynrychiolaeth, cyfranogiad ac a yw'r diwylliant yn deg ac yn galluogi aelodau etholedig, staff seneddol, pleidiau gwleidyddol, taith yr ymgeisydd a'r broses ddewis, a gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r canllawiau hyn yn nodi sefyllfa ddelfrydol lle mae ymchwil a dadansoddi yn digwydd dros 12 mis, ac nad yw'n digwydd yn y flwyddyn cyn etholiad (Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, 2022, t.13)[28]. O ystyried ein hamserlen, canolbwyntiodd y gwaith ymchwil hwn ar Aelodau'r Senedd yn unig.

Yn ddiweddar, cwblhaodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (RhCM) ymchwil ar y rhwystrau a brofir gan ymgeiswyr benywaidd sy'n ceisio cael eu dewis a'u hethol. Mae'r gwaith ymchwil yn dangos bod menywod yn cael eu cynrychioli'n anwastad ar draws pleidiau gwleidyddol yn y Senedd, ac mae eu cynrychiolaeth ar draws pleidiau gwleidyddol mewn llywodraeth leol yn amrywio o 29% i 44%.[29] Mae adroddiad RhCM Cymru yn canfod bod anghydraddoldebau o ran gofal ac arian, a bod cam-drin ac aflonyddu yn parhau i fod yn rhwystrau sylweddol o ran dewis ymgeiswyr. Ymhellach, mae rhai menywod yn wynebu anghydraddoldebau croestoriadol sy'n arwain at gam-

[27] Lowndes, V. 2014. "How Are Things Done Around Here? Uncovering Institutional Rules and Their Gendered Effects." Politics & Gender 10 (4): 685–691. doi:10.1017/S1743923X1400049X.
[28] CPA (2022) Gender Senistising Parliaments Field-guide
[29] Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru Adroddiad: Profiad menywod o'r daith wleidyddol yng Nghymru, Caerdydd: RhCM

drin a rhwystrau penodol ar sail nodweddion gwarchodedig, gan ryngweithio â chasineb at fenywod.

Pennwyd mis Tachwedd 2025 fel y terfyn amser i bleidiau gwleidyddol yng Nghymru gyhoeddi cynllun, mewn ymateb i ganllawiau gwirfoddol Llywodraeth Cymru ar wella amrywiaeth a chynhwysiant ymhlith ymgeiswyr ar gyfer etholiad y Senedd ym mis Mai 2026. Gofynnodd RhCM Cymru i bleidiau am eu canllawiau cyhoeddedig ond erbyn y dyddiad cau ym mis Tachwedd, nid oedd yr un wedi cyhoeddi canllaw. Cyhoeddodd rhai pleidiau gynlluniau ddechrau 2026.

Yn ogystal, cynhaliwyd y gwaith ymchwil hwn gan FFIPR yn ystod cyfnod pan oedd newid sylweddol i brosesau sefydliadol yn cael ei drafod wrth baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd, gan gynnwys gweithredu Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, ystyriaeth o Effeithiolrwydd Pwyllgorau gan Fforwm y Cadeiryddion, argymhellion y Pwyllgor Dibenion Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Pwyllgor Dyfodol y Senedd, a phrosiect Bae 2032.[30] Ymhellach, cynhaliwyd y gwaith ymchwil ar ôl i'r Bwrdd Adolygu Annibynnol gyhoeddi ei benderfyniadau terfynol ar y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd ym mis Gorffennaf 2025. Mae'r Penderfyniad yn cwmpasu tâl a lwfansau'r Aelodau.

Gan ddilyn y templed ar gyfer archwiliadau sy'n sensitif i rywedd, cynigiodd y tîm ymchwil ffordd dulliau cymysg a datblygu dyluniad ymchwil ac offerynnau ymchwil sy'n briodol i'r Senedd. Roedd yr ymchwil yn cynnwys adolygu dogfennaeth polisi'r Senedd, casglu data presennol ar gynrychiolaeth gyfartal, comisiynu data gan Ymchwil y Senedd ar amrywiaeth y tystion sy'n ymgysylltu â Phwyllgorau'r Senedd, a data ar gyfraniadau dynion a menywod yn y Cyfarfod Llawn a'r dadleuon, a pha mor aml maent yn ymyrryd neu'n torri ar draws.[31]

Casglodd yr ymchwil empirig ddata meintiol ac ansoddol. Cynhaliwyd un ar hugain o gyfweliadau ansoddol gydag aelodau presennol rhwng 1 Hydref ac 14 Tachwedd 2025. Yn ogystal, cyhoeddwyd dau offeryn arolwg gyda chwestiynau caeedig ac agored i aelodau presennol a chyn-aelodau (cwblhawyd 11 arolwg o Aelodau presennol ac 8 arolwg o gyn-Aelodau). Gofynnwyd i'r Aelodau presennol fyfyrio ar ba mor dda yr oedd polisïau cyfredol yn meithrin Senedd sy'n gynhwysol ac yn ystyriol o deuluoedd (cynrychiolaeth gyfartal, cyfranogiad, diwylliant a hyrwyddo cydraddoldeb mewn allbynnau deddfwriaethol), tra gofynnwyd i gyn-Aelodau fyfyrio yn yr un modd ar bolisïau a diwylliant yn ystod eu cyfnod yn y Senedd a'r rhesymau dros beidio â pharhau fel Aelod etholedig.

---

[30] Prosiect i sicrhau anghenion swyddfeydd hirdymor y Senedd, Comisiwn y Senedd a Llywodraeth Cymru yn y Bae, a chynorthwyo â'r gwaith o gynnal busnes y Senedd yn adeilad y Senedd. Y gyrrwr ar gyfer y gwaith yw bod prydles bresennol Tŷ Hywel yn dod i ben yn 2032.
[31] Gwasanaeth ymchwil a gwybodaeth mewnol y Senedd yw Ymchwil y Senedd. https://ymchwil.senedd.cymru/gwybodaeth-am-ymchwil-y-senedd/)

Yn ogystal, cynhaliwyd nifer o drafodaethau ffocws gyda rhai grwpiau pleidiol, Aelodau'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod.

Mae'r gwaith ymchwil hwn yn fwy cynhwysfawr nag archwiliadau tebyg ac yn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer y canfyddiadau a'r argymhellion a awgrymir.

Cynhaliwyd cyfweliadau ar-lein yn bennaf. Roedd cynnal cyfweliadau ymchwil ar Teams o gymorth i ffitio cyfweliadau ymchwil i amserlenni prysur ac anhyblyg yn aml yr Aelodau (mae hyblygrwydd yn gyfyngedig o ganlyniad i amserlennu'r Cyfarfod Llawn, dadleuon, amseriadau Pwyllgorau, cyfarfodydd grwpiau pleidiau a gwaith etholaethol), gan alluogi'r ymchwilwyr i gynnal sawl cyfweliad yn olynol (gan nad oedd unrhyw deithio yn ofynnol). Roedd cyfweld ar-lein hefyd yn sicrhau gwasgariad daearyddol da o'r rhai a gyfwelwyd a darparu trawsgrifiadau i arbed amser o'r cyfweliadau a recordiwyd. Cafodd trawsgrifiadau a gofnodwyd gan AI eu tacluso a'u cywiro yn dilyn hynny.

Roedd y cyfweliadau'n ymdrin â chyfrifoldebau gofalu'r Aelodau, eu barn ar ba mor dda roeddent yn rheoli eu cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, gan gynnwys sut roedd gweithio hybrid wedi effeithio ar hyn, eu barn ar drefniadau arfaethedig rhannu swydd, pleidleisio drwy ddirprwy, astudiaeth ddichonoldeb gyfoes ond ar wahân ar y feithrinfa, eu cyfranogiad mewn cyfarfodydd llawn a phwyllgorau, gwahanol arddulliau gwleidyddol, eu profiadau o wahaniaethu, cam-drin neu aflonyddu o fewn a thu allan i'r Senedd, pa mor hawdd oedd cael eu clywed wrth godi materion yn ymwneud ag ymdrin ag anghydraddoldebau, ac a oedd digon o fecanweithiau i sefydliadoli prif ffrydio rhywedd a chydraddoldeb.

Er mwyn sicrhau anhysbysrwydd, cyfeirir at gyfranogwyr yn syml fel 'Aelod gwryw neu fenyw'. Y tu hwnt i ofyn am eu caniatâd i gymryd rhan yn y gwaith ymchwil, gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo dyfyniadau uniongyrchol o'u cyfraniadau wedi hynny. Yng nghyd-destun ymchwiliad, mae pwy ddywedodd beth yn llai pwysig na chynnwys ac ystyr yr hyn a rannwyd, a gobeithiwn y bydd darllenwyr yn gwrthsefyll ymdrechion i 'adnabod drwy chwarae jig-so'.

Fe wnaethom elwa drwyddi draw ar gymorth staff Comisiwn y Senedd sy'n gyfarwydd â pholisïau cyfredol ac yn eu deall, sut maent wedi esblygu, ac yn esblygu wrth ragweld y garfan fwy o Aelodau yn 2026. Mae Atodiad 1 yn darparu trosolwg o bolisïau a gasglwyd gan Wasanaethau'r Comisiwn.

Rydym hefyd wedi elwa ar fewnwelediadau ein panel cyfeirio academaidd, y mae nifer ohonynt wedi cynnal neu wrthi'n cynnal archwiliadau o'r fath mewn awdurdodaethau seneddol eraill. Hoffem ddiolch iddynt am rannu o'u doethineb.

# Cydraddoldeb Cynrychiolaeth a Chyfranogiad

## Cynrychiolaeth Menywod

> *Roeddem yn gallu dathlu cynrychiolaeth menywod o ddechrau'r Cynulliad Cenedlaethol, ac yn enwedig yn 2003 pan oedd gennym niferoedd cyfartal yn y Cynulliad [...] Rydw i'n meddwl ein bod ni wedi ceisio creu math newydd o weinyddiaeth wleidyddol o'r dechrau, a oedd yn fwy ystyriol o deuluoedd ac a fyddai'n annog mwy o fenywod i ddod yn wleidyddion.* (cyn-aelod benyw)
>
> *Bu enghreifftiau mynych lle'r oedd cael menywod proffil uchel yn y Cabinet ac yn y Cynulliad yn wirioneddol bwysig* (cyn-aelod gwryw)


*Cymru fel arweinydd byd-eang o ran cynrychiolaeth menywod*

Mae'r Senedd yn cael ei dathlu fel stori lwyddiant ryngwladol o ran cynrychiolaeth menywod. Yn wir, hyd yn hyn, y pwynt isaf o ran cynrychiolaeth menywod oedd yn y Senedd gyntaf (1999-2003) pan oedd menywod yn ffurfio 40% o'r Aelodau etholedig. Yn y tymor dilynol, y Senedd oedd y ddeddfwrfa gyntaf yn y byd i weld cynrychiolaeth gyfartal o fenywod a dynion.[32] Er bod cynrychiolaeth menywod wedi gostwng o'r pwynt uchel hwn, mae enw da Cymru wedi parhau gan nad yw lefelau erioed wedi gostwng islaw 40% (gweler ffigur 1 am y niferoedd, a ffigur 2 am y canrannau, isod).

| | Dynion | Menywod | % o Fenywod |
|---|---|---|---|
| **1999** | 36 | 24 | 40 |
| **2003** | 30 | 30 | 50 |
| **2007** | 32 | 28 | 47 |
| **2011** | 38 | 25 | 42 |
| **2016** | 38 | 25 | 42 |
| **2021** | 34 | 72 | 43 |

Ffigur 1: Dynion a Menywod a etholwyd yn etholiadau'r Senedd

[32] Senedd Cymru, Menywod, Cymru a Gwleidyddiaeth




Ffigur 2: Canran y menywod a etholwyd yn etholiadau'r Senedd

Y tu hwnt i egwyddor cynrychiolaeth ddemocrataidd, mae cael cydbwysedd o fenywod a dynion yn y ddeddfwrfa yn cynnig manteision lluosog, yn enwedig o ran gwneud penderfyniadau mwy effeithiol sy'n tynnu ar amrywiaeth ehangach o arbenigedd a phrofiad. Mewn gwaith ymchwil a oedd yn canolbwyntio ar y Cynulliad Cenedlaethol, canfuwyd bod menywod wedi rhoi mwy o ystyriaeth i gydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau a hefyd wedi ymgysylltu mwy mewn gwaith cydweithredol a thrawsbleidiol (Chaney 2009).[33]

Rhannwyd y canfyddiad hwn gan ASau:

> *Rydw i o'r farn bod y màs critigol o fenywod wedi newid natur y materion a drafodwyd ac a gafodd sylw yn gyffredinol.* (cyn-Aelod benyw)
>
> *Roedd yn dda cael cefnogaeth menywod o'r un anian yn y Cynulliad i helpu i wthio mentrau ymlaen i annog mwy o fesurau cydraddoldeb. [...] Mae cael 'màs critigol' o fenywod o ddechrau Datganoli wedi gosod y trywydd ar gyfer y dyfodol yn glir. Rydw i'n meddwl bod llwyddiant y ddeddfwriaeth i ddiddymu smacio yn enghraifft dda, gan i hynny ddechrau gyda menywod ond yna ymunodd rhai o'r dynion â ni.* (cyn-Aelod benyw)

Gellir priodoli safle Cymru fel arweinydd byd-eang o ran cynrychiolaeth menywod i raddau helaeth i'r mesurau cadarnhaol a fabwysiadwyd yn etholiadau'r Cynulliad yn 1999 a 2003 gan y Blaid Lafur a hefyd Plaid Cymru (y Panel Arbenigol ar Ddiwygio

[33] Chaney, P. (2009). *Equal Opportunities and Human Rights: The First Decade of Devolution*, Manceinion, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Etholiadau'r Cynulliad 2017).[34] Perfformiodd Llafur yn gryf yn y ddau etholiad, gan ennill 27 o'r 60 sedd ym 1999 a 30 o'r 60 sedd yn 2003, gyda Phlaid Cymru yn ail. Fe wnaeth hyn gynyddu canran y seneddwyr benyw (gweler ffigur 3), a gynhaliwyd mewn etholiadau dilynol yn rhannol drwy ddylanwad seneddwyr a oedd yn y rôl yn barod. Mae hyn yn codi cwestiynau pwysig ynghylch cynnal cynrychiolaeth fwy cytbwys waeth beth fo cyfansoddiad gwleidyddol y Senedd, ac rydym yn dychwelyd at y cwestiynau hyn isod.

| | **Llafur (% Menywod)** | **Ceidwadol (% Menywod)** | **Plaid Cymru (% Menywod)** | **Democratiaid Rhyddfrydol (% Menywod)** | **UKIP (% Menywod)** |
|---|---|---|---|---|---|
| **1999** | 54 | 0 | 35 | 50 | 0 |
| **2003** | 63 | 18 | 50 | 50 | 0 |
| **2007** | 62 | 8 | 47 | 50 | 0 |
| **2011** | 47 | 29 | 45 | 40 | 0 |
| **2016** | 52 | 27 | 33 | 100 | 29 |
| **2021** | 57 | 19 | 38 | 100 | 0 |

Ffigur 3: Canran y Menywod fesul Plaid a etholwyd i'r Senedd

*Ar y brig: Menywod a dynion mewn rolau arweinyddiaeth*

Yn eu tro, mae menywod wedi cael eu cynrychioli'n dda i raddau helaeth mewn rolau uwch yn y Senedd.

Mae menyw wedi dal rôl y Llywydd am 56% o'r chwe thymor deddfwriaethol cyntaf (o'i gymharu â dyn am 44% o'r amser) tra bod menyw wedi dal rôl y Dirprwy Lywydd am 38% o'r chwe thymor (o'i gymharu â dyn am 62% o'r amser). Ers y trydydd Cynulliad, mae o leiaf un fenyw wedi bod yn rôl y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd ar unrhyw adeg.

O fewn y Cabinet, mae'r darlun wedi bod yn gymysg. Yn fwyaf nodedig, ni welodd Cymru ei Phrif Weinidog benyw cyntaf tan 2025 (y chweched Prif Weinidog ers sefydlu'r Cynulliad ym 1999). Fodd bynnag, yn 2024, cymerodd Cymru safle blaenllaw yn y byd unwaith eto pan dyngodd ei Phrif Weinidog Du cyntaf ei lw. Ef hefyd oedd arweinydd Du cyntaf gwlad Ewropeaidd.

Wrth edrych ar draws oes y Senedd (gweler ffigurau 4 a 5), y tu hwnt i swydd y Prif Weinidog, mae menywod wedi cael eu tangynrychioli'n sylweddol yn rolau'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol (er nad yw'r naill rôl na'r llall wedi bodoli drwy gydol


[34] Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad (2017) tudalennau 119-120

oes y Senedd[35]). Fodd bynnag, mewn saith o'r naw portffolio sy'n weddill, mae menywod wedi dal y swyddi hyn am y rhan fwyaf o oes y Senedd. Yn arbennig, mae chwech o'r portffolios hyn wedi bod yn nwylo menyw am o leiaf 60% o'r amser: Rheolwr Busnes/Prif Chwip (92%), Amaethyddiaeth/Materion Gwledig (60%), Addysg (65%), yr Amgylchedd/Cynaliadwyedd (64%), Cyllid (81%) a Llywodraeth Leol (69%).

| | Blynyddoedd Gwryw | Blynyddoedd Benyw | Blynyddoedd Gwag/Ddim yn bodoli | % Gwryw | % Benyw |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Prif Weinidog | 24 | 2 | 0 | 92 | 8 |
| Y Dirprwy Brif Weinidog | 10 | 0 | 16 | 100 | 0 |
| Y Cwnsler Cyffredinol | 15 | 2 | 9 | 88 | 12 |
| Rheolwr Busnes / Trefnydd / Prif Chwip | 2 | 24 | 0 | 8 | 92 |
| Amaethyddiaeth / Materion Gwledig | 10 | 15 | 1 | 40 | 60 |
| Diwylliant / Treftadaeth | 15 | 8 | 3 | 65 | 35 |
| Yr economi | 20 | 6 | 0 | 77 | 23 |
| Addysg | 9 | 17 | 0 | 35 | 65 |
| Yr Amgylchedd / Cynaliadwyedd | 9 | 16 | 1 | 36 | 64 |
| Cyllid | 5 | 21 | 0 | 19 | 81 |
| Iechyd | 11 | 15 | 0 | 42 | 58 |
| Llywodraeth Leol | 8 | 18 | 0 | 31 | 69 |

Ffigur 4: Nifer y blynyddoedd mae portffolios y Cabinet wedi cael eu dal gan ddynion a menywod

[35] Mae rôl y Cwnsler Cyffredinol wedi bod mewn statud ers Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Gellir nodi, gan mai rôl y Cwnsler Cyffredinol yw darparu cyngor cyfreithiol a bod yn gynrychiolydd yn llysoedd Llywodraeth Cymru, mai nifer gyfyngedig o Aelodau sydd wedi meddu ar y cymwysterau i ymgymryd â'r rôl hon ar unrhyw adeg yn hanesyddol.




Ffigur 5: Canran yr amser mae portffolios y Cabinet wedi eu dal gan ddynion a menywod

Mae gwaith ymchwil blaenorol wedi awgrymu bod dyraniad portffolios ymhlith gweinidogion yn aml yn seiliedig ar rywedd, gyda menywod yn tueddu i 'ffitio' i feysydd polisi sy'n cyd-fynd yn agos â stereoteipiau rhywedd (Duerst-Lahti a Kelly 2011; Goddard 2019).[36] Yn aml, mae gwleidyddion benyw uwch yn cael eu dyrannu (neu, yn wir, yn dewis) yr hyn a elwir yn bortffolios 'pinc' neu 'feddal' sy'n canolbwyntio ar rolau gofalgar a mynegiannol fel yr amgylchedd, addysg, neu'r rhai sy'n ymwneud â rhywedd neu gydraddoldeb (Curtin 2022).[37] Mae portffolios hefyd wedi eu plethu ag ystyriaethau o fri ac mae'r rhai sydd wedi eu codio fel rhai 'gwrywaidd' gan waith blaenorol yn aml yn rhai a welir fel rhai o fri uwch ac yn cynnwys meysydd fel yr economi a chyllid. Fel arfer maent yn cael eu cysylltu yn fwy cyffredin â chyllidebau uwch a'r tebygolrwydd o symud ymlaen i rolau uwch (Krook ac O'Brien 2012).[38]

Mae'r dystiolaeth ar gyfer hyn yma yn gymysg, gyda rhai gwyriadau o waith ymchwil blaenorol. Er enghraifft, er bod yr Economi yma, sy'n cael ei godio yn gyffredin fel portffolio gwrywaidd uchel ei fri, wedi ei ddominyddu gan weinidogion gwryw (77%), mae Cyllid (a restrir fel arfer fel portffolio gwrywaidd uchel ei fri hefyd) wedi ei ddal yn

[36] Duerst-Lahti, G. a Kelly, RM (2011). *Gender Power, Leadership, and Governance*. Michigan: University of Michigan Press.
Goddard, D. (2019). Entering the men's domain? Gender and portfolio allocation in European governments. European Journal of Political Research, 58(2), 631-655. https://doi.org/10.1111/1475-6765.12305
[37] Curtin, J. ac eraill. (2022). Sex, gender, and promotion in executive office: Cabinet careers in the world of Westminster. *Governance* n/a(n/a), doi: https://doi.org/10.1111/gove.12667
[38] Krook, M. L. and O'Brien, D. Z. (2012). All the President's Men? The Appointment of Female Cabinet Ministers Worldwide. *The Journal of Politics* 74(3), tt. 840-855.

amlach gan fenywod (81%). Roedd eraill hefyd i bob golwg yn gwyro ychydig o'r disgwyliad arferol. Er enghraifft, mae Amaethyddiaeth a Materion Gwledig fel arfer yn cael eu hystyried yn rhai gwrywaidd ond yma roedd 60% yn fenywod; ac roedd Iechyd a Diwylliant a Threftadaeth, y ddau bortffolio sydd fel arfer yn cael eu codio'n fenywaidd, wedi gweld gweinidogion gwryw 42% a 65% o'r amser yn y drefn honno. Er gwaethaf hyn, mae rhywfaint o dystiolaeth o hyd o ddyraniadau portffolio yn ôl rhywedd ar gyfer gweinidogion Addysg a'r Amgylchedd/Cynaliadwyedd (wedi eu codio'n fenywaidd), a'r Cwnsler Cyffredinol (uchel ei fri, gwrywaidd).

*Cynnal cynrychiolaeth: Atal llithro'n ôl y tu hwnt i 2026*

Ar argymhelliad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadau'r Cynulliad, cyflwynwyd Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) ym mis Medi 2023 gyda'r bwriad o integreiddio cwotâu rhywedd statudol i etholiadau'r Senedd.[39] Tynnwyd y bil yn ôl yn y pen draw yn dilyn yr asesiad ei fod y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol, gyda Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau anstatudol ar fesurau y gallai pleidiau eu cymryd i gynyddu amrywiaeth yr ymgeiswyr yn ei le.[40] [41]

Achosodd y penderfyniad i ollwng y bil lawer o bryder ymhlith yr Aelodau Seneddol a'r aelodau hynny o gymdeithas sifil a oedd o'r farn bod cwotâu rhywedd yn gam angenrheidiol i sicrhau deddfwrfa gynrychioliadol.[42]

> [ar 'Fil Cwotâu Rhywedd'] ... *roedd gennym ni'r holl dystiolaeth, roeddech chi'n gwybod fod y cyfan yno, ond bydd yn brawf o Senedd y dyfodol os bydd unrhyw un yn rhoi hyn yn eu maniffesto* (AS benyw).

Yn wir, heb fesurau cymorth penodol, mae cyfansoddiad mwy cytbwys o ran rhywedd yn y Senedd yn ansicr iawn, gyda'r risg y gallai'r Seithfed Senedd fod y lleiaf cynrychioliadol o fenywod hyd yn hyn.[43]

[39] Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol).
https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=42338
[40] Datganiad y Llywydd ar Gymhwysedd Deddfwriaethol, 11 Mawrth 2024.
https://senedd.cymru/media/wwjloxyw/pri-ld16394-pos-w.pdf
[41] Llywodraeth Cymru, Canllawiau ar amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig, 25 Mawrth 2025, https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-amrywiaeth-chynhwysiant-ar-gyfer-pleidiau-gwleidyddol-cofrestredig-html#168276
[42] A Missed Opportunity for Gender Equality: The Case for Gender Quotas, RhCM Cymru, 18 Medi 2024, https://wenwales.org.uk/en/a-missed-opportunity-for-gender-equality-the-case-for-gender-quotas/
[43] 'Why the next Senedd could be the least representative of women ever', y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, 8 Ebrill 2025, https://electoral-reform.org.uk/why-the-next-senedd-could-be-the-least-representative-of-women-ever/

Mynegwyd gobaith y byddai cymhwysedd ar gyfer mesur i gefnogi amrywiaeth ymgeiswyr yn cael ei ystyried yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae rhai pleidiau wedi mynd ar drywydd mesurau gweithredu cadarnhaol gwirfoddol yn amrywiol ar gyfer menywod, lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl. Bydd Yn y pen draw, ni fydd sicrwydd ynghylch union natur gynrychioliadol deddfwrfa Cymru tan ganlyniad etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026.

*Casgliad*

Yn sicr bu llawer i'w ddathlu yng Nghymru o ran cynrychiolaeth menywod yn y ddeddfwrfa. O 'bwynt isaf' o 40% ym 1999, aeth Cymru ymlaen i fod yn arweinydd byd o ran cynrychiolaeth menywod, fel y ddeddfwrfa gyntaf â chynrychiolaeth gytbwys o fenywod a dynion. Er mwyn i'r Senedd fod yn wirioneddol gynrychioliadol o bobl Cymru, mae'n hanfodol nad yw cynrychiolaeth menywod yn llithro yn ôl ond, yn hytrach, rhaid ei chryfhau fel rhan o waith ehangach i gryfhau rhinweddau cynrychioliadol corff etholedig Cymru.

## Cynrychiolaeth Amrywiol a'r bwlch data mawr

Beirniadaeth gyffredin yn erbyn y Senedd yw ei pherfformiad gwael iawn y tu hwnt i gynrychiolaeth menywod. Er bod Cymru yn cael ei chydnabod fel cartref Prif Weinidog Du cyntaf Ewrop, ychydig iawn o Aelodau o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sydd wedi bod. Er ei bod yn sicr yn wir bod y Senedd wedi bod yn amlwg o *an*amrywiol y tu hwnt i'w gynrychiolaeth o fenywod, mae dadansoddiad manwl yn cael ei lesteirio gan ddiffyg data ffurfiol ar nodweddion personol Aelodau'r Senedd.

Gan nad ystyrir bod Aelodau'r Senedd yn gyflogeion Comisiwn y Senedd, ni chasglwyd eu data demograffig (gan gynnwys y naw nodwedd warchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 na'u statws economaidd-gymdeithasol). Fel rhan o'r adroddiad hwn, gwnaed ymgais i lunio cronfa ddata o ddatganiadau cyhoeddus gan Aelodau o'r Senedd ynghylch anabledd a rhywioldeb; fodd bynnag, roedd y data a gasglwyd yn rhannol fel nad oedd yn ddigonol ar gyfer gwaith dadansoddi. Serch hynny, gallwn gasglu nad yw'r Senedd erioed wedi cael mwy na 5% o Aelodau etholedig o nodwedd warchodedig LHDTC, anabl neu leiafrif ethnig, yn y drefn honno.

Mae'r bwlch hwn yn y data yn peri problemau difrifol, yn rhannol o ran atal dealltwriaeth fanylach o gynrychiolaeth yn y Senedd.

### Argymhellion y Bwrdd: Cynrychiolaeth Gyfartal

- Argymhelliad: Dylai'r Senedd a'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod unrhyw adolygiad statudol o effaith y system etholiadol newydd o ganlyniad i adran 19 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 yn cynnwys asesiad o'i effaith ar amrywiaeth a chynhwysiant. Dylai hefyd ystyried unrhyw achosion o anghydbwysedd sydd wedi codi a gwneud argymhellion ar sut y gellir mynd i'r afael â'r rheini.

- Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru geisio Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn galw am ddatganoli cymhwysedd mewn perthynas â deddfwriaeth ar fesurau i gefnogi amrywiaeth ymgeiswyr etholiadol, a gosod y Gorchymyn arfaethedig o dan Reol Sefydlog 25. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried unrhyw lwybr cyfreithiol arall y gellir ei ddilyn er mwyn cyflawni cefnogaeth mwyafrif y Senedd o blaid mecanweithiau statudol i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ymhlith ymgeiswyr etholiadol.

- Argymhelliad: Dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd gasglu data demograffig ar draws holl nodweddion gwarchodedig Aelodau o'r Senedd pan fyddan nhw'n dod i'r Senedd yn y lle cyntaf, er mwyn hwyluso dadansoddiad cydraddoldeb o gynrychiolaeth. Dylai hyn gynnwys dangosyddion o statws economaidd-gymdeithasol (megis galwedigaethau rhieni, statws o ran tai, ysgolion yr aed iddynt) a dadansoddiad croestoriadol.

- Argymhelliad: Cynnal Adolygiad pellach yn ystod y Seithfed Senedd o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd, o fewn amserlen sy'n darparu ar gyfer ei gwmpas i gynnwys pleidiau gwleidyddol, staff yr Aelodau, staff gwasanaethau Comisiwn y Senedd, ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

## Cyfranogiad Cyfartal

Cynhelir busnes seneddol yn y Cyfarfodydd Llawn ddwywaith yr wythnos ac yn 17 pwyllgor y Senedd.[44] Mae archwilio cyfranogiad ASau yn y fforymau hyn yn datgelu'r ffyrdd y gall Aelodau'r Senedd wneud cyfraniadau sylweddol at fywyd y Senedd.

### *Pwyllgorau*

Ar hyn o bryd, mae saith o'r 17 pwyllgor yn bwyllgorau polisi a deddfwriaeth, ac mae gan bob un ohonynt chwe Aelod Pwyllgor. Mae'r pwyllgorau hyn wedi eu trefnu'n thematig yn

[44] https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/pwyllgorau/

hytrach na'u halinio â phortffolios gweinidogol (Stirbu 2021: 44).[45] Y tu hwnt i'r pwyllgorau thematig hyn mae nifer o bwyllgorau swyddogaethol hefyd, y gellir ystyried bod rhai ohonynt yn fwy arwyddocaol yn strategol ar gyfer busnes y Senedd. Mae’r rhain yn cynnwys y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Busnes. Gyda phedwar Aelod yr un, mae gan y pwyllgorau hyn aelodaeth lai na'u cymheiriaid thematig.

Fel rhan o bob pwyllgor, mae'r cadeirydd yn chwarae rhan bwysig o ran arweinyddiaeth. Yn ogystal â sicrhau bod Aelodau’n cael eu cynnwys yn deg ac yn gytbwys yn nhrafodaethau a dadleuon y pwyllgor, gall cadeiryddion pwyllgorau lunio gwaith pwyllgor, gan gynnwys ei agenda a’r argymhellion sy’n deillio o ymchwiliadau. O'r herwydd, mae'r rhain yn swyddi uchel eu statws a phoblogaidd. Y Pwyllgor Busnes sy'n gyfrifol am benderfynu ar ddyrannu Cadeiryddion Pwyllgorau i grwpiau'r pleidiau, gan wneud hynny mewn perthynas â chyfansoddiad gwleidyddol y Senedd ac mewn ymgynghoriad â'r grwpiau plaid eu hunain. Yna, gadewir i'r pleidiau enwebu unigolion i'r rolau hyn mewn Cyfarfod Llawn; ac os oes dau neu ragor o enwebiadau, cynhelir pleidlais gyfrinachol gyda holl Aelodau'r Senedd.

Mae Ffigurau 6 a 7 isod yn datgelu canfyddiadau trawiadol ynghylch cadeirio rhai o bwyllgorau allweddol y Senedd. Dim ond ar y Pwyllgor Busnes (sydd bob amser yn cael ei gadeirio gan y Llywydd) a'r pwyllgor sy'n gyfrifol am faterion Llywodraeth Leol mae dosbarthiad mwy cyfartal o'r rolau hyn wedi bod rhwng menywod a dynion.

Ar draws gweddill Cadeiryddion y Pwyllgorau a ddadansoddwyd, mae anghydbwysedd nodedig, yn fwyaf pryderus o ran cadeiryddiaeth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (sydd wedi cael ei ddal gan AS gwryw am 85% o oes y Senedd) a chadeiryddiaeth y Pwyllgor Cyllid (sydd wedi cael ei ddal gan AS gwryw am 68% o oes y pwyllgor).


Mae canfyddiadau’r ddau bwyllgor hyn yn arbennig o drawiadol o ystyried eu pwysigrwydd strategol i waith y Senedd. Yn wir, mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn craffu ar bob Bil a gyflwynir gerbron y Senedd, a gall hefyd ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad, cyfiawnder a materion allanol. Mae'n nodedig nad oes Aelodau benyw ar y Pwyllgor hwn yn y Senedd bresennol.

| | Blynyddoedd Gwryw | Blynyddoedd Benyw | Blynyddoedd heb eu cynnull |
|---|---|---|---|
| Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad | 22 | 4 | 0 |
| Busnes | 13 | 13 | 0 |

[45] Pŵer, Dylanwad ac Effaith Pwyllgorau'r Senedd: Datblygu fframwaith ar gyfer mesur effeithiolrwydd pwyllgorau, Mai 2021, https://senedd.cymru/media/obonnro1/gen-ld14672-w.pdf

| | | | |
|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth / Materion Gwledig | 26 | 0 | 0 |
| Diwylliant / Treftadaeth | 4 | 18 | 4 |
| Yr Economi | 18 | 8 | 0 |
| Addysg | 8 | 18 | 0 |
| Yr Amgylchedd / Cynaliadwyedd | 25 | 1 | 0 |
| Cyllid | 15 | 7 | 4 |
| Iechyd | 22 | 4 | 0 |
| Llywodraeth Leol | 14 | 12 | 0 |

Ffigur 6: Nifer y blynyddoedd mae dynion a menywod wedi bod yn Gadeiryddion Pwyllgorau[46]




Ffigur 7: Canran yr amser mae dynion a menywod wedi bod yn Gadeiryddion Pwyllgorau[47]


[46] Ffigur 6 - Nodyn methodolegol: * Nid oedd y Pwyllgor Cyllid yn bodoli yn ystod y Cynulliad cyntaf. **Nid yw Pwyllgorau'r Senedd wedi dilyn cylchoedd gwaith rolau'r Cabinet yn unffurf yn ystod pob Cynulliad/Senedd. Er enghraifft, mewn rhai blynyddoedd mae'r pwyllgor amgylchedd wedi craffu ar y portffolio amaethyddiaeth, ac mewn blynyddoedd eraill fe'i gwnaed gan bwyllgor penodol. Mae'r ffigur yn dangos ai dyn ynteu menyw oedd yn cadeirio'r pwyllgor oedd â'r cyfrifoldeb craffu perthnasol. Gan hynny, yn yr ail, y trydydd, y pedwerydd a'r pumed Senedd, mae un Cadeirydd Pwyllgor yn cael ei gyfrif ddwywaith. Ym mhob achos, roedd Cadeirydd y Pwyllgor yn AS Gwryw, h.y. fe'u cyfrifir fel cadeiryddion dau bwyllgor i bob pwrpas. Mae hyn yn gorchwyddo nifer y dynion yn y rolau hyn.
[47] Cyfeiriwch at y nodyn methodolegol uchod (ynghylch ffigur 6).

Gweler yr adran ar 'Gwaith Pwyllgorau a Chyfarfodydd Llawn' isod am drafodaeth ar effaith cynrychiolaeth dynion a menywod ar eu cyfranogiad mewn gwaith pwyllgorau.

*Cyfarfodydd Llawn*

Mae dadansoddiad o Gofnod y Trafodion yn rhoi cipolwg ychwanegol ar gydraddoldeb cyfranogiad menywod a dynion mewn sesiynau Cyfarfod Llawn, gan gyfeirio at nifer y cyfraniadau a wneir gan Aelod o'r Senedd, hyd cyffredinol y cyfraniadau, nifer yr ymyriadau yn ystod cyfraniadau, a nifer yr achosion o darfu yn ystod cyfraniadau.[48]

Wrth edrych ar draws y 70 o sesiynau Cyfarfod Llawn ym mlwyddyn seneddol 2024-25 y Senedd, fe wnaeth menywod nifer anghymesur o uchel o gyfraniadau. Yn yr un modd, roedd hyd cyffredinol cyfraniadau gan fenywod yn anghymesur o hirach (gweler ffigur 8).[49]





Ffigur 8: Cyfran y cyfraniadau a hyd y cyfraniadau a wnaed gan fenywod a dynion yn y Cyfarfod Llawn

Datgelodd dadansoddiad fod lefel y tarfu gan fenywod a dynion yn cyd-fynd â'u cynrychiolaeth yn y Siambr; fodd bynnag, roedd dynion yn 'rhoi' ac yn 'cael' cyfran anghymesur o ymyriadau (gweler ffigur 9). Roedd hyn yn golygu bod ASau gwryw yn fwy tebygol nag ASau benyw o ofyn ('rhoi') ymyriad pan oedd AS arall yn siarad, ac yn fwy tebygol o gael cais am ymyriad wedi ei gyfeirio atynt pan oeddent yn siarad ('cael').

[48] Gyda diolch arbennig i Ymchwil y Senedd am y gwaith casglu data a dadansoddi hwn.

[49] Ffigur 8 - Nodyn methodolegol yn seiliedig ar ddadansoddiad yr awduron: Cyfran y cyfraniadau: yn ystadegol arwyddocaol ($\chi^2$=253, $p<0.01$). Hyd y cyfraniadau: mae'n ymddangos yn arwyddocaol yn ystadegol, sef tua $p<0.05$ ($\chi^2$=3.67).




Ffigur 9: Cyfran yr achosion o darfu ac ymyriadau a 'roddwyd' ac a 'gafwyd' gan fenywod a dynion[50]

Roedd cyfyngiadau i'r dadansoddiad hwn o ystyried y data oedd ar gael. Yn gyntaf, nid oedd yn bosibl pennu a oedd ymyriad wedi cael ei dderbyn ai peidio, sy'n hanfodol i'n dealltwriaeth o'r cwestiwn a yw menywod a dynion yn cael y cyfle i gymryd rhan. Yn ail, nid oedd yn bosibl nodi rhyw'r unigolyn a oedd yn torri ar draws (yn hytrach nag yn ymyrryd). Byddai'r data hwn yn datgelu a yw menywod a dynion yn torri ar draws yn amlach, hefyd o ran rhyw'r AS maent yn torri ar ei draws/ei thraws a pha un a ydynt yn siarad yn Gymraeg neu'n Saesneg. Yn olaf, nid oedd unrhyw ddata ynghylch a oedd AS yn cymryd rhan yn rhithiol neu'n bersonol, a oedd yn atal dadansoddiad o effaith gweithio hybrid ar gymryd rhan mewn Cyfarfod Llawn.

## Arddulliau Gwleidyddol

O fewn cyd-destun yr ymchwil a'r cwestiwn ynghylch pwy sy'n gosod y diwylliant, gofynnwyd i gyfranogwyr am yr arddulliau gwleidyddol sydd ar waith yng nghyfarfodydd a dadleuon Cyfarfod Llawn y Senedd. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn amrywio o ran eu hasesiad o osod t diwylliant, gyda rhai o'r farn ei fod yn cael ei osod yn bennaf gan y Comisiwn a'r Llywydd, tra bod eraill o'r farn mai'r Aelodau sy'n ffurfio'r Senedd sy'n gyfrifol, *'Ni yw'r Senedd'* (AS gwryw). Mae'r farn hon yn awgrymu bod ASau yn deall bod eu gwaith a'u ymddygiad yn gosod y naws, yn hytrach na sut mae busnes, gwasanaethau cymorth a chyfleusterau yn cael eu trefnu.

Mae llenyddiaeth yn dangos bod gan ddynion a menywod arddulliau gwahanol yn aml a ystyrir yn rhai sy'n seiliedig ar rywedd ac a drefnir o amgylch rolau rhywedd gwrywaidd a

[50] Ffigur 9 Nodyn methodolegol yn seiliedig ar ddadansoddiad yr awduron: Cyfran yr ymyriadau: ddim o arwyddocâd ystadegol ($\chi^2$=0.569). Ymyriadau a 'roddwyd': yn ystadegol arwyddocaol ($\chi^2$=6.23), $p<0.05$) gyda'r rhai 'Anhysbys' wedi eu tynnu o'r cyfrifiadau. Ymyriadau 'a dderbyniwyd': yn ystadegol arwyddocaol ($\chi^2$=6.07, $p<0.05$) gyda'r rhai 'Anhysbys' wedi eu tynnu o'r cyfrifiadau

benywaidd traddodiadol wedi eu rhannu (Childs 2004).[51] Canfuwyd bod gwleidyddion benyw yn ystyried eu hunain yn fwy parod i gydweithio a chydweithredu, ochr yn ochr â bod eisiau torri drwy 'rethreg wrywaidd rodesgar' (von der Fehr et al. 2005) ac yn ffafrio 'arddull wleidyddol fenywaidd' sydd wedi ei disgrifio mewn amrywiol ffyrdd fel: mwy caredig, llai ymosodol, llai ffyrnig, pwyllog, gofalgar, ymarferol, wedi ei yrru gan ffeithiau, a gonest (Norris 1996; Bochel a Briggs 2000; Lovenduski 2005; Hargrave a Langengen 2021).[52]

Mae rhai arsylwadau, a ddisgrifir o bosibl fel rhai realistig, yn dangos barn ar wleidyddiaeth fel rhywbeth cystadleuol yn ei hanfod, ac un lle mae gan bolisïau ffurfiol rôl gyfyngedig:

> *Oherwydd ... gallwch gael faint fynnwch chi o bolisïau, ond oni bai bod pobl yn chwarae'n deg, nid yw’n golygu dim. Ac mewn gwleidyddiaeth, yn ei hanfod ... mae'n fusnes cystadleuol .... o ran amcanion personol, ond hefyd o ran syniadau gwleidyddol; a dyna natur y peth, dyna natur amrwd yr holl beth. Ni allwch newid hynny. Dyna beth y bwriedir iddo fod. Mae'n gwbl ddidostur* (AS gwryw)

I fenywod a gafodd eu cyfweld, roedd ffordd o weithio fwy cydsyniol ac ystyriol yn cael ei gwerthfawrogi ond roedd dderbyniad anorfod bod gwleidyddiaeth fwy 'perfformiadol' yn dod yn gyffredin a bod hynny'n golygu bod menywod yn goddef ymddygiad y gellir ei ystyried yn danseiliol. Clywsom gan amrywiaeth o fenywod fod y diwylliant yn y Siambr yn newid:

> *... pan gyrhaeddais gyntaf fel newydd-ddyfodiad, roeddent yn gefnogol iawn [ASau benyw, trawsbleidiol]. Felly, yn yr ystyr hwnnw roedd yn brofiad eithaf da... ond os ydych chi eisiau siarad am y presennol, rydw i'n teimlo nad yw'r math o wleidyddiaeth Ya-boo sy'n digwydd yn y Siambr yn addas i'm steil i, ac weithiau rydw i'n meddwl bod pobl... yn tueddu i fod ychydig yn ddiystyriol o'r rhai sy'n dewis ffordd dawelach, mwy colegol, mwy cydweithredol, mwy perswadiol a meddylgar o wneud pethau.* (AS benyw)

> *Wyddoch chi, mae 'na ddynion yn siarad ar eich traws, ddim yn gweiddi, ond yn defnyddio llais uchel iawn. Hynny yw, un o'r pethau rydw i wedi gweld*

---

[51] Childs, S. (2004). A Feminised Style of Politics? Women MPs in the House of Commons. *The British Journal of Politics and International Relations* 6(1), tt. 3-19.
[52] von der Fehr, D. ac eraill, 2005. *Is There A Nordic Feminism?: Nordic Feminist Thought On Culture And Society*. Taylor & Francis.
Bochel, C. a Briggs, J. 2000. Do women make a difference. *Politics* 20(2), tt. 63-68.
Lovenduski, J. 2005. *Feminizing Politics*. Cambridge: Polity Press.
Norris, P. 1996. Women Politicians: transforming Westminster. *Parliamentary Affairs* 49(1), tt. 89-102.
Hargrave, L. a Langengen, T. 2021. The Gendered Debate: Do Men and Women Communicate Differently in the House of Commons? *Politics & Gender* 17(4), tt. 580-606. doi: 10.1017/S1743923X20000100

> *llawer ohono yn y Siambr yw, os ydych chi'n defnyddio nodiadau, bydd dynion yn dweud, o, rydych chi'n darllen o'ch nodiadau. Ac rydw i'n meddwl bob amser, wel ... mae dynion a menywod yn defnyddio nodiadau* (AS benyw)

> *Rydw i'n teimlo bod naws y dadleuon yn iawn yn y Cyfarfod Llawn. Oherwydd natur gwleidyddiaeth bleidiol i ryw raddau, mae hi wastad yn mynd i fod yn ddadl gadarn, ond dydych chi ddim yn tueddu i gael cymaint o weiddi a phwyntio at bobl yn llythrennol ag sydd gennych chi yn San Steffan. Wyddoch chi, rydw i'n meddwl ei bod hi'n berfformiadol iawn yn San Steffan, ac rydw i'n gresynu ei fod wedi symud ychydig mwy tuag at hynny [yn y Senedd]* (AS benyw)

> *Gall aelodau fod ychydig yn ddiystyriol, os yw eich steil yn dawelach, yn fwy meddylgar ... ac weithiau rydych chi'n sylwi ar hyn fel rhywfaint o annifyrrwch ... a all ddeillio o agweddau rhywiaethol* (AS benyw)

Mae pryder clir y bydd gwleidyddiaeth fwy ffyrnig, lle mae pobl eisiau sgorio pwyntiau yn erbyn ei gilydd (yn debycach i San Steffan) yn dod yn norm, ac yn cael effaith niweidiol ar y gallu i gyflwyno a thrafod tystiolaeth mewn ffordd ystyriol – gan symud y Senedd i ffwrdd o'i hegwyddorion sylfaenol o wrando, archwilio a, lle bo modd, adeiladu consensws. Yn wir, fe wnaeth llawer o'r rhai a gyfwelwyd sylwadau ar bensaernïaeth y Siambr a oedd wedi ei hadeiladu at y diben hwn, ac roeddent yn gwerthfawrogi'r ffordd roedd y gofod yn annog trafodaeth feddylgar (gan alaru am golli hynny tra'r oeddent mewn siambr dros dro i'w galluogi i ehangu).

Roedd y trafodaethau hyn hefyd yn adleisio sylwadau am y ffaith bod gan y Senedd ddiwylliant sy'n cael ei ddominyddu gan ddynion o hyd, er gwaethaf y ffaith ei bod yn cynnwys 43% o fenywod, a menywod yn arwain mewn rolau fel y Prif Weinidog a'r Llywydd. Yn amlwg, roedd ASau benyw yn ymwybodol nad yw cynrychiolaeth o'r fath wedi ei gwarantu, ac roeddent yn rhagweld sut gallai'r diwylliant fod pe bai llawer llai o fenywod yn cael eu hethol ar ôl etholiad y Senedd ym mis Mai 2026. Mae angen i beirianwaith pleidiau ystyried y drafodaeth hon, ond nid oes gennym argymhellion penodol ar gyfer pleidiau gwleidyddol, gan fod hyn y tu allan i'n cylch gwaith.

Fodd bynnag, mae Aelodau'n cael hyfforddiant rheolaidd ar safonau ymddygiad a chonfensiynau'r Cyfarfod Llawn gan Wasanaethau'r Comisiwn. Mae gwasanaethau'r Comisiwn wedi ymgysylltu'n helaeth â Phenaethiaid Staff o bleidiau gwleidyddol ac Aelodau i baratoi hyfforddiant croeso a sefydlu newydd ar gyfer y Seithfed Senedd. Darperir rhagor o wybodaeth gan Wasanaethau'r Comisiwn yn Atodiad 1.

Mae hefyd yn werth nodi bod rheolaeth y Llywydd o'r Cyfarfod Llawn, gan sicrhau cyfranogiad cyfartal a didueddrwydd, wedi ei chanmol mewn sawl cyfweliad ymchwil.

Nododd ASau yn benodol fod gweithio o bell yn ystod pandemig COVID wedi effeithio ar natur a dull yr ymgysylltu (gan ddod yn fwy trafodiadol), a bod y Llywydd wedi helpu i ailsefydlu diwylliant o wrando a thrafodaeth ystyriol.

## Gwaith Pwyllgorau a’r Cyfarfod Llawn

Yn ein gwaith ymchwil, dywedodd yr Aelodau wrthym faint roeddent yn gwerthfawrogi gwaith pwyllgorau. Roeddent yn ei ystyried yn un o feysydd mwyaf boddhaol eu rôl, ochr yn ochr â'u gwaith yn yr etholaeth. Gwerthfawrogwyd gwaith pwyllgorau yn rhannol oherwydd nod yr Aelodau i weithio’n fanwl ar bwnc a gwaith i gyrraedd consensws ar sail drawsbleidiol. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod yr wythnos fusnes wedi ymestyn, gyda busnes pwyllgorau yn digwydd ar foreau Mercher, ar ddydd Iau (yn aml ar foreau a phrynhawniau), ac i rai Aelodau ar foreau Llun a Mawrth.[53] Dywedodd yr aelodau wrthym fod gwaith paratoi pwyllgorau yn aml yn digwydd ddydd Sul. Effaith hyn oedd cyfyngu ar eu hamser hamdden a’u hamser gyda’r teulu, ac o ganlyniad dyfnder y gwaith craffu yn y pwyllgorau:

> *… yn ddelfrydol, byddech chi eisiau cael sgyrsiau y tu allan i'r cyfarfod i baratoi a gwneud rhywfaint o waith cloddio i gael cyd-destun. Wyddoch chi, yn anaml y cewch chi'r cyfle hwnnw. … Felly o ran elfen Senedd y swydd ynddi ei hun, os ydych chi'n gwneud y swydd honno fel aelod o'r meinciau cefn yn gydwybodol, mae'r elfen Senedd honno'n ymrwymiad llawn* (AS gwryw).

> *Yr amser sydd gennych chi i eistedd mewn cyfarfodydd - wyddoch chi, mae cyfarfodydd pwyllgor yn bum awr o hyd* (AS benyw)

Awgrymwyd i ni, o ystyried hyd y Cyfarfod Llawn, y byddai’r syniad o egwyl am bum munud bob awr yn fras yn cael ei groesawu gan ASau, ac y byddai'n gweithredu fel mesur cynhwysiant:

> *Dydych chi ddim i fod i [gymryd seibiant] os ydych chi'n cymryd rhan yn y ddadl. Wel, weithiau mae dadleuon o leiaf awr o hyd, a phan rydyn ni'n gwneud deddfwriaeth, maen nhw'n oriau o hyd ac rydym yn cael seibiant achlysurol. Ond rydw i'n gwybod yn y gorffennol fy mod i wedi gorfod rhoi winc i’r Llywydd… Ac rydw i'n meddwl… Pe bai gennych chi anghenion penodol, wyddoch chi, pe bai gennych chi anabledd, Duw a'ch helpo chi. Fedra i ddim ond dychmygu pa mor anodd fyddai hynny.* (AS benyw)

[53] Mae slotiau cyfarfod rheolaidd dydd Llun wedi cael eu defnyddio gan y Pwyllgorau Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a Deisebau.

Mae'r drafodaeth am oriau gwaith hir yn amlwg eto yn y dyfyniad dangosol cyntaf uchod, ac mae hefyd yn werth nodi bod sawl aelod o'r farn bod yr amser a fuddsoddwyd mewn gwaith etholaethol a phleidiol yn aml yn anweledig, ac felly'n rhan o'r rôl nad oedd yn cael ei chydnabod na'i gwerthfawrogi'n ddigonol, o ran ymrwymiad amser ac effaith.

Rhan o'r rhesymeg dros gynyddu aelodaeth o 60 i 96 o Aelodau'r Senedd oedd mynd i'r afael â'r disgwyliad afrealistig y gallai ASau fod ar ddau neu dri phwyllgor – weithiau wedi eu hamserlennu ar yr un pryd:

> [Bod yn aelod o dri phwyllgor] ... *Wel, allwch chi ddim ymdopi. Mae'n chwerthinllyd. Mae'n sefyllfa hurt i rywun gael ei roi ynddi* (AS gwryw)

> *...Rydw i'n meddwl, yn y system bwyllgorau yma ... bod disgwyl i chi wneud gormod i ddechrau. Dylai pawb gael un pwyllgor yn unig...* (AS benyw)

I fynd i'r afael â'r pryderon hyn, mae aelodaeth y pwyllgorau wedi ei leihau yn y Chweched Senedd o'i gymharu â Seneddau blaenorol, ond roedd hyn ynddo'i hun wedi cynyddu'r risgiau y byddai Pwyllgorau'n methu cyrraedd y cworwm.

Dywedodd Aelodau bod Cadeirydd Pwyllgor yn rôl bwysig. Y Cadeirydd sy'n gosod naws, arddull a diwylliant y pwyllgor, yn ogystal â chael dylanwad sylweddol dros yr agenda. Yn aml roedd hyn yn gweithio'n dda, ond dywedodd y cyfranogwyr wrthym nad oedd y system ar gyfer penodi i bwyllgorau o'u dewis bob amser yn dryloyw, bod hierarchaeth o bwysigrwydd rhwng pwyllgorau:

> *Maent yn tueddu i fod yn gystadleuol iawn, iawn [gan gyfeirio at yr Economi, Trafnidiaeth a Materion Gwledig, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith]* (AS benyw)

Dros amser, mae rhai pwyllgorau wedi dod yn bwyllgorau sy'n cael eu dominyddu gan ddynion neu fenywod. Gall hyn effeithio ar allu menywod i gael llais ar y pwyllgorau hynny a ystyrir yn bwysicaf neu'n bwerus (er enghraifft, yr Economi, Amaethyddiaeth a'r Hinsawdd), neu i leisiau dynion gael eu clywed ar y pwyllgorau diwylliant ac addysg. Gall hefyd leihau'r cyfle i fenywod godi eitemau cydraddoldeb mewn pwyllgorau lle ceir dynion yn bennaf, a'u gallu i fod yn effeithiol pan fyddant yn gwneud hynny:

> *Gallwch siarad am rywbeth, meddwl awgrym da ac yna mae dyn yn ei ailadrodd ac mae'n ei gymryd o ddifrif ... Fe wnes i ddarganfod, weithiau er mwyn cael eich clywed, bod yn rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod chi wedi gwneud eich ymchwil, ac yna rydych chi'n dod o hyd i'ch amser ac rydych chi'n cyfrannu rhywbeth ... Bydd hynny'n profi eich pwynt, oherwydd eich bod chi wedi gwneud y gwaith ymchwil hwnnw yn hytrach na meddwl amdano y tro cyntaf fel awgrym, yna mae hynny'n cael ei dderbyn.* (AS benyw)

Cododd y trafodaethau hyn gyfansoddiad rhywedd pwyllgorau ac felly eu ffocws:

> *Rydw i'n meddwl na allwch chi gael pwyllgor lle mai dim ond un rhyw sydd wedi ei gynrychioli, boed hynny'n wryw neu'n fenyw.* (AS benyw)

> *… mae'n rhaid i chi gael rhywfaint o gydbwysedd [ar Bwyllgorau] oherwydd nid dim ond ceisio gosod yr agenda sy'n bwysig. Mae'n llawer mwy na hynny. Mae'n ymwneud wedyn â meddwl yn ehangach am bwy rydych chi'n mynd i ofyn iddo roi cyflwyniadau o ran yr holl wybodaeth i helpu i lywio ymchwiliad. Felly mae'n ymwneud â chael y gynrychiolaeth ehangaf bosibl fel bod unigolion ar y pwyllgor hwnnw'n dod â'u profiadau gyda nhw ….* (AS benyw)

Ar hyn o bryd, dim ond dynion sy'n aelodau o'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (a nodwyd uchod fel pwyllgor o arwyddocâd strategol yn y Senedd). Er bod cyfranogwyr wedi nodi, fel rhan o drafodaeth ehangach am godi materion cydraddoldeb, bod amrywiaeth yn cael ei chynnwys yn y broses ddeddfwriaethol drwy gynnwys gwahanol leisiau yn fwriadol fel tystion i'r Pwyllgor, rydym hefyd wedi clywed bod pwyllgorau un rhyw, drwy homogenedd aelodau, yn rhoi'r posibilrwydd cynhenid o feddwl grŵp.

Gall gwybodaeth a phrofiad amrywiol gynyddu lled a dyfnder trafodaeth, gan arwain at y cyfle i archwilio, er enghraifft, gwrthdaro rhwng cenedlaethau, a gall arwain at wneud penderfyniadau yn well os caiff prosesau gweithredol a threfniadol eu rheoli'n effeithiol (Kirton a Greene, 2021).[54] Er mwyn sicrhau cynhwysiant, rydym yn argymell na ddylai pwyllgorau fod yn rhai un rhyw. Yn ddelfrydol, dylai fod cydbwysedd rhwng y rhywiau ar bwyllgorau ond rydym yn ymwybodol pe bai cynrychiolaeth menywod yn dirywio yn y Seithfed Senedd, mae'n bosibl y byddai rheol o'r fath yn golygu bod gofyn iddynt fod ar sawl pwyllgor i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau (ar gymhareb 60/40). Gallai'r canlyniad anfwriadol posibl hwn fod yn fwy tebygol os bydd nifer y pwyllgorau'n ehangu yn y Seithfed Senedd.

Y gobaith yw y byddai ehangu aelodaeth y Senedd yn golygu y gall Aelodau fod ar un pwyllgor, gan fod o fudd i'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a galluogi Aelodau i feithrin arbenigedd drwy arbenigo mewn un polisi neu faes deddfwriaethol. Roedd y cyfranogwyr hefyd yn gobeithio y gallai'r nifer cynyddol o ASau hefyd roi cyfle i amrywiaeth ehangach o Aelodau ymgymryd â gwaith pwyllgor, a hyd yn oed yn galluogi'r Senedd i dorri'n rhydd o stereoteipio ar sail rhywedd:

> *Felly unwaith eto, os ydym ni'n mynd i gael mwy ohonom ni, gwych, gadewch i ni gael mwy ohonom ni ar y pwyllgorau, cael mwy o gydbwysedd [o ran y rhywiau] ar y pwyllgorau a mwy o leisiau ar y pwyllgorau, mwy o gyfle i gael cworwm ar y pwyllgorau.* (AS benyw)

---

[54] Kirton, G. a Greene, M. (2021) The Dynamics of Managing Diversity and Inclusion: A Critical Approach (5[ed] rhifyn), Llundain: Routledge

> ... *un pwyllgor y byddech chi'n arbenigo arno, a byddai'n rhoi mwy o gymhelliant neu gyfle i fenywod ganolbwyntio ar bwnc nad oes ganddynt gymaint o wybodaeth amdano oherwydd natur ryweddol popeth mewn gwirionedd, felly rydw i'n meddwl y byddai hynny'n help mawr* (AS benyw)

Mae ehangu yn dod â pheryglon cynhenid i'w ganlyn, fodd bynnag, fel y posibilrwydd na fydd mwy o amser, y cyfle i arbenigo na mynd i'r afael ag anghydbwysedd rhwng y rhywiau. Clywsom nifer o weithiau, wrth i'r aelodaeth ymestyn, y bydd cyfle i gael mwy o Weinidogion i gwmpasu mwy o bortffolios (ychwanegu meysydd polisi neu rannu cyfuniadau presennol), a allai yn ei dro ehangu nifer y pwyllgorau:

> .... *yr hyn sydd gadarnhaol am y flwyddyn nesaf [mwy o aelodau etholedig] yw y bydd mwy ohonom ni a'r hyn y byddwn i'n gobeithio na fyddan nhw'n ei wneud yw, oherwydd bod mwy ohonom ni, eu bod nhw felly'n ehangu nifer y pwyllgorau. Byddai rhai'n dadlau bod gennym ni ddigon fel y mae yn awr a'r hyn y dylem ni fod yn ei wneud yw sicrhau bod mwy o bobl yn gallu eistedd ar y pwyllgorau hynny.* (AS benyw)

Mae'n bosibl na fydd cynyddu niferoedd yn unig yn datrys yr effaith ar graffu wrth i Aelodau orfod bod yn aelod o sawl pwyllgor neu gael trafferth i sicrhau bod pwyllgorau'n cyrraedd y cworwm neu eu bod yn anghytbwys rhwng y rhywiau. Bydd angen penderfyniad bwriadol i osod rheolau sy'n atal y materion hyn rhag rhwystro nodau cynhwysol ac ystyriol o deuluoedd yn y Senedd estynedig.

## Monitro amrywiaeth tystiolaeth

Ers 2021, mae'r Senedd wedi gwneud ymdrechion i ddeall yn well i ba raddau mae'r rhai sy'n cyfrannu at lunio polisïau o'r tu hwnt i'r Siambr yn gynrychioliadol o'r boblogaeth ehangach yng Nghymru, drwy 'Fonitro data tystiolaeth'. Wedi ei gasglu'n rhannol drwy arolygon gwirfoddol, mae'r Senedd wedi ceisio casglu data am y rhai sy'n cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig, yn darparu tystiolaeth lafar ac yn cymryd rhan mewn rhai o weithgareddau ymgysylltu â dinasyddion y Senedd (er enghraifft, grwpiau ffocws, cyfweliadau ac arolygon). Mae data a gasglwyd yn nodi nodweddion demograffig a chynrychiolaeth ddaearyddol. Darperir rhagor o fanylion yn Atodiad 1.

Ar ôl cynnal y broses dros bedair blynedd yn olynol, mae lefelau ymateb i arolygon wedi amrywio, gyda'r lefel isaf o 18% yn y flwyddyn beilot gyntaf (2021-22). Yn y flwyddyn ddiweddaraf o gasglu data (2024-25), roedd y cyfraddau ymateb yn 36% (yr un fath â'r flwyddyn flaenorol).

Mae dadansoddiad o'r rownd ddiweddaraf o gasglu data (2024-25) yn tynnu sylw at gynnydd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol yn nifer y rhai sy'n cymryd rhan am y tro cyntaf.[55] Parhaodd cyfranogiad o bell yn boblogaidd, yn ogystal â dewis ymgysylltu yn Saesneg. Roedd yn nodedig bod gostyngiad yn nifer y rhai a nododd eu bod o gefndir difreintiedig o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (22%, i lawr o 27%), a chyfran uchel barhaus o gyfranogwyr â graddau o'i gymharu â chyfartaledd y boblogaeth (90% o'i gymharu â 32% o'r boblogaeth). Roedd mwy o fenywod na dynion (57% o'i gymharu â 51% o'r boblogaeth), a mwy o ymatebwyr â chyfrifoldebau gofalu o'i gymharu â chyfartaledd y boblogaeth (21% o'i gymharu â 10% o'r boblogaeth). Yn nodedig, hon oedd y flwyddyn gyntaf lle nad oedd gwahaniaeth amlwg yn y cydbwysedd rhwng menywod a dynion ar draws pwyllgorau. Gostyngodd lefel yr ymatebwyr dros 60 oed i 25%, o'i gymharu â 34% o'r boblogaeth. Setlodd ymatebwyr ag anabledd hefyd o 23% i 16%, o'i gymharu â 21% o'r boblogaeth. Fel arall, ar y rhan fwyaf o ddangosyddion demograffig, roedd cyfansoddiad demograffig yr ymatebwyr yn unol â'r boblogaeth i raddau helaeth.

Mae'n ymddangos mai'r Senedd yw'r unig un sy'n ymdrechu fel hyn er, yn dilyn ei Harchwiliad Rhywedd ei hunan yn 2023,[56] mae Senedd yr Alban wedi dechrau casglu data ar dystion pwyllgor yn ddiweddar. Awgrymwyd nad yw ymwybyddiaeth o waith monitro amrywiaeth tystiolaeth y Senedd yn gyffredin ymhlith yr Aelodau. Bydd ymwybyddiaeth gynyddol o'r gwaith casglu data hwn – wedi ei hategu gan ganllawiau ynghylch sut mae'n cryfhau llunio polisïau – yn atgyfnerthu dealltwriaeth o fanteision casglu tystiolaeth gan amrywiaeth o bobl a sefydliadau fel y gall pwyllgorau fod yn fwy bwriadol yn eu gwahoddiadau i ddarparu tystiolaeth a gweithgareddau ymgysylltu.

## Argymhellion y Bwrdd: Cyfranogiad Cyfartal

- Argymhelliad: Dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd gasglu data ar gynhwysiant mewn dadleuon yn y Cyfarfod Llawn yn ôl nodweddion gwarchodedig. Dylai hynny gynnwys cyfraniadau, torri ar draws, ymyriadau ac a dderbynnir ceisiadau am ymyriadau, ac a wneir cyfraniadau yn y cnawd neu ar-lein, ac yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried adolygiad blynyddol o ddata cyfranogiad.[57]

[55] Senedd Cymru (2025) Atodiad: Pwy sy'n rhoi tystiolaeth i bwyllgorau? Dadansoddiad o ddata monitro amrywiaeth tystiolaeth, Hydref 2025 (i'w gyhoeddi yn 2026).
[56] Senedd yr Alban (2023) A Parliament for All: Report of the Parliament's Gender Sensitive Audit
[57] Nodwn fod ymarfer wedi ei gynnal yn Senedd yr Alban dros gyfnod o chwe wythnos rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2022 i gasglu data amser real ar nifer yr ymyriadau a geisiwyd, nifer yr ymyriadau a dderbyniwyd a'r rhai na dderbyniwyd, a rhaniad y data yn ôl rhywedd. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol y gallai technoleg neu AI ddarparu atebion yn hytrach na neilltuo adnoddau staff gwasanaethau Comisiwn y Senedd o reidrwydd i gofnodi'r data.

- Argymhelliad: Dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried pa newidiadau y gellir eu gwneud i'r Rheolau Sefydlog i wella cynhwysiant ar bwyllgorau. Byddai hynny'n seiliedig ar y canlynol: dim pwyllgorau un rhywedd, a/neu sicrhau cydbwysedd o ran rhywedd ym mhob pwyllgor cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, gan adlewyrchu cydbwysedd o ran rhywedd cyffredinol yr Aelodau, neu'r cydbwysedd o ran rhywedd ar ôl i rolau'r Cabinet gael eu tynnu o'r cyfrifiad.

- Argymhelliad: Dylai Bwrdd Gweithredu'r Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd fonitro unrhyw ehangiad o ran nifer a maint y pwyllgorau yn y Seithfed Senedd, ac felly nifer y pwyllgorau y disgwylir i Aelodau wasanaethu arnynt.

- Argymhelliad: Dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd roi dull effeithiol ar waith o rybuddio'r Llywydd ar unwaith pan fydd Aelod sy'n cymryd rhan ar-lein yn gofyn am ymyrraeth, er enghraifft 'botwm y Llywydd' – tebyg i'r un a ddefnyddir yn Senedd yr Alban.

- Argymhelliad: Dylai pob pwyllgor ystyried ei ddata amrywiaeth o ran tystiolaeth yn flynyddol. Dylid cyflwyno adroddiadau i Fforwm y Cadeiryddion, a ddylai barhau i fonitro'r data amrywiaeth o ran tystiolaeth yn flynyddol.

# Diwylliant sefydliadol

## Cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

Mae oriau gwaith Aelod o'r Senedd yn cynnwys sesiynau penodol ar gyfer y Cyfarfod Llawn ar brynhawniau Mawrth a Mercher a chyfarfodydd plaid neu grŵp yn y boreau. Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd Pwyllgor ar foreau Mercher, ar ddydd Iau (yn aml yn y bore ac yn y prynhawn), ac i rai Aelodau ar brynhawniau Llun a boreau Mawrth.[58] Fel arfer, mae gwaith etholaethol yn digwydd ar ddydd Iau a dydd Gwener, ac yn aml ar ddydd Sadwrn hefyd. Gall fod digwyddiadau yn y Senedd neu'r etholaeth ar nosweithiau yn ystod yr wythnos hefyd. Mae teithio i Gaerdydd ac yn ôl os yw'r AS wedi ei leoli yn yr ardal ganolradd neu allanol o Gaerdydd (ardal fewnol) yn amsugno cryn dipyn o amser hefyd.[59] Yn 2011, nododd Aelodau'r Cynulliad (fel y'u gelwid bryd hynny) eu bod yn

[58] Mae slotiau cyfarfod rheolaidd ar ddyddiau Llun wedi cael eu defnyddio gan y Pwyllgorau Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a Deisebau.
[59] Mae aelodau sy'n byw o fewn pellter teithio o tua 90 munud i Fae Caerdydd yn cael eu dosbarthu fel rhai sy'n byw o fewn yr 'Ardal Fewnol' ac nid oes ganddynt hawl i hawlio am rentu eiddo ym Mae Caerdydd.

gweithio cyfartaledd o 57 awr yr wythnos ynghyd â theithio - hyd at 9 awr yr wythnos ar gyfartaledd (Cymdeithas Hansard 2011, yn y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol t.52/53). Mae'r dybiaeth o 'weithiwr delfrydol' (Acker, 1990), un heb gyfrifoldebau y tu allan i'r gwaith, wedi ei hymgorffori yn y rôl.[60]

Yn ddiwylliannol, mae hyn yn arwydd o bwy all a phwy na all gael ei gynnwys, neu yn hytrach *sut mae sefydliadau gwleidyddol yn atgyfnerthu'r rhaniad llafur yn ôl rhywedd* (Duncan 1996).[61] Mae hwn hefyd yn ddelfryd rhywedd sy'n llawn mantais gymdeithasol ac economaidd. Sut mae gweithwyr heb gyflogau proffesiynol yn gallu fforddio sefyll mewn etholiad a rheoli bywyd teuluol ar ôl cael eu hethol?

*Safonau rhyngwladol*

Mewn perthynas â threfniadaeth a diwylliant, mae safonau rhyngwladol ar gyfer seneddau sy'n sensitif i rywedd a osodwyd gan yr IPU,[62] CPA,[63] ac OSCE[64] yn sefydlu uchelgais o wneud rôl seneddwr yn fwy deniadol drwy sicrhau bod ganddynt gydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith gyda theuluoedd gwydn, drwy:

- **Oriau eistedd** sy'n rhagweladwy, yn adlewyrchu 'oriau busnes craidd', yn cyd-fynd â gwyliau ysgol, ac yn galluogi ASau i dreulio mwy o amser gartref gyda'u teuluoedd (e.e. drwy sefydlu wythnosau eistedd cywasgedig, creu amserlenni sy'n dechrau'n gynnar, ac osgoi pleidleisio hwyr).
- **Cymorth i rieni a gofalwyr** gan gynnwys darparu absenoldeb rhiant a gofalu â thâl, mynediad at gyfleusterau gofal plant, y dewis i gymryd rhan yn rhithwir neu drwy ddirprwy neu baru pleidleisiau, derbyn absenoldeb rhiant fel rheswm cyfreithlon dros golli diwrnod eistedd, a mynediad at ofod bwydo ar y fron yn adeilad y senedd.

*Crynodeb o bolisïau sy'n gysylltiedig â'r Senedd*

---

Mae ganddynt hawl i hawlio am lety dros nos mewn gwesty ar adegau. Mae'r rheolau sy'n llywodraethu'r hawliau hyn wedi eu nodi yn y Penderfyniad ar Gyflog a Lwfansau Aelodau.

[60] Acker, J. (1990). Hierarchies, Jobs, Bodies: A Theory of Gendered Organizations, *Gender and Society,* Cyf. 4, Rhif 2 (Mehefin, 1990), tt. 139-158

[61] Duncan, S. (1996) Obstacles to Successful Equal Opportunities Policy in the European Union, European Journal of Women's Studies, Cyf. 3, Rhif 4m tt. 399-422

[62] IPU (2017) Plan of action for gender-sensitive parliaments

[63] CPA (2020) Gender Sensitising Parliaments Guidelines: Standards And A Checklist For Parliamentary Change

[64] OSCE (2021) Realizing Gender Equality In Parliament A Guide For Parliaments In The OSCE Region

**Oriau eistedd:** ni ddylid amserlennu busnes cyn 9.00am nac ar ôl 6.00pm yn y Chweched Senedd (Rheol Sefydlog 11.10). Ond mae eisteddiadau hwyr yn dod yn fwy cyffredin (gweler yr adran isod ar 'Eisteddiadau hwyr')

**Gwell cefnogaeth i rieni a gofalwyr:** Gweithio rhithwir a hybrid, lwfansau costau gofal ar gyfer 'wythnosau eistedd', penwythnosau a gweithio yn ystod y toriad i bob dibynnydd; absenoldeb rhiant, mamolaeth, tadolaeth, neu fabwysiadu ar gyflog llawn ac ad-dalu costau cyflogi aelod ychwanegol o staff i gwmpasu dyletswyddau Aelod heblaw'r rhai sy'n ymwneud â busnes ffurfiol y Senedd, na all neb ac eithrio'r Aelod ei hun eu cyflawni e.e. mynd i Gyfarfodydd Llawn. Gall Aelodau golli eisteddiad gyda chaniatâd y Llywydd a phleidleisio drwy ddirprwy neu drwy baru. Mae pleidleisio drwy ddirprwy hefyd ar gael i Aelodau tra byddant ar absenoldeb rhiant am hyd at saith mis (gweler Atodiad 1 am restr gynhwysfawr o ddarpariaeth cymorth i Aelodau).

Heb ei ddarparu: Aelod locwm (neu drefniant tebyg) i gwmpasu'r amrediad llawn o ddyletswyddau Aelod, gan gynnwys busnes ffurfiol y Senedd, a man addas i fwydo ar y fron yn adeilad y Senedd (gofod a rennir ar hyn o bryd).[65]

## Rheoli cyfrifoldebau gofal plant

Soniodd llawer o'n cyfranogwyr am ymgymryd â rôl AS fel braint ac anrhydedd. Roeddent yn dangos ymroddiad i wneud y gorau i'w hetholwyr wrth reoli oriau hir a rôl gymysg ddwys yn cwmpasu busnes y Senedd, yr etholaeth a busnes y blaid.

Adroddodd dynion a menywod eu bod yn rheoli cyfrifoldebau gofal ochr yn ochr â'u rôl etholedig. Adroddodd aelodau eu bod yn gofalu am rieni neu blant neu weithiau'r ddau, ac yn chwarae rhan weithredol fel neiniau a theidiau. Ymhlith eu rhesymau dros adael y Senedd, nododd cyn-Aelodau nad oeddent yn gallu ymdopi ag oriau hir a chyfrifoldebau gofalu. Daeth patrwm clir i'r amlwg o gyfweliadau â menywod, pan oeddent yn 'brif ofalwr' i blant, eu bod wedi ystyried rheoli gwaith a gofal plant yn anghydnaws â rôl AS, ac wedi aros nes bod eu plant yn oedolion ifanc neu'n oedolion cyn ceisio cael eu hethol. Yn ddiddorol, roedd sawl un wedi bod yn Gynghorwyr pan oedd eu plant yn ifanc ac wedi canfod bod y rôl honno'n gydnaws â rheoli gwaith a gofal (llai o deithio, llai o oriau ac yn aml roedd gofal plant ar gael ar y safle).

Ar hyn o bryd ychydig iawn o rieni plant ifanc sydd yn y Senedd. Nododd tadau ifanc bryderon ynghylch bod yn absennol tra bod eu plant yn ifanc, a chydnabu a mynegodd sawl Aelod gwryw eu bod yn ddiolchgar bod gwragedd neu bartneriaid yn ymgymryd â gofal plant neu ofal dros bobl hŷn, ac felly'n ei gwneud hi'n bosibl iddynt fod yn AS.

[65] Gall Aelod hawlio costau i dalu am staff ychwanegol i reoli ei waith yn ei absenoldeb, ond yn ystod ei absenoldeb mae'n debyg mai dim ond busnes yr etholaeth y bydd yr unigolyn hwnnw'n ei wneud gan na all gymryd rhan ym musnes y Senedd ar ran yr Aelod.

Ymhlith yr anawsterau o ran cydbwyso gwaith a gofal plant i brif ofalwyr (menywod gan amlaf), mae'r angen i fynd i ddigwyddiadau gyda'r nos, natur anrhagweladwy amseroedd gorffen y Cyfarfodydd Llawn ac amseroedd cychwyn anhyblyg:

> *Mae cynnal digwyddiadau gyda'r nos ar ddiwrnodau'r Cyfarfod Llawn yn ei gwneud hi'n anodd iawn i'r rhai sydd eisiau mynd adref i weld eu plant cyn amser gwely. Mae diwylliant sy'n tybio nad oes angen i chi fynd â'r plant i'r ysgol yn y bore gyda chyfarfodydd yn dechrau cyn 9.* (AS benyw)

Gall fod yn anodd rheoli straen 'gwneud y diwrnod dwbl':

> *'…Ond fy marn i, yn enwedig o ran y pethau hynny sy'n ymwneud â'ch rôl fel gofalwr, fel un sy'n darparu gofal… Rydw i'n meddwl y gellid eu cyfathrebu'n well, wyddoch chi, ac nid ydi hynny'n digwydd. Disgwylir i ni fod yn bobl uwchddynol….'* (AS benyw)

> *… ac felly nid yn gymaint yn awr ag y dywedais i, mae'n hŷn oherwydd ei fod yn gwneud pethau ar ôl ysgol ac nid yw'n ddiwedd y byd os …. yw wedi bod yn aros ychydig … Ond roedd yn arfer bod yn nerfus iawn, wyddoch chi, gyda beth bynnag oedd yn digwydd …* [i wneud yn siŵr] *fy mod i yno i'w nôl.* (AS benyw)

Rydym wedi galw'r hyn a glywsom gan dadau yn 'edifeirwch tadau' – gydag adroddiadau eu bod wedi neu y byddant yn colli'r cyfle i roi plant yn eu gwely, diwrnodau chwaraeon neu nosweithiau rhieni:

> *… oherwydd yn amlwg rydw i eisiau bod yn rhan o fywyd fy mab, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar hyn, dydych chi ddim yn mynd i gael yr amser hwn yn ôl* (AS gwryw)

> *Mae'n anodd iawn cyfrannu'n ddigonol at fagu plant wrth gynrychioli etholaeth ymhell o Gaerdydd.* (AS gwryw)

Cyferbynnwch hyn â sylwadau gan dad bod y diwylliant wedi newid dros amser, a bod diwylliant y Senedd yn galluogi pobl erbyn hyn, o ran deall bod gan ddynion gyfrifoldebau gofalu:

> *[Wrth edrych ar draws gwahanol dymhorau'r Senedd] … Rydw i'n meddwl bod y diwylliant wedi newid a bod y dechnoleg yn ein galluogi i wneud mwy, ac rydw i'n meddwl hefyd bod goddefgarwch i'w gael yn awr na wnes i ei brofi pan oeddwn i'n rhiant newydd… Sef, wyddoch chi, mae gan y dyn blentyn. Rydych chi'n gwybod ei fod e'n mynd i fod yn hwyr heddiw neu ei fod e'n mynd i adael yn gynnar yfory … Nid yw'n destun siarad, mae'n rhan o fywyd, wyddoch chi, mae'n cael ei dderbyn yn llwyr. Nid oes ymdeimlad o anoddefgarwch yno. Ac rydw i o'r farn bod lefel o anoddefgarwch yn bodoli [o'r blaen]* (AS gwryw)

Mae'r newid diwylliant hwn yn rhywbeth i'w groesawu. Yn ein gwaith ymchwil, mae'r ddadl ynghylch darparu cyfleusterau meithrinfa a gofal plant yn 'fyw' gan fod astudiaeth ar wahân yn cael ei chynnal ar yr un pryd mewn perthynas â'r ddarpariaeth o fewn ystâd y Senedd.

## Meithrinfa

*Mae rhai ASau o'r farn bod Senedd ar ei hôl hi o ran darpariaeth gofal plant*

> *Doeddwn i ddim yn gallu credu nad oedd meithrinfa yn y Senedd pan gefais fy ethol* (AS benyw)
>
> *Ond mae'r rhain yn gwestiynau anodd y bydd yn rhaid i ni ddod o hyd i ateb [iddynt] .... Hynny yw, rydyn ni'n telynegu, braidd, yn y Senedd ynglŷn â'r ffaith ein bod ni eisiau gwell cynrychiolaeth, cael pobl o gefndiroedd mwy amrywiol, boed hynny'n bobl ag anableddau, mamau neu dadau neu bobl sydd â chyfrifoldeb gofalu am rieni oedrannus hefyd, ond os nad ydyn nhw'n mynd i helpu i hwyluso'r bobl hynny sydd eisiau ymwneud â gwleidyddiaeth, yna nid yw hynny'n mynd i ddigwydd, nac ydi?* (AS gwryw)

Credir yn gyffredinol bod darparu gofal plant i Aelodau'r Cynulliad yn addewid a wnaed pan sefydlwyd y Cynulliad ym 1998, i fod yn fynegiant egwyddorol o ddemocratiaeth fodern a chynhwysol Cymru. Roedd siom ac anghrediniaeth, 26 mlynedd yn ddiweddarach, nad oedd yr addewid cynnar hwn yn cael ei gynnal, er iddo gael ei gyflawni am gyfnod.[66] Roedd rhai Aelodau'n annog y Senedd i ddysgu gan seneddau eraill, gan gynnwys San Steffan a'r Alban, sydd ill dau â chyfleusterau gofal plant (er yn benodol ar gyfer ymwelwyr a thystion yn achos yr olaf). Er nad yw darpariaeth ar gyfer gofal plant mewn seneddau yn gyffredin eto,[67] mae enghreifftiau fel yn senedd Seland Newydd/Pārmenta Aotearoa sy'n ymfalchïo mewn seilwaith datblygedig i gynorthwyo rhieni.[68] Mae hyn yn dangos bod y ddarpariaeth yn realistig a'i bod hefyd yn anfon neges gref am ymrwymiad i ddemocratiaeth gynhwysol. Yn wir, roedd symbolaeth – neu 'arwydd' – o feithrinfa yn ganolog i rai, hefyd i sicrhau y gallai darpar ymgeiswyr fod yn sicr y byddai eu hanghenion ymarferol fel gofalwyr yn cael eu diwallu. Yn fwy cyffredinol, pwysleisiodd rhai Aelodau pa mor bwysig oedd hi bod y Senedd yn lleoliad cynhwysol lle mae pobl yn teimlo'n gartrefol.

---

[66] Treialwyd gofal plant lleol oddi ar y safle i Aelodau a'u staff gan Gomisiwn y Senedd yn 2008; fodd bynnag, daeth y ddarpariaeth hon i ben yn y pen draw ar ôl pum mlynedd oherwydd y lefel isel o ddefnydd (dim ond pump o'r deg lle oedd ar gael a ddefnyddiwyd ar unrhyw adeg).
[67] Canfu Arolwg OSCE yn 2023 gydag ymatebion o 52 o siambrau seneddol fod gan 29% gyfleusterau gofal plant ac Arolwg yn 2024 gydag ymatebion gan 24 o seneddau fod gan 35% gyfleusterau gofal plant.
[68] Yr Undeb Rhyng-Seneddol (2023) Babies of the Backbenches

Y tu hwnt i – ond gan gynnwys – yr Aelodau hyn, pwysleisiodd set ehangach o fyfyrdodau yr angen i'r Senedd ddarparu ymateb ymarferol i anghenion gofal plant.

> *Rydw i'n meddwl y byddai dydd Mawrth a dydd Mercher, er enghraifft, ychydig yn haws i'w rheoli pe bai mynediad at feithrinfa o fewn y Senedd neu ryw fath o gyfleuster gofal plant o fewn y Senedd, sef rhywbeth a oedd i fod yno yn y cynlluniau gwreiddiol ar gyfer y Senedd.... y byddem ni'n talu ein tanysgrifiad neu beth bynnag i gael mynediad at y cymorth hwnnw.* (AS gwryw)

Yn neilltuol, rhoddwyd y pwyslais ar ddarpariaeth ar gyfer staff y Comisiwn, yn ogystal ag Aelodau'r Senedd. Ymhlith yr ASau hyn, roedd rhai o blaid meithrinfa yn y Senedd a allai fod ar gael, er enghraifft, i staff o Gyngor Caerdydd a Choleg Caerdydd a'r Fro.

Nid oedd eraill ynghlwm wrth yr egwyddor o feithrinfa yn y Senedd *ynddo'i hun*, gan ganolbwyntio llai ar y dulliau y darparwyd gofal plant a mwy ar y ddarpariaeth yn y pen draw. Cofiodd un Aelod am drefniant blaenorol lle gallai Aelodau Cynulliad gael mynediad at feithrinfa leol, o fewn amrywiaeth ehangach o awgrymiadau y gallai darpariaeth oddi ar y safle fod yn opsiwn. Gwnaed awgrymiadau ar gyfer talebau gofal plant hefyd. Yn nodedig, byddai talebau o'r fath hefyd yn cynorthwyo Aelodau nad oeddent yn gallu defnyddio meithrinfa yng Nghaerdydd. Yn ei dro, byddai hyn yn mynd rywfaint o'r ffordd at fynd i'r afael â'r feirniadaeth bod adnoddau wedi eu crynhoi'n annheg yng Nghaerdydd. Roedd ansicrwydd ynghylch pa gostau gofal plant fyddai'n cael eu cynnwys o dan Benderfyniad y Bwrdd Taliadau, er y nodwyd bod rhieni'n amharod i ddefnyddio'r cymorth hwn beth bynnag oherwydd ofn adwaith negyddol y cyhoedd.

Cydnabuwyd yn llwyr yr heriau sy'n gysylltiedig â darparu gofal plant 'ar gyrion' busnes seneddol. Er gwaethaf yr ymrwymiad y dylai holl weithgarwch y Senedd ddod i ben am 6pm, mae eisteddiadau hwyr wedi dod yn fwyfwy arferol (gweler isod). Pwysleisiwyd yr angen am hyblygrwydd, er nad oedd pawb o'r farn bod hyn yn rhwystro sefydlu meithrinfa yn y Senedd.

*<u>Yr achos busnes a phryderon Aelodau ynghylch canfyddiad y cyhoedd</u>*

Gwrthodwyd y syniad o sefydlu meithrinfa yn y Senedd yn benodol hefyd gan rai Aelodau yn y cyfweliadau, gan gyfeirio'n benodol at yr achos busnes gwan a'r canfyddiad cyhoeddus dilynol o ddefnydd gwael o arian cyhoeddus. Heriwyd yr achos dros sefydlu meithrinfa oherwydd mai dim ond ar ddiwrnodau penodol yr oedd ASau yn mynychu'r Senedd (yn hytrach na thrwy gydol yr wythnos), nifer gymharol fach yn byw'n ddigon agos i allu defnyddio cyfleuster yng Nghaerdydd, a rhai o staff y Comisiwn yn gweithio gartref yn amlach (yn hytrach na'r Bae). Yn ogystal, roedd barn y byddai'r galw'n isel o ystyried mai ychydig o ASau lleol sydd â phlant iau nag oedran ysgol.

O ran sefydlu meithrinfa yn y Senedd, ni ellir cysoni gwrthod ar sail busnes â'r farn y dylai'r Senedd fynegi ei hegwyddorion drwy ddarpariaeth gofal plant ar y safle. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth yn y ddealltwriaeth ynghylch sut byddai gofal plant yn cael ei gyllido. Roedd rhywfaint o dybiaeth y byddai meithrinfa yn y Senedd yn cael ei darparu am ddim neu am bris â llawer o ostyngiad. Credwyd hefyd fod y Comisiwn yn tybio bod yr Aelodau'n disgwyl i'r ddarpariaeth fod yn rhad ac am ddim, tra bod eraill yn cydnabod y byddai, yn wir, yn wasanaeth y byddai defnyddwyr yn talu amdano.

*Manteision darpariaeth ad hoc*

Ochr yn ochr â'r drafodaeth am feithrinfa yn y Senedd, dangosodd y cyfranogwyr frwdfrydedd dros fwy o ddarpariaeth gofal plant ad hoc. Y farn gyffredinol oedd y byddai darpariaeth o'r fath yn werthfawr i ymwelwyr â'r Senedd (gan gynnwys tystion neu'r rhai sy'n dymuno gwylio sesiwn bwyllgor neu Gyfarfod Llawn) yn ogystal ag ASau neu staff y Comisiwn a allai fod eisiau darpariaeth gofal plant tymor byr ar ôl ysgol o bryd i'w gilydd (tan ddiwedd busnes y Senedd).

> … *dyma'r fath o sefyllfa, pe bai meithrinfa yn y Senedd lle gallech chi ollwng plant – nid i gael gofal drwy'r diwrnod cyfan, ond efallai dim ond i aros am awr neu ddwy tra byddwch chi'n gorffen eich gwaith – byddai hynny wedi bod yn wych* (AS benyw)

Casgliad

Comisiynodd Comisiwn y Senedd Astudiaeth Hyfywedd Meithrinfa yn 2025 i asesu'r galw am (a'r lle ar gyfer) meithrinfa ar y safle yn y Senedd. Penderfynwyd na fyddai unrhyw le yn cael ei ddyrannu ar gyfer darpariaeth gofal plant ar y safle bryd hynny, ac y byddai angen ei ddarparu o fewn y safle.[69] Fodd bynnag, mae'r achos busnes dros ddarpariaeth gofal plant yn cael ei ddatblygu, gan gynnwys ymchwilio i ddewisiadau sy'n ymwneud â darpariaeth gofal plant ar y safle.

Er bod angen cydnabod y gweithgaredd hwn, mae'r FFIPR yn rhoi blaenoriaeth i statws y Senedd wrth galon democratiaeth gynrychioliadol yng Nghymru, ac yn tynnu sylw at enghreifftiau rhyngwladol o arfer gorau mewn darpariaeth gofal plant barhaus ac ad hoc/sesiynol o safbwynt cynhwysol ac ystyriol o deuluoedd. Mae risg y bydd seilio opsiynau ar gyfer darpariaeth gofal plant ar gyfansoddiad presennol y Senedd (ac arferion gwaith presennol staff y Comisiwn) yn atgyfnerthu'r status quo, gan fod penderfyniadau ynghylch a ddylid sefyll etholiad neu benderfynu ar batrymau gwaith ar hyn o bryd yn seiliedig ar y ddealltwriaeth nad oes darpariaeth gofal plant ar gael yn y Senedd (i Aelodau na staff y Comisiwn). Mae'r realiti hwn a dderbynnir yn gyffredin

[69] Agenda Comisiwn y Senedd ar gyfer dydd Llun, 3 Tachwedd 2025, 10.30

ymhell o ddelfryd yr egwyddor o senedd gynhwysol. Mae hefyd yn codi'r cwestiwn a fyddai'r Senedd yn derbyn plant ifanc yn dod gyda'r Aelodau pe na bai gofal plant ar gael – fel mae seneddwyr wedi ei wneud mewn lleoliadau eraill gyda graddau amrywiol o dderbyn hynny.[70] Yn ogystal, mae'r diffyg darpariaeth ad hoc (ar gyfer ymwelwyr neu dystion, er enghraifft) yn absenoldeb nodedig o'i gymharu â chwaer-senedd Cymru yn yr Alban.

## Polisïau Absenoldeb Teuluol

Mae aelodau etholedig yn ddeiliaid swyddi cyhoeddus, ac nid ydynt yn cael eu cyflogi gan Gomisiwn y Senedd. Maent hefyd yn dod yn gyflogwyr ar ôl cael eu hethol, wrth staffio eu swyddfeydd. Felly eu penderfyniad nhw yw faint o absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, rhiant neu fabwysiadu i'w gymryd, ac yn achos absenoldeb mamolaeth, cymryd cyfrifoldeb am eu hasesiad iechyd a diogelwch eu hunain.[71]

Fodd bynnag, ceisiodd yr Aelodau gyngor ac eglurhad gan Wasanaethau'r Comisiwn mewn perthynas â dewisiadau o ran absenoldeb teuluol. Roedd aelodau eisiau cyngor manwl a gwybod beth fyddai swm 'safonol' neu dderbyniol o absenoldeb:

> *Rydw i'n deall bod rhyw fath o drefniant tadolaeth o fewn y Senedd. Dydw i ddim yn deall y mater yn glir iawn. Does neb wedi ... [ei egluro]* (AS gwryw)
>
> *... yn amlwg, es i at Wasanaethau Busnes yr Aelodau i ddweud wrthynt fod fy ngwraig yn disgwyl ac y byddwn i'n ceisio gymryd absenoldeb tadolaeth, a'r ateb a gefais i oedd, wel, does dim polisïau penodol, felly gwnewch beth bynnag rydych chi eisiau ei wneud* (AS gwryw)
>
> *Rydw i o'r farn bod achos clir iawn lle byddai cael polisi mwy cadarn yn ddefnyddiol iawn oherwydd, wyddoch chi, pan mai un o'r pryderon oedd gen i, wel, os yw'n dibynnu arnaf fi, mae'n bosibl na fydd yr hyn rydw 'n ei feddwl sy'n gymesur yn gymesur yng ngolwg rhywun arall. ... mae hynny'n agor y ffordd i Aelodau gael eu beirniadu'n gyhoeddus am faint o amser y gallent fod wedi ei gymryd i ffwrdd neu beidio ei gymryd i ffwrdd.* (AS gwryw)

Soniodd yr Aelodau am eu rhwystredigaeth gyda'r cyngor sydd ar gael gan nad yw'r ddarpariaeth o fewn cylch gwaith Gwasanaethau'r Comisiwn. Mae hyn yn tynnu sylw at ddatgysylltiad mewn trefniadau sefydliadol a ddaeth yn amlwg ar amrywiaeth o faterion drwy gydol y cyfweliadau. Gall Comisiwn y Senedd gynnig cyngor cyffredinol ond nid oes ganddo unrhyw gyfrifoldeb yn y maes hwn, gan fod yr Aelodau yn ddeiliaid rolau

---

[70] Yr Undeb Rhyng-Seneddol (2023) Babies of the Backbenches
[71] Asesiad risg iechyd a diogelwch yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

cyhoeddus ymreolaethol. Fodd bynnag, mae ein canfyddiadau'n awgrymu'r angen am gyngor a chymorth pellach a fyddai'n cynorthwyo'r Aelodau i wneud eu penderfyniadau. Mae astudiaeth achos bosibl i'w hystyried hefyd, gan fod un cyn-Aelod wedi cael aelod staff ychwanegol yn ystod ei habsenoldeb mamolaeth (ac eithrio Busnes y Senedd, y mae'n rhaid i'r Aelod etholedig ei wneud). Byddai'n addysgiadol i Gomisiwn y Senedd ddysgu o'r enghraifft hon, a myfyrio ar sut gellid gwella'r profiad i greu Senedd sy'n ystyriol o deuluoedd o'r radd flaenaf yn y byd. Gallai Comisiwn y Senedd gynnal astudiaeth achos a chrynhoi arfer gorau o bob cwr o'r byd, gan arwain at ddatblygu polisi absenoldeb Mamolaeth a Thadolaeth. Mae gan y pleidiau gwleidyddol rôl bwysig i'w chwarae hefyd mewn cyngor a chymorth i Aelodau sy'n cymryd Absenoldeb Mamolaeth, Tadolaeth a Rhiant.

Mae'r rhybudd, a amlygwyd yn y dyfyniad uchod ynghylch beirniadaeth bosibl gan y cyhoedd am gymryd absenoldeb teuluol, hefyd yn ymestyn i bryderon yr Aelodau ynghylch hawlio'r lwfans gofal plant y tu allan i oriau (ar gyfer sesiynau Cyfarfodydd Llawn hwyr) gan y byddai hyn yn ymddangos ar y cofnod cyhoeddus. Mewn gwirionedd, mae hawliadau o'r fath yn cael eu troi’n ddienw ym Mhenderfyniad y Chweched Senedd. Mae hyn ar un llaw yn dangos diffyg dealltwriaeth ynghylch yr hyn sydd ar gael, a phryder ynghylch ymateb y cyhoedd i hawliadau treuliau cyfreithlon mewn perthynas â gofalu. Gall hyn i gyd gael effaith andwyol ar gydbwyso bywyd gwaith a bywyd teuluol.

## Gofalu am Rieni neu aelodau eraill o'r teulu

Dywedodd sawl cyfranogwr eu bod nhw wedi darparu cymorth gofal i bobl hŷn, brodyr a chwiorydd neu ffrindiau agos, neu eu bod nhw’n darparu hynny ar hyn o bryd. Llwyddodd yr aelodau i ymdopi â'r sefyllfaoedd hyn gyda chryn anhawster, gan fod arnynt unwaith eto eisiau cyflawni eu dyletswyddau i'w hetholwyr, eu plaid, gwaith craffu a gallu darparu cymorth gofal.

> *[O ran rheoli cyfrifoldebau gofal a'r swydd] … Rydw i'n ceisio gwneud fy ngorau, ond a bod yn onest, mae wedi bod yn dipyn o frwydr. Rydw i wedi bod yn ffodus iawn bod fy ngrŵp yn deall* (AS benyw)
>
> *[Ynglŷn â jyglo gwaith a chyfrifoldeb gofalu sylweddol] … Dydw i ddim am ddweud celwydd. Roedd yn brofiad blinedig iawn* (AS benyw)

Er bod ASau yn gyflym i gydnabod y diwylliant colegol rhwng Aelodau (hyd yn oed ar draws pleidiau), roedd pwysau pendant hefyd ar Aelodau i gyflwyno eu hunain fel unigolion ymreolaethol, heb fawr o ymrwymiadau y tu hwnt i'w rôl yn y Senedd. Mae absenoldeb mecanwaith sy'n galluogi ASau i adael eu dyletswyddau yn y Senedd yn gyflym mewn argyfwng teuluol neu ddigwyddiad eithriadol arall yn tybio nad oes gan

ASau gyfrifoldebau y tu hwnt i'r Senedd. Dros amser, bydd hyn yn arwain at ostyngiad yn nifer y rhai sydd â rolau gofalu rhag ystyried ymgeisio am le yn neddfwrfa Cymru.

Pan oedd aelod o'r teulu'n wael iawn neu'n angheuol wael, byddai Aelodau'n aml yn llwyddo drwy ddefnyddio gweithio hybrid, a heb hynny ni fyddai rheoli'r 'diwrnod dwbl' wedi bod yn bosibl:

> *Ond pe na bawn i wedi gallu gweithio'n rhithiol, byddai wedi bod yn gwbl amhosibl.* (AS benyw)

> *Mae gweithio o bell yn gwbl hanfodol er mwyn i mi barhau i gyflawni fy nyletswyddau fel Aelod.* (AS benyw)

Ystyriwyd bod cefnogaeth eu plaid wleidyddol a'r Llywydd i weithio a/neu bleidleisio'n rhithiol yn hanfodol. Fodd bynnag, nid yw pob AS, ac nid yn unig y rhai heb gyfrifoldebau gofalu, yn gallu nac eisiau gweithio'n hybrid, gan deimlo bod y sefydliad yn golygu'r Aelodau, a ddylai fod yn bresennol:

> *Mae gen i ganiatâd i wneud fel y mynnaf fel Aelod, ond rydw i'n gweld fy rôl yn bendant fel bod gofyn i mi fod yma yn y lle hwn. Yn gorfforol. Rydw i'n meddwl ei fod yn rhan bwysig o gynrychiolaeth. Rydw i'n meddwl bod adeiladau a mannau'n bwysig yn yr hyn maent yn ei gynrychioli, ac nid dim ond mannau i gartrefu pobl ydynt, ond maent yn ddangosyddion pwysig o awdurdod a phŵer. Ac os nad ydych chi yn y lle hwnnw, rydw i'n meddwl nad ydych chi'n cyflawni eich dyletswydd yn iawn, o bosib. Mae achosion lle na fyddan nhw [Aelodau] yn gallu cyflawni hynny. Rydw i'n derbyn hynny, ond rydw i'n credu y dylech chi fod yn y lle hwn* (AS gwryw)

Mae hyn yn awgrymu na ddylai gweithio mewn modd hybrid fod yn norm, ond byddai hyn yn atal Aelodau â chyfrifoldebau gofal parhaus. Mae trafodaeth estynedig ar weithio hybrid isod. Fodd bynnag, nodwyd o'r cyfweliadau y gall trefniadaeth anhyblyg busnes, sef cyfarfodydd llawn ar ddiwrnodau ac amseroedd penodol, achosi problemau i Aelodau. Ni all AS sy'n cael galwad frys ynglŷn ag iechyd perthynas neu eu bod wedi bod mewn damwain adael y Cyfarfod Llawn na threfnu pâr yn gyflym i bleidleisio, na phleidleisio o bell o ystafell aros adran achosion brys, er enghraifft. Rydym yn argymell y dylid cael cynllun a fydd yn galluogi ASau i adael y Siambr ar fyr rybudd.

Gwelsom hefyd yr un amharodrwydd i hawlio am ofal y tu allan i oriau gwaith dros aelodau'r teulu â'r hyn a welwyd ar gyfer gofal plant (Cyfarfodydd Llawn hwyr, yr angen i fynd i ddigwyddiadau):

> *Mae adnodd ychwanegol y gall aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu ei ddefnyddio. [...] roedd rhai Aelodau, yn enwedig menywod, yn amharod i'w ddefnyddio oherwydd y ffordd y gall y wasg roi sylw i dreuliau [...] Rydw i o'r*

> *farn bod angen cefnogaeth gyfunol yr holl Aelodau fel nad yw hynny'n cael ei ddefnyddio fel pêl-droed wleidyddol wedyn.* (AS benyw).

Roedd pryder ynghylch y cyhoedd yn methu deall pam y byddai ASau angen cael eu digolledu am y costau hyn yn rhwystr, ac unwaith eto, nid oedd y ffaith nad yw'r gwariant hwn yn cael ei adrodd yn unigol yn hysbys iawn.

## Gweithio o Bell a Gweithio Hybrid

Yn 2022, pleidleisiodd yr Aelodau i ymestyn y mesur dros dro ar gyfer cyfranogiad rhithwir a gyflwynwyd yn ystod y pandemig. Dadleuodd y Pwyllgor Busnes y byddai cynnal y gallu i fod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgor drwy weithio'n hybrid yn hwyluso absenoldeb rhiant, ymgymryd â chyfrifoldebau gofalu, ac y gallai annog amrywiaeth ehangach o ymgeiswyr amrywiol mewn etholiadau yn y dyfodol (Smith a Childs, 2021) a gostyngiad mewn costau teithio ac allyriadau carbon. Mae'r canllawiau wedi cael eu diweddaru'n ddiweddar i egluro trefniadau pleidleisio o bell a moesau ymgysylltu o bell. Er enghraifft, rhaid i Aelodau roi rhybudd ymlaen llaw o'u bwriad i bleidleisio o bell a rhaid iddynt gymryd rhan o leoliad preifat dan do, a rhaid iddynt fod yn bresennol ar gyfer trafodion cyfnod diwygio Biliau.

Nid yw gweithio hybrid yn awgrymu addasiad i'r llwyth gwaith, ond gall y rhai sydd fwyaf tebygol o weithio o bell neu ar sail hybrid, sef rhieni, gofalwyr a phobl anabl, jyglo eu cyfrifoldebau yn haws (Hibbs 2022).[72] Mae ymchwil yn dangos y gall gweithio hybrid, sydd ar gael yn bennaf ar gyfer gweithwyr coler wen, rheolwyr a gweithwyr proffesiynol, arwain at gynhyrchiant gwell neu lai, a chynnydd neu ostyngiad yn y siawns o gael dyrchafiad (Felstead 2023).[73] Yn ogystal â gwella mynediad at y farchnad lafur neu rôl neu gynnal ymlyniad iddi, mae canlyniadau mewn perthynas â datblygu a dyrchafiadau wrth weithio mewn patrwm gwaith hybrid yn benodol i'r sefyllfa. Mae nifer o adroddiadau o ddechrau'r degawd hwn yn dadlau dros fanteision gweithio hybrid mewn sefydliadau gwleidyddol, (IPU, 2022) ond nid ydym wedi gallu dod o hyd i ymchwil sy'n asesu'n benodol effaith 'rhagfarn agosrwydd' fel un sydd â'r potensial i greu anfantais o ran datblygu a dyrchafiad mewn gwleidyddiaeth, fel y dangosir mewn sectorau eraill (People Management, 2024).

Mynegodd Aelodau'r Senedd werthfawrogiad a brwdfrydedd dros weithio hybrid, ond roedd amheuon hefyd. Fel y nodwyd uchod, dywedodd rhai Aelodau wrthym, o ystyried eu cyfrifoldebau gofalu, na fyddent yn gallu parhau yn eu rôl heb y cyfle i gymryd rhan yn rhithiol am rywfaint o'r amser. Mae argaeledd gweithio hybrid yn cynnal ymlyniad i'w rôl

[72] Hibbs, L. (2022) "I was able to take part in the chamber as if I was there" – women local councillors, remote meeting attendance, and Covid-19: a positive from the pandemic?. *Journal for Cultural Research*, 26(1), tt. 6-23.
[73] Felstead, A (2022) Remote Working: A Research Overview, Llundain: Routledge

yn achos rhai Aelodau. Dylid ei gadw fel mesur sy'n gynhwysol ac yn ystyriol o deuluoedd. Dylid gwneud ymdrechion i amddiffyn trefniadau gweithio hybrid, ac i ddangos eu gwerth fel rhywbeth sy'n cyfateb i bresenoldeb wyneb yn wyneb. Mae hefyd yn rhwyd ddiogelwch ar gyfer digwyddiadau annisgwyl:

> *Mae cymaint o resymau pam y byddai angen i chi weithio o gartref neu yn rhywle arall yn sydyn, ... Dwi ddim yn meddwl y gallwn ni wneud hebddo. Dwi ddim yn meddwl y byddai'n deg* (AS benyw)

Clywsom hefyd sut mae gweithio'n rhithwir o fudd i ymgysylltu drwy gael gwared ar rwystrau daearyddol a chynyddu amrywiaeth y cyfranogwyr:

> *Rydw i'n gefnogwr brwd o'r math o fforymau hybrid rydw i'n eu cadeirio, grwpiau trawsbleidiol, rydych chi'n cael llawer mwy o bobl at ei gilydd ac mae hynny'n ddaearyddol o ran hygyrchedd, amrywiaeth, gweithio hybrid.* (AS benyw)

> *Rydw i'n meddwl bod* [hybrid] *yn hanfodol. Dydw i ddim yn golygu hynny fel dewis cyntaf oherwydd mae'n llawer gwell os gallwch chi fod yno eich hun yn bersonol. Rydw i'n meddwl eich bod chi'n cael llawer mwy ohono ac yn gallu cyfrannu llawer mwy. Ond rydw i'n meddwl ei bod hi'n hanfodol ei gael yno fel dewis wrth gefn i bobl sydd â chyfrifoldebau gofalu ac na allant...* [fod yno'n bersonol] (AS benyw)

Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau barn ynghylch gweithio hybrid, fel y trafodwyd uchod, gyda rhai Aelodau'n mynegi pryder ynghylch ei ddefnydd parhaus. Ac fel y gwelwyd yn y dyfyniad olaf, ac mewn ymchwil mewn mannau eraill (Hibbs 2022)[74] gall Aelodau gael mwy o effaith drwy fod yno'n bersonol, a gall gweithio hybrid olygu eu bod nhw'n colli'r cyfle i feithrin cysylltiadau â chydweithwyr:

> *Neu yn y coridor, neu pan fyddwch chi'n aros i'r pwyllgor ddechrau, gall y sgyrsiau bach hynny arwain at gydweithio ar bethau polisi, wyddoch chi, a chyflawni pethau. Rydych chi'n colli hynny i gyd* (AS benyw)

Mae dealltwriaeth hefyd o'r angen am weithio hybrid a rhywfaint o annifyrrwch.

> *... oherwydd mae'n rhaid i chi hefyd gadw cydbwysedd, neu fel arall gallech chi orffen gyda phawb yn honni bod ganddynt reswm dros beidio â dod i mewn i bleidleisio, neu beidio ag aros i mewn i bleidleisio neu beidio dod i'r pwyllgor* (AS benyw)

---

[74] Hibbs, L. (2022) "I was able to take part in the chamber as if I was there" – women local councillors, remote meeting attendance, and Covid-19: a positive from the pandemic?. *Journal for Cultural Research*, 26(1), tt. 6-23.

Nododd sawl cyfranogwr fod Aelodau sy'n byw yn yr ardal fewnol sy'n teithio i Fae Caerdydd, wedi gadael Caerdydd cyn i ddadleuon y prynhawn ddod i ben er mwyn 'picio adref' ac yna pleidleisio'n rhithwir. Nid yw'n hysbys a yw'r ymddygiad hwn yn gysylltiedig, neu bob amser yn gysylltiedig, â darparu gofal, er enghraifft, i sicrhau bod rhiant yn bresennol pan fydd plant yn cyrraedd adref o'r ysgol neu i ddarparu pryd o fwyd gyda'r nos i berthynas sy'n sâl. Yn sicr, i Aelodau nad ydynt yn aros yng Nghaerdydd dros nos, gall fod yn ddiwrnod gwaith hir:

> [dadleuon deddfwriaeth] ... *bydd yn gwthio'r amser weithiau i 8:00. Felly, os ydych chi'n byw mewn ardal lle mae angen i chi fynd adref ... mae'r rhan fwyaf o ofal plant yn gorffen am 6:00. Felly mae gennych chi ddwy awr, wel, mwy, oherwydd dydych chi ddim hyd yn oed yn gadael fan hyn [tan 8.00] ... lle bydd yn rhaid i chi feddwl sut rydych chi'n gwneud hynny. Wrth gwrs, dyma lle mae gweithio hybrid yn dod i mewn....* (AS benyw)

Roedd y rhai a gafodd eu cyfweld hefyd yn bryderus ynghylch effaith bosibl gweithio hybrid ar graffu, ac y dylid monitro hynny:

> *Os ydych chi'n craffu ar Weinidog, mae'n rhaid i chi fod yn yr un ystafell â nhw, mae'n rhaid i chi allu eu torri ar draws - yn y bôn, allwch chi ddim gwneud hynny ar-lein... ... [os] nad oes tystion i'w dwyn i mewn, dim ond y pwyllgor sy'n gweithio ar gamera ar ei ben ei hun, mae hynny'n berffaith ar gyfer gweithio hybrid. Mae hynny'n gweithio'n dda...* (AS gwryw)

Gallai fod yn wir, mewn perthynas â chraffu, bod bwlch rhwng polisi ac arfer, gyda phwysau anffurfiol i fod yn bresennol:

> *Y broblem yw, fodd bynnag, nad yw'r hyn a ddywedir wrthym yn cyfateb i'r hyn a ysgrifennwyd ... mae i fod yn weithle hybrid ... Mewn gwirionedd mae pwysau wythnosol arnom i fod yno... Felly, mae'n anodd pan rydyn ni'n teimlo bod yn rhaid i ni barhau i frwydro’n gyson i allu defnyddio’r dewis hybrid pan fydd ei angen arnom (*AS benyw)

Mae’n bosibl bod yr ystyriaethau a drafodwyd yma ynglŷn â gor-ddefnydd o weithio hybrid neu yn wir nad yw mor hawdd ei gael ag y mae'r polisi yn ei nodi wedi llywio'r diweddariad i’r canllawiau gan y Llywydd yn ddiweddar. O safbwynt bod yn gynhwysol ac yn ystyriol o deuluoedd, mae'n braf gweld bod y canllawiau newydd yn ailadrodd pwysigrwydd presenoldeb rhithwir fel un sy'n galluogi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ac nad yw'n atal mynd adref i bleidleisio oni bai bod gwelliant ail gyfnod ar fil. Gan fod yn ymwybodol o'r potensial i weithio rhithwir gael effaith niweidiol ar yrfa'r prif ofalwr, mae'r canllawiau'n nodi bwriad clir y dylai fod tegwch rhwng cyfranogiad wyneb yn wyneb a chyfranogiad rhithwir. Byddai'n ddoeth monitro a yw 'presenoliaeth' yn

erydu'r cyfleuster ar gyfer gweithio hybrid dros amser, ac a yw dilyniant gyrfa yn cael ei effeithio'n negyddol yn achos menywod, sef prif ddefnyddwyr gweithio hybrid.

Cafodd gweithio hybrid gefnogaeth lethol, a chafodd ei ddefnyddio gan lawer o Aelodau i hwyluso cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Ystyrir y cyfleuster hwn yn elfen hanfodol o senedd sy'n gynhwysol ac yn ystyriol o deuluoedd.

## Addasiadau Rhesymol

O ran hyrwyddo cynhwysiant, gall Aelodau hawlio'r costau ar gyfer lwfansau addasu rhesymol lle bynnag y cânt eu hysgwyddo. Er enghraifft, mewn perthynas â chyflogi aelod o staff neu mewn materion etholaethol (gweler y Penderfyniad yn Atodiad 1). Fodd bynnag, nid oedd rhai aelodau'n siŵr ynghylch hygyrchedd ystâd y Senedd, gan gyfeirio at achosion lle nad oedd sicrhau mynediad wedi bod cystal ag y gallai fod. Roeddent hefyd eisiau rhagor o gyngor ynghylch pa fathau o addasiadau rhesymol y gallent eu gwneud i'w staff, a sut i sicrhau bod addasiadau rhesymol ar gael iddynt mewn cyfarfodydd a digwyddiadau allanol (dolenni clyw, cyfieithydd Iaith Arwyddion Prydain). Er enghraifft:

> *Roedd angen i mi wneud rhywbeth yn Iaith Arwyddion Prydain. Ond nid oedd canllawiau... [D]im math o dempled ar gyfer ymgysylltu etholaethol ... arfer da. Wyddoch chi ... mae Cymorth Busnes i Aelodau yn ymgysylltu â chi, gallwch ddod o hyd i bobl a all eich cynghori ar y math hwn o beth. Ond rydw i'n meddwl y dylai hynny fod wedi ei ymgorffori yn llawer mwy ac yn haws i aelodau* (Grŵp Ffocws).

Nododd a gwerthfawrogodd yr Aelodau feysydd cymorth gan y Comisiwn, gan ganmol Diogelwch ac Ymchwil y Senedd yn benodol, ond fe wnaethant fynegi rhai rhwystredigaethau yn gysylltiedig â'r rheolau presennol, cyfathrebu polisïau newydd a dyfnder a chysondeb y cyngor. Fel y trafodwyd yn yr adrannau uchod ar ddiwylliant a chyfranogiad, nid yw rhai lwfansau'n cael eu hawlio, gan ragweld adlach y cyhoedd, ac mewn achosion eraill mae angen cymorth mwy manwl.

## Eisteddiadau hwyr

*<u>Y symudiad graddol tuag at eisteddiadau hwyrach</u>*

Mae'r Cyfarfodydd Llawn a gynhelir ddwywaith yr wythnos yn dod â'r holl ASau ynghyd, gydag ASau yn cymryd rhan yn bersonol neu o bell. Mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Busnes, dan gadeiryddiaeth y Llywydd, gyhoeddi

amserlen o gyfarfodydd y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor yn ogystal â dyddiadau egwyliau o leiaf chwe mis ymlaen llaw (Rheol Sefydlog 11.9).

O fewn yr amserlen ehangach hon, mae gofyniad i ystyried cyfrifoldebau yn yr etholaeth ac at y teulu wrth amserlennu busnes. Mae Rheolau Sefydlog y Senedd ar hyn o bryd yn nodi:

> 11.10 Rhaid i gynigion o dan Reol Sefydlog 11.9 roi sylw i gyfrifoldebau'r Aelodau tuag at y teulu a'r etholaeth neu'r rhanbarth etholiadol, ac i'w trefniadau teithio tebygol; ac fel rheol dylent geisio osgoi amserlennu busnes cyn 9.00am neu ar ôl 6.00pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith.[75]

Cynhelir cyfarfodydd ar ddydd Mawrth a dydd Mercher, o 1.30pm; fodd bynnag, er gwaethaf bwriad egwyddorol i gadw oriau mwy ystyriol o deuluoedd, bu cynnydd cyson tuag at Gyfarfodydd Llawn yn dod i ben yn hwyrach dros y deng mlynedd diwethaf, o amser gorffen cyfartalog o 5.59pm yn 2015 i amser gorffen cyfartalog o 6.36pm yn 2025 (gweler ffigur 10).

Wrth edrych dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ar gyfartaledd, daeth sesiynau'r Cyfarfodydd Llawn i ben tua 6.30pm, gyda'r mwyafrif helaeth yn cau cyn 7.30pm ond llond llaw yn cau ar ôl 8pm. Yn dibynnu ar yr eitem ar yr agenda, mae'n bosibl y bydd grwpiau eu plaid yn gofyn i ASau fod yn bresennol yn y cnawd (yn benodol pan fydd biliau yng Nghyfnod 3).

| | Pumed Senedd | | | | | | Chweched Senedd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Metrig | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 |
| Amser terfyn cymedrig | 18.20 | 18.18 | 18.27 | 18.20 | 18.45 | 18.20 | 18.16 | 18.13 | 18.31 | 18.33 | 18.36 |
| Terfyn hwyraf | 19.27 | 20.20 | 20.23 | 20.04 | 21.52 | 20.17 | 19.41 | 19.50 | 20.01 | 20.51 | 20.46 |
| Cyfran o fewn awr i 6.30pm | 92% | 81% | 815 | 84% | 65% | 75% | 87% | 87% | 88% | 74% | 96% |
| Ar ôl 8pm | 0 | 2 | 2 | 1 | 8 | 1 | 0 | 0 | 1 | 4 | 1 |
| Ar ôl 9pm | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Ffigur 10: Amseroedd gorffen y Cyfarfodydd Llawn yn y pumed a'r chweched Senedd[76]

*<u>Hwyr ac anrhagweladwy: O 'ddim problem' i 'broblem fawr'</u>*

[75] Y Senedd, Rheolau Sefydlog, 11.9
[76] Gyda diolch i Gomisiwn y Senedd am y data a'r dadansoddiad hwn.

Yn ymarferol, roedd gan ASau farn gymysg am eisteddiadau hwyr. I rai Aelodau nid oedd yn peri unrhyw bryder o gwbl. Mewn barn a rennir gan eraill a oedd yn aros yng Nghaerdydd i ffwrdd o adref, dywedodd un Aelod,

> *I mi, nid yw [amser gorffen y Cyfarfod Llawn] yn gwneud unrhyw wahaniaeth o gwbl. Rydw i'n aros yma dros nos. P'un a ydym yn eistedd tan 5:00pm neu'n gorffen am 9:00pm, mae'n rhaid i mi fod i lawr yma o hyd...* (AS gwryw)

I eraill, roedd heriau ymarferol iawn ynghlwm wrth amser gorffen diweddarach – ac amhenodol. Cyfeiriodd aelodau at wahanol gyfrifoldebau gofalu a phryderon diogelwch, yn benodol defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn y nos fel menyw ar ei phen ei hun. O ran y cyntaf, amlygwyd yr her hon mewn dau fyfyrdod gan wahanol ASau ynghylch gofalu am blant iau a hŷn,

> *Dychmygwch fod gen i blentyn ifanc yr oedd yn rhaid i mi ddod ag ef gyda mi i'r Senedd ddydd Mawrth. Yna ddydd Mercher byddai'n rhaid i mi fynd ag ef i'r feithrinfa. Byddai'n rhaid i mi fynd ag ef i'r feithrinfa cyn 9 o'r gloch a byddai'n rhaid i mi ... ddweud wrthynt nad oes gennyf unrhyw syniad pryd gallwn i ddod i'w nôl. Dylwn i allu dod i'w nôl am chwech o'r gloch, ond fe allai hynny fod yn amhosibl* (AS gwryw)
>
> *... pan gefais fy ethol, roedd plant gartref o hyd. Ac oedd, roedd hi'n anodd iawn oherwydd natur anrhagweladwy'r gwaith - un o'r prif bethau a welais oedd pa mor anrhagweladwy oedd hyd y Cyfarfod Llawn. Doeddech chi ddim yn gwybod yn union pryd y byddech chi'n gallu gadael, felly doeddech chi ddim yn gwybod yn union a fyddech chi'n gallu bod adref ar gyfer pethau fel nosweithiau rhieni, cyngherddau, beth bynnag...*(AS benyw)

Er gwaethaf y profiadau byw hyn gan Aelodau sy'n cael trafferth cydbwyso amserlen heriol ac anrhagweladwy, roedd gwerthfawrogiad cyffredinol o anawsterau cwmpasu'r busnes seneddol angenrheidiol. Fel y mynegodd un Aelod,

> *Mae ein pleidleisiau'n digwydd yn hwyr. Dydw i ddim yn gwybod sut rydyn ni'n mynd i ddatrys hynny mewn gwirionedd. Mae'r pleidleisiau wedi mynd yn llawer, llawer hwyrach wrth i ni ddal i fyny â'r hyn sydd angen ei wneud. Hyd yn oed os ydych chi gartref, mae hynny'n anodd yn fy marn i. Mae hi rhwng 7:00pm ac 8:00pm yn aml. Ond wn i ddim. Wn i ddim beth rydyn ni'n ei wneud am hynny* (AS benyw)

Mynegodd Aelod arall ei bod hi'n derbyn eisteddiadau hwyr yng nghyd-destun ehangach gwaith y Cyfarfod Llawn,

> *... Rydw i bob amser yn teimlo nad oes ots gen i gael y diwrnod hir hwnnw oherwydd eu bod nhw'n brin iawn. Nid ydynt yn digwydd mor aml â hynny, ond*

> *pan maent yn digwydd, yn enwedig ar gyfer deddfwriaeth … mae hynny'n iawn - mae'n rhan o'r gwaith.* (AS benyw)

*Arfer y Senedd a'r dybiaeth nad yw ASau yn ofalwyr*

Mae'r egwyddorion a fabwysiadwyd i sicrhau bod gweithgaredd y Senedd yn parchu patrwm gwaith sy'n fwy ystyriol o deuluoedd wedi cael eu tanseilio'n raddol. Er bod y llithriad hwn wedi digwydd yng nghyd-destun agenda seneddol drom, mae rhagdybiaeth fewnol y mae'n rhaid ei chydnabod: nad oes gan ASau gyfrifoldebau gofalu sylfaenol dros blant, wyrion na rhieni.

Mae hyd a pha mor ragweladwy yw diwrnod busnes y Senedd o bwys sylfaenol i hyrwyddo Senedd sy'n gynhwysol ac yn ystyriol o deuluoedd. Yn syml iawn, nid yw'n bosibl i unigolyn â chyfrifoldebau gofalu gyflawni ei ddyletswyddau fel AS os disgwylir iddo fod mewn cyfarfodydd Llawn y tu allan i'r diwrnod gwaith yn rheolaidd. O ystyried bod yn rhaid blaenoriaethu busnes seneddol, ni fydd y rhai sydd â rolau gofalu yn ystyried sefyll mewn etholiadau a fydd, dros amser, yn amddifadu'r Senedd o'r lleisiau hyn (rhai benyw yn bennaf).

## Darparu ar gyfer absenoldeb: Pleidleisio dirprwyol a pharu

> *Rydw i'n cofio, er enghraifft, pan [roedd gan fy mhlentyn ddigwyddiad pwysig yn yr ysgol] … Ac allwn i ddim cael [pâr]. Roeddwn i'n gofyn am bâr… Ac roedd fy ngŵr yn gweithio i ffwrdd, felly doedd neb arall yno ac… Ydw, rydw i'n cofio teimlo'n ddagreuol a chael gwybod "Na, does dim pâr". Ac roeddwn i'n teimlo fel dweud, "Iawn, dw i'n mynd i ymddiswyddo!". Wyddoch chi, y pwysau oedd hynny, oherwydd roeddwn i'n gwybod pa mor bwysig oedd hynny i fy mhlentyn. Rydw i'n gwybod y gall hynny ddigwydd gydag unrhyw swydd. Ond rydw i'n meddwl mewn unrhyw swydd arall, gallwch gymryd amser i ffwrdd.* (AS benyw)

*Mecanweithiau ffurfiol ac anffurfiol*

Mae pleidleisio drwy ddirprwy a pharu ill dau yn ymatebion ymarferol i absenoldeb Aelodau. Cyflwynwyd y cyntaf yn y Senedd fel treial ym mis Mawrth 2020 yn benodol ar gyfer achosion o absenoldeb rhiant (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Busnes 2020),[77] a chafodd ei wneud yn barhaol a'i ymestyn i gwmpasu salwch hirdymor,

[77] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Busnes (2020) Diwygio Rheolau Sefydlog: Gorchymyn Sefydlog 12 – Pleidleisio drwy Ddirprwy, Mawrth 2020: https://busnes.senedd.cymru/documents/s101203/11%20Mawrth%202020%20-%20Diwygio%20Rheolau%20Sefydlog%20Rheol%20Sefydlog%2012-%20Pleidleisio%20drwy%20Ddirprwy.pdf

cyfrifoldebau gofalu ac absenoldeb profedigaeth yn 2023. Rhaid i gais am bleidleisio drwy ddirprwy gael ei gymeradwyo gan y Llywydd ac mae'n galluogi Aelod absennol i enwebu Aelod arall o'r Senedd i bleidleisio ar ei ran.[78] Gweler Atodiad 1 am grynodeb o'r polisi.

Mae sail egwyddorol ar gyfer cyflwyno pleidleisio drwy ddirprwy yn y Senedd, fel mecanwaith ar gyfer senedd fwy cynrychioliadol a chynhwysol (Childs 2016),[79] ac mae bellach yn nodwedd gydnabyddedig ac a ddefnyddir o'r Rheolau Sefydlog (Rheol Sefydlog 12.41A-G).

Mae wedi cael ei ddefnyddio gan fenywod (pum gwaith) a dynion (pedair gwaith) ers ei gyflwyno yn 2020, gyda phedwar achos yn ymwneud ag absenoldeb rhiant, pedwar achos yn ymwneud â salwch hirdymor ac un achos o brofedigaeth. Cydnabyddir bod y dull ffurfiol hwn o reoli absenoldeb Aelodau yn offeryn gwerthfawr i ddarparu ar gyfer newid tymor hwy mewn amgylchiadau bywyd; fodd bynnag, mae ganddo gyfyngiadau.

Yn benodol, ni all y mecanwaith hwn ymateb yn llawn i achosion mwy brys lle mae Aelod yn cael ei alw o Gyfarfod Llawn. Teimlwyd y bwlch hwn yn y ddarpariaeth yn fawr gan y rhai mewn rôl ofalu. Yn wir, mynegodd llawer o'r Aelodau hynny bryder ynghylch sut i ymateb mewn achos lle'r oedd aelod o'r teulu wedi cwympo, wedi bod yn yr ysbyty neu wedi wynebu argyfwng arall.

O ystyried y meini prawf yn ogystal â'r amser arweiniol sydd ei angen ar gyfer cymeradwyo dirprwy, mewn llawer o achosion lle mae Aelod yn dymuno bod yn absennol o Gyfarfodydd Llawn ar fyr rybudd, yr unig opsiwn sydd ar gael yw chwilio am bâr mewn plaid arall (i ganslo diffyg pleidleisio i bob pwrpas). Yn nodedig, mae paru yn gwbl anffurfiol. Er ei fod yn sicr yn fecanwaith ychwanegol i'w groesawu ar gyfer Aelodau, mae paru llwyddiannus yn dibynnu i raddau helaeth ar ddisgresiwn chwipiaid y blaid, ac ni ellir dibynnu arno.

Casgliad

[78] Senedd Cymru, Busnes y Senedd (2026) Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Ionawr 2026: https://senedd.wales/media/ocmbp05c/welsh_digital.pdf
Senedd Cymru, Ysgrifenyddiaeth y Siambr (2025) Canllaw i'r Cyfarfod Llawn, Hydref 2025: https://senedd.wales/media/ytjh1wau/guide-to-plenary_public_cym.pdf
Senedd Cymru, Ysgrifenyddiaeth y Siambr (2025) Canllawiau ar Drafodion Rhithwir a Hybrid: Cyhoeddwyd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 6.17, Tachwedd 2025: https://senedd.cymru/media/adfpdoic/guidance-on-virtual-and-hybrid-proceedings-welsh.pdf
Senedd Cymru, Busnes y Senedd (2025) Canllawiau ar y modd priodol o gynnal Busnes y Senedd: Cyhoeddwyd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 6.17, Chwefror 2025: https://senedd.wales/media/dl2alrfs/collation_of_guidance_cym.pdf

[79] Childs, S. (2016) The Good Parliament, https://www.parliament.uk/globalassets/documents/commons-committees/reference-group-representation-inclusion/good-parliament-report-july-2016.pdf

Mae'r adran hon o'r adroddiad wedi ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion bywyd sy'n effeithio ar waith: gofal plant, gofalu am ddibynyddion eraill, eisteddiadau hwyr a'r mesurau teuluol sydd ar waith i gynorthwyo ASau i reoli gwaith a bywyd. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio rhithwir a hybrid, pleidleisio drwy dirprwy a pharu, a darparu lwfansau gofalu. Rydym wedi awgrymu rhai gwelliannau posibl i'r mesurau hyn isod.

## Argymhellion y Bwrdd: Cydbwysedd bywyd a gwaith

- sefydlu pwyllgor i archwilio'r potensial i benodi Aelod Locwm i ymgymryd ag amrediad llawn o waith Aelod gan gynnwys busnes y Senedd.

Argymhelliad: Yn seiliedig ar gynnig gan y Llywydd, dylai'r Senedd gadarnhau polisi absenoldeb rhiant, sy'n cwmpasu absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu a chamesgoriad. Byddai hynny'n seiliedig ar y canlynol:

- trafodaeth rhwng grwpiau gwleidyddol, ac
- wedi ei lywio gan:
    - ystyriaeth y Pwyllgor Busnes,
    - trafodaeth gyda'r Bwrdd Taliadau Annibynnol; a hefyd
    - arfer gorau sydd wedi'i nodi gan wasanaethau Comisiwn y Senedd o ran absenoldebau, gan gynnwys yr arfer mewn Seneddau eraill.

Byddai'r polisi hwn yn:

- cwmpasu'r modd y mae'r trefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer Aelodau beichiog yn cael eu cynnwys mewn perthynas â gweithio yn y Senedd a thu allan iddi, gan gynnwys unrhyw eiddo, staff neu wasanaethau sy'n ofynnol;
- rhoi canllawiau i Aelodau wrth benderfynu ar hyd priodol absenoldebau a threfniadau eraill; a hefyd
- cwmpasu materion gweithdrefnol perthnasol presennol megis pleidleisio drwy ddirprwy – gan gynnwys yr amser hwyaf sydd ar gael i bleidleisio drwy ddirprwy.

Argymhelliad: Yn dilyn cytundeb ar y polisi hwn, dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd sicrhau bod gwybodaeth a chanllawiau arno ar gael i Aelodau, a chymryd camau i'w gyhoeddi. Dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd hefyd ddarparu ar gyfer person/personau y gall Aelodau gysylltu â hwy i gael arweiniad ar faterion sensitif sy'n ymwneud â'r polisi hwn. Dylai Aelodau hefyd allu ceisio arweiniad ar agweddau

perthnasol ar Benderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol (megis y lwfans ar gyfer staff ychwanegol i gwmpasu gwaith).

Argymhelliad: Os sefydlir pwyllgor o dan adran 7 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), i archwilio'r posibilrwydd o rannu swyddi yn y dyfodol, dylai archwilio'r potensial i Aelod Locwm allu ymgymryd â holl ystod gwaith Aelod, gan gynnwys busnes y Senedd, tra nad yw Aelod ar gael.

Argymhelliad: Gwahoddir y Llywydd a'r Pwyllgor Busnes i ystyried cyflwyno eitem 'Cyhoeddiadau' rheolaidd ar yr agenda ar ddechrau pob Cyfarfod Llawn a fyddai'n rhoi mwy o welededd i'r hyn a allai fod yn digwydd ym mywydau personol yr Aelodau. Mae hyn yn arfer cyffredin mewn llywodraeth leol ac yn rhoi cyfle i gydymdeimlo, llongyfarch, a chydnabod materion personol eraill.

Argymhelliad: Dylai'r Pwyllgor Busnes sefydlu gweithdrefn i Aelodau sy'n gadael y Cyfarfod Llawn mewn argyfwng (gyda diffiniad penodol o'r hyn sy'n cyfrif fel argyfwng). Os bydd yn rhaid i Aelod adael mewn argyfwng, ni ddylai canlyniad pleidlais ddibynnu ar allu'r Aelod hwnnw i baru ag Aelod arall ar fyr rybudd.

Argymhelliad: Dylai'r Pwyllgor Busnes bennu amser gorffen rhagweladwy, sy'n ystyriol o deuluoedd, ar gyfer y Cyfarfod Llawn. Dylai gwyriadau oddi wrth yr amser gorffen hwn fod yn eithriadol, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i Aelodau os yw sesiynau'n debygol o redeg y tu hwnt i'r amser hwn. Dylai fod darpariaeth ar gyfer cynnal busnes nas cyflawnwyd erbyn diwedd un Cyfarfod Llawn yn yr un nesaf. Dylai'r Pwyllgor Busnes adolygu data ar amseroedd gorffen y Cyfarfod Llawn, yn enwedig eisteddiadau hwyr, yn rheolaidd. Dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried hynny ochr yn ochr â'r data monitro cyfranogiad yn y Cyfarfodydd Llawn er mwyn galluogi ystyriaeth o effaith amseriad y cyfarfodydd llawn ar gyfranogiad.

Argymhelliad: Dylai'r Pwyllgor Busnes ddiogelu'r dewis i gymryd rhan yn rithwir ym Musnes y Senedd yn y Senedd nesaf, gan gadarnhau bod gan hynny yr un gwerth â bod yno yn y cnawd. Dylid monitro a yw'r defnydd o weithio hybrid yn effeithio ar allu menywod i gael dyrchafiad.

Argymhelliad: Dylai'r Senedd ymrwymo i'r egwyddor o Senedd fel sefydliad sy'n hygyrch, yn gynhwysol ac yn ystyriol o deuluoedd.

Argymhelliad: Dylai Comisiwn y Senedd ymrwymo i egwyddor darpariaeth gofal plant yn y Senedd i Aelodau, staff a thystion a hefyd – erbyn o leiaf blwyddyn gyntaf y Seithfed Senedd – dylai fod wedi archwilio a datblygu pob opsiwn. Dylai fod ystafell bwrpasol ar gyfer bwydo ar y fron.

Argymhelliad: Dylai'r Pwyllgor Busnes, mewn cydweithrediad â grwpiau gwleidyddol, ddatblygu diffiniad o rôl Prif Chwip (yn wahanol i Reolwr Busnes). Gall hyn gynnwys

materion megis cynllunio deddfwriaethol, disgyblaeth seneddol a chefnogi llesiant Aelodau eu grŵp.

## Newidiadau arfaethedig i drefniadaeth busnes y Seithfed Senedd

Roedd ymrwymiad i weithio sy'n gynhwysol ac sy'n ystyriol o deuluoedd yn drafodaeth fyw yn ystod y cyfnod ymchwil, yn benodol mewn perthynas â gweithio hybrid, darparu meithrinfa a rhannu swyddi. Atgyfnerthodd y Llywydd a'r Pwyllgor Busnes yr ymrwymiad i weithio hybrid. Roedd prosiect Bae 32 yn ystyried anghenion lle ar gyfer y Seithfed Senedd, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried opsiynau ar gyfer darpariaeth gofal plant (gweler y drafodaeth am feithrinfa uchod).[80] Mae'r adran hon o'r adroddiad yn myfyrio ar newidiadau arfaethedig eraill i'r Pwyllgor Busnes, er mwyn rheoli busnes yn well mewn Seithfed Senedd estynedig a myfyrdodau ein cyfranogwyr ar y newidiadau arfaethedig.

### Cynigion Rhannu Swyddi

Mae trafodaethau am botensial rhannu swyddi fel mesur amrywiaeth a chynhwysiant ac sy'n ystyriol o deuluoedd yn tarddu o adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol (2017). Dadleuodd y panel y gallai rhannu swyddi rolau gwleidyddol a rhannu swyddi rolau gweithredol gynyddu mynediad at swyddi etholedig a dyrchafiad mewn swyddi yn enwedig i ymgeiswyr â chyfrifoldebau gofalu, ymgeiswyr hŷn ac ymgeiswyr anabl. Nodwyd yn Rhannu Swyddi i Aelodau o'r Senedd RhMC Cymru (2022) fod y syniad hwn wedi bod yn ennill tir yn rhyngwladol, a bod enghreifftiau helaeth o rannu rolau gweithredol yn Iwerddon, ac mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru, ond ni allai ddod o hyd i enghreifftiau o rannu rolau seneddol.

Cytunodd Pwyllgor Busnes y Senedd ym mis Medi 2025 i roi Rheol Sefydlog dros dro i Aelodau ym mis Mawrth 2026, a fydd yn sefydlu treial rhannu swyddi ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau yn y Seithfed Senedd. Os cytunir ar hynny, bydd Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn gallu cynnig y gall hyd at dri phwyllgor gael dau Aelod wedi eu henwebu neu eu penodi i rannu rôl Cadeirydd y Pwyllgor.

Mae Adran 7 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd gyflwyno cynnig sy'n cynnig sefydlu pwyllgor i ystyried rhannu swyddi o ran dau o bobl yn ymgymryd â rôl Aelod, ac mewn perthynas â rolau perthnasol eraill. Bydd y Seithfed Senedd yn penderfynu a ddylid sefydlu'r pwyllgor hwn.

[80] Mae hwn yn brosiect i sicrhau anghenion swyddfeydd hirdymor y Senedd, y Comisiwn a Llywodraeth Cymru yn y Bae, ac ategu'r gwaith o gynnal busnes y Senedd yn adeilad y Senedd. Y gyrrwr ar gyfer y gwaith yw bod prydles bresennol Tŷ Hywel yn dod i ben yn 2032.

Byddai angen newidiadau deddfwriaethol i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i alluogi dau o bobl i ymgymryd â rôl Aelod ar y cyd.

Yn ein cyfweliadau ag Aelodau'r Senedd roedd llawer o gefnogaeth i rannu rolau Cadeiryddion Pwyllgorau. Roedd yr Aelodau'n ystyried hyn yn fecanwaith allweddol ar gyfer cynyddu amrywiaeth cyfranogiad o fewn y Senedd. Roedd rhai'n gweld pethau'n wahanol drwy awgrymu y byddai'n well ganddynt weld Is-gadeiryddion yn cael eu penodi. Mewn ymateb i'r awgrym hwn, dadleuodd rhai Aelodau y gallai Is-gadeiryddion danseilio consensws; rhaid i benderfyniadau gael eu gwneud ar y cyd gan gyd-gadeiryddion.

Roedd brwdfrydedd dros rannu swydd yn rôl yr AS, gan ddadlau y byddai'n cynyddu cyfranogiad AS hŷn ac AS anabl, menywod a rhieni sengl. Ymhlith y cefnogwyr brwdfrydig roedd amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch sut gallai weithio, gyda rhai yn gweld dim problem o gwbl cyn belled â bod rolau a strategaethau cyfathrebu da wedi eu cytuno ar y dechrau. Roedd cyfranogwyr eraill yn awyddus i weld y mesur hwn ond nid oeddent yn siŵr sut byddai'n gweithio. A fyddai rolau dynodedig (etholaeth/Senedd) neu rannu rolau polisi, neu rannu gwirioneddol bob rhan o'r rôl a gwneud penderfyniadau ar y cyd? Roedd sawl Aelod yn erbyn y syniad o rannu swyddi ASau yn llwyr, gan nad oeddent yn ei weld yn gydnaws â chyfrifoldebau atebolrwydd.

Yr Wythnos Fusnes – opsiynau i'w hystyried gan y Seithfed Senedd

Ym mis Mai 2025, nododd Pwyllgor Senedd y Dyfodol opsiynau ar gyfer cynnal busnes seneddol ffurfiol ac anffurfiol mewn Senedd estynedig, gyda bwriad penodol i greu diwylliant sy'n gynhwysol ac sy'n ystyriol o deuluoedd, drwy wneud:

> *... amseroedd gorffen a'r patrwm busnes mor rhagweladwy â phosibl, gan fod yr ansicrwydd sy'n bodoli ar hyn o bryd ynghylch amseroedd gorffen y Cyfarfod Llawn yn benodol yn creu rhwystr i rai Aelodau, neu ddarpar Aelodau, oherwydd ei effaith ar eu gallu i gyflawni cyfrifoldebau gofalu, neu gyfrifoldebau eraill.* (Pwyllgor Senedd y Dyfodol, 2025)

Roedd y Pwyllgor hefyd yn awyddus i nodi y dylai ASau meinciau cefn gael mwy o gyfle i gyfrannu at y ddadl, gan gynnwys cyfyngu ar faint o amser mae llefarwyr yn ei gymryd mewn trafodion. Fel y dywedodd un o'n cyfweleion:

> *Mae gweinidogion yn siarad yn rhy hir* (AS benyw)

Fel y nodwyd uchod (Cyfarfodydd Llawn a Phwyllgorau), ni fydd y cynnydd yn nifer yr Aelodau o reidrwydd yn golygu llai o waith pwyllgorau (Aelodau ar ddau neu ragor o Bwyllgorau) nac yn cynyddu amser ar gyfer craffu os ehangir nifer y Pwyllgorau. Mae

Pwyllgor Senedd y Dyfodol yn nodi hyn hefyd. Yn seiliedig ar ein canfyddiadau, mae’n bosibl na fydd ehangu nifer yr Aelodau yn unig yn lleihau nifer y pwyllgorau mae ASau yn eu mynychu oni bai bod bwriad i wneud y gwaith yn hylaw. Yn yr un modd, mae gofyniad bod y Seithfed Senedd yn ystyried newidiadau i'r Cyfarfod Llawn i ddarparu ar gyfer Senedd estynedig ac felly ymdrin â busnes mwy ffurfiol. Mae'r ystyriaethau hynny'n cynnwys:

- Opsiwn 1: Status quo;
- Opsiwn 2: Cyfarfod Llawn ychwanegol bob wythnos; ac
- Opsiwn 3: Aml-wythnos

O ystyried yr ymchwil a nodir yma ar bwysigrwydd trefniadau gwaith ar gyfer rheoli trefniadau gofalu a chynyddu amrywiaeth, dylid profi'r cynigion hyn yn awr ar sail yr hyn mae'r Aelodau'n ei ddweud sydd ei angen arnynt i gynnal ymlyniad i'r rôl.

### Argymhellion y Bwrdd: Cynigion Diwygio'r Senedd

Argymhelliad: Dylai'r Pwyllgor Busnes a’r Llywydd gynnwys, yn weithredol, Bwrdd Gweithredu’r Adolygiad o Senedd sy’n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd mewn trafodaethau ar gynigion diwygio'r Seithfed Senedd, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hasesu o ran effaith ar gydraddoldeb, cyn eu cyflwyno i’r Senedd i benderfynu arnynt. Byddai hyn yn cynnwys cynigion ar gynllunio’r wythnos fusnes, treialon rhannu swyddi a newidiadau eraill i’r ffordd y mae’r Aelodau yn cynnal busnes. Dylai unrhyw newidiadau sylweddol fod yn destun ‘profion senario’ o safbwynt hyrwyddo arferion gweithio sy’n gynhwysol ac yn ystyriol o deuluoedd.

## Cam-drin Aelodau: Y tu hwnt i 'Gost Gwleidydda'

***Noder, mae'r adran hon o'r adroddiad yn archwilio profiadau ac effaith trais, cam-drin ac aflonyddu gwleidyddion, gan gynnwys trafodaethau am fygythiadau marwolaeth a threisio.***

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn trafod ymddygiadau o fewn y Senedd yn gyntaf a oedd yn ymestyn y tu hwnt i arddulliau gwleidyddol 'cadarn' i gam-drin, bwlio, aflonyddu neu fygwth ymysg Aelodau. Nid oedd achosion o Aelod yn cam-drin Aelod arall, neu ddigwyddiadau difrifol rhwng Aelodau a staff gwleidyddol cynorthwyol neu staff Comisiwn y Senedd, yn ffocws sylfaenol ymatebion yn ymwneud â cham-drin ac aflonyddu yn gyffredin. er bod rhai cyn-Aelodau ac Aelodau presennol wedi trafod y mater.

Yn hytrach, awgrymodd data bryder mwy cyffredinol ynghylch cam-drin gan y cyhoedd. O ganlyniad, mae'r adran hon wedyn yn archwilio profiadau uniongyrchol Aelodau'r Senedd o drais, cam-drin ac aflonyddu *gan y cyhoedd*.

Gwelir bod hyn yn digwydd ar sawl ffurf ac yn digwydd mewn mannau all-lein ac ar-lein, gyda'r olaf bellach yn bryder allweddol i Aelodau presennol. Ystyrir effeithiau'r profiadau hyn yma, gyda phrofiadau negyddol yn cael effaith ddifrifol ar Aelodau a'r rhai sy'n agos atynt – yn benodol, yma, ar aelodau eu teulu ac ar eu staff gwleidyddol. Mae goblygiadau sylweddol hefyd ar ddemocratiaeth ac ar amrywiaeth mewn cynrychiolaeth wleidyddol, o ran elfennau disgrifiadol a sylweddol (Håkansson 2024).[81] Yn olaf, mae'r adran hon yn trafod canfyddiadau'r Aelodau o sut mae digwyddiadau o'r fath yn cael eu trin gan Ddiogelwch y Senedd a heddluoedd Cymru cyn ystyried atebion ac argymhellion.

## Safonau Ymddygiad a Digwyddiadau yn y Senedd

Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, buom yn trafod yr 'arddulliau gwleidyddol' a fabwysiadwyd neu a ffafrir gan Aelodau a phryderon rhai Aelodau ynghylch gwleidyddiaeth 'Ya-boo' yn y Siambr. Roedd ymddygiadau negyddol yn ymestyn y tu hwnt i hyn, a arweiniodd at gam-drin, aflonyddu, bwlio, a/neu fygwth, yn codi yn llai aml yn ymatebion y cyfranogwyr yma, ond roeddent yn parhau i fod yn bryder i rai.

Mae'r Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau weithredu yn unol â'i Chod Ymddygiad sy'n nodi'r 'safonau ymddygiad sy'n ofynnol gan Aelodau'r Senedd' ac yn mynnu ymhellach bod yn rhaid i Aelodau hefyd 'gydymffurfio â Rheolau Sefydlog y Senedd'. [82] O fewn y Cod Ymddygiad, mae'n ofynnol i Aelodau ddilyn amryw o egwyddorion, gan gynnwys 'Parch':

> *Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd sy'n lleihau cyfle cyfartal, rhaid iddynt barchu urddas pobl eraill a pheidio ag ymddwyn yn wahaniaethol neu mewn modd nas dymunir.*

Yn ogystal â hyn, mae'r Cod Ymddygiad yn cynnwys nifer o reolau ynghylch ymddygiad y mae'n rhaid i Aelodau eu dilyn. Er enghraifft:

- ‘Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd sy'n dwyn anfri ar y Senedd neu ei Haelodau yn gyffredinol’ (Rheol 3)
- ‘Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd nas dymunir, aflonyddu, bwlio na
- gwahaniaethu’ (Rheol 4),
- ‘Ni chaiff Aelodau ymosod yn bersonol ar unrhyw un mewn modd a fyddai'n cael ei ystyried yn ormodol neu'n ymosodol gan berson rhesymol a diduedd’ (Rheol 6),

[81] Håkansson, S. 2024. The Gendered Representational Costs of Violence against Politicians. *Perspectives on Politics*.
[82] Senedd Cymru Cod Ymddygiad (2021)

- 'Rhaid i Aelodau gymryd camau rhesymol i sicrhau bod eu staff [...] hefyd yn cynnal ac yn gweithredu yn unol â'r Rheolau hyn a'r Egwyddorion Cyffredinol.' (Rheol 24).

Fel y soniwyd uchod, mae'r Cod Ymddygiad hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau ddilyn y Rheolau Sefydlog. Mae'r rhain yn llywodraethu ac yn gosod disgwyliadau o ran ymddygiad gwleidyddol, gyda'r Llywydd yn rheoli'r rhain ac yn sicrhau eu bod yn cael eu bodloni yn ystod y ddadl yn y Siambr.

Mae gan y Senedd hefyd Bolisi Urddas a Pharch clir sy'n nodi'r ymddygiad disgwyliedig ar gyfer Aelodau, staff y Comisiwn, staff Cymorth yr Aelodau, yn ogystal ag eraill sy'n gweithio gyda'r Senedd fel contractwyr a'r rhai sy'n bresennol fel arall ar ystâd y Senedd.[83] Mae'n cwmpasu gweithgarwch yn gysylltiedig yn agos â'u gwaith, boed hynny ar eiddo'r Senedd, yn swyddfa etholaeth neu ranbarthol Aelod, neu rywle arall, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol.

## Ymddygiad y tu hwnt i wleidyddiaeth 'gadarn'

Yn ein hymchwil gydag Aelodau, clywsom fod achlysuron pan oedd canfyddiad bod Aelodau wedi 'mynd yn rhy bell', gan weithredu y tu hwnt i iaith seneddol dderbyniol neu mewn ffyrdd a oedd yn groes i'r Rheolau Sefydlog neu'r Cod Ymddygiad:

*Mae gan bawb yr hawl i siarad, ond mae rheolau sy'n llywodraethu, yr hyn a alwn yn iaith seneddol, a gellir galw ar bobl a'u gorfodi i ymddiheuro os ydynt wedi mynd yn rhy bell* (AS benyw)

Roedd pryder hefyd ynghylch cydbwyso'r gofyniad am ryddid barn â sicrhau bod rheolau urddas a pharch yn cael eu dilyn wrth drafod cydraddoldeb:

*... mae cymaint o lwybrau a chyfleoedd [i] bobl wthio agendâu penodol, gwrth-gydraddoldeb ar ffurf cwestiwn, fel bod yn rhaid i ni gadw golwg fanwl am hynny, ac rydw i'n pryderu am y Senedd nesaf* (AS benyw)

Roedd yr Aelodau yn pryderu ymhellach a fyddai Aelodau etholedig newydd yn y Senedd nesaf yn deall eu cyfrifoldebau yn y Siambr, gan lynu wrth ddisgwyliadau ohonynt eu hunain ac o ran ymddygiad eu staff (gweler Rheol 24 uchod):

*Ar ôl y Etholiad mis Mai ... [mae'n bosibl y bydd gennym] nifer fawr o aelodau staff a allai fod â diwylliant gwahanol hefyd. Felly sut bydd hynny'n dylanwadu ar ... y diwylliant yn yr adeilad cyfan. Mae'n mynd i fod yn rhywbeth y mae angen i ni gadw golwg arno. ... Rydw i'n meddwl ei fod yn*

[83] Polisi Urddas a Pharch fel y cytunwyd yn 2018 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd.

> *fater o sicrhau ein bod ni'n gorfodi'r polisïau urddas a pharch .... oherwydd os nad ydynt yn parchu'r Cadeirydd yn y Siambr, yna mae anhrefn yn siŵr o ddigwydd (AS gwryw)*
>
> *Byddwn i'n meddwl, fodd bynnag, os nad yw staff yn parchu urddas, yna [...] gellir gofyn i'r Aelod sicrhau bod ei weithwyr yn ymddwyn yn gyfrifol yn dechnegol. Yna, cyfrifoldeb yr Aelodau yw sicrhau bod hynny'n digwydd. Ond dydw i ddim yn meddwl bod llawer o Aelodau'n deall hynny.* (AS gwryw)

Mae'n bwysig nodi yma na wnaethom gyfweld na chynnal arolwg o staff y Senedd na staff cymorth gwleidyddol yr Aelodau fel rhan o'r adolygiad hwn, ac felly ni allwn wneud sylwadau eang ar lwybrau posibl cam-drin, aflonyddu, bwlio na bygwth. Gan hynny, rydym yn argymell y dylai Bwrdd Gweithredu FFIPR ymdrin â hyn yn ystod y Senedd nesaf.

Yn ogystal â'r dystiolaeth a drafodwyd hyd yn hyn, gofynnwyd hefyd, yn ein harolwg, a oedd Aelodau presennol y Senedd wedi profi cam-drin ac aflonyddu rhwng Aelodau a/neu staff. Er gwaethaf y gyfradd ymateb fach (11 Aelod), dywedodd 40% o'r ymatebwyr eu bod wedi 'profi camdriniaeth, aflonyddu, neu fygythiad gan Aelod arall neu aelod o staff y Senedd', er i bawb ymatal rhag darparu manylion pellach y tu hwnt i: "Do, gan [enw/rôl]". Rhaid nodi yma fod ein harolwg wedi gofyn i'r Aelodau fyfyrio ar eu *holl gyfnod* fel Aelod etholedig, yn hytrach na phrofiadau mewn cyfnod cyfyngedig penodol, fel tymor presennol y Senedd. Mewn cymhariaeth, yn Arolwg Urddas a Pharch diweddar y Senedd (Hydref 2025)[84], a gafodd gyfradd ymateb isel o 12% (7 Aelod), gofynnwyd i'r Aelodau fyfyrio ar unrhyw 'ymddygiad amhriodol [a brofwyd] yn ystod y 12 mis diwethaf'. Dywedodd 12% o'r Aelodau a ymatebodd i'r arolwg hwnnw eu bod wedi profi ymddygiad amhriodol ar sawl achlysur, ac roedd 14% wedi gweld ymddygiad amhriodol, gydag Aelodau'n fwy tebygol o fod wedi profi neu weld hyn gan gyd-Aelodau (neu Staff Cymorth Aelodau y mae eu hymddygiad yn gyfrifoldeb yr Aelodau yn unol â Rheol 24 uchod).

Roedd data ansoddol a gasglwyd gan gyn-Aelodau'r Senedd drwy eu harolwg yn cynnwys trafodaethau mwy agored am gam-drin ac aflonyddu gan y rhai yn y Senedd, ac adroddodd rhai am brofiadau o ddigwyddiadau difrifol a oedd yn cynnwys cyd-Aelodau, a oedd yn groes i'r Codau Ymddygiad. Roedd y gwahaniaeth o ran rhywedd yn amlwg, gyda chyn-Aelodau benyw yn trafod ymddygiad 'rhy ymosodol', dychryn, yn ogystal ag aflonyddu rhywiol gan gynnwys cael eu 'byseddu' a sylwadau awgrymog, rhywbeth sy'n cael ei ystyried yn gysylltiedig ag Aelodau gwryw yn yfed alcohol mewn digwyddiadau. Fe wnaethant hefyd rannu profiadau o gael 'sylwadau amhriodol' a chael eu 'gwrthrychioli', eu 'rhywioli', ac yn gyffredinol mynd i deimlo'n anghyfforddus, gyda

[84] Senedd Cymru, 'Canlyniadau arolwg 2025 Urddas a pharch.pdf'

sylwadau ar eu hymddangosiad a'u dillad. Priodolwyd yr holl ddigwyddiadau hyn i Aelodau gwryw.

Mae'r manylion a ddarparwyd gan gyn-Aelodau benyw, rhai ohonynt wedi ymddiswyddo mor ddiweddar â 2021, yn awgrymu diwylliant o ymddygiad rhyweddol annerbyniol gan Aelodau gwryw yn nhymhorau blaenorol y Senedd. Ar ben hynny, er bod 40% o'r Aelodau presennol a ymatebodd i'n harolwg hefyd wedi nodi eu bod wedi profi ymddygiadau negyddol yn groes i'r Cod Ymddygiad ond nad oeddent yn cynnig llawer o fanylion yn eu hymatebion, ni allwn ddiystyru'r posibilrwydd bod y diwylliant hwn yn dal i fodoli. Er enghraifft, mae'n bosibl na fydd yr Aelodau presennol yn teimlo'n gyfforddus yn rhannu profiadau a hwythau'n dal yn y swydd. Mae'r ymatebion i'r arolwg gan gyn-Aelodau yn cyfateb i ganfyddiadau Arolwg Urddas a Pharch 2025 y Senedd ei hun, sy'n awgrymu bod tuedd bryderus o ran rhywedd o hyd sy'n canolbwyntio ar rywiaeth ac aflonyddu rhywiol.

## Ymatebion i Ddigwyddiadau yn y Senedd

Mae'r materion uchod a godwyd gan yr Aelodau wedi ein harwain i argymell hyfforddiant parhaus, i'w gyflwyno'n raddol a'i ailadrodd drwy gydol tymhorau etholiadol, ynghylch ymddygiad derbyniol, Codau Ymddygiad, meithrin gwydnwch, hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant, ac ar urddas a pharch.

Clywsom werthfawrogiad gan yr Aelodau am waith y Comisiynydd Safonau a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad mewn ymateb i ddigwyddiadau, ond roedd ceisiadau hefyd am fecanweithiau ymyrryd cyflymach – er enghraifft, gwaharddiadau ar unwaith, a'r gallu i achwynydd apelio os oedd o'r farn bod argymhellion y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn annigonol.

*Mae mecanwaith adrodd i'r Pwyllgor a'r Pwyllgor Safonau, os ydynt yn cadarnhau cwyn, os ydynt wedi cwyno ac y canfuwyd y bu pobl yn ddiffygiol, mae ganddynt amryw o bethau y gallant eu gwneud….* (AS benyw)

Roedd cyfraniadau trawiadol eraill yn y maes hwn yn canolbwyntio ar ansicrwydd ynghylch at bwy y gallai Aelodau droi am gyngor pe baent wedi cael eu haflonyddu, eu cam-drin, eu bygwth, neu fod yn destun gwahaniaethu yn eu herbyn gan Aelod arall neu aelod o staff, wyneb yn wyneb neu ar y cyfryngau cymdeithasol.

> *Yn ôl pob tebyg, mae'n siŵr y byddaf yn mynd at y Llywydd gydag [achos o ymddygiad amhriodol]. Dydw i ddim yn gwybod ai dyna yw ei rôl hi, ond rydw i'n meddwl y byddai hi'n gallu fy nghynghori i ble i fynd â'r mater. Ar wahân i hynny, dydw i ddim yn gwybod ble byddwn i'n mynd oni bai am y Llywydd…* (AS benyw)

Mae hyn yn ymddangos yn ddibynnol iawn ar bwy yw'r Llywydd a pha mor gyfforddus yw'r Aelod wrth rannu problemau, ac felly roeddem yn pendroni a ddylai'r cyfleuster i gael cyngor fod yn gysylltiedig â'r unigolyn ynteu'r swydd. Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad wedi cyflwyno set o argymhellion i wella'r broses a thrin cwynion (Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Rhagfyr 2025).[85] Rydym yn croesawu'r estyniad a awgrymir i'r dyddiad cau ar gyfer cwynion, y cynnig i ddefnyddio mesurau gwahardd yn seiliedig ar risg, gan ymgorffori arbenigedd allanol (gan gynnwys cyrff cydraddoldeb), a'r cynghorwr lled-annibynnol, a allai gynghori ar urddas a pharch a'r broses gwyno.

Ar sail ein gwaith ymchwil, rydym yn awgrymu cylch gwaith ehangach - 'siop un stop' ar gyfer pan fydd aelod wedi bod yn destun bwlio neu aflonyddu, neu wedi tystio hynny, gan gynnwys aflonyddu rhywiol. Byddai hyn yn fan cychwynnol i fynd i weld unigolyn neu bobl, yn gyfrinachol, i siarad am ddigwyddiad, pwyso a mesur difrifoldeb y mater, a chael cymorth a chyngor.

Byddai'r rôl lled-gynghorol ac eiriolaeth hon yn helpu Aelodau i feddwl a oes angen ymyriadau ar unwaith i atal yr ymddygiad diangen rhag digwydd eto, a chodi hyn gyda'r blaid, y Llywydd, Cadeirydd y Pwyllgor, y Comisiynydd Safonau neu'r tîm diogelwch – pa un bynnag sy'n briodol. Yn ei hanfod, gellid cymryd camau, fel gwahardd ar sail risg, os oedd staff â'r cymwysterau addas ar gael i asesu a chynghori, cyn dechrau ar gŵyn i'r Comisiynydd Safonau. Mae'r tîm ymchwil wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ac wedi wedi darparu'r adborth hwn.

## Argymhellion y Bwrdd: Cam-drin ac aflonyddu o fewn y Senedd/ Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Argymhelliad: Dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd barhau i ddarparu hyfforddiant parhaus (yn raddol ac wedi'i ailadrodd) ar y canlynol:

- y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd a'r polisi Urddas a Pharch;
- y confensiynau a'r rheolau o ran cynnal busnes y Senedd, gan gynnwys cymryd rhan yn y Cyfarfod Llawn a phwyllgorau, o ran torri ar draws, ymyriadau ac ymddygiad derbyniol (gan gynnwys y ffordd y gofynnir cwestiynau);

[85] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Cyflwyno mwy o annibyniaeth a chymorth i'r broses gwyno yn y Senedd. ac ymateb yr Adolygiad Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd i hyn.

- ymdrin â chwynion staff, gan gynnwys mewn perthynas ag aflonyddu rhywiol a bwlio;
- meithrin gwydnwch; a hefyd
- hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant wrth ryngweithio ac wrth ddeddfu.

Argymhelliad: Dylai Comisiwn y Senedd adrodd ar y niferoedd sy'n manteisio ar yr hyfforddiant, a'i effeithiolrwydd, i'r Pwyllgor Busnes a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

Argymhelliad: Dylai Bwrdd Gweithredu'r Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd ymgysylltu â'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a'i olynydd yn y Senedd nesaf, yn enwedig mewn perthynas â'r canlynol:

- y cynnig ar gyfer un pwynt cyswllt ar gyfer canllawiau, cyngor a chymorth ymarferol sy'n ymwneud â phob math o aflonyddu a cham-drin, (gan y cyhoedd a'r rheini yn y Senedd) ar gyfer Aelodau, Staff Cymorth a staff y Comisiwn;
- y cynigion ar gyfer "Rôl Gwarcheidwad", cynghorydd lled-annibynnol (tebyg i fodel y GIG) ar gyfer urddas a pharch; a hefyd
- y gwerthusiad o "Hwb yr Aelodau" a fydd yn cael ei gynnal gan Gomisiwn y Senedd.

## Ffurfiau ac Effeithiau Trais gan y Cyhoedd

Canfu'r Adolygiad hwn fod Aelodau'n dioddef o wahanol fathau o drais a cham-drin gan y cyhoedd, sy'n digwydd ar draws dau brif faes o weithgarwch gwleidyddol – 'all-lein' yn yr etholaeth neu wrth gynnal busnes arall y Senedd yn y cnawd, ac ar-lein, yn bennaf ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Mae gan bob ffurf ei heffeithiau penodol ei hun ar yr Aelod, y rhai sy'n agos atynt (teulu a staff gwleidyddol), ac ar ddemocratiaeth. Trafodir y rhain yma yn eu tro.

### Cam-drin All-lein

Mae ffurfiau o drais all-lein yn erbyn gwleidyddion yn amrywio o ymosodiadau corfforol lefel isel i ymosodiadau corfforol eithafol, gan gynnwys llofruddiaethau a hawliodd y penawdau newyddion yn Gdansk, Gwlad Pwyl a Kassel yn yr Almaen, ac ymgais i lofruddio fel yr un ar Brif Weinidog Slofacia, Robert Fico, ym mis Mai 2024.[86] Yn y Deyrnas Unedig, fe wnaeth llofruddiaethau'r AS Llafur Jo Cox yn 2016 a'r AS Ceidwadol

[86] Llofruddiaeth y Maer Pawel Adamowicz yn Gdansk, Gwlad Pwyl; 13 Ionawr 2019.
Llofruddiaeth Walter Lübcke yn Kassel, yr Almaen gan un a oedd yn cydymdeimlo â gwleidyddiaeth asgell dde eithafol; 2 Mehefin 2019.
Ymgais i lofruddio Prif Weinidog Slofacia, Robert Fico; Mai 2024.

David Amess yn 2021 grisialu pryderon ynghylch trais yn erbyn gwleidyddion ar y lefel genedlaethol ac annog gwleidyddion i ddechrau codi eu llais.[87]

Adroddwyd am drais all-lein gan nifer o Aelodau presennol a chyn-Aelodau yn yr Adolygiad hwn, a hynny ar amrywiaeth o ffurfiau gan gynnwys trais corfforol, seicolegol, economaidd (difrod i eiddo), a thrais semiotig (drwy ddelweddau/iaith rywiaethol).[88]

Roedd adroddiadau'r Aelodau Cyfredol yn cynnwys y digwyddiadau penodol a ganlyn:

- difrod i eiddo mewn swyddfeydd, gan gynnwys graffiti a gwrthrychau'n cael eu taflu,
- difwyno neu ddinistrio deunyddiau ymgyrchu ffisegol (posteri, taflenni, hysbysebion ac ati),
- aflonyddu wyneb yn wyneb mewn swyddfeydd etholaethol a chymorthfeydd cyhoeddus a oedd yn ddigon i arwain at ymyriad gan yr heddlu,
- ymdrechion i dorri i mewn i gartref,
- stelcio a/neu aflonyddu hirdymor naill ai yn y gymuned leol neu yn adeiladau'r Senedd,
- a tharfu ar ddigwyddiadau cyhoeddus roedd Aelod yn siarad ynddynt neu'n bresennol ynddynt.

Disgrifiodd cyn-Aelodau ddigwyddiadau eraill hefyd, gan gynnwys aflonyddu hirdymor ac ymosodiadau corfforol:

> *Roedd un unigolyn a fyddai'n eistedd y tu allan i adeilad y Senedd yn rheolaidd bob wythnos gyda negeseuon sarhaus amdanaf i ac eraill (cyn-AS benyw)*

> *Ymosodwyd arnaf yn gorfforol hefyd gan etholwr [dyn oedrannus] a'm tynnodd allan o'm car, a minnau'n sgrechian (cyn Aelod benyw)*

Gan hynny, mae cam-drin all-lein yn bryder parhaus i Aelodau'r Senedd, ac er bod rhywfaint o ddata'r adolygiad hwn yn awgrymu ei fod yn cael llai o sylw oherwydd cam-drin ar-lein (a drafodir yn ddiweddarach), fe wnaethant brofi bygythiadau gwirioneddol all-lein i'w diogelwch.

---

[87] MP Jess Phillips in web plea 'after 600 rape threats' (BBC News 2018)
'Sir David Amess: Welsh politicians in security talks after MP death' (BBC News 2021)
'Death threat MP says social media abuse must stop' (Carol Monaghan, Scottish MP speaking to BBC News 2021)
'Silenced and Targeted: Female MSPs speak out on the online abuse they deal with' (Villegas on Holyrood.com 2025)
'MLAs speak out over abuse suffered by Northern Ireland politicians' (Irish Post 2025)
[88] Hibbs, L. (2025) 'More Visible and Vulnerable to Attacks' – Violence Against (local) Women Politicians and the Local Costs of Doing Politics in Wales. *Journal of Women, Politics and Policy*. 46(4), tt.320-338

## Effaith Camdriniaeth All-lein ar Aelodau, Staff a Democratiaeth

Arweiniodd hyn at oblygiadau uniongyrchol o ran sut dewisodd yr Aelodau gyflawni eu hymrwymiadau gwleidyddol, yn enwedig yn y gymuned. Mae'n ymddangos bod trais yn cael effaith niweidiol ar ddemocratiaeth wrth i'r Aelodau drafod gweithredu newidiadau sy'n ymwybodol o ddiogelwch yn y ffyrdd maent yn gwleidydda ac, yn benodol, ymgysylltiad gwleidyddol ag etholwyr a'r cyhoedd yng Nghymru. Siaradodd nifer o’r rhai a gafodd eu cyfweld am beidio â hysbysebu mwyach ble byddent ar gyfer digwyddiadau neu ymrwymiadau cyhoeddus, ac roedd llawer hefyd bellach yn gwrthod cynnal cymorthfeydd cyhoeddus wyneb yn wyneb i bobl allu galw heibio:

> *Rydw i wedi rhoi'r gorau i ddweud ble rydw i'n mynd i fod. Dydych chi ddim yn gwneud pethau fel 'na. Dydych chi byth yn postio pan fyddwch chi yn rhywle penodol. Dydw i ddim yn gwneud cymorthfeydd cynghori yn y gymuned mwyach* (AS benyw)

Soniodd un Aelod yn benodol am lofruddiaeth Jo Cox fel catalydd iddi benderfynu roi’r gorau i ymgysylltu’n gyhoeddus yn ddigymell ag etholwyr.

Ar adegau, er gwaetha’r ffaith mai Aelodau'r Senedd oedd targed bwriadedig trais neu gam-drin, eu staff a gafodd eu heffeithio. Trafododd y cyfranogwyr ddigwyddiadau lle bu staff yn agored i weithredoedd a fwriadwyd ar eu cyfer fel Aelodau etholedig. Ymhlith y digwyddiadau a ddygwyd i’r cof oedd aelodau o'r cyhoedd yn ymddwyn yn ymosodol tuag at staff mewn swyddfeydd etholaethol, staff yn canfod graffiti ar waliau/ffenestri, ac Aelod a drefnodd 'archwiliadau diogelwch' rheolaidd o'i swyddfa yn dilyn sawl digwyddiad yn y lleoliad, gan sicrhau cyswllt rheolaidd â staff oherwydd y lefelau uchel canfyddedig o fygythiad. Roedd yn amlwg bod yr aelodau’n teimlo’n gyfrifol am eu staff ac yn aml yn trafod cael gwared ar swyddfeydd etholaethol yn gyfan gwbl neu weithredu mesurau diogelwch oherwydd yr effaith roedd yn ei chael ar y staff a oedd yn bresennol. Yn lle hynny, disodlodd yr aelodau hyn gyda ffyrdd mwy rhagweladwy neu yr oedd modd eu rheoli o ryngweithio â'r cyhoedd, gan gynnwys cymorthfeydd drwy drefn apwyntiadau neu ailgyfeirio i ymgysylltu o bell drwy alwadau ffôn a negeseuon e-bost.

Yn unol â thystiolaeth mewn mannau eraill, roedd profi trais all-lein a bygythiadau posibl canfyddedig hefyd yn cyfyngu ar weithgareddau cymdeithasol *personol* Aelodau yn eu hetholaethau neu eu hardaloedd lleol.[89] Roedd hyn yn cynnwys peidio â bod yn

[89] Er enghraifft, canfu Matthews a Haughey (2025) bod ASau’r Deyrnas Unedig wedi newid eu harferion, gan gynnwys peidio â chymdeithasu yn eu hetholaethau mwyach, a chanfu James et al. (2016) fod ASau yn nodi eu bod yn teimlo'n bryderus am eu diogelwch corfforol eu hunain, yn poeni am fynd allan i blith y cyhoedd, a hyd yn oed am fod ar eu pen eu hunain yn eu cartrefi eu hunain.
James, D. ac eraill (2016) Harassment and stalking of Members of the United Kingdom Parliament: associations and consequences. *Journal of Forensic Psychiatry and Psychology* 27(3), tt. 309-330.

rhan o drefnu digwyddiadau cymunedol nac ar bwyllgorau lleol, yn ogystal â chyfyngu ar eu cymdeithasu neu hyd yn oed gerdded drwy ganol eu trefi eu hunain.

## Cam-drin ar-lein

Er bod trais wyneb yn wyneb neu all-lein yn peri bygythiad corfforol uniongyrchol i Aelodau, cam-drin ar-lein oedd yn dominyddu trafodaethau'r Aelodau. Mae mannau digidol wedi dod yn fannau hanfodol, bron yn anochel, i wleidyddion ymgysylltu ag etholwyr a'r cyhoedd ehangach, ac mae llawer yn teimlo pwysau i gynnal presenoldeb ar-lein fel llwybr cyfathrebu 'na ellir ei drafod' (De Rosa 2022).[90] Yn anffodus, mae ymchwil sydd ar gael yn archwilio 'effaith dadatal ar-lein (*online disinhibition)*' (Suler 2004), sy'n golygu bod llwyfannau ar-lein yn dod yn fagwrfa ar gyfer cam-drin a chasineb tuag at wleidyddion wrth i bobl ddod yn fwy eofn oherwydd anhysbysrwydd tybiedig.[91]

Yn drawiadol, soniodd bron pob un o'r ASau cyfredol a gyfwelwyd ac a arolygwyd yn y gwaith ymchwil hwn am brofiad o fod yn destun rhyw fath o gam-drin neu aflonyddu ar-lein, neu, os nad oedd ganddynt brofiad personol, yn gwybod am eraill a oedd wedi gorfod dygymod â hynny. Digwyddodd hyn yn bennaf ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol fel 'X' (Twitter gynt) a Facebook, ond hefyd sylwadau gan y cyhoedd yn adrannau sylwadau cyfryngau newyddiadurol ar-lein (gan gynnwys Wales Online) neu safleoedd radio (fel Radio Cymru), yn ogystal â safleoedd blogio cyhoeddus unigolion. Roedd rhai aelodau hefyd wedi cael negeseuon e-bost bygythiol.

Roedd ffurfiau o drais a cham-drin ar-lein yn cynnwys: trolio, 'sylwadau pentyrru', sbamio gan botiau, lledaenu gwybodaeth anghywir gan gynnwys drwy fideos wedi eu golygu a "*dadleuon [sy'n] cael eu golygu'n rheolaidd ar gyfer cyfryngau cymdeithasol*" (Aelod benyw), docsio (lle rhannwyd cyfeiriadau cartref ar-lein), ac, yn fwyaf difrifol, bygythiadau o farwolaeth neu dreisio. Roedd rhai enghreifftiau penodol o'r achosion mwyaf difrifol yn cynnwys sylwadau fel:

> *"torrwch ei phen i ffwrdd",*
>
> *"dienyddiwch hi",*
>
> *"Rydyn ni'n gwybod ble mae o, awn yno i'w erlid",*
>
> *"mae angen iddi losgi a marw".*

Gan adlewyrchu gwaith ymchwil blaenorol a phryder rhyngwladol, roedd y camdriniaeth a dderbyniwyd ar-lein hefyd yn seiliedig ar rywedd o ran ei amlder a'i gynnwys.

---

[90] De Rosa, R. (2022). Studying Constituency Communication. Yn: Ceccarini, L., De Rosa, R., Newell, J.L. (goln),. *Constituency Communication in Changing Times*. Palgrave Macmillan.
[91] Suler, John. (2004). "The Online Disinhibition Effect." *Cyberpsychology & Behavior* 7 (3):321–26.

(Salovaara 2022; Ndirangu a Waciira 2025).[92] Yma, cydnabu Aelodau gwryw fod Aelodau benyw wedi bod yn destun mwy o gam-drin, a thrafododd Aelodau Senedd benyw eu bod yn destun ymosodiadau ar sail rhyw, ar sail eu hymddangosiad, drwy sylwadau rhywiaethol yn cwestiynu eu lle mewn gwleidyddiaeth, a thrwy wrthrycholi a rhywioli.

> *... rydych chi'n cael yr holl bethau am ymddangosiad, a galw enwau ac ati, a phethau fel 'dydych chi ddim yn gwybod am beth rydych chi'n siarad'. Felly'r holl ddiystyru hwnnw o ddeallusrwydd a gallu menyw, ond yna mae'n amlwg wedi mynd yn llawer gwaeth.* (AS benyw)

> *Weithiau bydd yn bethau ofnadwy iawn [...] dweud pa mor ordew ydw i neu pa mor hyll ydw i, neu bethau ofnadwy iawn* (AS benyw)

> *Roeddwn i'n aml yn cael fy ngwrthrycholi – roeddwn i'n cael sylwadau cyson am yr hyn roeddwn i'n ei wisgo, os oeddwn i'n gwisgo'r un ffrog fwy nag unwaith, byddai'r pethau hyn yn cael eu codi mewn blogiau ac ati. Os oeddwn i'n mynd ar raglenni teledu, yn aml iawn doedd yr hyn roeddwn i'n ei ddweud ddim yn cael sylw, dim ond sut roeddwn i'n edrych [...] roedd llawer o bobl eisiau i mi eistedd yn y Senedd, bod yn bert a dweud dim byd (*cyn-aelod benyw)

Gan hynny, mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu, fel mewn mannau eraill, bod trais ar-lein yn erbyn Aelodau'r Senedd wedi ei seilio ar rywedd, gyda menywod yn cael eu cam-drin ar sail eu statws fel gwleidyddion *benyw*, nid gwleidyddion yn unig.[93]

## Effaith Cam-drin a Thrais Ar-lein ar Aelodau, democratiaeth a staff

*Ar Aelodau:*

Un o'r agweddau sy'n peri'r pryder mwyaf ynghylch trafodaethau'r Aelodau ar drais ar-lein oedd eu tueddiad i ddiystyru cam-drin ar-lein, gan awgrymu diwylliant lle mae'n nodweddiadol o 'bris disgwyliedig gwleidydda'. Defnyddiodd nifer o'r rhai a gyfwelwyd iaith lleddfu'r disgwyliadau ('dim ond' neu 'dim llawer') wrth drafod digwyddiadau neu amlder y cam-drin a gawsant ar-lein, gan honni nad oeddent wedi cael eu targedu'n

---

[92] Salovaara, J. 2022. *'Online Harassment Is Not Gender-Neutral'*, UN Chronicle 25 Ionawr 2022; Ndirangu a Wciira, 2025. *Violence Against Women in Politics – Feminine Perspectives and Frontiers from Uganda, Kenya, & Ethiopia*. Womankind Worldwide.

[93] Institute of Commonwealth Studies, 2024. *Online harassment of female parliamentarians in the Commonwealth.*,
NATO, 2020. *Abuse of Power: Coordinated Online Harassment of Finnish Government Ministers*. Latvia: NATO Strategic Communications CofE
Senedd Ewrop 2025. *Violence and intimidation against politicians in the EU.* Yr Undeb Ewropeaidd

wael gan gam-drin ar-lein neu nodi bod eraill "wedi ei chael hi'n waeth". Yna byddent yn manylu ar sut roeddent wedi cael bygythiadau i'w lladd, bygythiadau o ddifrod i eiddo (h.y. llosgi bwriadol), ac enghreifftiau difrifol eraill o gam-drin. Mae hyn yn adlewyrchu tystiolaeth sydd eisoes yn bodoli mewn gwleidyddiaeth leol yng Nghymru ac mewn mannau eraill sy'n awgrymu bod gwleidyddion yn dod yn llai sensitif i'r casineb maent yn ei wynebu ar-lein ac yn ei weld fel 'rhan o'r swydd', a allai olygu yn ddiweddarach nad ydynt yn ei drin yn ddigon difrifol i fynd ati i roi gwybod amdano (Hibbs 2025; Rasmussen 2025).[94]

Un o ganlyniadau allweddol y broses normaleiddio hon oedd bod yr Aelodau'n teimlo bod yn rhaid iddynt fod yn wydn, datblygu 'croen trwchus', 'cadw eu pen i lawr', a gallu 'gadael i bethau fynd':

> *Ychydig iawn rydw i'n ei gael, ac mae'r rhan fwyaf ohono'n mynd dros fy mhen i. Ond mae'n effeithio ar gydweithwyr eraill, sy'n ei deimlo'n ddwfn iawn* (AS gwryw)
>
> *[...] Rydw i wedi gorfod ymgryfhau ychydig a dweud 'o, wel, wyddoch chi [...] mae fel pe bai'n beth normal erbyn hyn'* (AS benyw)

Mae hyn yn awgrymu pwysau i gynnal tawelwch meddwl a 'busnes fel arfer' yn wyneb trais difrifol ar-lein. Er bod Aelodau yn aml yn lleihau'r cam-drin a gawsant ar-lein a bron yn ymfalchïo yn eu gwydnwch, roedd yn amlwg ei fod yn cael effaith andwyol ddifrifol ar iechyd meddwl pobl eraill.

Nid oes gan fannau ar-lein lle mae trais yn erbyn gwleidyddion yn bosibl ffiniau amserol (h.y. nid oes oriau agor mae X na Facebook yn gweithredu o'u mewn). Roedd natur gyson camdriniaeth ar-lein yn golygu bod Aelodau'n teimlo bod monitro a rhwystro cam-drin yn aml yn ymwthio i'w bywydau personol. Roedd hyn yn golygu gwirio eu cyfryngau cymdeithasol gartref, mewn digwyddiadau cymdeithasol, a hyd yn oed cyn mynd i'r gwely, rhywbeth a effeithiodd ar eu hiechyd meddwl:

> *Ydi, mae'n gwneud i mi deimlo'n ofnus iawn. [...] nid yw'n rhywbeth y gallaf ddweud: "o, dŵr oddi ar gefn hwyaden", gan nad yw hynny'n wir. Rydw i'n ei weld. Mae'n peri gofid mawr i mi. [...] Mae'n rhaid i mi wirio fy ffôn cyn mynd i'r gwely rhag ofn bod rhywun wedi rhoi rhywbeth sarhaus ar-lein, ac mae'n rhaid i mi roi gwybod amdano neu ei rwystro - mae'n rhaid i mi wneud hynny bob nos.* (AS benyw)
>
> *dydych chi ddim eisiau bod yn pori drwy dudalennau a thudalennau o bobl yn dweud pethau gwirioneddol ofnadwy amdanoch chi. Rydych chi'n gwybod nad yw'n dda i'ch iechyd meddwl eich hun* (AS gwryw)

[94] Rasmussen, A. (2025) *Women politicians face 'double burden' of online toxicity*. Canolfan Newyddion Coleg y Brenin, Llundain.

Felly, rydym yn dadlau bod cysondeb, cynnwys a graddfa'r camdriniaeth mae Aelodau etholedig yn ei wynebu yn cael effaith andwyol ar eu lles ac yn arwain at y disgwyliad y dylai Aelodau allu 'ymdopi' â cham-drin a thrais, gan roi gwybod am ddim ond yr hyn sy'n croesi i fygythiadau difrifol sy'n cyfiawnhau ymyriadau gan yr heddlu.

*Ar Deuluoedd*

Ar ben hynny, roedd yr Aelodau'n ymwybodol iawn bod yr effeithiau'n ymestyn y tu hwnt iddynt hwy eu hunain, a bod y camdriniaeth roeddent yn ei gael ar-lein yn effeithio ar eu partneriaid, eu plant, neu eu teuluoedd ehangach. Roedd hyn yn amrywio o aelodau'r teulu yn pryderu am yr Aelod a'r camdriniaeth maent yn ei wynebu, i ddigwyddiadau mwy difrifol lle'r oedd aelodau'r teulu eu hunain yn cael eu cam-drin. Roedd aelodau'r teulu'n bryderus ac yn flin ynghylch bygythiadau neu sylwadau sarhaus a gafwyd ar-lein:

> *Bydd [aelod o'r teulu] yn fy ffonio ac yn dweud ei bod hi mor flin oherwydd ei bod hi wedi gweld sylw mae rhywun wedi ei roi ar rywbeth amdanaf i. [...] Bydd [aelod arall o'r teulu] yn dweud wrtha i, "pam wyt ti ar dy ffôn?" [Rydw i'n dweud wrthi am y sylwadau] ac mae hi'n poeni'n fawr amdanaf oherwydd hynny* (AS benyw)

> *Mae fy ngwraig yn ei weld - mae fy ngwraig yn mynd i fwy o banig na fi. [...] roedd rhywun wedi dweud, oherwydd ein bod ni'n ymgyrchu yn yr ardal hon, "rydyn ni'n gwybod ble mae o, awn yno i'w erlid". Roedd hi mewn panig ac yn y diwedd gofynnodd i'r heddlu ymyrryd gan ei bod hi'n poeni y bydden nhw'n mynd ar fy ôl i.* (AS gwryw)

Cododd Aelod benyw presennol un digwyddiad difrifol lle cafodd aelod o'r teulu ei gam-drin:

> *Cafodd [aelod agos o'r teulu] neges hefyd [...] rhywun yn dweud wrthi ei bod hi'n mynd i gael ei llosgi i farwolaeth.*

Soniodd eraill am bryder cyffredinol am eu teulu, ac yn enwedig plant, naill ai'n dod yn dargedau neu'n gweld y cam-drin ar-lein. O ran plant, mynegodd un cyfwelai ei bryder y gallai ei blentyn ddod yn ddioddefwr ei hun, cael ei drin yn wahanol neu gael ei fwlio yn yr ysgol oherwydd safbwynt gwleidyddol ei riant. Mae hyn wedi cael ei weld mewn mannau eraill fel canlyniad posibl i gyfranogiad rhieni mewn gwleidyddiaeth.[95]

Yn achos un cyn-Aelod, effaith cam-drin ar ei theulu oedd y ffactor allweddol yn ei phenderfyniad i beidio â sefyll i gael ei hailethol:

[95] Er enghraifft, fe wnaeth merch yn ei harddegau y Dr Sam Rushworth AS, ei 'ffonio yn ei dagrau' o ganlyniad i'r camdriniaeth a wynebodd – 'Criticism is too often becoming abuse – MPs' (BBC 2025)

> *Penderfynais hefyd ymddiswyddo gan fy mod i'n wleidydd proffil uchel, ac roeddwn i'n cael llawer o gamdriniaeth [...] A doeddwn i ddim eisiau i fy nheulu na minnau wynebu hyn mwyach.* (cyn-aelod benyw)

Gan hynny, mae aelodau'n ymwybodol iawn o'r effaith y gall eu swydd etholedig ei chael ar y rhai sy'n agos atynt, a phan fydd yn eithafol gall arwain at wleidyddion yn penderfynu gadael gwleidyddiaeth yn gyfan gwbl er mwyn cadw eu teulu'n ddiogel.

*Ar Staff Gwleidyddol*

Sefyllfa gyffredin arall oedd bod staff gwleidyddol yr Aelodau yn aml yn darllen, yn monitro ac yn sgrinio postiadau cyfryngau cymdeithasol a gohebiaeth gamdriniol drwy e-bost neu dros y ffôn gan etholwyr a'r cyhoedd yn ehangach. Mynegodd yr aelodau bryder dwfn ynghylch yr effaith roedd hyn yn ei chael ar eu staff:

> *Roedd gen i fy staff - rydw i'n meddwl ei bod hi'n bwysig iawn cefnogi [staff] hefyd. [...] Y [bygythiadau o farwolaeth] hynny yw'r mathau o bethau roedd fy staff yn eu gweld* (AS benyw)

> *Wrth gwrs, yr effaith arall yma yw ar staff ac, fel mae pethau'n sefyll, mae staff yn gweld y pethau hyn ac yn eu didoli. Nid yw hynny ... yn eu disgrifiad swydd. Nid yw'n rhywbeth maen nhw eisiau ei weld na'i ddarllen am eu cyflogwr, ac mae'n arwain at orbryder, lefelau uchel o orbryder.* (AS benyw)

Teimlai aelodau'n gyfrifol am hyn, gydag un yn dweud nad oedd angen i'w thîm "fod yn clywed camdriniaeth" ond eu bod wedi "rhannu [gyda'r heddlu/diogelwch] ddelweddau o fygythiadau penodol o farwolaeth roeddem yn eu cael". Teimlai'r aelodau fod angen ffordd o gael gwared ar y cyfrifoldeb hwn oddi ar staff fel y trafodwyd isod ynghylch uned monitro cyfryngau cymdeithasol.

*Ar Ddemocratiaeth*

Yn yr un modd â digwyddiadau all-lein, roedd cam-drin ar-lein hefyd wedi cael effaith ar y ffyrdd roedd Aelodau'n gwleidydda. Yn yr un modd, roeddent wedi encilio o'u hymgysylltiad cyhoeddus ar-lein neu wedi cyfyngu ar eu defnydd, yn enwedig ar gyfryngau cymdeithasol. Yn yr achosion mwyaf eithafol, roedd rhai wedi dileu cyfrifon neu wedi 'dod oddi ar' gyfryngau cymdeithasol yn gyfan gwbl, tra bod eraill wedi newid eu presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol i 'ddarlledu yn unig', gan ddileu'r opsiwn i'r cyhoedd ymgysylltu'n uniongyrchol â'u postiadau drwy sylwadau. Roedd eraill yn llym wrth rwystro sylwadau sarhaus, wedi diffodd hysbysiadau, wedi lleihau faint o bethau roeddent yn eu postio, neu bellach dim ond yn ymgysylltu â'r rhai roeddent eisoes yn 'ffrindiau' neu'n 'ddilynwyr' cydfuddiannol â nhw. Er bod hyn yn ganlyniad dealladwy oherwydd dyfnder a graddfa'r cam-drin ar-lein a drafodwyd yn gynharach, mae pryderon mewn mannau eraill y gallai hyn gael effaith andwyol ar ddemocratiaeth, gyda

gwleidyddion yn encilio o lwybr allweddol yn yr 21ain ganrif ar gyfer ymgysylltu ac atebolrwydd.[96]

Canfuwyd hefyd fod cam-drin ar-lein yn effeithio ar gynnwys sylweddol dadleuon yn y Siambr. Esboniodd yr aelodau fod siarad yn gyhoeddus ar faterion a meysydd polisi cydraddoldeb, neu eu hyrwyddo, yn weithred wleidyddol a oedd yn cynyddu'r tebygolrwydd y byddent yn cael eu cam-drin, yn enwedig ar-lein. Esboniodd un AS benyw fod 'pentyrru' yn gyffredin ar y cyfryngau cymdeithasol wrth godi materion cydraddoldeb. Dadleuodd fod hyn yn gwneud i bobl feddwl ddwywaith ynghylch a ddylent godi eu llais, rhywbeth a oedd yn ei barn hi yn "atal rhyddid barn yn y Siambr". Ystyriwyd bod yr ymosodiadau hyn yn "chwarae rhan fawr, fawr [yn amharodrwydd pobl] i ddweud y pethau yr hoffent eu dweud [...] yn enwedig ynghylch anghydraddoldeb". Roedd Aelod arall wedi cael ei gam-drin oherwydd mater cydraddoldeb yn dilyn ei ran mewn lansio darn penodol o bolisi. Effeithiodd hyn arno ef ac ar aelodau agos o'i deulu.

Mae hyn yn adleisio canfyddiadau mewn mannau eraill yn Iwerddon, lle cysylltwyd materion penodol ynghylch 'mewnfudo, hawliau menywod, tai/digartrefedd, a gwleidyddiaeth LHDTC+' gan Aelodau â mwy o gam-drin, a chan Erikson et al. a ganfu fod ASau Sweden yn hunan-sensro, yn "osgoi rhai pynciau y mae canfyddiad eu bod yn cynhyrchu llawer iawn o gam-drin ar-lein" gan gynnwys 'mudo, integreiddio, a chydraddoldeb rhywedd' yn ogystal â thrais rhywiol ar sail rhywedd.[97] Gan hynny, mae gan hyn y potensial o gyfyngu ar gynrychiolaeth sylweddol materion cydraddoldeb mewn trafodaethau a phenderfyniadau yn y Senedd.

*A yw cam-drin yn atal pobl rhag mynd i wleidyddiaeth?*

Yn olaf, er nad astudiaeth o ddarpar ymgeiswyr ar gyfer y Senedd oedd hon, cododd yr Aelodau presennol faterion ynghylch effaith trais a cham-drin ar amrywiaeth cynrychiolaeth wleidyddol yn y Senedd yn y dyfodol cyn etholiadau Mai 2026. Mae trais yn effeithio'n andwyol ar amrywiaeth mewn cynrychiolaeth wleidyddol mewn dwy brif ffordd. Yn gyntaf, fel yr uchod, mae'n lleihau uchelgais wleidyddol menywod a grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol, gan ddigalonni darpar ymgeiswyr:

> *mae'n cael effaith ar ddemocratiaeth oherwydd nid yw pobl yn barod i wneud safiad a chael eu dal i gyfri, ac nid ydyn nhw'n rhoi eu henwau ymlaen. Rydw i wedi cael y sgyrsiau hynny, oherwydd mae hynny'n digwydd* (AS benyw)

Cafodd menywod, pobl ifanc, a'r rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig eu crybwyll gan yr Aelodau gan nodi ofnau ynghylch derbyn cam-drin a thrais fel y prif reswm nad

---

[96] Earl, B. (2023). 'Social Media and the British MP'. Brunswick Review Online.
[97] Erikson, J., Håkansson, S. a Josefsson, C. (2023) 'Three Dimensions of Gendered Online Abuse: Analyzing Swedish MPs' Experiences of Social Media', *Perspectives on Politics*, 21(3), tt. 896–912. doi:10.1017/S1537592721002048.
Siapera ac eraill (2024) 'Report on the Abuse and Harassment of Members of the Houses of the Oireachtas and Political Staff'. Dulyn: Canolfan Polisi Digidol UCD.

oeddent am "roi eu hunain drwy'r broses" o ddod yn wleidydd, gan adleisio ymchwil flaenorol (Håkansson 2024).[98] Yng Nghymru, nododd Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (Blair a Mathias 2018) mai trais yn erbyn gwleidyddion Cymru oedd y ffactor allweddol a barodd i aelodau'r cyhoedd beidio â sefyll mewn etholiad.[99]

Yn ail, mae'r ffaith bod gwleidyddion presennol yn gadael gwleidyddiaeth o ganlyniad uniongyrchol i gam-drin ac aflonyddu yn duedd sy'n peri pryder. Er nad ydym yn gwybod llawer eto am gymhellion rhai Aelodau sy'n ymadael am beidio â sefyll etholiad eto yn etholiadau Mai 2026, rydym yn gwybod bod cyn-Aelodau'r Senedd a gwleidyddion mewn mannau eraill wedi crybwyll yn gyhoeddus bod cam-drin yn bryder allweddol.[100]

## Atal ac Ymateb i Drais yn erbyn Aelodau gan y Cyhoedd

Yn amlwg, mae trais a cham-drin yn arwain at ganlyniadau difrifol ac, ar adegau, mae'n gwarantu bod Aelodau'n ceisio cymorth pellach. Un o'r dulliau allweddol ar gyfer delio â thrais a cham-drin a oedd wedi croesi trothwy lle na ellid ei anwybyddu na'i normaleiddio mwyach oedd ceisio cyngor gan Ddiogelwch y Senedd a chan yr Heddluoedd perthnasol. Roedd hyn yn aml yn wir am bryderon diogelwch all-lein ac am ddigwyddiadau difrifol ar-lein fel bygythiadau o farwolaeth.

Mae Diogelwch y Senedd yn darparu cyngor a chymorth ymarferol i ymateb i ddigwyddiadau a brofir gan Aelodau ac eraill ar ystâd ffisegol y Senedd, gan gynnwys staff ac ymwelwyr, a thu hwnt. Mae hyn yn cynnwys adolygiadau o fygythiadau i ddiogelwch drwy asesiadau diogelwch, ac adnoddau diogelwch mwy ymarferol, sy'n cael eu cyllido (yn bennaf) drwy'r Penderfyniad. Mae'r rhain yn cynnwys larymau personol a chamerâu, yn ogystal â gwelliannau diogelwch eraill i'w defnyddio o fewn swyddfeydd etholaethol yr Aelodau a'u cartrefi.

Yn gadarnhaol, disgrifiwyd Diogelwch y Senedd a heddluoedd lleol gan aelodau presennol fel rhai hynod gefnogol, a chydnabuwyd a chanmolwyd eu cefnogaeth a'u cyngor drwy gydol y cyfweliadau:

> *Rydw i'n meddwl bod tîm diogelwch y Senedd yn wych. Maen nhw wir yn gofalu am aelodau a'n diogelwch, maen nhw bob amser wedi mynd yr ail filltir honno i gefnogi cydraddoldeb rhywedd a gwneud i ni deimlo'n ddiogel. [...]roedd fy heddlu lleol yn [ardal] yn hollol anhygoel hefyd ym mhob ystyr o'r gair. Aethant y tu hwnt i'r disgwyl i'm helpu i a'm tîm* (AS benyw)

---

[98] Håkansson, S. 2024. The Gendered Representational Costs of Violence against Politicians. *Perspectives on Politics*.

[99] Blair, J. a Mathias, M. 2018. 'New Voices – How Welsh politics can begin to reflect Wales'. Caerdydd: ERS Cymru

[100] Ymddiswyddodd Kirsty Williams (cyn AS) yn 2021 o ganlyniad uniongyrchol i'r trolio a'r cam-drin ar-lein a wynebodd ac effaith hynny ar ei theulu, ac mae llawer o ASau benyw wedi rhannu straeon tebyg.

> *Roedd pennaeth yr heddlu [a'u] swyddogion […] yn anhygoel. Roedd tîm Diogelwch y Senedd yn ffantastig. Maen nhw wedi bod felly erioed. Maen nhw wedi wedi gwneud archwiliadau diogelwch rheolaidd yn fy nghartref ac yn fy swyddfa. Rydyn ni ar delerau enw cyntaf, wyddoch chi, ac mae ganddynt berthynas wych iawn gyda fy nhîm. […] Rydw i'n meddwl eu bod nhw [Diogelwch y Senedd] wedi llwyddo'n arbennig o dda. Maen nhw wedi gwneud yn dda iawn, iawn.* (AS benyw)

Fodd bynnag, cyfaddefodd rhai fod gwybod at bwy i droi i roi gwybod am ddigwyddiadau yn parhau i fod braidd yn aneglur a bod cylch gwaith Diogelwch y Senedd yn aml yn gyfyngedig:

> *Mae diogelwch y Senedd yn wych. Mae'n hawdd iawn mynd atyn nhw, ond maen nhw'n gyfyngedig iawn yn yr hyn maen nhw'n gallu ei wneud.* (AS benyw)

> *Doedd [Diogelwch y Senedd] ddim yn siŵr beth oedden nhw i fod i'w wneud oherwydd fe geision nhw fy nghyfeirio at Heddlu [yr ardal] […] Does dim ots gen i pwy sy'n delio â'r mater, cyn belled â'i fod yn cael sylw, ac mae angen proses glir.* (AS benyw)

Roedd y gwerthfawrogiad o Ddiogelwch y Senedd yn aml yn gysylltiedig â phan oedd pethau'n mynd o'i le ac roedd angen help ar unwaith. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu bod camau gweithredu gan Ddiogelwch y Senedd yn adweithiol, yn hytrach na rhagweithiol, gan ymateb i ddigwyddiadau pan roeddent yn digwydd, a chynnig cyngor neu atebion neu fesurau eraill i helpu Aelodau i deimlo'n ddiogel ar ôl y digwyddiad. Ar ben hynny, trafodwyd rhai achosion lle nad oedd pob Aelod yn derbyn cyfathrebiadau pwysig sy'n gysylltiedig â diogelwch – gan hynny, mae'n hanfodol bod gwybodaeth yn cyrraedd pob Aelod, waeth beth fo'u Grŵp Plaid.

Ar adegau byddai'r gwasanaethau Diogelwch yn cyfeirio Aelodau at yr Heddluoedd perthnasol neu'n cynnig cyngor ar ffyrdd diogel o gymryd rhan mewn gwaith etholaethol, yn ogystal ag atebion ymarferol fel botymau/larymau panig personol (er bod defnyddioldeb y rhain wedi ei gwestiynu).

Yn dilyn bygythiadau canfyddedig i ddiogelwch, roedd rhai Aelodau a gyfwelwyd wedi gweithredu eu mesurau diogelwch personol eu hunain yn erbyn trais yn eu cartrefi. Er enghraifft, dywedodd un AS benyw fod ganddi:

> *ddiogelwch llawn o gwmpas fy nhŷ […] Dechreuais gyda chloch drws Ring, ond yn awr mae gennyf gamerâu a botymau panig y tu mewn i'm tŷ.*

Er gwaethaf hyn, roedd teimlad gan yr Aelodau nad oedd y darpariaethau hyn yn gwbl ddibynadwy:

> *Mae [AS Benyw] wedi defnyddio hwn (botwm panig) ac ni wnaeth neb ateb. Ni ddigwyddodd dim. Felly rydw i'n edrych ar yr holl fesurau hyn yn awr ac yn sylweddoli, o ddifri, pan rydych chi mewn perygl go iawn, nad oes llawer y gallant ei wneud mewn gwirionedd (AS benyw)*

Er bod y gefnogaeth gan Adran Diogelwch y Senedd yn cael ei gwerthfawrogi, felly, roedd teimlad gan yr Aelodau y byddai dull mwy rhagweithiol yn cael ei werthfawrogi, gan dderbyn y gallai rhai sefyllfaoedd fod y tu hwnt i gylch gwaith ymateb Diogelwch y Senedd.

Byddem yn argymell adolygiad o brosesau Diogelwch y Senedd a chanllawiau cliriach i Aelodau ynghylch pwy i gysylltu â nhw mewn sefyllfaoedd sy'n dod i'r amlwg. Fel y trafodwyd yn yr adran uchod ar y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, mae cynigion ar hyn o bryd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i weithredu 'Rôl Gwarcheidwad' neu gynghorydd lled-annibynnol, ar wahân i staff y Comisiwn, a fyddai'n "darparu cyngor ac arweiniad cyfrinachol ar faterion urddas a pharch i bawb sy'n ymwneud â'r Senedd a'i Aelodau". Er bod y cynghorwr hwn yn darparu cymorth gyda materion o fewn y Senedd, rydym yn rhagweld y byddai ei rôl yn cynnwys rhyngweithio â'r cyhoedd ymhellach all-lein ac ar-lein. Rydym yn cefnogi'r cynnig hwn ac yn annog y rhai sy'n gweithredu'r rôl hon i sicrhau bod y Gwarcheidwad yn gweithio ar y cyd â Diogelwch y Senedd a heddluoedd Cymru i gynghori Aelodau ar y camau nesaf ym mhob sefyllfa o drais, cam-drin ac aflonyddu o fewn a thu allan i'r Senedd ei hun.

*<u>Ymateb i Drais Ar-lein – Uned Monitro Cyfryngau Cymdeithasol</u>*

Un o'r prif faterion sy'n wynebu'r Senedd ynghylch problem cam-drin ar-lein yw ei natur aneglur, wasgaredig, ac yn aml y ffaith ei fod yn digwydd yn ddienw. Un newid deddfwriaethol allweddol diweddar a weithredwyd i roi mwy o bwysau ar lwyfannau ar-lein i weithredu mewn sefyllfaoedd o gam-drin, aflonyddu a stelcio ar-lein yw Deddf Diogelwch Ar-lein 2023.[101] Mae'r Ddeddf hon wedi rhoi pwerau cyfreithiol i Ofcom (rheoleiddiwr diogelwch ar-lein y Deyrnas Unedig) i ddal gwasanaethau ar-lein yn gyfrifol am ddiogelu defnyddwyr y Deyrnas Unedig drwy sicrhau bod mesurau ar waith i liniaru risgiau a sicrhau bod defnyddwyr yn rhydd rhag niwed anghyfreithlon (bygythiadau, aflonyddu, cam-drin drwy ddelweddau personol, casineb, a throseddau cam-drin eraill). Fe wnaeth adroddiad dilynol gan Ofcom ym mis Gorffennaf 2025 ddatgelu bod gwleidyddion benyw yn cael mwy o gasineb a cham-drin cyson ar-lein, gan arwain at

[101] Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Deddf Diogelwch Ar-lein 2023: esboniad (wedi ei ddiweddaru 24 Ebrill 2025)

gyhoeddi 'canllawiau ymarferol' i gwmnïau technoleg ar sut i wneud 'Bywyd mwy diogel ar-lein i fenywod a merched'.[102]

Yn anffodus, mae effaith y Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn gyfyngedig, oherwydd er bod y cam-drin sy'n digwydd i wleidyddion ar-lein yn amlwg yn peri gofid, mewn llawer o achosion nid yw'n anghyfreithlon, ac felly mae'n agored i'r anghydraddoldebau mewn ymateb gan y wefan gyfryngau cymdeithasol benodol.

Mae'r Adolygiad yn ymwybodol bod 'astudiaeth beilot monitro cyfryngau cymdeithasol' ar y gweill ar hyn o bryd fel y cytunwyd gan Gomisiwn y Senedd ar y cyd â Chawcws y Menywod, ac yn ddiweddar cafodd ei ymestyn am chwe mis arall cyn y gwerthusiad terfynol. Mae cyflwyno cynllun peilot SOSI y Senedd yn dilyn system fonitro cyfryngau cymdeithasol yn cael ei mabwysiadu gan Senedd yr Alban, a chyhoeddi system ychydig yn wahanol gan ddefnyddio Asesiadau Bregusrwydd Ar-lein yn San Steffan.[103] Mae hyn yn awgrymu bod cydnabyddiaeth a bod ymdrechion amrywiol yn cael eu gwneud i fonitro a mynd i'r afael â'r mater hwn ledled y Deyrnas Unedig ar wahanol lefelau gwleidyddiaeth. Mae'r Llywydd yn disgrifio 'prif nod' y cynllun peilot ac unrhyw wasanaeth monitro a fabwysiadir wedi hynny fel un sy'n ceisio:

> *gwella diogelwch a llesiant yr Aelodau, eu staff, a swyddogion Comisiwn y Senedd drwy nodi a mynd i'r afael â digwyddiadau o niwed ar-lein yn rhagweithiol. Drwy fanteisio ar offer monitro uwch, mae'r cynllun peilot yn ceisio darparu rhybuddion a gwybodaeth amserol am fygythiadau sy'n dod i'r amlwg, a chynnwys camdriniol.*[104]

Yn ystod y broses o gasglu data, roedd yr Aelodau'n ymwybodol o'r cynllun peilot, a model Senedd yr Alban, ac fe wnaethant drafod eu canfyddiadau o sut (ac a fyddai) teclyn monitro cyfryngau cymdeithasol yn gweithio. Roedd y safbwyntiau'n gadarnhaol ar y cyfan; fodd bynnag, codwyd amheuon ynghylch a ellid cyfiawnhau costau o ystyried y cyfraddau ymyrryd isel a welwyd mewn mannau eraill lle nad oedd sylwadau sarhaus

---

[102] Ofcom, Gorffennaf 2025, adroddiad 'Profiadau menywod mewn gwleidyddiaeth o gasineb a cham-driniaeth ar-lein'
Ofcom, Tachwedd 2025, 'Bywyd mwy diogel ar-lein i fenywod a merched: Canllawiau Ymarferol i Gwmnïau Technoleg
[103] Cafodd gwasanaeth Senedd yr Alban ei dreialu o fis Mehefin 2023 i fis Mawrth 2024 ac mae bellach wedi ei sefydlu'n barhaol. Amcangyfrifir bod y costau tua £125,000 y flwyddyn.
Yn ddiweddar hefyd, fe wnaeth San Steffan dendro cyflenwr allanol o'r enw 'Seerist' o dan gontract gwerth £284,259 ar gyfer 'Offeryn Camfanteisio Meddalwedd Ffynhonnell Agored', a ddisgrifir yn yr hysbysiad dyfarnu contract fel offeryn camfanteisio ffynhonnell agored a fydd yn monitro cyfryngau newyddion, cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd ehangach am risgiau diogelwch, gan gynnwys bygythiadau a wneir i ASau a'r Senedd. UK Parliament Tender for Seerist Social Media Monitoring Tool - Ebrill 2025
[104] Ymateb y Llywydd i Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y Gyllideb Ddrafft

yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ymyriadau[105]. Roeddent hefyd yn bryderus ynghylch yr amser a gymerwyd i gwblhau achosion llys o ganlyniad i hynny:

> *mynd a dod yn ôl ac ymlaen i'r llys - gorfod bod mewn limbo [...] gan feddwl yn dechnegol bod yr unigolyn hwn sydd wedi gwneud y bygythiadau hyn y buaswn yn cael fy lladd, neu beth bynnag, o bosibl yn dal allan ar y stryd* (AS benyw)

Mae hyn yn codi pwynt diddorol ynghylch llesiant Aelodau mewn 'limbo' a'r pryder y gallai camdrinwyr ar-lein ddod yn ymosodwyr all-lein yn ystod achos llys hir. Ar ben hynny, mae gweithredu trothwy yn cyfyngu ar gamau - eglurodd un cyfwelai fod camdrinwyr posibl ar-lein yn gwybod mai bygythiadau marwolaeth yw'r prif fath o gam-drin lle mae cwynion yn cael eu prosesu a'u cadarnhau, ac felly roedd troseddwyr yn sicrhau bod eu sylwadau'n disgyn islaw'r lefel 'fygythiol' ond yn parhau i fod yn gas ac yn gamdriniol ac yn fygythiad i ddemocratiaeth.

Fel rhan o'r Adolygiad hwn, rydym yn galw am ddull mwy ataliol a rhagweithiol na'r hyn a fabwysiadwyd yn yr Alban, gyda system sy'n canolbwyntio ar adnabod cynnydd posibl a bygythiad o ddigwyddiad difrifol yn gynnar. Er gwaethaf hyn, mae'n parhau i fod yn bwysig cydnabod nad yw llawer o gynnwys camdriniol a anelwyd at Aelodau yn droseddol a bod y Senedd yn wynebu amharodrwydd parhaus neu oedi cyn ymateb gan lwyfannau cyfryngau cymdeithasol ynghylch ymyriadau neu reoleiddio cam-drin ar-lein. Ar ben hynny, mae arloesi technolegol cyson sy'n dod â mathau newydd o gam-drin i'w canlyn – er enghraifft, pryderon diweddar iawn ynghylch delweddau 'deep-fake' â chymorth AI. Gan hynny, rydym yn annog Comisiwn y Senedd i barhau i archwilio ac adolygu'r opsiwn gorau ar gyfer system fonitro cyfryngau cymdeithasol a fydd yn mynd i'r afael yn effeithiol â mater cam-drin Aelodau ar-lein o ddiwrnod cyntaf y Senedd nesaf, ac yn cadw golwg ar arloesi a newid technolegol. Dylai Comisiwn y Senedd hefyd fonitro ac adrodd ar gam-drin ar-lein yn rheolaidd.

O ystyried nad yw'r cam-drin ar-lein yn aml yn droseddol, mae angen am bolisi penodol i'r Senedd i nodi ymddygiadau a ganiateir ac sy'n annerbyniol gan ddinasyddion yn eu rhyngweithiadau â'r Senedd, Aelodau'r Senedd, staff gwleidyddol yr Aelodau, a'r rhai sy'n perthyn i Aelodau'r Senedd ar-lein ac all-lein. Er ei fod yn canolbwyntio ar lefel wahanol o wleidyddiaeth, gweithredodd Cyngor Sir Bro Morganwg bolisïau "Gweithredoedd Annerbyniol gan Ddinasyddion" a "Chyfryngau Cymdeithasol" yn 2022.[106] Mae'r rhain yn ategu ei gilydd ac yn nodi dull y Cyngor o ymdrin â'r rhai mae eu

[105] Mae hyn yn cael ei gyfiawnhau, yn ôl The National, oherwydd canfu treial Senedd yr Alban mai dim ond 461 o sylwadau allan o 8122 (llai na 6%) a ystyriwyd yn rhai 'troseddol o bosibl', ac a gyfeiriwyd at heddluoedd yr Alban.

[106] Mae gan Gomisiwn y Senedd bolisi cyfryngau cymdeithasol ar gyfer ei sianeli cyfathrebu swyddogol (Gweler Atodiad 1).

gweithredoedd a'u hymddygiad yn erbyn staff a chynghorwyr yn cael eu hystyried yn annerbyniol, a beth mae'r Cyngor yn ei ddisgwyl gan y rhai sy'n rhyngweithio â'r sefydliad drwy gyfryngau cymdeithasol.[107] Gellid archwilio rhywbeth tebyg yma.

Yn ogystal â'r mesurau hyn, byddai'r Adolygiad yn argymell sefydlu 'tasglu' penodol ar gyfer mynd i'r afael â materion parhaus ynghylch sicrhau cyfranogiad diogel mewn bywyd cyhoeddus. Drwy'r tasglu hwn, gallai'r Senedd chwarae rôl flaenllaw yn ddiweddarach wrth fynd i'r afael â materion diogelwch ym mhob sector o fywyd gwleidyddol yng Nghymru – er enghraifft, llywodraeth leol (gweler Hibbs 2025)[108]. Yn debyg i fenter a ddechreuwyd yn Iwerddon[109], byddai hyn yn dod â gwleidyddion o bob lefel, yr heddlu a phersonél Diogelwch y Senedd at ei gilydd, ynghyd ag academyddion ac arbenigwyr eraill neu bartïon â diddordeb i fynd i'r afael â materion parhaus sy'n ymwneud â cham-drin ac aflonyddu ac i drafod y ffordd orau o ddiogelu cyfranogiad a disgwrs sifil mewn bywyd cyhoeddus yn y dyfodol.

Casgliad

Mae'n amlwg o'n data fod cam-drin gan y cyhoedd yn bryder craidd a rennir gan gyfranogwyr, nid yn unig oherwydd ei effaith ar yr Aelod ond hefyd ar y rhai sy'n agos atynt, gan gynnwys teulu a staff gwleidyddol, yn ogystal ag ar ddemocratiaeth yn ehangach. Mae'r Aelodau'n gwerthfawrogi'r cymorth a ddarperir ar hyn o bryd gan staff Diogelwch y Senedd ond maent yn cydnabod eu cylch gwaith cyfyngedig a byddent yn gwerthfawrogi system sy'n fwy rhagweithiol ac sy'n eu hamddiffyn nhw a'r rhai sy'n agos atynt (sef, teulu ac aelodau staff) ar-lein ac all-lein i liniaru effeithiau niweidiol trais a cham-drin, sy'n aml yn 'erchyll'.

## Argymhellion y Bwrdd: Cam-drin Aelodau

- **Argymhelliad**: Bod cynnig yn cael ei gyflwyno yn y Senedd nesaf, gan y Llywydd (neu aelod arweiniol arall), i roi cyfarwyddiadau i'r perwyl bod yn rhaid i Gomisiwn y Senedd fynd i'r afael â cham-drin Aelodau ar-lein, ac adrodd i'r Senedd ar effeithiolrwydd ei ddull yn flynyddol. Rhaid i hyn gynnwys monitro cyfryngau cymdeithasol a/neu asesiadau o fregusrwydd ar-lein, a dylai gadw i fyny ag arloesiadau technolegol. Dylai gwmpasu nodi

[107] Polisïau Gweithredoedd Annerbyniol gan Ddinasyddion a Chyfryngau Cymdeithasol Bro Morgannwg
[108] Hibbs, L. 2025. 'More Visible and Vulnerable to Attacks' – Violence Against (local) Women Politicians and the Local Costs of Doing Politics. *Journal of Women, Politics & Policy* 46(4).
[109] Sefydlwyd Task Force on Safe Participation in Political Life Iwerddon ym mis Mai 2023.

camdriniaeth sy'n is na'r trothwy 'bygythiol' – ond sy'n dal i fod yn gamdriniol ac yn fygythiad i ddemocratiaeth – a mynd i'r afael â hynny.

- **Argymhelliad**: Dylai Comisiwn y Senedd ystyried sut i adeiladu ar ei ddull ataliol o ymdrin â diogelwch. Byddai hynny'n cynnwys adolygu ei ddarpariaethau a'i brotocolau diogelwch yn unol â chynnig y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar gyfer rôl Gwarcheidwad. Byddai'n cynnwys sicrhau bod canllawiau clir a chyson ar gael yn rhwydd i Aelodau i gynorthwyo eu dealltwriaeth o brosesau ar gyfer adrodd, atal ac ymateb i gam-drin all-lein ac ar-lein, a thrais gan y cyhoedd. Mae hefyd yn hanfodol bod cyfathrebiadau ynghylch diogelwch yn mynd at bob Aelod.
- Argymhelliad: Dylai Comisiwn y Senedd sefydlu Tasglu 'Cyfranogiad Diogel mewn Gwleidyddiaeth'[110] i oruchwylio a chomisiynu gwaith parhaus ynghylch cam-drin ac aflonyddu ar Aelodau. Dylai'r Tasglu:
    - gomisiynu adolygiad ac adroddiad annibynnol ar gam-drin ac aflonyddu Aelodau o'r Senedd a'u staff gwleidyddol, a monitro ac adrodd yn barhaus ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â cham-drin Aelodau ar-lein, gan gynnwys data a gasglwyd wrth fonitro cyfryngau cymdeithasol fel rhan o'r prosiect peilot; a hefyd
    - gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol i asesu'r difrod a berir gan drais, cam-drin ac aflonyddu gwleidyddion, i ymgysylltu â'r cyhoedd ac, yn ei dro, i ddemocratiaeth.
    - gweithio gyda Bwrdd Gweithredu'r Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd, y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a Chomisiwn y Senedd i gynghori ar 'Bolisi Ymddygiad Annerbyniol Dinasyddion' a 'Pholisi Cyfryngau Cymdeithasol' sydd ar gael i'r cyhoedd.[111] Dylai ystyried sut y byddai'r rhain yn cael eu gorfodi, fel bod dinasyddion sy'n cam-drin Aelodau yn wynebu canlyniadau am eu gweithredoedd.
- Argymhelliad: Dylai Comisiwn y Senedd gynnal cyfweliadau neu arolwg gyda phob Aelod sydd wedi ymddiswyddo neu nad ydynt wedi dychwelyd i'r Seithfed

[110] Rydym yn rhagweld y byddai'n cynnwys Aelodau o'r Senedd, Staff Comisiwn y Senedd (gan gynnwys Diogelwch y Senedd), Staff Gwleidyddol, arbenigwyr allanol, heddluoedd Cymru, a chyfranwyr allweddol eraill.

[111] Mae Comisiwn y Senedd yn cyhoeddi rheolau cyfryngau cymdeithasol ar wefan y Senedd sy'n berthnasol wrth osod unrhyw beth ar unrhyw un o'r sianeli cyfryngau cymdeithasol y mae Comisiwn y Senedd yn gyfrifol amdanynt. https://senedd.cymru/cymorth/canllawiau-cymunedol-cyfryngau-cymdeithasol/

Senedd yn ystod haf 2026. Dylai hyn gynnwys cwestiynau ynghylch eu profiadau o drais, cam-drin ac aflonyddu, ac archwilio'r ffactorau a ddylanwadodd ar eu penderfyniadau i beidio ag ailsefyll, gan gynnwys unrhyw gyfrifoldebau gofalu.

## Prif Ffrydio Cydraddoldeb: Potensial heb ei gyflawni y 'ffordd Gymreig' unigryw

*Safonau rhyngwladol*

Mae safonau rhyngwladol ar gyfer seneddau sy'n sensitif i rywedd a nodir gan yr IPU,[112] CPA,[113] ac OSCE[114] yn awgrymu ffyrdd y gall seneddau brif ffrydio ystyriaethau rhywedd ym mhob maes gwaith. Mae'r safonau hyn yn pwysleisio pwysigrwydd arweinyddiaeth glir; sefydlu cyrff cydraddoldeb a mecanweithiau polisi (gan gynnwys asesiadau effaith); bod cyfrifoldeb am gydraddoldeb yn cael ei gymhwyso'n llorweddol ar draws portffolios; yr angen am amser ac adnoddau wedi eu neilltuo ar gyfer ystyried materion cydraddoldeb rhwng y rhywiau; a mynediad at arbenigedd (gan gynnwys drwy feithrin gallu) a data a dadansoddiadau wedi eu dadgyfuno. (Gweler Atodiad 2 am restr lawn o Egwyddorion ac Offerynnau).

*Senedd wedi ei hadeiladu ar egwyddor cydraddoldeb i bawb*

Roedd penseiri datganoli Cymru yn uchelgeisiol ac yn mynnu y dylai Cymru sefydlu democratiaeth fodern a oedd yn arddel egwyddorion llywodraethu da, yn enwedig wrth ddefnyddio tystiolaeth wrth wneud penderfyniadau (Minto a Parken 2020).[115] Amlygwyd yr uchelgais hon yn rhannol drwy ymrwymiad egwyddorol i hyrwyddo *cydraddoldeb i bawb* yn neddfwriaeth sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru (adran 120, Deddf Llywodraeth Cymru 1998).[116] Roedd yr ymrwymiad hwn yn symbolaidd ac yn sylweddol, ac yn gosod Cymru ar wahân yn rhyngwladol.

---

[112] IPU (2017) Plan of action for gender-sensitive parliaments
[113] CPA (2020) Gender Sensitising Parliaments Guidelines: Standards And A Checklist For Parliamentary Change
[114] OSCE (2021) Realizing Gender Equality In Parliament A Guide For Parliaments In The OSCE Region
[115] Minto, R., a Parken, A. (2021). The European Union and Regional gender equality agendas: Wales in the shadow of Brexit. *Regional Studies*, *55*(9), 1550–1560. https://doi.org/10.1080/00343404.2020.1826422
[116] Heddiw, mae dau ddarpariaeth ar gyfer prif ffrydio cydraddoldeb yn Neddf Llywodraeth Cymru. Mae'r cyntaf yn gosod rhwymedigaeth ar Weinidogion i hyrwyddo cydraddoldeb yn eu gweithgarwch (adran 77,

Ar y sail statudol hon mae 'ffordd Gymreig' unigryw o hyrwyddo cydraddoldeb wedi datblygu drwy 'brif ffrydio cydraddoldeb', a'i nod yn y pen draw yw lleihau anghydraddoldebau a gwireddu cydraddoldeb i bobl Cymru (Parken, 2010, Parken 2022).[117] Yn 2005, cytunodd Llywodraeth Cymru ar ddiffiniad newydd ar gyfer prif ffrydio cydraddoldeb, un sydd wedi ei anelu'n benodol at ddatblygu polisïau rhagweithiol i hyrwyddo cydraddoldeb i bawb:

> *Mae prif ffrydio cydraddoldeb yn ymwneud ag integreiddio parch at amrywiaeth ac egwyddorion, strategaethau ac arferion cyfle cyfartal i waith bob dydd y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill. Mae'n golygu y dylid cynnwys materion cydraddoldeb o'r cychwyn cyntaf fel rhan annatod o'r broses o lunio polisïau a darparu gwasanaethau a dylai cyflawni cydraddoldeb lywio pob agwedd ar waith pob unigolyn o fewn sefydliad. Dylid mesur llwyddiant prif ffrydio drwy werthuso a yw anghydraddoldebau wedi'u lleihau. (Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet 12 Ionawr 2005, 1 EOC(2)03-05(p2-annex a)e )*[118]

Mae model Cymru o brif ffrydio cydraddoldeb yn rhagweithiol. Nid yn unig mae'n ceisio nodi ac ymateb i ganlyniadau anfwriadol penderfyniadau polisi ond mae'n anelu at *hyrwyddo* cydraddoldeb i bawb drwy bolisi a deddfwriaeth. Mae'n ei gwneud yn ofynnol bod cydraddoldeb yn cael ei ystyried yn llawn ar ddechrau'r broses o lunio polisïau, gan dynnu ar arbenigedd a phrofiad yr holl chwaraewyr perthnasol, gan gynnwys y rhai sydd â phrofiad personol (Parken 2022). Y dull unigryw hwn o ymdrin â chydraddoldeb - y 'ffordd Gymreig' - yw'r cydweithrediad *rhwng* gwahanol sefydliadau anllywodraethol cydraddoldeb, llunwyr polisi, undebau llafur a melinau trafod i greu a gwella canlyniadau cydraddoldeb (Parken 2010)

Mae Comisiwn y Senedd wedi ei rwymo gan ddyletswyddau sylw dyledus sy'n ymwneud â swyddogaethau a thrafodion:

> "Schedule 2, 8(1) The Senedd Commission must make appropriate arrangements with a view to securing that its functions are exercised with due regard to the principle that there should be equality of opportunity for all people."[119]

---

Deddf Llywodraeth Cymru 2006). Mae'r ail yn gosod rhwymedigaeth debyg ar Gomisiwn y Senedd (Deddf Llywodraeth Cymru 2006 atodlen 2 adran 8[1]).

[117] Parken, A. 2022. Equality and Devolution in Wales: A distinct approach. Adroddiad Prosiect.[Ar-lein]. Caerdydd: Ysgol Busnes Caerdydd Ar gael yn: https://www.genderequalitiesat50.ed.ac.uk/wp-content/uploads/2022/06/EQUALITY-AND-DEVOLUTION-IN-WALES-A-DISTINCT-APPROACH.pdf. Parken, A. (2010) A multi-strand approach to promoting equality and human rights in policymaking. Policy and Politics, Cyfrol 38, Rhifyn, 1, tt.79-89: https://doi.org/10.1332/030557309X445690

[118] Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal EOC(2) 09-05(p5)e

[119] Deddf Llywodraeth Cymru 2006 Atodlen 2: Comisiwn y Senedd, 8(1)

Mae cyfrifoldeb dros brif ffrydio cydraddoldeb yn nwylo holl Wasanaethau’r Comisiwn yn y ddeddfwrfa – ar draws portffolios polisi a swyddogaethol – yn hytrach na disgyn ar un unigolyn neu dîm.

Fodd bynnag, fel y trafodwyd, nid oes gofyniad sefydliadol i Aelodau’r Senedd brif ffrydio cydraddoldeb mewn dadleuon yn y Cyfarfod Llawn, na thrwy waith ymchwilio a chraffu mewn Pwyllgorau.

*<u>Ansicrwydd prif ffrydio yn ymarferol: eiriolwyr cryf ond mecanweithiau gwan</u>*

Mae prif ffrydio cydraddoldeb yn y Senedd yn dibynnu ar ASau sy'n dadlau'n gryf dros newid tuag at gydraddoldeb yng nghyd-destun cefnogaeth sefydliadol wan:

> *Nid oes mecanwaith ffurfiol lle dylem wirio materion cydraddoldeb yn llwyr* (AS benyw)
>
> *Wyddoch chi, rydyn ni'n gadael pethau i siawns… Allwch chi ddim gwneud hynny. Mae'n rhaid i bethau newid* (AS benyw)

Yn hytrach nag ystyriaeth sefydliadol, systematig o gydraddoldeb, i raddau helaeth mae'n gyfrifoldeb ar Aelodau unigol sydd â diddordeb penodol mewn cydraddoldeb i godi a hyrwyddo materion cydraddoldeb yn eu gweithgarwch goruchwylio a chraffu.

I'r unigolion hyn (menywod yn bennaf, ond dynion hefyd), chwaraeodd rhwydweithiau o chwaraewyr cefnogol rôl bwysig, gyda'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cawcws y Menywod a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod, i gyd wedi eu nodi fel safleoedd a rhwydweithiau pwysig ar gyfer trafod a meithrin gallu ynghylch cydraddoldeb, er bod yr olaf yn canolbwyntio'n fwy penodol ar faterion sy'n ymwneud â pholisi. Mae Grwpiau Trawsbleidiol yn ymgymryd â rôl ymholi anffurfiol ac yn ymgysylltu'n gydweithredol ac yn eang. Gallant anfon llythyr at y Gweinidog perthnasol yn dilyn ymchwiliad, ac mae’r Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod wedi bod yn effeithiol yn hyn o beth, ond nid oes gofyniad i Weinidog weithredu ar yr wybodaeth.

Er gwaethaf arwyddocâd y rhwydweithiau/cyrff hyn, gwelwyd bod 'llwyddiant' wrth hyrwyddo materion cydraddoldeb yn dibynnu i raddau helaeth ar y nifer yr ASau benyw sydd mewn rôl/cyd-destun penodol (er enghraifft, ar bwyllgor), a allai gyflwyno tystiolaeth yn llwyddiannus a bod yn barod i eiriol yn gryf. Ar ben hynny, heb wiriadau a chydbwyseddau sefydliadol, gwelwyd bod materion cydraddoldeb yn '*anweddu*' yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'r sefyllfa bresennol hon ymhell o'r 'ffordd Gymreig' sy'n cael ei dathlu'n rhyngwladol o hyrwyddo cydraddoldeb i bawb.

*<u>Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: rhwng cyfrifoldeb a bregusrwydd</u>*

Yn ymarferol, priodolwyd rôl allweddol i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol fel canolbwynt gweithgarwch cydraddoldeb y Senedd. Yn wir, mae'r Pwyllgor wedi tynnu sylw at faterion cydraddoldeb a'u hyrwyddo drwy eu hymchwiliadau a'u gweithgareddau craffu – gan gynhyrchu adroddiad dilynol weithiau (e.e. ar dlodi tanwydd) – gan arwain at ganlyniadau pendant a buddiol tuag at wella bywydau pobl yng Nghymru. Mae ymchwiliadau a gynhaliwyd dros y Seithfed Senedd wedi ymdrin â thlodi plant, cydlyniant cymdeithasol, anabledd a chyflogaeth, gofal plant, Cymru wrth-hiliol, y dull iechyd cyhoeddus o atal trais ar sail rhywedd, profiadau menywod o'r system cyfiawnder troseddol, a thrais a cham-drin yn erbyn menywod mudol (gweler Senedd Cymru 2025 am restr o ymchwiliadau), ac yn fwyaf diweddar craffu ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru).[120] [121]

Myfyriodd yr ASau fod cysondeb ac ymrwymiad aelodaeth y Pwyllgor o bwys sylfaenol i'w gyflawniadau. Mae'r aelodaeth nid yn unig wedi bod yn gymharol sefydlog – gan alluogi'r Aelodau i feithrin gwybodaeth ac arbenigedd – ond mae'r Pwyllgor wedi mwynhau arweinyddiaeth gref, ac mae'r Aelodau wedi buddsoddi'n helaeth yng ngwaith y Pwyllgor, yn rhannol drwy ymrwymo i gyfarfodydd wythnosol. Gwnaed sylwadau ar ddull 'fforensig' y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Yn yr un modd, cyfeiriwyd ato'n blaenoriaethu ymgysylltu â phobl â phrofiad bywyd, sydd wedi golygu bod Aelodau wedi teithio y tu hwnt i Gaerdydd a'u hetholaethau penodol. Mae'r ymgysylltiad gweithredol hwn ag 'arbenigwyr drwy brofiad' – egwyddor a arddelir yng ngwaith y Pwyllgor – yn wir wrth wraidd y dull Cymreig o brif ffrydio cydraddoldeb.

Er gwaethaf y straeon hyn am lwyddiant, mae'r trefniadau presennol wedi eu cyfyngu, o ran statws y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ac a ddylai, i bob pwrpas, ysgwyddo cyfrifoldeb bron yn llawn am weithgarwch cydraddoldeb y Senedd. Yn ogystal, mae'r ffaith bod cydraddoldeb yn gymhwysedd a gedwir yn ôl yn cyfyngu ar y ddeddfwriaeth sy'n dod o fewn cylch gwaith gweithgarwch craffu ar gydraddoldeb y Senedd.

O ran statws y Pwyllgor, yn rhyfeddol, nid oes gofyniad i'r Senedd gael pwyllgor annibynnol sy'n ymroddedig i gydraddoldeb. Yr unig amod yw bod cydraddoldeb wedi ei gynnwys rywle o fewn cylch gwaith un o bwyllgorau'r Senedd. O ganlyniad, dros y blynyddoedd, mae cydraddoldeb wedi symud rhwng pwyllgor annibynnol a chael ei gynnwys o fewn pwyllgor â chylch gwaith ehangach. Mae'r sefyllfa hon braidd yn syndod ac yn groes i ofynion mewn deddfwrfeydd tebyg, gan gynnwys Senedd yr Alban.

Yn y Cynulliad Cyntaf (1999-2003), yr Ail Gynulliad (2003-07) a'r Trydydd Cynulliad (2007-11) roedd Pwyllgor Cyfle Cyfartal annibynnol. Roedd manteision cydnabyddedig o

[120] Gwaith wedi'i Gwblhau ac Adroddiadau Cyhoeddedig - Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

[121] Nid yw cylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol iddo graffu ar bob Bil o safbwynt cydraddoldeb.

safbwynt cydraddoldeb o gael pwyllgor mor benodol, yn enwedig y mynediad at lunio polisïau a ddarperir i rai yn y gymdeithas sifil sy'n gweithio ym maes cydraddoldeb (Chaney 2008).[122] Fodd bynnag, cafodd cydraddoldeb ei ymgorffori wedyn mewn pwyllgorau â chylchoedd gwaith llawer ehangach (gan gynnwys llywodraeth leol a chymunedau) yn y Pedwerydd Cynulliad (2011-16) a'r Pumed Cynulliad (2016-21). Ailsefydlwyd pwyllgor annibynnol yn y Chweched Senedd drwy'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Nid oes unrhyw sicrwydd y bydd y dull hwn yn cael ei gynnal yn y Seithfed Senedd, gydag effaith niweidiol o bosibl ar weithgarwch cydraddoldeb y Senedd.

> *... mae angen pwyllgor sefydlog ar gydraddoldeb arnom yn bendant. Mae gennym ni'r holl bolisïau hyn. Ond mae'n rhaid i mi ddweud fy mod i'n nerfus ynglŷn â'r hyn a allai ddigwydd. Rydw i wir yn meddwl y gallai cydraddoldeb ddiflannu mewn gwirionedd.* (AS benyw)

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi datblygu agenda uchelgeisiol fel hyrwyddwr cydraddoldeb drwy waith goruchwylio a chraffu. Er mwyn cwmpasu'r ehangder hwn o weithgarwch, mae'r pwyllgor yn cyfarfod yn wythnosol.

Yn nodedig, wrth gyflawni ei ddyletswyddau, mae'r Pwyllgor wedi gweithredu yn unol â dull prif ffrydio cydraddoldeb, yn hytrach na'i osod ei hun fel gwarcheidwad cydraddoldeb ar gyfer holl weithgarwch y Senedd. Yn yr ysbryd hwn, mae wedi canolbwyntio ar graffu blynyddol ar y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol (sydd â phortffolio trawslywodraethol), yn hytrach na chraffu ar bob Gweinidog Cabinet; ac nid yw wedi cynnal gwaith craffu ar bob Bil Senedd gan y byddai hyn wedi bod ar draul hyrwyddo ei agenda cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol (bwerus) ei hun: *'Doedd dim modd i ni wneud hynny. Fydden ni byth wedi llwyddo i wneud dim byd!'* (AS benyw).

Roedd hyn hefyd yn wir o ran gwaith craffu'r Pwyllgor ar y gyllideb, a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar bortffolio'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol yn hytrach na'r gyllideb ehangach. Yn unol â dull prif ffrydio sy'n dosbarthu cyfrifoldeb dros gydraddoldeb, y farn gyffredinol gan y Pwyllgor oedd, '*mewn gwirionedd, mae codi materion cydraddoldeb yn gyfrifoldeb ar bob pwyllgor'.* (AS benyw) Fodd bynnag, nid oes llawer i awgrymu bod y farn hon yn cael ei rhannu gan bwyllgorau eraill y Senedd.

Fel y cyfryw, mae rhywfaint o weithgarwch cydraddoldeb hanfodol yn cael ei golli yn y bwlch rhwng dyhead y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a realiti prif ffrydio cydraddoldeb yn ymarferol: nid oes gwaith craffu systematig ar Weinidogion Llywodraeth Cymru, strategaethau cydraddoldeb na chynlluniau gweithredu, ac nid yw

[122] Chaney, P. (2008) 'Devolved Governance and the Substantive Representation of Women: The Second Term of the National Assembly for Wales, 2003–2007', *Parliamentary Affairs* Cyfrol 61, Rhifyn 2, tt. 272–290, https://doi.org/10.1093/pa/gsm063

pob Bil Senedd ychwaith yn destun gwaith craffu o safbwynt cydraddoldeb fel mater o drefn.

Mae hwn yn faes lle gwelwn y gellir sefydlu prif ffrydio cydraddoldeb ym musnes Aelodau yn y Senedd – drwy Bwyllgorau.

*Ymchwil a data cydraddoldeb: rhywfaint o ymchwil gref ond data ar goll*

Mae gan Aelodau'r Senedd fynediad at arbenigedd mewnol o ansawdd uchel mewn cydraddoldeb, gydag uwch ymchwilydd yn gyfrifol am faterion cydraddoldeb ac yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn cynorthwyo gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. O fewn Gwasanaeth Ymchwil y Comisiwn y mae'r dystiolaeth fwyaf o ymdrechion i *brif ffrydio* cydraddoldeb drwy waith goruchwylio a chraffu'r Senedd, yn rhannol drwy ddarparu llu o ddogfennau canllaw i lywio gwaith cydweithwyr Ymchwil.

Er bod yr arbenigedd cydraddoldeb hwn ar gael, roedd cytundeb bod y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol weithiau'n brin o'r data cydraddoldeb angenrheidiol.

Roedd beirniadaeth yn ddeublyg. Yn gyntaf, er bod memorandwm esboniadol yn dod gyda phob darn o ddeddfwriaeth a gyflwynir gerbron y Senedd, sy'n cynnwys crynodeb o Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb Llywodraeth Cymru, nid oedd yr Aelodau'n cofio gweld Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb llawn yn rheolaidd yng nghyfnodau diweddarach y broses graffu, ac roedd arsylwadau am amrywiaeth yn ansawdd yr Asesiadau. Mae hyn yn lleihau'r cyfle i graffu ar yr Asesiad ei hun a hefyd mynediad at wybodaeth ategol i graffu ar y cynnig deddfwriaethol. O ran ansawdd yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a ddaeth i sylw'r ASau, y farn oedd bod hyn yn gymysg, gyda'u defnyddioldeb yn cyferbynnu â beirniadaethau cyfarwydd eu bod yn ymarfer 'ticio blychau' i raddau helaeth,[123] ac a oedd yn 'sych' ac yn ôl-weithredol eu natur.

> *Maen nhw'n dweud, "Ydym, rydym wedi gwneud rhyw fath o asesiad yma" ac ati - ond mae'n amlwg ... nid yw'n effeithio ar gyfeiriad y polisi mewn gwirionedd. Felly dyna sut byddwn i'n ei ddisgrifio. Rhywbeth fel ... nid yw'r dylanwad gwirioneddol sydd ganddynt ar lunio polisïau ac ar ddeddfwriaeth ac ati ddim yn trosglwyddo, wyddoch chi.* (grŵp ffocws)

---

[123] Archwilio Cymru (2022) Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb: mwy nag ymarfer ticio blychau? Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Medi 2022: https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Asesiadau_or_effaith_ar_gydraddoldeb_cymraeg.pdf

Yn ail, gwelwyd yn aml bod diffyg data cydraddoldeb manwl wedi ei ddadgrynhoi. Er bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd, y farn oedd nad yw'r rhain eto'n darparu'r data angenrheidiol i ymgymryd â dadansoddiad cadarn o safbwynt cydraddoldeb.

*Ymdrechion i hyrwyddo perchnogaeth ar y cyd drwy feithrin gallu*

Mae symud y tu hwnt i ddull ar wahân yn rhoi rôl i bawb wrth hyrwyddo cydraddoldeb. Fel cam cyntaf, mae hyn yn gofyn am feithrin gallu fel y gall y rhai sy'n llai cyfarwydd â gwaith cydraddoldeb ddatblygu'r sgiliau, yr arbenigedd a'r hyder angenrheidiol i ymgymryd â gweithgarwch craffu a goruchwylio o safbwynt cydraddoldeb.

Er bod llawer o hyfforddiant cydraddoldeb ar gael, nid yw'n rhan o'r hyfforddiant craidd sydd ar gael drwy'r tîm Dysgu Aelodau, sef y man galw cyntaf ar gyfer hyfforddiant i ASau. Yn hytrach, mae'r ddarpariaeth hyfforddiant cydraddoldeb ei hun ar wahân braidd, gydag Ymchwil y Senedd yn cynnig sesiwn wedi ei recordio ymlaen llaw ar graffu sy'n sensitif i gydraddoldeb sydd ar gael i staff sy'n gweithio gyda phwyllgorau (ond nid ASau) ac yn darparu sesiwn hyfforddi untro i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar yr un pwnc yn 2022. Y tu hwnt i hyn, mae enghreifftiau eraill o arfer da, gyda chanllawiau a ddatblygwyd gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn 2013 ar sut i graffu ar y gyllideb ddrafft o safbwynt cydraddoldeb a ddarperir i bob pwyllgor ar sail untro.

Fodd bynnag, mae rhai bylchau yn y ddarpariaeth, gan gynnwys ar egwyddorion prif ffrydio cydraddoldeb ac offer ar gyfer craffu (er enghraifft, asesiadau buddiolwyr rhywedd a chyllidebu rhywedd), y model cymdeithasol o anabledd a dulliau gwrth-hiliol. Mae datblygu darpariaeth hyfforddi sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau strwythurol, yn ogystal ag arfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a pherswadio ASau y gall ddarparu mewnwelediadau allweddol ar gyfer eu gwaith, yn gam angenrheidiol. Bydd hyn yn harneisio ehangder cymhwysedd polisi Cymru i sicrhau canlyniadau mwy teg i bobl Cymru.

Fel y mae pethau, mae diffyg gorfodaeth neu allu ymhlith ASau ac ar draws pwyllgorau i ymgymryd â gwaith craffu ar gydraddoldeb yn gwaethygu'r pwysau a roddir ar y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Gweinidog perthnasol i fod yn 'ganolbwynt' i'r holl weithgarwch cydraddoldeb.

Er mwyn cynnwys pob Pwyllgor yn y gwaith hwn, rydym yn argymell rhagori ar ofynion cydymffurfio’r Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb. Dylid sefydlu strategaeth brif ffrydio newydd ar gyfer Comisiwn y Senedd a Gwasanaethau'r Comisiwn sy'n cwmpasu holl argymhellion prif ffrydio cydraddoldeb FFIPR.

Byddai hyn yn cynnwys ymgorffori'r Model Prif Ffrydio Cydraddoldeb (Parken, 2010) a ddatblygwyd yng Nghymru mewn ffordd arloesol yn dilyn argymhelliad gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru ar Brif ffrydio Cydraddoldeb (Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal EOC(2) 07-06(p1))[124] [125]

Mae'r dull hwn o hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol ar sail groestoriadol wrth lunio polisïau, yn dwyn ynghyd swyddogion â sefydliadau cydraddoldeb, melinau trafod, busnesau, undebau llafur ac academyddion yn y maes polisi sy'n cael ei ymchwilio, i weithio ar y cyd drwy gasglu tystiolaeth a gwaith ymchwil sy'n canolbwyntio ar atebion. (Parken, 2010). Rydym yn argymell bod hyn yn cael ei dreialu gyda Phwyllgorau, a ddylai ddefnyddio'r dull hwn o leiaf unwaith y tymor. (Parken ac eraill 2019). Mae ymchwil wedi dangos bod y dull hwn hefyd yn actifadu'r 'pum ffordd o weithio tuag at y nod cydraddoldeb' yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (MacBride-Stewart a Parken, 2021), gan hwyluso ymglymiad â rhanddeiliaid amrywiol drwy gydweithio i gynhyrchu allbynnau ataliol hirdymor y gellir eu hintegreiddio ar draws meysydd polisi.

*Casgliad*

Unwaith eto, mae prif ffrydio cydraddoldeb yn faes lle mae Cymru wedi arwain y ffordd yn rhyngwladol. Mae gan y 'ffordd unigryw Gymreig' a ddangosir drwy ddull Cymru o brif ffrydio cydraddoldeb y potensial i arwain at welliannau pendant i fywydau pobl yng Nghymru drwy leihau anghydraddoldeb a hyrwyddo cydraddoldeb. Er bod enghreifftiau o arfer da yn y Senedd yn sicr (gan gynnwys darparu arbenigedd mewn cydraddoldeb), fel y mae, mae hyrwyddo cydraddoldeb wedi dod yn rhy ddibynnol ar waith unigolion ymroddedig, gan dynnu ar rwydweithiau ehangach weithiau. Mae'r eiriolwyr cryf hyn dros gydraddoldeb wedi profi llwyddiant er gwaethaf y diffyg cymorth sefydliadol sydd ar gael.

## Argymhellion y Bwrdd: Prif Ffrydio Cydraddoldeb

- ar gyfer gweithredu Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.
- Argymhelliad: Dylai'r Pwyllgor Busnes ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i fandadu Pwyllgor Cydraddoldeb pwrpasol neu Bwyllgor Cydraddoldeb gyda chylch gorchwyl neu swyddogaethau penodol mewn perthynas â goruchwylio cydraddoldebau. Nid

[124] Dydd Mercher 27 Medi 2006, adroddiad cynnydd pwyntiau 15 a 16.

[125] Profwyd model prif ffrydio rhywedd arfaethedig am ei allu i ddatgelu anghydraddoldebau croestoriadol yn 2010. Mae'r model addasedig canlyniadol yn cynhyrchu ymholiad croestoriadol cydweithredol ar lefel strwythurol, yn galluogi integreiddio dulliau cydraddoldeb a hawliau dynol ac yn cefnogi blaenoriaethu heb homogeneiddio anghydraddoldebau penodol i 'faes' yn lleihaol. Mae mabwysiadu'r model hwn yn darparu dull o ymgorffori croestoriadedd mewn llunio polisïau/craffu.

yw hyn yn disodli'r ddyletswydd ar bwyllgorau eraill i gymryd cyfrifoldeb dros brif ffrydio gwaith craffu ar gydraddoldeb yn eu gwaith, fel y nodwyd uchod.

- Argymhelliad: Dylai pwyllgorau'r Senedd ofyn i Wasanaeth Ymchwil Comisiwn y Senedd ddarparu adolygiad prif ffrydio cydraddoldeb o bob Bil y maent yn craffu arno.
- Argymhelliad: Dylai pob pwyllgor gynnal un cyfarfod bord gron ar fodel prif ffrydio cydraddoldeb[126] yn ystod tymor pedair blynedd. Dylai Comisiwn y Senedd sicrhau bod gan ei wasanaethau gapasiti priodol i gefnogi ymgysylltiad y pwyllgor â phanel prif ffrydio cydraddoldeb (gan gynnwys sefydliadau cydraddoldeb, undebau llafur, melinau trafod, cyrff sector yn ôl y perthnasedd i'r maes polisi gan weithio gyda'r pwyllgor ar y prosesau casglu tystiolaeth a chanolbwyntio ar atebion).
- Argymhelliad: Dylai'r pwyllgor sy'n gyfrifol am gydraddoldeb ddefnyddio Gwasanaeth Ymchwil Comisiwn y Senedd i gynnal, neu gomisiynu drwy'r Cynllun Cymrodoriaeth Academaidd, adolygiad prif ffrydio cydraddoldeb o'r Rhaglen Lywodraethu. Byddai'r adolygiad desg hwn yn asesu'r potensial i'r Rhaglen leddfu'r anghydraddoldebau presennol. Byddai'r adolygiad, wedyn, yn cael ei ystyried gan y pwyllgor sydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldebau, a fyddai'n lledaenu cyngor i'r pwyllgorau eraill.
- Argymhelliad: Dylai pob Pwyllgor gynnal gwaith craffu rheolaidd ar dystiolaeth cydraddoldeb yn ei ymchwiliadau. Dylai Fforwm y Cadeiryddion a gwasanaethau Comisiwn y Senedd gefnogi hyn, drwy ddarparu pecyn cymorth sy'n cynnwys, er enghraifft: rhestr wirio cydraddoldeb at ddibenion cylch gwaith, canllawiau prif ffrydio cydraddoldeb, data wedi'u dadgrynhoi, arbenigedd ym maes cydraddoldeb mewnol ac allanol, a chanllawiau/data amrywiaeth tystion. Dylai Fforwm y Cadeiryddion adolygu effeithiolrwydd y dull yn rheolaidd.
- Argymhelliad: Dylai Comisiwn y Senedd ddarparu hyfforddiant rheolaidd i Aelodau ynghylch gwaith craffu ar brif ffrydio cydraddoldebau.
- Argymhelliad: Comisiwn y Senedd i sicrhau bod ganddo adnoddau a chyllideb briodol ar gyfer ymchwil ychwanegol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb yn ôl yr angen.
- Argymhelliad: Dylai fod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru hysbysu'r pwyllgor perthnasol pan fydd asesiad o effaith ar gydraddoldeb Bil wedi'i gyhoeddi.

[126] Cafodd model prif ffrydio rhywedd arfaethedig ei brofi yn 2010, o ran ei allu i ddatgelu anghydraddoldeb croestoriadol. Mae'r model aml-linyn, cydweithredol a ddeilliodd o hynny yn rhoi strwythur i ymholiadau croestoriadol, yn rhoi'r gallu i integreiddio dulliau cydraddoldebau a hawliau dynol ac yn cefnogi modd o flaenoriaethu heb i anghydraddoldeb gael ei gyfyngu i 'linynnau' penodol.

- Argymhelliad: Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried creu dyletswydd prif ffrydio cydraddoldeb, fel rhan o'i chyfres o Ddyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru. Byddai'r ddyletswydd prif ffrydio yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru adrodd bob tair blynedd ar sut y mae prif ffrydio cydraddoldeb o fewn eu sefydliadau wedi gwella arweinyddiaeth, swyddogaethau gweithredol, llunio polisïau ar gyfer cydraddoldeb, darparu gwasanaethau cyhoeddus yn deg, a chyflawni eu rhwymedigaethau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru.

- Argymhelliad: Dylai'r pwyllgor sydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldebau geisio asesiad o gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â chydraddoldeb a hawliau dynol, yn enwedig y potensial i ddatganoli cyfrifoldeb dros weithredu a monitro Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i Lywodraeth Cymru. Dylai'r adolygiad hefyd ystyried, pe bai Deddf Cydraddoldeb yn cael ei diddymu, a fyddai gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu er mwyn gosod dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus (mewn modd tebyg i bwerau presennol Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

- Argymhelliad: Dylai'r Pwyllgor Busnes ddiwygio Rheolau Sefydlog i orfodi cawcws seneddol menywod sy'n cynnwys menywod (a dynion, pe dymunir) yn gweithio ar agenda y cytunwyd yn gyffredin arni.

- Argymhelliad: Dylai Comisiwn y Senedd barhau i benderfynu bod gan un Comisiynydd gyfrifoldeb dros gyfle cyfartal yn y dyfodol.

- Argymhelliad: Comisiwn y Senedd i ddynodi un o Uwch-swyddogion y Comisiwn i arwain gwaith gwasanaethau Comisiwn y Senedd ar brif ffrydio cydraddoldeb [gan gynnwys y gofynion o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 2, adran 8(1), bod rhaid i Gomisiwn y Senedd wneud trefniadau priodol â'r bwriad o sicrhau bod ei swyddogaethau'n cael eu harfer gan roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb].

# Gwasanaethau Cymorth

Byddai senedd sy'n gynhwysol ac yn ystyriol o deuluoedd yn ceisio darparu manteision cynhwysiant ar draws sawl gwahaniaeth. Er enghraifft, mae gweithio hybrid a rhannu swyddi (gweler Cynigion Busnes y Seithfed Senedd isod) yn cynnig manteision o ran cynnal ymlyniad gweithwyr hŷn i'r farchnad lafur, a chael gwared ar rwystrau mynediad i rolau â chyflog uwch i bobl anabl a rhieni sengl (RhCM Cymru, 2022).

Yn ein gwaith ymchwil, fe wnaethom ofyn i'r Aelodau am alluogwyr a rhwystrau o'r fath. Trafododd yr Aelodau heriau sefyll am swydd, a oedd yn cynnwys lleihau oriau o waith cyflogedig i ymgyrchu ar gyfer etholiad a bod hunangyllido ymgyrch yn allgáu pobl ar incwm isel.

Ar ôl cael eu hethol, mae'n rhaid i ASau sefydlu eu swyddfeydd a hurio staff. Disgrifiodd yr aelodau eu bod yn rhoi eu holl ymdrech i gael eu hethol ac yna ei bod hi'n sioc dod yn gyflogwr, hurio staff, dod o hyd i swyddfa, a mynd drwy gyfnod sefydlu dwys, pan oeddent yn ceisio dod i ddeall gofynion y rôl newydd. Disgrifiwyd y cyfnod hwn fel un prysur iawn a llawn straen, ac yn rhywbeth roedd ymgeiswyr yn dymuno y byddent wedi cael eu paratoi ar ei gyfer, gan eu pleidiau neu Gomisiwn y Senedd, ymlaen llaw.

Yn achos yr Aelodau presennol roedd rhai rhwystredigaethau mewn perthynas â'r rheolau presennol ar hawlio lwfansau. Mae cyflogau a lwfansau aelodau (sy'n cwmpasu eitemau fel llety, prydlesi swyddfa, cyflogi staff, tocynnau teithio a deunyddiau digwyddiadau neu gyhoeddusrwydd) yn cael eu pennu gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol mewn 'Penderfyniad', ac fe'u gweinyddir gan Wasanaethau'r Comisiwn. Roedd y pryderon a godwyd yn cynnwys nad yw lwfansau llety yn cwmpasu llety teuluol, lwfansau teithio teuluol, cysondeb y cyngor a'r broses ar gyfer hawlio treuliau. Trafododd yr Aelodau hefyd y cymorth sydd ar gael mewn perthynas â hurio staff, hyfforddiant a sefydlu.

Ar ôl ymgynghori'n helaeth â'r Aelodau a'r Prif Chwipiau, gosododd y Bwrdd Taliadau Annibynnol Benderfyniad newydd ar gyfer y Seithfed Senedd, ym mis Gorffennaf 2025.[127] Gan fod ein gwaith ymchwil gyda'r Aelodau wedi digwydd rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2025, roedd yr Aelodau yn cyfeirio at y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd yn ein trafodaethau.

Yn ein hamserlen, ni fu'n bosibl archwilio a gwerthuso canfyddiadau Aelodau'r Chweched Senedd, o ran y newidiadau y cytunwyd arnynt i'r Penderfyniad ar gyfer y

[127] https://busnes.senedd.cymru/documents/s169249/Ymgynghoriad%20-%20Penderfyniad%20Drafft%20ar%20gyfer%20y%20Seithfed%20Senedd.pdf, https://remunerationboard.wales/media/1pgfppko/final-summary-of-the-determination.pdf

Seithfed Senedd. Gan hynny, bydd canfyddiadau'r ymchwil yn cael eu crynhoi a'u rhannu â'r Bwrdd Taliadau Annibynnol a Gwasanaethau Comisiwn y Senedd, a fydd yn cynnal adolygiad o'r Penderfyniad yn gynnar yn y Seithfed Senedd.

## Argymhelliad y Bwrdd:

Argymhelliad: Dylai Comisiwn y Senedd:

- ystyried crynodeb o'r dystiolaeth a gasglwyd yn yr adolygiad hwn sy'n ymwneud â phrofiadau Aelodau o geisio ad-daliad o gostau o dan y Penderfyniad, eu dealltwriaeth o'r rheolau, ac ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r materion a godwyd ar y cyd â'r Bwrdd Taliadau Annibynnol;
- ymgymryd â theithiau profiad Aelodau yn rheolaidd, megis y rheini a gynhaliwyd yn gynnar yn y Chweched Senedd, er mwyn deall profiadau bywyd yr Aelodau, a nodi meysydd sy'n peri anhawster i Aelodau a'r hyn a allai fod yn achosi'r rheini; a hefyd
- parhau i sicrhau bod hawliadau sy'n ymwneud â chyfrifoldebau gofalu yn cael eu cyhoeddi ar sail gyfanredol a dienw, er mwyn osgoi adnabod unigolion ac i ystyried materion cydraddoldeb wrth benderfynu ar y polisi sy'n ymwneud â chyhoeddi costau.

Argymhelliad: Dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd barhau i fabwysiadu dull rhagweithiol o ran darparu canllawiau a chymorth ar:

- sefydlu swyddfeydd a chyflogi staff;
- darparu addasiadau rhesymol yn adeiladau'r Senedd, mewn digwyddiadau ac yn swyddfeydd yr Aelodau.

# Casgliadau ac argymhellion

Mae'r tîm ymchwil yn teimlo'n freintiedig o fod wedi cynnal yr ymchwil a'r asesiad hwn o'r Senedd ar sail y safonau rhyngwladol ar gyfer cydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn seneddau. Wrth gwrs, rydym wedi mynd gam ymhellach ac wedi ceisio ymgorffori dulliau a ffyrdd o brif ffrydio cydraddoldeb yn ein gwaith.

Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu ag Aelodau'r Senedd a Chomisiwn y Senedd i ddysgu am sut beth yw bywyd Aelod o'r Senedd, a'r rheolau a'r prosesau sy'n llywodraethu swydd gyhoeddus. Rydym yn ddiolchgar iddynt am eu hamser, a'u brwdfrydedd i gydnabod ac adeiladu ar uchelgeisiau'r Senedd i fod yn senedd sy'n ystyriol o deuluoedd o'r radd flaenaf yn y byd. Mae llawer o arferion da yng ngweithrediad busnes y Senedd ac yng nghefnogaeth y Comisiwn, ond fel ymchwilwyr sydd â'r dasg o asesu, byddwn bob amser yn nodi argymhellion ymestynnol, sydd wedi eu cynllunio i hyrwyddo cydraddoldeb o ran cynrychiolaeth, cyfranogiad, diwylliant ac wrth ddeddfu.

Nid yw 'sefyll etholiad ar gyfer y Senedd' tra bo plant yn yr ysgol gynradd yn cael ei ystyried yn opsiwn ymarferol gan lawer o Aelodau o'r Senedd sydd wedi bod yn brif ddarparwr gofal plant ar hyn o bryd. Gan mai menywod yn bennaf yw'r prif ofalwyr, mae anghydraddoldeb cynrychiolaeth ymhlith menywod iau yn parhau. Roedd rhai Aelodau, menywod yn bennaf, yn rheoli gofal dros bobl hŷn ochr yn ochr â chymorth i blant neu wyrion. Trafododd dynion a menywod eu cyfrifoldebau gofalu a chydnabod cymaint o help y mae gweithio rhithwir a phleidleisio dirprwyol wedi bod.

Fodd bynnag, mae mynediad i Aelodau'r dosbarth gweithiol yn cael ei rwystro gan gyllid. Cyfeiriodd yr aelodau at ddiffyg amrywiaeth mewn perthynas â statws economaidd-gymdeithasol, lleiafrifoedd ethnig, pobl LHDTC a phobl anabl, y gallai eu gwybodaeth lywio gwell penderfyniadau, ac yn y pen draw ganlyniadau gwell i bobl Cymru, pe bai cynrychiolaeth ehangach.

Mae ein hargymhellion yn cyd-fynd â'r weledigaeth wreiddiol ar gyfer democratiaeth gynhwysol yng Nghymru - ar gyfer cenedlaethau'r presennol a rhai'r dyfodol. Er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu, bydd angen cytuno ar Fwrdd Adolygu Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd yn y Seithfed Senedd. Mae hyn yn dod â ni at argymhelliad olaf FFIPR, ond efallai y pwysicaf ohonynt i gyd.

## Argymhellion y Bwrdd:

- Sefydlu Bwrdd Gweithredu Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd, gyda chynrychiolaeth drawsbleidiol, i oruchwylio'r broses o weithredu argymhellion yr Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd ar unwaith, ac wrth i'r Seithfed Senedd fynd rhagddi. [128]

## Argymhellion Bwrdd FFIPR

- Dylai'r Senedd a'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod unrhyw adolygiad statudol o effaith y system etholiadol newydd o ganlyniad i adran 19 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 yn cynnwys asesiad o'i effaith ar amrywiaeth a chynhwysiant. Dylai hefyd ystyried unrhyw achosion o anghydbwysedd sydd wedi codi a gwneud argymhellion ar sut y gellir mynd i'r afael â'r rheini.

    - Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru geisio Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, o dan adran 109 o **Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**, yn galw am ddatganoli cymhwysedd mewn perthynas â deddfwriaeth ar fesurau i gefnogi amrywiaeth ymgeiswyr etholiadol, a gosod y Gorchymyn arfaethedig o dan Reol Sefydlog 25. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried unrhyw lwybrau cyfreithiol eraill y gellir eu dilyn, er mwyn cael cefnogaeth mwyafrif y Senedd o blaid mecanweithiau statudol i sicrhau cydbwysedd o ran rhywedd ymhlith ymgeiswyr etholiadol.

    - Dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd gasglu data demograffig ar draws holl nodweddion gwarchodedig Aelodau o'r Senedd pan fyddan nhw'n dod i'r Senedd yn y lle cyntaf, er mwyn hwyluso dadansoddiad cydraddoldeb o gynrychiolaeth. Dylai hyn gynnwys dangosyddion o statws economaidd-gymdeithasol (megis galwedigaethau rhieni, statws o ran tai, ysgolion yr aed iddynt) a dadansoddiad croestoriadol.

Cynnal Adolygiad pellach yn ystod y Seithfed Senedd o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd, o fewn amserlen sy'n darparu ar gyfer ei gwmpas i gynnwys pleidiau gwleidyddol, staff yr Aelodau, staff gwasanaethau Comisiwn y Senedd, ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

- Dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd gasglu data ar gynhwysiant mewn dadleuon yn y Cyfarfod Llawn yn ôl nodweddion gwarchodedig. Dylai hynny gynnwys cyfraniadau, torri ar draws, ymyriadau ac a dderbynnir ceisiadau am ymyriadau, ac a wneir cyfraniadau yn y cnawd neu ar-lein, ac yn y Gymraeg neu'r

---

[128] Cytunodd mwyafrif y Bwrdd â'r argymhelliad hwn. Nid oedd un aelod o'r Bwrdd, Peter Fox AS, yn cytuno â'r argymhelliad hwn.

Saesneg. Dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried adolygiad blynyddol o ddata cyfranogiad.[129]

- Dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried pa newidiadau y gellir eu gwneud i'r Rheolau Sefydlog i wella cynhwysiant ar bwyllgorau. Byddai hynny'n seiliedig ar y canlynol: dim pwyllgorau un rhywedd, a/neu sicrhau cydbwysedd o ran rhywedd ym mhob pwyllgor cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, gan adlewyrchu cydbwysedd o ran rhywedd cyffredinol yr Aelodau, neu'r cydbwysedd o ran rhywedd ar ôl i rolau'r Cabinet gael eu tynnu o'r cyfrifiad.

- Dylai Bwrdd Gweithredu'r Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd fonitro unrhyw ehangiad o ran nifer a maint y pwyllgorau yn y Seithfed Senedd, ac felly nifer y pwyllgorau y disgwylir i Aelodau wasanaethu arnynt.

Dylai Comisiwn y Senedd adrodd ar y niferoedd sy'n manteisio ar yr hyfforddiant, a'i effeithiolrwydd, i'r Pwyllgor Busnes a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

- Argymhelliad: Dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd roi dull effeithiol ar waith o rybuddio'r Llywydd ar unwaith pan fydd Aelod sy'n cymryd rhan ar-lein yn gofyn am ymyrraeth, er enghraifft 'botwm y Llywydd' – tebyg i'r un a ddefnyddir yn Senedd yr Alban.

Dylai pob pwyllgor ystyried ei ddata amrywiaeth o ran tystiolaeth yn flynyddol. Dylid cyflwyno adroddiadau i Fforwm y Cadeiryddion, a ddylai barhau i fonitro'r data amrywiaeth o ran tystiolaeth yn flynyddol.

Yn seiliedig ar gynnig gan y Llywydd, dylai'r Senedd gadarnhau polisi absenoldeb rhiant, sy'n cwmpasu absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu a chamesgoriad. Byddai hynny'n seiliedig ar y canlynol:

- trafodaeth rhwng grwpiau gwleidyddol, ac
- wedi ei lywio gan:
    - ystyriaeth y Pwyllgor Busnes;
    - trafodaeth gyda'r Bwrdd Taliadau Annibynnol; a hefyd

[129] Nodwn fod ymarfer wedi'i gynnal cyn hyn yn Senedd yr Alban dros gyfnod o chwe wythnos rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2022 i gasglu data amser real ar nifer yr ymyriadau a geisiwyd, nifer yr ymyriadau a dderbyniwyd a'r rhai nas derbyniwyd, a rhaniad y data o ran rhywedd. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol y gallai technoleg neu ddeallusrwydd artiffisial ddarparu atebion yn hytrach na neilltuo adnoddau staff gwasanaethau Comisiwn y Senedd i gofnodi'r data, o reidrwydd.

- arfer gorau sydd wedi’i nodi gan wasanaethau Comisiwn y Senedd o ran absenoldebau, gan gynnwys yr arfer mewn Seneddau eraill.

Byddai’r polisi hwn yn:

- cwmpasu’r modd y mae’r trefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer Aelodau beichiog yn cael eu cynnwys mewn perthynas â gweithio yn y Senedd a thu allan iddi, gan gynnwys unrhyw eiddo, staff neu wasanaethau sy'n ofynnol;
- rhoi canllawiau i Aelodau wrth benderfynu ar hyd absenoldebau a threfniadau eraill; a hefyd
- cwmpasu materion gweithdrefnol perthnasol presennol megis pleidleisio drwy ddirprwy – gan gynnwys yr amser hwyaf sydd ar gael i bleidleisio drwy ddirprwy.
- Yn dilyn cytundeb ar y polisi hwn, dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd sicrhau bod gwybodaeth a chanllawiau arno ar gael i Aelodau, a chymryd camau i’w gyhoeddi. Dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd hefyd ddarparu ar gyfer person/personau y gall Aelodau gysylltu â hwy i gael arweiniad ar faterion sensitif sy’n ymwneud â'r polisi hwn. Dylai Aelodau hefyd allu ceisio arweiniad ar agweddau perthnasol ar Benderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol (megis y lwfans ar gyfer staff ychwanegol i gwmpasu gwaith).
- Os sefydlir pwyllgor o dan adran 7 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), i archwilio’r posibilrwydd o rannu swyddi yn y dyfodol, dylai archwilio’r potensial i Aelod Locwm allu ymgymryd â holl ystod gwaith Aelod, gan gynnwys busnes y Senedd, tra nad yw Aelod ar gael.
- Gwahoddir y Llywydd a’r Pwyllgor Busnes i ystyried cyflwyno eitem ‘Cyhoeddiadau’ rheolaidd ar yr agenda ar ddechrau pob Cyfarfod Llawn a fyddai'n rhoi mwy o welededd i’r hyn a allai fod yn digwydd ym mywydau personol yr Aelodau. Mae hyn yn arfer cyffredin mewn llywodraeth leol ac yn rhoi cyfle i gydymdeimlo, llongyfarch, a chydnabod materion personol eraill.
- Dylai’r Pwyllgor Busnes sefydlu gweithdrefn i Aelodau sy’n gadael y Cyfarfod Llawn mewn argyfwng (gyda diffiniad penodol o'r hyn sy’n cyfrif fel argyfwng). Os bydd yn rhaid i Aelod adael mewn argyfwng, ni ddylai canlyniad pleidlais ddibynnu ar allu’r Aelod hwnnw i baru ag Aelod arall ar fyr rybudd.
- Dylai’r Pwyllgor Busnes bennu amser gorffen rhagweladwy, sy’n ystyriol o deuluoedd, ar gyfer y Cyfarfod Llawn. Dylai gwyriadau oddi wrth yr amser gorffen hwn fod yn eithriadol, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i Aelodau os yw

sesiynau'n debygol o redeg y tu hwnt i'r amser hwn. Dylai fod darpariaeth ar gyfer cynnal busnes nas cyflawnwyd erbyn diwedd un Cyfarfod Llawn yn yr un nesaf. Dylai'r Pwyllgor Busnes adolygu data ar amseroedd gorffen y Cyfarfod Llawn, yn enwedig eisteddiadau hwyr, yn rheolaidd. Dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried hynny ochr yn ochr â'r data monitro cyfranogiad yn y Cyfarfodydd Llawn er mwyn galluogi ystyriaeth o effaith amseriad y cyfarfodydd llawn ar gyfranogiad.

- Dylai'r Pwyllgor Busnes ddiogelu'r dewis i gymryd rhan yn rhithwir ym Musnes y Senedd yn y Senedd nesaf, gan gadarnhau bod gan hynny yr un gwerth â bod yno yn y cnawd. Dylid monitro a yw'r defnydd o weithio hybrid yn effeithio ar allu menywod i gael dyrchafiad.
- Dylai'r Senedd ymrwymo i'r egwyddor o Senedd fel sefydliad sy'n hygyrch, yn gynhwysol ac yn ystyriol o deuluoedd.
- Dylai Comisiwn y Senedd ymrwymo i egwyddor darpariaeth gofal plant yn y Senedd i Aelodau, staff a thystion a hefyd – erbyn o leiaf blwyddyn gyntaf y Seithfed Senedd – dylai fod wedi archwilio a datblygu pob opsiwn. Dylai fod ystafell bwrpasol ar gyfer bwydo ar y fron.

Argymhelliad: Dylai'r Pwyllgor Busnes, mewn cydweithrediad â grwpiau gwleidyddol, ddatblygu diffiniad o rôl Prif Chwip (yn wahanol i Reolwr Busnes). Gall hyn gynnwys materion megis cynllunio deddfwriaethol, disgyblaeth seneddol a chefnogi llesiant Aelodau eu grŵp.

Dylai'r Pwyllgor Busnes a'r Llywydd gynnwys, yn weithredol, Bwrdd Gweithredu'r Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd mewn trafodaethau ar gynigion diwygio'r Seithfed Senedd, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hasesu o ran effaith ar gydraddoldeb, cyn eu cyflwyno i'r Senedd i benderfynu arnynt. Byddai hyn yn cynnwys cynigion ar gynllunio'r wythnos fusnes, treialon rhannu swyddi a newidiadau eraill i'r ffordd y mae'r Aelodau yn cynnal busnes. Dylai unrhyw newidiadau sylweddol fod yn destun 'profion senario' o safbwynt hyrwyddo arferion gweithio sy'n gynhwysol ac yn ystyriol o deuluoedd.

Dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd barhau i ddarparu hyfforddiant parhaus (yn raddol ac wedi'i ailadrodd) ar y canlynol:

- y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd a'r polisi Urddas a Pharch;

- y confensiynau a'r rheolau ar gyfer cynnal busnes y Senedd, gan gynnwys cymryd rhan yn y Cyfarfod Llawn a phwyllgorau, o ran torri ar draws, ymyriadau ac ymddygiad derbyniol (gan gynnwys y ffordd y gofynnir cwestiynau);
- ymdrin â chwynion staff, gan gynnwys mewn perthynas ag aflonyddu rhywiol a bwlio;
- meithrin gwydnwch; a hefyd
- hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant wrth ryngweithio ac wrth ddeddfu.

Argymhelliad: Dylai Bwrdd Gweithredu'r Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd ymgysylltu â'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a'i olynydd yn y Senedd nesaf, yn enwedig mewn perthynas â'r canlynol:

- y cynnig ar gyfer un pwynt cyswllt ar gyfer canllawiau, cyngor a chymorth ymarferol sy'n ymwneud â phob math o aflonyddu a cham-drin, (gan y cyhoedd a'r rheini yn y Senedd) ar gyfer Aelodau, Staff Cymorth a staff y Comisiwn;
- y cynigion ar gyfer "Rôl Gwarcheidwad", cynghorydd lled-annibynnol (tebyg i fodel y GIG) ar gyfer urddas a pharch; a hefyd
- y gwerthusiad o "Hwb yr Aelodau" a fydd yn cael ei gynnal gan Gomisiwn y Senedd.

- Bod cynnig yn cael ei gyflwyno yn y Senedd nesaf, gan y Llywydd (neu aelod arweiniol arall), i roi cyfarwyddiadau i'r perwyl bod yn rhaid i Gomisiwn y Senedd fynd i'r afael â cham-drin Aelodau ar-lein, ac adrodd i'r Senedd ar effeithiolrwydd ei ddull yn flynyddol. Rhaid i hyn gynnwys monitro cyfryngau cymdeithasol a/neu asesiadau o fregusrwydd ar-lein, a dylai gadw i fyny ag arloesiadau technolegol. Dylai gwmpasu nodi camdriniaeth sy'n is na'r trothwy 'bygythiol' – ond sy'n dal i fod yn gamdriniol ac yn fygythiad i ddemocratiaeth – a mynd i'r afael â hynny.

- Dylai Comisiwn y Senedd ystyried sut i adeiladu ar ei ddull ataliol o ymdrin â diogelwch. Byddai hynny'n cynnwys adolygu ei ddarpariaethau a'i brotocolau diogelwch yn unol â chynnig y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar gyfer rôl Gwarcheidwad. Byddai'n cynnwys sicrhau bod canllawiau clir a chyson ar gael yn rhwydd i Aelodau i gynorthwyo eu dealltwriaeth o brosesau ar gyfer adrodd, atal ac ymateb i gam-drin all-lein ac ar-lein, a thrais gan y cyhoedd. Mae hefyd yn hanfodol bod cyfathrebiadau ynghylch diogelwch yn mynd at bob Aelod.

- Dylai Comisiwn y Senedd sefydlu Tasglu 'Cyfranogiad Diogel mewn Gwleidyddiaeth'[130] i oruchwylio a chomisiynu gwaith parhaus ynghylch cam-drin ac aflonyddu Aelodau. Dylai'r Tasglu:
    - gomisiynu adolygiad ac adroddiad annibynnol ar gam-drin ac aflonyddu Aelodau o'r Senedd a'u staff gwleidyddol, a monitro ac adrodd yn barhaus ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â cham-drin Aelodau ar-lein, gan gynnwys data a gasglwyd wrth fonitro cyfryngau cymdeithasol fel rhan o'r prosiect peilot; a hefyd
    - gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol i asesu'r difrod a berir gan drais, cam-drin ac aflonyddu gwleidyddion, i ymgysylltu â'r cyhoedd ac, yn ei dro, i ddemocratiaeth
    - Gweithio gyda Bwrdd Gweithredu FFIPR, y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a Chomisiwn y Senedd i gynghori ar 'Bolisi Ymddygiad Annerbyniol Dinasyddion' a 'Pholisi Cyfryngau Cymdeithasol' sydd ar gael i'r cyhoedd. Dylai ystyried sut byddai'r rhain yn cael eu gorfodi, fel bod dinasyddion sy'n cam-drin Aelodau yn wynebu canlyniadau am eu gweithredoedd.
- Dylai Comisiwn y Senedd gynnal cyfweliadau neu arolwg gyda phob Aelod sydd wedi ymddiswyddo neu nad ydynt wedi dychwelyd i'r Seithfed Senedd yn ystod haf 2026. Dylai hyn gynnwys cwestiynau ynghylch eu profiadau o drais, cam-drin ac aflonyddu, ac archwilio'r ffactorau a ddylanwadodd ar eu penderfyniadau i beidio ag ailsefyll, gan gynnwys unrhyw gyfrifoldebau gofalu.
- Dylai'r Pwyllgor Busnes ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i fandadu Pwyllgor Cydraddoldeb pwrpasol neu Bwyllgor Cydraddoldeb gyda chylch gorchwyl neu swyddogaethau penodol mewn perthynas â goruchwylio cydraddoldebau. Nid yw hyn yn disodli'r ddyletswydd ar bwyllgorau eraill i gymryd cyfrifoldeb dros brif ffrydio gwaith craffu ar gydraddoldeb yn eu gwaith, fel y nodwyd uchod.
- Dylai pwyllgorau'r Senedd ofyn i Wasanaeth Ymchwil Comisiwn y Senedd ddarparu adolygiad prif ffrydio cydraddoldeb o bob Bil y maent yn craffu arno.
- Dylai pob pwyllgor gynnal un cyfarfod bord gron ar fodel prif ffrydio cydraddoldeb[131] yn ystod tymor pedair blynedd. Dylai Comisiwn y Senedd

[130] Rydym yn rhagweld y byddai'n cynnwys Aelodau o'r Senedd, Staff Comisiwn y Senedd (gan gynnwys Diogelwch y Senedd), Staff Gwleidyddol, arbenigwyr allanol, heddluoedd Cymru, a chyfranwyr allweddol eraill.

[131] Cafodd model prif ffrydio rhywedd arfaethedig ei brofi yn 2010, o ran ei allu i ddatgelu anghydraddoldeb croestoriadol. Mae'r model aml-linyn, cydweithredol a ddeilliodd o hynny yn rhoi

sicrhau bod gan ei wasanaethau gapasiti priodol i gefnogi ymgysylltiad y pwyllgor â phanel prif ffrydio cydraddoldeb (gan gynnwys sefydliadau cydraddoldeb, undebau llafur, melinau trafod, cyrff sector yn ôl y perthnasedd i'r maes polisi gan weithio gyda'r pwyllgor ar y prosesau casglu tystiolaeth a chanolbwyntio ar atebion.

- Dylai'r pwyllgor sy'n gyfrifol am gydraddoldeb ddefnyddio Gwasanaeth Ymchwil Comisiwn y Senedd i gynnal, neu gomisiynu drwy'r Cynllun Cymrodoriaeth Academaidd, adolygiad prif ffrydio cydraddoldeb o'r Rhaglen Lywodraethu. Byddai'r adolygiad desg hwn yn asesu'r potensial i'r Rhaglen leddfu'r anghydraddoldebau presennol. Byddai'r adolygiad, wedyn, yn cael ei ystyried gan y pwyllgor sydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldebau, a fyddai'n lledaenu cyngor i'r pwyllgorau eraill.
- Dylai pob Pwyllgor gynnal gwaith craffu rheolaidd ar dystiolaeth cydraddoldeb yn ei ymchwiliadau. Dylai Fforwm y Cadeiryddion a gwasanaethau Comisiwn y Senedd gefnogi hyn, drwy ddarparu pecyn cymorth sy'n cynnwys, er enghraifft: rhestr wirio cydraddoldeb at ddibenion cylch gwaith, canllawiau prif ffrydio cydraddoldeb, data wedi'u dadgrynhoi, arbenigedd ym maes cydraddoldeb mewnol ac allanol, a chanllawiau/data amrywiaeth tystion. Dylai Fforwm y Cadeiryddion adolygu effeithiolrwydd y dull yn rheolaidd.
- Dylai Comisiwn y Senedd ddarparu hyfforddiant rheolaidd i Aelodau ynghylch gwaith craffu ar brif ffrydio cydraddoldebau.
- Comisiwn y Senedd i sicrhau bod ganddo adnoddau a chyllideb briodol ar gyfer ymchwil ychwanegol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb yn ôl yr angen.
- Dylai fod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru hysbysu'r pwyllgor perthnasol pan fydd asesiad o effaith ar gydraddoldeb Bil wedi'i gyhoeddi.
- Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried creu dyletswydd prif ffrydio cydraddoldeb, fel rhan o'i chyfres o Ddyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru. Byddai'r ddyletswydd prif ffrydio yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru adrodd bob tair blynedd ar sut y mae prif ffrydio cydraddoldeb o fewn eu sefydliadau wedi gwella arweinyddiaeth, swyddogaethau gweithredol, llunio polisïau ar gyfer cydraddoldeb, darparu gwasanaethau cyhoeddus yn deg, a chyflawni eu rhwymedigaethau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru.

strwythur i ymholiadau croestoriadol, yn rhoi'r gallu i integreiddio dulliau cydraddoldebau a hawliau dynol ac yn cefnogi modd o flaenoriaethu heb i anghydraddoldeb gael ei gyfyngu i 'linynnau' penodol.

- Dylai'r pwyllgor sydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldebau geisio asesiad o gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â chydraddoldeb a hawliau dynol, yn enwedig y potensial i ddatganoli cyfrifoldeb dros weithredu a monitro Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i Lywodraeth Cymru. Dylai'r adolygiad hefyd ystyried, pe bai Deddf Cydraddoldeb yn cael ei diddymu, a fyddai gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu er mwyn gosod dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus (mewn modd tebyg i bwerau presennol Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).
- Dylai'r Pwyllgor Busnes ddiwygio Rheolau Sefydlog i orfodi cawcws seneddol menywod sy'n cynnwys menywod (a dynion, pe dymunir) yn gweithio ar agenda y cytunwyd yn gyffredin arni.
- Dylai Comisiwn y Senedd barhau i benderfynu bod gan un Comisiynydd gyfrifoldeb dros gyfle cyfartal yn y dyfodol.
- Comisiwn y Senedd i ddynodi un o Uwch-swyddogion y Comisiwn i arwain gwaith gwasanaethau Comisiwn y Senedd ar brif ffrydio cydraddoldeb [gan gynnwys y gofynion o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 2, adran 8(1), bod rhaid i Gomisiwn y Senedd wneud trefniadau priodol â'r bwriad o sicrhau bod ei swyddogaethau'n cael eu harfer gan roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb].

Dylai Comisiwn y Senedd:

- ystyried crynodeb o'r dystiolaeth a gasglwyd yn yr adolygiad hwn sy'n ymwneud â phrofiadau Aelodau o geisio ad-daliad o gostau o dan y Penderfyniad, eu dealltwriaeth o'r rheolau, ac ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r materion a godwyd ar y cyd â'r Bwrdd Taliadau Annibynnol;
- ymgymryd â theithiau profiad Aelodau yn rheolaidd, megis y rheini a gynhaliwyd yn gynnar yn y Chweched Senedd, er mwyn deall profiadau bywyd yr Aelodau, a nodi meysydd sy'n peri anhawster i Aelodau a'r hyn a allai fod yn achosi'r rheini; a hefyd
- parhau i sicrhau bod hawliadau sy'n ymwneud â chyfrifoldebau gofalu yn cael eu cyhoeddi ar sail gyfanredol a dienw, er mwyn osgoi adnabod unigolion ac i ystyried materion cydraddoldeb wrth benderfynu ar y polisi sy'n ymwneud â chyhoeddi costau.

Dylai gwasanaethau Comisiwn y Senedd barhau i fabwysiadu dull rhagweithiol o ddarparu canllawiau a chymorth ar:

- sefydlu swyddfeydd a chyflogi staff;
- darparu addasiadau rhesymol yn adeiladau'r Senedd, mewn digwyddiadau ac yn swyddfeydd yr Aelodau.

Sefydlu Bwrdd Gweithredu Senedd sy’n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd, gyda chynrychiolaeth drawsbleidiol, i oruchwylio’r broses o weithredu argymhellion yr Adolygiad o Senedd sy’n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd ar unwaith, ac wrth i’r Seithfed Senedd fynd rhagddi.[132]

[132] Cytunodd mwyafrif y Bwrdd â’r argymhelliad hwn. Nid oedd un aelod o’r Bwrdd, Peter Fox AS, yn cytuno â'r argymhelliad hwn.

# Geirfa

**Cydraddoldeb i bawb:** Fel amcan Dyletswydd Prif Ffrydio Cydraddoldeb Cymru (gweler isod), mae cyflawni cydraddoldeb i bawb yn cyfeirio at ddileu anghydraddoldeb a hyrwyddo cydraddoldeb i bob unigolyn waeth beth fo'u nodweddion personol. Wrth wireddu'r amcan hwn, ni fyddai nodweddion personol unigolyn yn effeithio ar eu cyfleoedd mewn bywyd.

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** Yn unol â dyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru (a gyflwynwyd i ategu gweithgarwch Cymru yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010), mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf gynnal a chyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Bwriad hyn yw asesu effeithiau tebygol polisïau arfaethedig neu newidiadau polisi o safbwynt cydraddoldeb. Mae'n ofynnol i'r cyrff cyhoeddus hyn hefyd ymgysylltu â grwpiau sy'n debygol o gael eu heffeithio a monitro effeithiau gwirioneddol.

**Prif Ffrydio Cydraddoldeb:** Fel y'i mabwysiadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2005, mae prif ffrydio cydraddoldeb yn ymwneud ag integreiddio parch at amrywiaeth ac egwyddorion, strategaethau ac arferion cyfle cyfartal i waith bob dydd y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill. Mae'n golygu y dylid cynnwys materion cydraddoldeb o'r cychwyn cyntaf fel rhan annatod o'r broses o lunio polisïau a darparu gwasanaethau, a dylai cyflawni cydraddoldeb lywio pob agwedd ar waith pob unigolyn o fewn sefydliad. Dylid mesur llwyddiant prif ffrydio drwy werthuso a yw anghydraddoldebau wedi eu lleihau.

Mae Prif Ffrydio Cydraddoldeb wrth wraidd y 'ffordd unigryw Gymreig' o ddileu anghydraddoldeb a hyrwyddo cydraddoldeb i bawb.

**Rhywedd**: Rydym yn deall bod rhywedd yn fframwaith cymdeithasol sy'n creu anghydraddoldebau ar sail rhyw. Mae rolau, priodoleddau, sgiliau ac ymddygiadau â gwerth gwahanol yn cael eu priodoli'n stereoteip i ddynion a menywod drwy strwythurau, sefydliadau a rhagdybiaethau diwylliannol cymdeithas. Yn y ffyrdd hyn, mae rhywedd yn gweithredu fel echel allweddol o anghydraddoldeb gan arwain at anghydraddoldebau yn y gymdeithas ac o ran yr economi a phŵer.

**Prif ffrydio rhywedd:** Fel y'i sefydlwyd fel norm llywodraethu da gan Gyngor Ewrop ym 1998, mae prif ffrydio rhywedd yn broses ar gyfer herio anghydraddoldeb rhywedd ar lefel strwythurol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol bod cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn cael ei hyrwyddo ym mhob cam o wneud penderfyniadau ac ar draws meysydd polisi, gan y rhai sydd fel arfer yn ymwneud â gwneud penderfyniadau, drwy ddefnyddio amrywiaeth o offer ac arferion polisi. Mae'r amrywiadau mwyaf trawsnewidiol o brif ffrydio rhywedd yn mynnu bod lleisiau 'arbenigwyr drwy brofiad' yn llunio'r agenda bolisi ei hun, yn hytrach nag 'ychwanegu menywod' at agendâu polisi presennol.

**Prif Ffrydio Dyletswydd Cydraddoldeb:** Mae'r ddyletswydd hon yn unigryw i Gymru ac yn sail i sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999. Yn unol ag Adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, rhaid i’r Cynulliad wneud trefniadau priodol gyda golwg ar sicrhau bod ei swyddogaethau’n cael eu harfer gan ystyried yr egwyddor y dylid sicrhau cyfle cyfartal i bawb. Yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, rhoddwyd cyfrifoldeb am weithredu'r ddyletswydd hon ar Weinidogion Cymru, ac mae'n rhaid iddynt adrodd ar gynnydd yn flynyddol.

**Senedd gynhwysol**: Ein dealltwriaeth o Senedd gynhwysol yw un sy'n hygyrch, yn gynrychioliadol ac yn ymatebol i'r gymdeithas gyfan mae'n ei gwasanaethu.

**Croestoriadedd**: Mae croestoriadedd yn cydnabod nad yw echelinau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol anghydraddoldeb yn gweithredu ar eu pen eu hunain ond yn hytrach yn rhyngweithio ac yn gorgyffwrdd â'i gilydd mewn ffyrdd cymhleth. Cyflwynwyd y cysyniad drwy waith arloesol gan yr Athro Kimberlé Crenshaw ddiwedd y 1980au ac ers hynny mae wedi dod yn fframwaith craidd ar gyfer dadansoddi anghydraddoldeb. Mae dull croestoriadol yn sail i'r 'ffordd unigryw Gymreig' o hyrwyddo cydraddoldeb i bawb, gan ddechrau gydag archwiliad o'r ystyriaethau anghydraddoldeb perthnasol mewn maes polisi, a’u rhyngweithiadau, yn hytrach na dechrau ymchwiliad o un set o anghydraddoldeb ac ychwanegu eraill.

**Nodweddion Gwarchodedig:** Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 naw o nodweddion gwarchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

**Dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus:** Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 Ddyletswydd Gyffredinol (adran 149) sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus rhestredig ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall, hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt, a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

**Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol i Gymru:** Er mwyn bodloni gofynion Dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus, cyflwynodd Llywodraeth Cymru reoliadau penodol yng Nghymru: Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Cyfeirir at y rhain yn gyffredinol fel dyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru. Maent yn cynnwys gofynion (*ymhlith pethau eraill)* mewn perthynas â monitro effeithiau polisi, gosod amcanion cydraddoldeb, mynd i'r afael â'r bwlch cyflog

rhwng y rhywiau, cyhoeddi adroddiadau blynyddol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol ac ati (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2025).[133]

[133] https://www.equalityhumanrights.com/cy/arweiniad/public-sector/public-sector-equality-duty/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus

# Atodiad 1: Polisïau, arferion a gweithdrefnau’r Senedd a Chomisiwn y Senedd, a’r Penderfyniad

1. Mae'r atodiad hwn wedi'i lunio gan ysgrifenyddiaeth y Bwrdd, yn seiliedig ar wybodaeth a gafodd y Bwrdd gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd. Mae'n darparu gwybodaeth am faterion sy'n berthnasol i faterion penodol a nodwyd yn yr Adolygiad o Senedd sy’n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd. Nid yw’n drosolwg cynhwysfawr o bolisïau, arferion a gweithdrefnau perthnasol y Senedd neu Gomisiwn y Senedd, a'r darpariaethau yn y Penderfyniad a bennir gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol, ac nid yw’n ceisio bod yn drosolwg cynhwysfawr o’r elfennau hyn.

2. Er enghraifft, tra bod y Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant, y polisi cyfryngau cymdeithasol neu’r cod ymddygiad ymwelwyr o ran diogelwch gan Gomisiwn y Senedd, mewn ffyrdd amrywiol, yn berthnasol i faterion gwahanol a nodwyd yn yr adroddiad, ni chyfeirir atynt yn benodol, ac felly ni chânt eu nodi'n fanwl yma.

## Monitro amrywiaeth tystiolaeth pwyllgorau

3. Yn 2021, fe wnaeth cadeiryddion pwyllgorau’r Senedd **argymell** y dylid casglu data ar bwy sy'n ymgysylltu â phwyllgorau'r Senedd. Roedd **adolygiad Stirbu 2021** o effeithiolrwydd pwyllgorau’r Senedd hefyd yn argymell y dylid monitro amrywiaeth tystiolaeth pwyllgorau.

4. Rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Ebrill 2022, cynhaliodd pwyllgorau’r Senedd brosiect peilot i fonitro amrywiaeth tystiolaeth pwyllgorau. Cynhaliwyd ail gynllun peilot rhwng mis Hydref 2022 a mis Mai 2023. Ar 3 Gorffennaf 2023, ystyriodd Fforwm y Cadeiryddion ganlyniadau'r ail gynllun peilot, a chytunodd i gasglu'r data hyn yn rheolaidd o fis Medi 2023.

5. O ganlyniad, mae Gwasanaethau Comisiwn y Senedd yn monitro ystod o ddata ar ran pwyllgorau’r Senedd, gan gynnwys cydbwysedd o ran rhywedd, a chefndir economaidd-gymdeithasol tystion sy’n ymwneud â gwaith pwyllgorau, yn ogystal â defnydd o’r Gymraeg yn y Cyfarfod Llawn a phwyllgorau, yn unol â’i Chynllun Ieithoedd Swyddogol.

6. Mae monitro yn seiliedig ar arolwg gwirfoddol, dienw sy'n cael ei anfon at bobl sy'n rhoi tystiolaeth lafar, yn cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i ymgynghoriadau pwyllgor, neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu anffurfiol a gomisiynwyd gan bwyllgor. Anfonir yr arolwg at bobl 16 oed neu hŷn yn unig, ac nid yw'n cael ei anfon at Weinidogion na swyddogion Llywodraeth Cymru.

7. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn Monitro Amrywiaeth Tystiolaeth.

## Sesiynau cynefino a hyfforddiant i Aelodau

8. Mae mynediad gan Aelodau at hyfforddiant ar ystod eang o faterion fel rhan o'u cyfnod cynefino cynnar, gan gynnwys y confensiynau o ran cymryd rhan mewn Cyfarfodydd Llawn a phwyllgorau. Darperir hyn gan staff Comisiwn y Senedd a gellir ei deilwra yn ôl yr angen.

9. Bu gwaith ymgynghori a chydweithio ar ddiwedd y Chweched Senedd i lywio datblygiad y fframwaith hyfforddi ar gyfer croesawu a chyflwyno Aelodau (a'u staff) yn dilyn etholiad 2026. Roedd hyn yn cynnwys gofyn cwestiwn penodol yn arolwg yr Aelodau ynghylch blaenoriaethu hyfforddiant, yn ogystal â sgyrsiau mwy manwl gyda chynrychiolwyr o bob cwr o'r Senedd, gan gynnwys Aelodau uwch a Phenaethiaid Staff. Mae'r tîm Dysgu ac Ymgysylltu ag Aelodau yn ymgysylltu'n helaeth â Phenaethiaid Staff grwpiau, a chynrychiolwyr o swyddfeydd yr Aelodau annibynnol, i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gyfredol o'r hyfforddiant eang sydd ar gael i Aelodau a'u staff, ac yn ymateb i anghenion wrth iddynt ddod i'r amlwg.

10. Mae gwasanaethau'r Comisiwn wedi ymgysylltu'n helaeth â Phenaethiaid Staff grwpiau gwleidyddol ac Aelodau i baratoi hyfforddiant croesawu a chynefino newydd ar gyfer y Seithfed Senedd. Fel rhan o'u cyfnod sefydlu, mae Gwasanaethau Comisiwn y Senedd yn rhoi canllawiau i Aelodau ynghylch eu cyfrifoldebau fel cyflogwyr, ac yn ymgysylltu'n helaeth â hwy fel rhan o'r broses gynefino i'w cefnogi i ddeall eu rolau fel cyflogwyr. Mae'r Comisiwn yn darparu polisïau enghreifftiol i Aelodau eu defnyddio ar amrywiaeth o faterion (gan gynnwys absenoldeb rhiant) y gall Aelodau eu mabwysiadu fel rhan o'r Llawlyfr Staff Cymorth. Mae'r rhain yn seiliedig ar arfer da ACAS a hawliau a osodwyd gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol yn y Penderfyniad.

11. Bydd rhaglen groesawu a chyflwyno gynhwysfawr ar gyfer y Seithfed Senedd yn cynnwys y canlynol, ymhlith pethau eraill:
    - canllawiau cynhwysfawr ar sefydlu swyddfa (gyda mewnbwn gan Wasanaethau'r Comisiwn, gan gynnwys y Gwasanaeth Diogelwch);
    - strwythurau staffio swyddfa, gan gynnwys gweithredu yn unol â'r fframwaith dosbarthu swyddi newydd (a nodir yn y Penderfyniad);
    - gwybodaeth am ad-dalu costau Aelodau ar gyfer sefydlu swyddfeydd, staffio, teithio a llety, ac ati, a'r prosesau ar gyfer gwneud hynny;[134]

[134] Mae'r broses apelio ar gyfer hawliadau nad ydynt yn dderbyniadwy yn cael ei dileu o'r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd, gan mai'r Comisiwn ddylai ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae fframwaith

- y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau ac Urddas a Pharch;
- cymryd rhan yn y Cyfarfod Llawn a phwyllgorau a'r Rheolau Sefydlog sy'n llywodraethu ymddygiad yng ngweithredoedd y Senedd.

12. Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn yn darparu cymorth drwy ganllawiau a fideos ar alw sydd ar gael ar Fewnrwyd yr Aelodau, gydag aelodau timau ar gael ar bob adeg i gefnogi Aelodau i ddarparu gwybodaeth. Fodd bynnag, er mwyn symleiddio'r broses hon i Aelodau newydd yn y Seithfed Senedd, mae man ffisegol – yr 'Hwb' – yn cael ei sefydlu, lle gall Aelodau geisio cymorth ynghylch unrhyw beth heb orfod gwybod pwy yw'r person perthnasol yn y sefydliad.

13. Yn fwy anffurfiol, mae Gwasanaethau Busnes yr Aelodau yn cynnig cyfarfod â Phenaethiaid Staff a'r Uwch-gynghorydd neu Reolwr Swyddfa'r Aelodau annibynnol yn rheolaidd i ofyn am adborth ar y gefnogaeth a ddarperir. Mae swyddogion hefyd yn casglu adborth anffurfiol yn rheolaidd drwy ryngweithio ag Aelodau a Staff Cymorth.

## Urddas a Pharch

14. Mae Cod Ymddygiad ffurfiol yn llywodraethu ymddygiad Aelodau, ar wahân i'r Rheolau Sefydlog. Cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yw hyn, ac mae'r Senedd yn cytuno arno.  Mae hyfforddiant rheolaidd ar gael i'r Aelodau mewn perthynas â safonau ymddygiad. Mae'r Cod Ymddygiad ar gael i'r cyhoedd yma: Cod Ymddygiad a Rheolau a Chanllawiau Cysylltiedig ar gyfer Aelodau o'r Senedd.

15. Yn nodedig, mae'r Cod yn cynnwys egwyddor o Barch ("Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd sy'n lleihau cyfle cyfartal, rhaid iddynt barchu urddas pobl eraill a pheidio ag ymddwyn yn wahaniaethol neu mewn modd nas dymunir"). Mae hefyd yn cynnwys rheolau penodol sy'n ymwneud â bwlio ac ymosodiadau personol digroeso, er mwyn cryfhau'r egwyddor hon ymhellach.

16. Mae polisi Urddas a Pharch y Senedd ar gael yma: Urddas a Pharch, a pholisi Comisiwn y Senedd yn: Polisi urddas a pharch (Comisiwn y Senedd). Mae'r polisïau Urddas a Pharch yn estyn yr ymddygiad a'r cwmpas disgwyliedig yn benodol i gynnwys Aelodau, staff cymorth yr Aelodau, gweithwyr Gwasanaethau Comisiwn y Senedd, pobl sy'n ymgymryd â phrofiad gwaith a chontractwyr.

---

newydd ar gyfer trin hawliadau ac apeliadau wrthi'n cael ei gwblhau i gyfleu'r broses newydd yn glir i'r Aelodau.

## Pleidleisio drwy ddirprwy

17. Caiff y gweithdrefnau ar gyfer arfer pleidlais drwy ddirprwy eu nodi o dan Reolau Sefydlog 12.41A-G.

18. Mae'r Canllawiau ar y modd priodol o gynnal busnes y Senedd yn cael eu cyhoeddi gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 6.17 ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes. Caiff y Llywydd, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, ddiwygio'r canllawiau ar unrhyw adeg.

19. Mae'r Canllawiau ar hyn o bryd yn nodi fel a ganlyn:
    - Mae pleidleisio drwy ddirprwy ar gael i Aelodau sy'n absennol o holl drafodion y Senedd am resymau genedigaeth, gofalu am faban neu blentyn sydd newydd ei fabwysiadu, neu sy'n rhan o drefniant benthyg croth, neu oherwydd camesgoriad neu farw-enedigaeth.
    - Rhaid i Aelod ddangos cymhwystra ar gyfer y cynllun drwy hysbysu'r Llywydd am ei fwriad i gymryd absenoldeb rhiant, a darparu unrhyw ddogfennaeth neu fathau o hysbysiad ychwanegol sy'n briodol ym marn y Llywydd.
    - Nid yw'r cynllun yn orfodol ac mae Aelodau'n rhydd i bleidleisio yn y cnawd neu ddefnyddio unrhyw drefniadau paru anffurfiol eraill sydd ar gael iddynt.
    - Os bydd unrhyw amwysedd, bydd y Llywydd yn defnyddio disgresiwn i benderfynu ar gydymffurfiad â'r cynllun pleidleisio drwy ddirprwy.
    - Yn amodol ar ddisgresiwn y Llywydd, cyfnod hwyaf yr hawl i bleidleisio drwy ddirprwy yw:
        - saith mis i fam fiolegol baban; y prif fabwysiadwr neu fabwysiadwr sengl sy'n mabwysiadu baban neu blentyn; neu'r prif ofalwr neu ofalwr sengl mewn trefniant geni ar ran pobl eraill; a
        - saith mis i'r tad biolegol neu bartner yr unigolyn sy'n rhoi genedigaeth sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn; yr ail fabwysiadwr ar gyfer baban neu blentyn; neu ail ofalwr ar gyfer baban neu blentyn mewn trefniant geni ar ran pobl eraill.

      O hyn, bydd uchafswm o bedair wythnos yn cael ei gymryd cyn y dyddiad y disgwylir genedigaeth y baban, y dyddiad mabwysiadu neu ddyddiad benthyg croth ac uchafswm o chwe mis ar ôl y dyddiad y disgwylir genedigaeth y baban, y dyddiad mabwysiadu neu ddyddiad benthyg croth.

    - Mae pleidleisio drwy ddirprwy ar gael i Aelodau sy'n absennol o holl drafodion y Senedd am resymau salwch neu anaf personol hirdymor, neu oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu.
    - Rhaid i Aelod hysbysu'r Llywydd am eu bwriad i gymryd absenoldeb, a darparu unrhyw ddogfennaeth neu fathau o hysbysiad ychwanegol sy'n briodol ym marn y Llywydd.

- Hyd arferol yr hawl i bleidleisio trwy ddirprwy (ar sail salwch hirdymor neu anaf, neu yn sgil cyfrifoldebau gofalu) yw o leiaf bedair wythnos ac uchafswm o chwe mis, gan gynnwys cyfnodau pan fo'r Senedd mewn toriad neu wedi'i diddymu.
- Mae pleidleisio drwy ddirprwy ar gael hefyd i Aelodau sy'n absennol o holl drafodion y Senedd am resymau profedigaeth.

## Astudiaeth dichonoldeb *crèche* Comisiwn y Senedd

20. Yn eu cyfarfod ar 3 Tachwedd 2025,[135] ystyriodd Comisiynwyr y Senedd fanylion astudiaeth a gomisiynwyd ynghylch dichonoldeb *crèche*, casgliadau cyffredinol yr astudiaeth a'r camau nesaf a argymhellwyd.

21. Wrth gynnal yr astudiaeth, nod Comisiwn y Senedd oedd pennu sylfaen dystiolaeth gychwynnol i ddeall anghenion gofal plant Aelodau a darpar Aelodau yn well, ac archwilio opsiynau ymarferol a chymesur ar gyfer eu diwallu, gan gynnwys yr argymhelliad a wnaed gan Bwyllgor Senedd y Dyfodol ar gyfer darpariaeth *crèche*.

22. Canfu'r astudiaeth fod gofal plant yn parhau i fod yn rhwystr i gymryd rhan ym mywyd seneddol, yn enwedig i fenywod a'r rheini sydd â phlant ifanc. Er bod cael *crèche* ar y safle yn fater a archwiliwyd, canfu'r adroddiad cam cyntaf hwn fod risg sylweddol na fyddai hynny'n hyfyw yn ariannol ac mewn gweithred, ac na fyddai'n debygol o ddiwallu anghenion yr Aelodau.

23. Nododd y Comisiynwyr y crynodeb gweithredol a'r adroddiad llawn ar yr astudiaeth o ddichonoldeb *crèche* a chytunwyd, o ganlyniad i gasgliadau'r astudiaeth ddichonoldeb hon, na ddylid dyrannu unrhyw le ychwanegol penodol ar gyfer darpariaeth gofal plant ar y safle, ar hyn o bryd, fel ran o gynlluniau cymeradwy Bae 32.

24. Fodd bynnag, roedd y Comisiynwyr yn glir na fyddai hynny yn rhwystro mynd ar drywydd darpariaeth ar y safle ar unrhyw adeg. Cytunodd y Comisiynwyr y dylid dwyn y camau nesaf arfaethedig ar gyfer y gwaith yn eu blaen, ac y dylent gynnwys opsiynau sy'n ymwneud â darpariaeth gofal plant ar y safle (o fewn yr ystad bresennol). Mae'r gwaith hwnnw'n parhau i fynd rhagddo yn unol â barn y Comisiynwyr.

[135] https://busnes.senedd.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=258&MId=15568&Ver=4

## Cyflog Aelodau a chymorth staffio a busnes – trosolwg

25. Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd sy'n penderfynu ar dâl a chymorth staffio a busnes i Aelodau o'r Senedd a'u staff. Mae'r Bwrdd hwn yn annibynnol ar y Senedd a Chomisiwn y Senedd. Fe'i sefydlwyd yn 2010.

26. Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb dros y canlynol:
    - sicrhau bod Aelodau o'r Senedd yn cael lefel o dâl sy'n adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y disgwylir iddynt eu cyflawni, ac nad yw, am resymau ariannol, yn rhwystro pobl sydd â'r ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol i'r Senedd;
    - sicrhau bod gan Aelodau o'r Senedd adnoddau digonol i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau fel Aelodau; a hefyd
    - sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder mewn perthynas â gwario arian cyhoeddus.

27. Mae'r Bwrdd Taliadau yn cynhyrchu Penderfyniadau (rheolau) sy'n nodi'r cyflog, y pensiynau a'r costau at ddibenion cymorth staffio a busnes Aelodau o'r Senedd a staff cymorth yr Aelodau, gan gynnwys yr hyn y maent yn gymwys i'w hawlio.

28. Rhaid i newidiadau i'r Penderfyniad fod yn destun ymgynghoriad â'r rheini y mae'n debygol y bydd ei benderfyniad yn effeithio arnynt.

29. O ran materion penodol sy'n berthnasol i'r adroddiad, er eglurder, mae pob Aelod yn cael cyfradd lawn o gyflog drwy gydol tymor y Senedd, ni waeth beth fo'u patrymau gwaith neu absenoldebau, er enghraifft, absenoldeb rhiant.

30. Mae'r Aelodau'n gallu cael cyflog am rôl ychwanegol (er enghraifft, fel Cadeirydd Pwyllgor).

31. Gall Aelodau hefyd hawlio am wariant at ddiben cymorth ychwanegol, megis y canlynol:
    - Aelodau anabl, neu ar gyfer ymgysylltu ag etholwyr anabl (adran 3A.2 bresennol);
    - Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu eraill (adran 3A.3 bresennol);
    - Aelodau ar absenoldeb rhiant, sy'n cynnwys costau cymorth staffio ychwanegol (adran 3A.4 bresennol);
    - gall Aelodau hefyd hawlio am ychydig o gostau teithio ar gyfer partner a/neu blant, rhwng eu hetholaeth a Chaerdydd (adran 5.18 bresennol);
    - efallai y bydd Aelodau'r Ardal Allanol sy'n rhentu eiddo yng Nghaerdydd yn gallu hawlio costau ychwanegol os ydynt yn gallu ddangos bod ganddynt

gyfrifoldebau gofalu ar gyfer dibynnydd sydd fel arfer yn byw gyda hwy yng Nghaerdydd;

- mesurau diogelwch gwell yn eu prif gartref (yn dilyn asesiad gan dîm Diogelwch Comisiwn y Senedd); a hefyd
- gall Aelodau wneud cais i'r Bwrdd am 'dreuliau eithriadol' na fyddent fel arall yn daladwy o dan y Penderfyniad.

32. Mae'r Bwrdd yn ystyried na ddylai unrhyw Aelod o'r fath fod o dan anfantais afresymol o ganlyniad i'w anghenion neu ei amgylchiadau penodol.

33. Mae'r Bwrdd eisoes wedi gwneud amrywiaeth o benderfyniadau allweddol ynghylch ei Benderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd, a'u cyhoeddi. Adolygodd y Bwrdd y darpariaethau 'cymorth ychwanegol' gyda'r bwriad o gyd-fynd yn well â'r model cymdeithasol o anabledd, a darparu cymorth hyblyg ac ymatebol i Aelodau. Mae nifer o welliannau wedi'u gwneud, a byddant yn cael eu cyflwyno o ddechrau'r Seithfed Senedd:

- Bydd y swm y gellir ei hawlio gan Aelodau sydd â gofal plant a chyfrifoldebau gofalu eraill yn cynyddu o £350 fesul Aelod i £350 fesul dibynnydd (hyd at dri), gan estyn cymhwystra i'w ddefnyddio ar benwythnosau a thrwy gydol y flwyddyn (gan gynnwys yn ystod Toriadau) — dull sy'n parhau i fod yn unigryw ymhlith deddfwrfeydd seneddol y DU.
- Bydd y swm y gellir ei hawlio gan Aelod o'r Ardal Allanol sy'n rhentu eiddo, ac sy'n gallu dangos bod ganddo gyfrifoldeb gofalu ar gyfer dibynnydd sydd fel arfer yn byw gyda'r Aelod yn ardal Caerdydd yn cynyddu o £1,905 fesul Aelod i £3,870 y flwyddyn ar gyfer dibynnydd cyntaf yr Aelod, a hyd at £1,290 y flwyddyn fesul dibynnydd ychwanegol (hyd at uchafswm o 2 ddibynnydd).
- Costau teithio i bartneriaid neu ddibynyddion (hyd at uchafswm o 12 taith sengl fesul dibynnydd, hyd at 3 dibynnydd) sy'n teithio rhwng yr etholaeth a Chaerdydd, cynnydd o 12 taith sengl fesul Aelod;[136]

34. Caiff Aelod barhau i hawlio ad-daliad am gostau rhesymol yr eir iddynt oherwydd anabledd (hynny yw, cyflwr iechyd neu amhariad Aelod neu staff Aelod, neu i helpu ymgysylltiad â phobl anabl).

[136] crynodeb-terfynol-o'r-penderfyniad.pdf

# Atodiad 2: Safonau Rhyngwladol[137]

## Safonau rhyngwladol GSP: prif ffrydio rhywedd

Mae safonau rhyngwladol ar gyfer seneddau sy'n sensitif i rywedd a bennir gan yr IPU,[138] CPA,[139] ac OSCE[140] yn awgrymu ffyrdd y gall seneddau brif ffrydio ystyriaethau rhywedd i bob maes gwaith, gan gynnwys:

- **Arweinyddiaeth:** Mae arweinwyr seneddol yn nodi'n glir bod gan y senedd rôl hanfodol wrth ddwyn y llywodraeth i gyfrif am ei hymrwymiadau a'i chynnydd o ran cydraddoldeb rhwng y rhywiau
- **Sefydlu cyrff cydraddoldeb seneddol:** Mae hyn yn cynnwys adnoddau ar gyfer: pwyllgor pwrpasol sy'n gyfrifol am adolygu polisïau, deddfwriaeth a chyllidebau'r llywodraeth o safbwynt rhywedd, gyda chysylltiadau cryf â chymdeithas sifil; cawcws menywod yn y senedd sy'n cynnwys menywod (a dynion, os dymunir) yn gweithio ar agenda y cytunwyd arni'n gyffredin; a grŵp cyfeirio'r Llefarydd i bennu cyfeiriad ac agenda cydraddoldeb rhywedd y senedd
- **Prif ffrydio:** Sicrhau bod pob pwyllgor yn cael y dasg o ystyried goblygiadau rhywedd y materion polisi, deddfwriaeth a chyllideb sydd dan eu hystyriaeth
- **Asesiadau o effaith:** Gofyn i holl bolisi, deddfwriaeth a chyllidebau'r llywodraeth gael eu hasesu am eu heffaith ar rywedd a'u cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau'r Wladwriaeth o dan gonfensiynau rhyngwladol perthnasol, a bod asesiadau ar gael i'r cyhoedd ac yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol i'r senedd, gyda sancsiynau posibl am beidio â chydymffurfio
- **Dadleuon a chwestiynau:** Dyrannu amser yn nhrefn y busnes ar gyfer dadleuon penodol i ryw a chwestiynu Gweinidogion yn benodol i rywedd
- **Arbenigedd a gwybodaeth:** Sicrhau bod gan Aelodau fynediad at staff ymchwil a chynghorwyr allanol sydd ag arbenigedd ar rywedd (o'r byd academaidd a chymdeithas sifil), a mynediad at ddata croestoriadol, wedi ei ddadgrynhoi a dadansoddiadau rhywedd. Sicrhau bod tystion pwyllgorau yn amrywiol fel bod Aelodau'n cael amrediad llawn o safbwyntiau, ac y defnyddir dulliau ymgysylltu priodol ar gyfer gwahanol grwpiau
- **Hyfforddiant ac arweiniad**: Darparu hyfforddiant ac arweiniad i bob Aelod a staff (gan gynnwys dynion) ar faterion rhywedd a sut i brif ffrydio rhywedd i'w gwaith, a meithrin gallu staff seneddol i gynnal dadansoddiadau o ddeddfwriaeth, cyllidebau a pholisïau ar sail rhywedd.

---

[137] Paratowyd y crynodeb hwn gan Hannah Johnson, cynghorydd i Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn ar gyfer FFIPR

[138] IPU (2017) Plan of action for gender-sensitive parliaments

[139] CPA (2020) Gender Sensitising Parliaments Guidelines: Standards And A Checklist For Parliamentary Change

[140] OSCE (2021) Realizing Gender Equality In Parliament A Guide For Parliaments In The OSCE Region



Senedd Cymru
Welsh Parliament

www.senedd.cymru | www.senedd.wales